Dros Gyfanfor a Chyfandir.

GAN

WILLIAM DAVIES EVANS.

O maddau mai, a chliria'n llwyr
Fy enogrwydd oll i gyd
Na ad fi flino'th Ysbryd mwy
Tra byddwyf yn y byd."

Rees R Thomas
Coal Creek. Tennessee

Anrhegwyd gan
Yr Awdwr

fel arwydd fechan o gyf-
eillgarwch a gobaith y
bydd i gadwynau Satan
a phechod gael eu dryllio
i eneidiau ddianc fel adar
o fagl yr heliwr, a chael
cydgyfarfod a'r ydym ni
gwaredigaeth yn ngwlad
lan na bydd nac afiechyd
na thrangcedigaeth [illegible] i
ni chyfarfyddion [illegible]
[illegible] fawr ac
[illegible] ladwy [illegible] ki, [illegible]
[illegible] eu [illegible]
[illegible]

EGLURHAD AR Y MAP.

Trwy hynawsedd A. V. H. Carpenter, Ysw., boneddwr sydd yn caru ein cenedl ni, cafwyd y *map* destlus sydd yn nechreu y gwaith hwn yn anrheg (gwerth £50) gan gwmni reilffordd enwog *Chicago, Milwaukee, and St. Paul,* y reilffordd fwyaf yn y byd, am berchenogion yr hon y dywedai y Llywodraethwr Smith, un o'r enwogion mwyaf cyfrifol yn America, eu bod y dynion goreu a mwyaf anrhydeddus allan. Mae y *map* yn hynod gywir a manwl, a diau y teimla y darllenwyr, yn gystal a'r awdwr, yn ddiolchgar iawn i'r cwmni am y fath rodd werthfawr.

Gradd o annealltwriaeth ar ran y person a benodwyd i gyfaddasu y *map* ar gyfer y llyfr hwn a barodd nad yw y rhifnodau cochion sydd arno yn berffaith foddhaol. Er eu bod ar y cyfan yn dda, hyderir y gellir gwneud gwell arddangosiad o'r sefydliadau Cymreig yn y *map* fwriedir roddi yn y llyfr nesaf—HANES TALAETHAU UNEDIG AMERICA A'R CYMRY YNDDYNT. Mae y sefydliadau a ddynodir gan y rhifnodau canlynol yn rhai mawrion iawn, ac yn cynwys bob un lawer o eglwysi:—3, 6, 21, 23 (21 a 23, amryw ddinasoedd pwysig), 44, 53, 54, 85, 91, 101, 108, 129, 130. Arddangosir holl reilffyrdd y wlad gan y mân linellau duon.

REILFFORDD CHICAGO, MILWAUKEE, AND ST. PAUL.

Gellir ar hon wneud taith o 4,500 o filldiroedd, trwy ILLINOIS, WISCONSIN, IOWA, MINNESOTA, a DAKOTA, a thrwy bob dinas, tref, a chymydogaeth hynod yn y gogledd-orllewin mawr, heb fyned dros yr un ffordd ddwywaith. Hon ydyw yr unig linell sydd yn rhedeg yn ddidor rhwng CHICAGO, MILWAUKEE, ST. PAUL, a MINNEAPOLIS, a chyda y llinellau cysylltiedig gellir teithio dyffryn prydferth y Mississippi, rhwng MINNEAPOLIS a ST. LOUIS. Gwelir ar y *map* fod gwahanol gangenau y ffordd hon yn arwain i'r holl sefydliadau Cymreig yn y gogledd-orllewin, ac ni cheir harddach cerbydau a chyflawnach cyfleusderau ar unrhyw reilffordd yn y byd. Dyma y ffordd i'r rhai a ddymunant

YMSEFYDLU YN DAKOTA,

lle y mae miliynau o erwau o'r tiroedd goreu am ddim ond yr enw o dâl a ofynir gan y Llywodraeth. Ceir yn y parthau hyn gyflawnder o ddyfroedd iachusol, a'r hinsawdd yn debyg i eiddo Wisconsin, Iowa, a Minnesota; yr awyr yn bur a sych, ac anhwylderau yn bethau anghyffredin iawn. A ganlyn sydd daflen swyddogol yn gosod allan ansawdd y tywydd yn Dakota o Hydref, 1881, hyd Hydref, 1882. Saif G.O. am Gogledd-orllewinol, a D.Dd. am Deheu-ddwyreiniol:—

	Gradd-dymeredd yr Hin.		*Cyfeiriad y Gwynt.*	*Cyflymdra mwyaf y Gwynt.*	*Modfeddi o Wlybydd.*		*Nifer Diwrnodau.*	
	Uchaf.	*Isaf.*		*Milldiroedd yr Awr.*	*Eira.*	*Gwlaw.*	*Clir.*	*Gwlyb.*
Tachwedd ..	70	1	G.O.	15	4		17	8
Rhagfyr ..	60	Zero.	G.O.	45	1 5-10		22	8
Ionawr ..	40	10	G.O. G.Dd.	82	6		17	7
Chwefror ..	60	16	G.O.	50	7		16	
Mawrth ..	62	2	G.O.	55	7	1	16	13
Ebrill ..	68	32	G.O. D.Dd.	34		4 4-10	13	11
Mai ..	82	40	G.O. D.Dd.	30		2 1-10	18	14
Mehefin ..	90	46	G.O. D.Dd.	70		4 5-10	18	15
Gorphenaf ..	96	60	D.Dd.	30		4 3-10	20	14
Awst ..	96	50	G.O. D.Dd.	20		3	27	5
Medi ..	96	37	D.Dd.	20		6-10	18	6
Hydref ..	84	25	D.Dd.	20		3 3-10	17	9

Cyfrifir y geill daear fyddo yn derbyn deg modfedd o wlybydd yn flynyddol gynyrchu cnydau heb eu dyfrhau yn gelfyddydol. Yn ol y daflen uchod darfu i Dakota yn ystod y flwyddyn ddiweddaf dderbyn 23 2-10 modfedd o wlaw a 25 5-10 o eira. Cyfartaledd cnydau ar bob cyfer mewn ugain o siroedd, yn rhai o'r rhai y mae sefydliadau Cymreig—Brown, Miner, Lake, Aurora, a Spink—yn yr un diriogaeth, am y flwyddyn ddiweddaf, sydd fel y canlyn:—23 1-4 mesur o wenith; 59 3-4 o geirch; 33 1-10 o haidd; 31 1-4 o ryg; 15 4-18 o lîn. Indrawn, cloron, wynwyn, &c., yn dda. Yn Lloegr arganmolir Manitoba, yn Canada, fel gwlad ragorol i ymfudwyr; ond gwelir ar y *map* fod Dakota yn ddeheuol i Manitoba, ac o angenrheidrwydd yn dynerach ei hinsawdd. Yn y diriogaeth ragorol hon, yn mhen ychydig flynyddau, y gwelir y sefydliadau Cymreig cryfaf yn America. Dyma gyfleusdra i ddynion teilwng ddechreu meddiannu tiroedd a chynyddu gyda chynydd un o'r gwledydd goreu. Trwy gyfrwng y reilffyrdd y mae y wlad yn dal cymundeb â'r MARCHNADOEDD YDAU MWYAF YN Y BYD, sef CHICAGO a MILWAUKEE. Rhwng pob peth nid yw ryfedd fod ei phoblogaeth yn cynyddu gyda chyflymdra digyffelyb. Y mae gan y cwmni mawr hwn hefyd

DIROEDD ARDDERCHOG YN IOWA

yn eiddo iddo ei hun—*prairies* tònog a chynyrchiol odiaeth, y rhai a werthir am brisoedd isel ac ar delerau hawdd i dalu am danynt. Byddai yn anhawdd cael harddach ac iachach gwlad na pharthau gogledd-orllewinol Iowa. Mantais arbenig i'r Cymry ydyw fod y cwmni wedi penodi

GORUCHWYLIWR CYMREIG

yn mherson Mr. WM. E. POWELL *(Gwilym Eryri)*, yr hwn sydd Gymro o waed, iaith, a chalon, a chanddo le uchel yn meddyliau Cymry y gogledd-orllewin yn gyffredinol. Gellir rhoddi cwbl ymddiried yn ei farn a'i onestrwydd. Dengys y manau goreu i ymfudwyr i hwylio eu camrau iddynt, ac wrth ohebu âg ef byddis yn myned ar unwaith i lygad y ffynon. Trwy ddanfon ato gellir cael am ddim bamphledau Cymreig a Saesonaeg, yn nghyda *map* yn desgrifio y tiroedd yn Iowa, Minnesota, a Dakota. Y mae gan y cwmni ddau Gymro parchus eraill yn Dakota i gyfarwyddo ymfudwyr ar eu mynediad yno. Ceir pamphledau a phob cyfarwyddiadau hefyd trwy ddanfon at y goruchwyliwr Prydeinig, CHARLES E. NORTON, 1, INNER TEMPLE, 24, DALE STREET, LIVERPOOL.

S. S. MERRILL,
General Manager.

W. E. POWELL,
General Emigration Agent,
Immigrant Office,
Milwaukee, U.S.A.

DROS GYFANFOR A CHYFANDIR.

Trwy linellau, llythyrenau, a rhifnodau y *map* sydd yn y darlun isod, dangosir teithiau yr Awdwr, a rhai o'r prif leoedd y bu ynddynt.



A. Ashland.
B. Buffalo.
[illegible]tanooga.
[illegible]go.
[illegible]nati.
[illegible]aso Del Norte.

K. Kansas City.
3. Leadville.
L. Liverpool.
N. New York.
P. Port Pierre.
Q. Queenstown.

4. Salt Lake City.
S. San Francisco.
5. Santa Fe.
6. St. John.
T. Tucson.
Y. Fort Yuma

0

DROS GYFANFOR A CHYFANDIR;

SEF

HANES TAITH

O

GYMRU AT LANAU Y MOR TAWELOG

AC YN OL,

Trwy brif Dalaethau a Thiriogaethau yr Undeb Americanaidd.

GAN

WILLIAM DAVIES EVANS.

ABERYSTWYTH:
ARGRAFFWYD GAN J. GIBSON, SWYDDFA'R "CAMBRIAN NEWS.'

MDCCCLXXXIII.

CYFARCHIAD.

HYNAWS DDARLLENYDD,

Dygwyddodd fy mod yn mhlith teithwyr boreuaf y ffordd newydd at y Porth Auraidd a Brenines y Gorllewin Pell, wedi yr agorwyd hi yn haf y flwyddyn 1881. Nodweddir yr holl ffordd hòno gan y fath hinsoddau hafaidd, golygfeydd prydferth ac amrywiol, rhyfeddodau naturiol a hynafiaethol, yn gystal a chan bwysigrwydd, llwyddiant, a rhagolygon dysglaer, fel na cheir ei rhagorach yn America. Hyn, yn nghydag eangder a manylder fy nheithiau yn amryfal ranau eraill y wlad, a ystyriwyf yn ddigon o reswm dros gyhoeddi eu hanes yn llyfr; a chredwyf fy mod trwy hyny yn cael y fraint o ddwyn rhai gwybodaethau newyddion am y tro cyntaf o fewn cylch llenyddiaeth Gymreig.

Tra mae yr iaith Seisnaeg, yn gystal a phob iaith flodeuog arall, yn gyfoethog o hanes eu teithwyr a'u hanturiaethwyr, nid wyf yn meddwl fod y Gymraeg o lawer mor llawn o hanes teithiau neb, chwaithach eiddo ei phlant ei hun, ag i wneud fy llyfryn hwn yn annerbyniol. Yn wir, anogaethau canoedd o ddarllenwyr fy llythyrau yn *Baner ac Amserau Cymru* a barodd i mi feddwl gyntaf am ei gyhoeddi; a chan mai yn hwn yn unig y ceir hanes rhanau rhyfeddaf fy nhaith, yn gystal a'r hyn a welais ac a brofais yn amser y Gwrthryfel Mawr, a'r ugain mlynedd y bum yn cartrefu yn America, hyderaf na bydd yn annyddorol hyd yn nod i'r rhai a ddarllenasant fy llythyrau.

Gan mai fy amcan wrth deithio, ac ymweled yn fanwl â'r rhai sydd ar wasgar o'n cenedl, ydoedd casglu defnyddiau at wneud llyfr helaethach na hwn, dan yr enw "HANES TALAETHAU UNEDIG AMERICA A'R CYMRY YNDDYNT," ac y bwriadwyf gyhoeddi yr unrhyw yn fuan, ni fernais angenrheidiol gwneud yn y gyfrol hon ond sylwadau mynedol byrion am y

gwahanol sefydliadau Cymreig; ac am enwogion Cymreig y Gorllewin ni ddywedir ynddi ddim.

Diau y ceir yn y llyfryn hwn ddiffygion, er i mi amcanu at gywirdeb. Gan na ddarfu i mi fy hun fesur a phwyso yr holl wrthddrychau a ddesgrifir, nis gallwn well na dybynu ar y tystiolaethau poblogaidd am danynt. Defnyddiais y geiriau parotaf, ysgrifenais mewn iaith syml, a chynilais gymaint o goethder ac arucheledd ag a allaf fforddio at fy llyfr nesaf, yr hwn yr aethum allan o'i blegid. Ydwyf rwymedig i eglwysi Cymreig America, o bob enwad, ac i laweroedd o bersonau unigol, am garedigrwydd a chynorthwyon gwerthfawr ar fy nheithiau. Dymunaf fendith y Nefoedd arnynt, ac i tithau, ddarllenydd hoff, gyflawn werth dy amser o fwynhad uwchben fy llyfr.

Yr eiddot yn ddiffuant,

YR AWDWR.

Gwelliant Gwallau.

Tudalen 184, yn lle 1,700, darllener 1,300 o filldiroedd o San Francisco.
Tudalen 193, yn lle Lynclyn Mexico, darllener Lynclyn California.


DROS GYFANFOR A CHYFANDIR.

CYCHWYN I'R DAITH.

GAN farnu yn well anghofio pellder taith fawr wrth ymadael âg anwyliaid cartref, torais trwy yr amgylchiad hwnw mor ddiseremoni ag oedd modd. Canoedd o weithiau er fy nyfodiad i Aberystwyth, yn y flwyddyn 1872, yr aethum ar y gerbydres yn ei gorsaf heb gyfarfod â neb yn myned i wlad ymdaith fy ieuenctyd. Ond y boreu hwn, sef y 19eg o Dachwedd, 1880, ar ol ysgwyd llaw â rhai cyfeillion, "a chanu'n iach i Jane," cefais fy hun wyneb yn wyneb â phedwar o ddynion yn myned i America—dau o honynt yn myned y tro cyntaf, a gwedd yswil, ddystaw, a phrudd-ystyriol arnynt, fel rhai yn meddwl am eu "*Paradise Lost;*" y ddau eraill yn dychwelyd i'w cartrefi, a gwedd lawen, lem arnynt, fel *Yankees*, ac yn siarad fel rhai yn gwynebu eu "*Paradise Regained.*" Ar ol llawer o ymddyddan am bobl a phethau y ddwy wlad, gan eu cydmaru â'u gilydd yn ol arferiad Americaniaid yn Nghymru, aethom i ddadleu gyda golwg ar long i fyned arni. Mynent hwy i mi ymddadgysylltu â'r llong y cytunaswn â'i chwmpeini, a myned ar eu llong hwy, oblegid llawer iawn gwell, meddynt, ydoedd. Mynwn inau iddynt hwy ddyfod gyda mi; a phryd nad allem ddyfod i gytundeb, ymadawsom yn Croesoswallt. Dymunasom fordaith gysurus i'n gilydd, a gobeithiem weled ein gilydd eto "ar y làn brydferth draw." Cyfarfuwyd â mi a chymerwyd gofal o honwyf yn Llynlleifiad gan Mr. J. D. Pierce *(Clwydlanc)*, yr hwn, oddiar dystiolaethau lawer yn gystal â'm profiad fy hun, y teimlwyf yn hŷf i'w gymeradwyo i sylw ymfudwyr fel un y cânt gyfiawnder ar ei law a chysuron yn ei dŷ.

BWRDD YR ABYSSINIA.

Tranoeth, wrth godi fy ngolygon i fyny o'r *tender* i weled y llestr ag oedd i fod yn gartref i mi ar y dyfnfor mawr, pwy yn gyntaf a welwn ar ei bwrdd yn gwneud amneidion croesawgar arnaf, ond y cymdeithion y ffarweliais â hwy yn Nghroesoswallt. Llawenychais pan eu gwelais, nid yn gymaint am i ffawd roddi i mi oruchafiaeth arnynt, ond am y meddwl o gael eu cymdeithas. Cymerais fy lle gyda'r dosbarth canol *(intermediates)*,—lle glanwaith a chysurus o ran ystafelloedd ac ymborth, a'r lle y cynghorwn fordeithwyr yn gyffredinol ei ddewis, oddeithr fod ganddynt gyfoeth mawr, yna gallant gymeryd y *saloon* dysglaerwych; neu dlodi mawr, yna rhaid cymeryd y *steerage* truenus. Nid oedd ond un mordeithiwr o'r dosbarth



blaenaf ar y bwrdd y tro hwn; ac am fod amser morio weithian wedi myned heibio, nid oedd ein nifer oll ond ychydig dros gant. Tuag un o'r gloch codwyd yr angorau, a dechreuodd ein llestr hwylio lawr yr afon. Prydnawn hyfryd. Ymdrechai natur ein gwneud yn galonog i'r daith—uwchben yn glir, yr awelon yn falmaidd, gwyneb y môr yn llyfn, ac efallai mai o dosturi y darfu dynu gorchuddlen deneu o niwl dros y glanau i arbed rhyw galon hiraethus y boen o gymeryd y drem olaf ar hen wlad ei genedigaeth.

Ar ol morio ugain awr bwriasom angor ar gyfer Queenstown; ac ychwanegwyd at ein rhif trwy ddyfodiad atom fagad o blant yr Ynys Werdd. Pobl o deimladau angerddol ydynt y Gwyddelod; trwy ymdrechion celyd y gallent ymryddhau o'u cofleidion ymadawol. Nis gallwn lai na syllu gyda dyddordeb a pheth cydymdeimlad ar fab a merch ar ol dychwelyd i'r *tender* a gadael merch arall (chwaer, efallai) ar fwrdd ein llestr yn gwneud arwyddion toddedig ar eu gilydd. Ymdrechent guddio eu galar o bob ochr, ac arddangos

cymaint ag a allent fforddio o ffug sirioldeb. Pan orfyddai gwir deimlad y fynwes, a'r wylo yn mynu cael ei ffordd, brysient i ymguddio tuhwnt i'r simnai *(funnel)*, ac yno y llechent hyd onid elai yr aflwydd hwnw heibio; a phan fedrent enill digon o wroldeb i ffugio gwenau, deuent i olwg eu gilydd drachefn, a pharhaent i ysgwyd napcynau nes eu myned yn rhy bell i allu canfod eu gilydd mwy. Pa faint o ddagrau heillt y mae y môr hallt erioed wedi eu tynu allan! Yn nesaf at y bedd a rhyfel, diau ei fod ef wedi cael ei ran o'r trysorau tryloewon hyn.

SALWCH A THYMHESTLOEDD.

Nid cynt y dechreuodd ein llestr fyned rhagddi drachefn nag y dechreuodd ei newydd-ddyfodiaid Gwyddelig hyn fyned yn glaf; ïe, ar unwaith, heb unrhyw ymdroi, na rhagymadroddi na lol o fath yn y byd, ymdaflasant iddi o ddifrif, a mawr yr annybendod a wnaethant ar y bwrdd—pob un yn y fan y dygwyddai fod yn taflu allan gyda ffyrnigrwydd yr hyn ychydig yn flaenorol a gymerwyd i fewn gyda phleser. Ar waith un ferch yn ymgrymu i gyflawni y ddyledswydd angenrheidiol hon, chwythodd y gwynt ei het oddiam ei phen; yr het yn cael ei dal gan y llinynau oeddynt wedi ymddyrysu yn ngwallt y ferch, a gyflewyd mor ddeheuig dan ei genau fel y cafodd ei llenwi ar unwaith. Bu yn hir iawn yn ceisio dadgysylltu y llinynau a'r gwallt, a'r holl amser yn cario yr het a'i chynwys yn daclus wrth ei thrwyn, nes peru i'r edrychwyr anystyriol agos ymdori gan chwerthin. Yr oeddem ni, y rhai a foriasom ugain awr, hyd yn hyn yn gallu ymddwyn yn weddaidd. Pa beth, gan hyny, oedd yn peri i'r rhai hyn fyned mor glaf ar unwaith?

Ond yn gynar yn y prydnawn hi ddaeth arnom ninau, ac erbyn ei myned yn nos yr oeddem gan amlaf wedi myned yn ddigon sobr. Noson arw fu y noson hono. Dros amryw ddyddiau y parhaodd y ddrychin, a thros amryw ddyddiau y buom ninau yn glaf—mwy felly nag a welais ac na phrofais yn flaenorol; a chyffelyb ydoedd tystiolaeth y rhai a groesasant y weilgi ddwsinau o weithiau. Gwynt cryf a gwrthwynebus fu ein rhan dros agos yr oll o'r fordaith. Ymffurfiai y dyfroedd mawrion yn bob llun o fryniau brigwyn; y gwynt gyda'i esgyll cryfion ni pheidiai a tharaw y môr ar ei wyneb, a chan chwerthin a chwibanu yn watwarus, defnyddiai bob ystum i'w gyn-

hyrfu i natur ddrwg. Y môr yntau yn ei gynddeiriogrwydd a ysgyrnygai, gwingai, ewynai, rhuai, poerai yn wyneb y gwynt, a rhoddai ergydion chwyrn yn ol. Cymaint ydoedd ymrysonfa yr elfenau fel y gellid tybio na byddai gobaith ymwared i'n llestr fechan rhyngddynt; nid ymddangosai ond megis brycheuyn yn neidio ar y berw; teflid hi ar y naill ochr, a mynych y disgynai ar ei phen nes ei gorlifo gan y llif-ddyfroedd. Yn ei blaen yr elai hi er hyny, heb ofalu pa un ai y gwynt ai y tònau fyddai drechaf. Ni safodd ei pheirianau unwaith, ac ni throwyd hi allan o'i llwybr, ond clywem hi yn ddi-daw ddydd a nos yn haff-haff-haffi-haff, haff-haff-haffi-haff, ac yn gwanu trwy y gerwyn, gan ddweyd yn ei hiaith y mynai er pob peth weled ei llwyth gwerthfawr yn ddiogel yn New York. Cafodd Mair yn ddiau fwy o addoliad nag a gaffai ar dywydd teg; ac yn ol tystiolaeth llygad-dystion yr ydoedd gyda ni un Gwyddel yn credu nad oedd gweddïo Mair yn ddigon, oblegid cafwyd ef mewn ymdrech wrol yn ceisio gosod pawl mawr dan ystlys y llong oddimewn, ac yn eglurhad ar ei waith dywedodd—"*Don't ye see this st'amer almost a fallin'! and, sure, I thought this pole would hilp to prop her up.*"

AI NID GWELL GWEDDIO?

Cofiais droion am noswaith dymhestlog arnom ar ein mordaith gyntaf yn ngwanwyn 1852. Yr oeddem oll tua naw cant o ymfudwyr, ar fwrdd "John Stuart," llong hwyliau fawr. Cawsom ar y noson grybwylledig ein cloi i fewn rhag bod ar ffordd y morwyr, swn a thrwst y rhai a glywem yn gymhleth â thwrf y tònau, ac â rhuadau y gwyntoedd, yn bloeddio, rhedeg, tynu rhaffau a chadwynau trymion, yr hyn, gyda gwaith y llestr fawr yn ymsiglo fel meddwyn, cwympo ar y naill ochr a thrachefn ar yr ochr arall, a blychau, barilau, a llestri yn llithro, treiglo, twmblo glingyr glangar ar draws eu gilydd, a chri ein cymydogion yn wylo a gweddïo Mair, St. Pedr, St. Patrick, a phob sant arall, ydoedd yn gwneud y noswaith yn un dra difrifol. Yr oedd gyda ni Gymro a elwid Dafydd, R——. Hwn, ar dywydd teg, a arferai alw yn lew ar enw ei dad, ——l. Y noson hon, fodd bynag, yr ydoedd yn dra defosiynol, ac a fynai fod yn dduwiol iawn. Gan fyned at hen grefyddwr a blaenor, os wyf yn cofio yn iawn, o'r enw Dafydd Jones, ceisiai ganddo ar haner

nos alw y Cymry yn nghyd i gynal cyfarfod gweddi. "Waeth," meddai, "ni a fyddwn bawb o honom yn nhragwyddoldeb yn mhen ychydig fynudau. De'wch, Dafydd bach, i weddïo tipyn gyda ni."

Hen frawd lled swta yn ei ffordd ydoedd Dafydd Jones, ac meddai, "Yr wyf fi wedi gweddïo cyn dyfod i'r lle hwn. Gweddïa di, y mae yn hen bryd i ti ddechreu. Hai ati."

Felly Dafydd, R——, a adawyd ei hunan, a gwnaeth gydwybod o'i Destament Newydd. Erbyn y boreu lleddfodd y dymhestl, a chyda thoriad y wawr dyma Bell, y morwr bychan llawen a llon, fel arfer, yn agor y drws, ac yn gwaeddi arnom i ymbarotoi at ein boreufwyd. "*Is there no danger now, Bell?*" gwaeddai Dafydd, R——.

"*No, it is all over,*" attebai Bell.

"D——l, fechgyn," meddai Dafydd, R——, "y mae yr hen 'storom wedi myned heibio." Aeth heibio hefyd yr angenrheidrwydd am grefydd. Gan mai un bychan oeddwn ar y pryd nis gallaf gofio ond rhanau o'r amgylchiad; ond fel uchod y mae yr hanes yn rhedeg. I ddychwelyd at fordaith yr "Abyssinia," yr oedd gyda ni

ANIFEILIAID GWYLLTION

oddifewn ac oddiallan. Oddifewn yr oedd cawrfilod ieuainc, *zebra*, hyddod, mwncïod, adar, a chreaduriaid eraill. Bu rhai o honynt feirw, ac nid oedd y cawrfilod mewn un modd yn mwynhau eu sefyllfa, oblegid pa bryd bynag y deuem i'w cymydogaeth clywem hwy yn brefu allan eu cŵynfanau mewn modd aflafar hynod. Darfu i un o'r anifeiliaid hyn wthio ymaith fyrddau ei gell—fel y daeth allan. Tybiodd hen wr o Wyddel (Gwyddel eto) a ddygwyddai sefyll gerllaw ei fod yn ymwneud am dano ef, a chan frysio i ffoi cafodd le i ymlechu yn y gongl agosaf ato. •Y cawrfil yn cael ei ysgytio gan y llong a syrthiodd ar ei ochr o flaen y gongl hono, gan gau Pat i fewn. Yntau dan gynhyrfiad y foment a neidiodd allan drosto. Cafodd ddychryn mawr, ond trodd y dygwyddiad yn enw iddo, oblegid mynych ar ol hyny y clywyd ef yn ymffrostio—"*I'm a sprightly ould mon, sure enough, for I jumped over an owliphant in my owld age.*"


Oddiallan gwelem heidiau o'r pysgod a elwid *porpoise.* Neidient i fyny o'r dwfr, a chan neidio felly cyflyment yn mlaen ochr yn ochr

â'r llong, yn gyffelyb i'r modd y gwelsom gŵn yn rhedeg ar ol y gerbydres. Eraill a welid yn dyfod o bellder megys i gyfarfod â ni. Pa beth ydoedd eu hamcan, tybed? Ai erlid y llong allan o'u cyffiniau; ai dysgwyl cael rhywbeth ganddi; ai ynte rhyfeddu yr oeddent weled creadur mor fawr yn gallu nofio mor hir a'i ben allan o'r dwfr; ai rhywbeth arall ydoedd yn eu cynhyrfu? Creaduriaid teneu-lydain *(flat)*, penfain, cynffon-fain, llwyd-felynion, o dair i saith troedfedd o hyd, ydynt. Cofiwyf weled dwfr yn cael ei chwythu i fyny fel *geysers* gan anadl morfil ar fy mordaith flaenorol yn 1852. Adar hefyd a welid bob dydd, hyd yn nod ar ganol y cefnfor, ac yn y tymhestloedd mwyaf. Pa le y gallai y rhai hyn gael gorphwysdra? Dywedid wrthym eu bod yn cysgu, ac hyd yn nod yn dodwy, yn deor ac yn magu eu rhai bychain "ar frigau'r geirwon dònau." Nis gallaf sicrhau hyn; ond ar nawfed dydd ein mordaith, yr unig ddiwrnod tawel a gawsom yn mhell o dir, ymddangosodd arwyddion ffafriol i'r syniad, canys gwelsom adar bychain yn methu ehedeg yn iawn ac yn ceisio ffoi gan ofn y llong, yr un modd ag y gwelsom adar bychain yn ehedeg-redeg o'n blaen ar y maes yn amser cynhauaf. Pa fodd y gallai y rhai hyn fod wedi dyfod i'r fath le—canoedd o filldiroedd oddiwrth y tir agosaf?

DIWEDD Y FORDAITH.

Nos Wener, yr ail ddydd o Ragfyr, daeth y *pilot* atom, ac erbyn y boreu yr oedd yr holl elfenau mewn perfaith dangnefedd. Ymddangosodd y Long Island ar ein dehau tua naw o'r gloch, a chan gadw golygfeydd prydferth Jersey ar ein haswy, hwyliasom yn araf ar i fyny; ac am dri o'r gloch brydnawn glaniasom bawb yn fyw ac iach. Er i ni gael mordaith arw, a barhaodd bedwar diwrnod ar ddeg, cawsom ei gorphen, yn gystal a'i dechreu, yn y mwynhâd o'r tywydd mwyaf dymunol. Caniataer i ni felly orphen mordaith bywyd. Er tymhestloedd a pheryglon, bydd yn hyfryd glanio os bydd ein hawyrgylch yn glir, Haul Cyfiawnder yn pelydru arnom, a phrydferthion gwlad y gwynfyd yn ymddangos.

"I fewn i'r porthladd tawel, clyd,
O swn y 'storm a'i chlyw,
Y caf fynediad llon rhyw ddydd,
Fy Nhad sydd wrth y llyw."



NEW YORK A JERSEY CITY.

NEW YORK.

Y ddinas fwyaf yn America ydyw hon, a'r bedwaredd o ddinasoedd y byd, ac o ran pwysigrwydd saif yn uwch na hyny. Rhifa ei thrigolion dros filiwn, a chydrhwng Brooklyn, Jersey City, a maes-drefi eraill, meddant gynifer o bobl a holl Gymru. Adeiladwyd New York briodol ar Ynys Manhattan, wyth milldir o hyd o ddwyrain i dde, a dwy filldir o led, yn meinhau at bob pen. Y mae heolydd y rhan newyddaf a phwysicaf o honi wedi eu gwneud yn ol y gyfundrefn Americanaidd, trwy eu bod yn rhedeg yn gydbellochrog *(parallel)*, ac eraill yn eu croesi yn gyfonglog *(right-angle)*. Y rhai a redant yn ogleddol a deheuol a elwir yn *avenues*, a rhifnodir hwy yn *First Avenue, Second Avenue*, &c.; a'r rhai a redant yn ddwyreiniol a gorllewinol a elwir yn *streets*, y rhai a rifnodir yr un modd yn *First Street, Second Street*, &c. Gan fod y tai hefyd yn dwyn arnynt rifnodau, y mae can hawdded cael hyd i'r chweched ty ar y ddegfed heol o New York ag a fyddai cael cyfeiriad ty Simon, barcer, yn y chweched adnod o'r ddegfed benod o lyfr yr Actau. Y mae rhai heolydd yn ewyllysio cadw eu hen enwau clodfawr; yn eu plith Broadway, y brif dramwyfa, ac ymffrost benaf y ddinas. Hon ydyw yr heol fasnachol hwyaf, ardderchocaf, a chyfoethocaf yn y byd. Y mae dwy filldir a haner o honi mor uniawn a saeth. Ar ol Broadway, New York, y mae ffasiynau yr holl wlad yn rhedeg.

Cyffelyb ydynt heol-gerbydau y ddinas a dinasoedd y wlad oll i'r eiddo dinasoedd Prydain. Ond y mae reilffyrdd dyrchafedig *(elevated railroads)* y ddinas yn sicr o dynu sylw dyeithriaid bron yn gyntaf peth. Rheda reilffyrdd Llundain dan y ddaear, a rhaid i'r teithwyr gymeryd y mwg, y tawch, a'r tywyllwch; ond rheda reilffyrdd New York ar drawst-weithiau *(trestle-works)* dros ugain troedfedd uwchlaw y ddaear, a rhaid i'r heolyddion gymeryd y twrf a'r anharddwch. Er pob peth, gwell genyf gynllun ffyrdd Llundain, ond gwell ydynt gerbydau New York. Y mae gorsafoedd dyrchafedig i'w hesgyn bob tua phump ysgwar, a cherbydres hir yn pasio bob pum' mynyd. Deg *cent* ydyw y tâl, bydded y daith hir neu fèr.

Nis gellir mewn llyfryn o derfynau hwn gynyg at ddesgrifio New York yn ei hamryfal ranau, adeiladau, parciau, cenedloedd, sefydliadau, ac aneirif ryfeddodau. Fel dinasoedd mawrion eraill, y mae ynddi lawer o ddrygau a thrueni, a llawer hefyd o rinwedd a dedwyddwch.


HENRY WARD BEECHER.

Ië, fel yna, heb na "Pharchedig" o'i flaen na "D.D." ar ei ol—fel yna ei cyfenwir ac ei hadnabyddir, ac fel yna y myn efe gyfenwi ei hun. Boreu Sabbath, yr unig ddiwrnod cyfan yr arosais yn y lle y tro hwn, aethum drosodd i Brooklyn i weled ac i glywed y gwr enwog hwn yn ei *Plymouth Church*, yr hwn, er ei fod yn adeilad eang iawn, a'r hin yn wlawiog ryfeddol, ydoedd lawn o wrandawyr. Ar y banlawr *(platform)* mawr (nid pulpud) y safai Mr. Beecher, hen wr graenus, lluniaidd, a chadarngryf o gorpholaeth, ychydig yn fyrach, efallai, na'r taldra cyffredin. Medda wyneb llawn, llyfn, a glandeg, gydag edrychiad treiddgar a phenderfynol; gwallt gwyn, llathraidd, yn syrthio yn llaes dros ei wegil; gwisgiad plaen ond trwsiadus iawn, heb unrhyw ymgais at fod yn glerigaidd. Gwyddis ei fod yn un o'r siaradwyr mywaf rhwydd a naturiol, ei lais yn bereiddfwyn a threiddgar, ei ysgogiadau yn hardd ac yn ateb yn weddaidd i'w ymadroddion, y rhai, yn llawn o feddylddrychau cyfain, trefnus, a rhagorol, a ddylifent fel afon dryloyw, gref rhwng glanau gwyrdd ar raian glan. Ei destyn ydoedd *Gal.* vi. 15, 16. Pregethodd hefyd un o'i bregethau rhyfeddaf. Bu llawer o siarad ac ysgrifenu am dani dros y wlad.

Y GERBYDRES.

Yn gymaint ag mai yn America y gwelir y gerbydres yn ei gogoniant penaf, ei bod yn gyfrwng oll-bwysig yn agoriad y wlad a dadblygiad ei hadnoddau, a'i bod i fod yn brif gartref yr ysgrifenydd dros fisoedd meithion ei ymdaith, priodol ydyw cynyg desgrifiad o honi yma. Dywedir gan rai, ar ba sail nis gwn, nad ydyw rheilffyrdd America gystal ag eiddo gwledydd Ewrop. Ond addefir yn gyffredinol fod ei cherbydresi a'r clud-ddarpariadau perthynol iddynt yn tra rhagori.

Yn mlaenaf, wrth reswm, daw yr agerbeiriant—un hir, uchel, nerthol, a balch ei osgo ydyw hwn. Yn ei haiarnwisg loew a'i bres dysglaerwych, a chyda'i lamp enfawr, ei hyddgyrn cangenog, ei simnai benlydan, ei gloch soniarus, ei ystafell ffenestrawg, a'i addurnawl ranau eraill, y mae ganddo ymddangosiad mawreddus. Cyfateba y cerbydau iddo mewn maintioli a harddwch. Y nesaf ato ydyw y cludgerbyd. Wrth bob blwch a llawgôd *(portmanteau)*




CERBYDRES YMFUDWYR—REILFFORDD PENNSYLVANIA.

a welir yn hwn, y mae dernyn bychan o bres yn dwyn rhifnod gyda cherdyn yn grogedig gerfydd ystrapen, yn enwi yr orsaf y mae i fyned iddi. Rhyddheir perchenog y blwch oddiwrth bob gofal yn ei gylch. Pa bryd bynag y cyflwyna efe ddernyn pres o'r un ffurf a rhifnod a'r hwn fyddo wrth ei eiddo, ca ef allan o'r orsaf. Torodd clo fy llaw-gôd drom i yn fuan wedi i mi ei chael, ac yn y cyflwr hwnw y teithiodd ddegau o filoedd o filldiroedd. Aeth trwy ganoedd o wahanol ddwylaw a gorsafoedd. Nid anfynych y byddai canoedd o filldiroedd rhyngof â hi, ac aeth wythnos heibio amryw droion heb i mi ei gweled. Er hyn oll ni chefais y drafferth leiaf yn ei chylch, ac ni chollais gymaint ag edefyn allan o honi. Ond pe dygwyddai iddi gael ei cholli, byddai cwmpeini y ffordd yn gyfrifol hyd at gan' dolar. Yn nesaf at hwn daw cerbyd yr *express*, yn yr hwn y trosglwyddir ysgafn-nwyddau ac arian i wahanol fanau; y llythyr-gerbyd hefyd, yr hwn sydd lythyr-swyddfa gyflawn ynddo ei hun. Llawer llythyr a ysgrifenwyd ar y gerbydres ac a *bostiwyd* yn y cerbyd hwn pan ar wib. Cerbyd yr ysmygwyr fydd y nesaf. Gan fod rhodfa trwy bob cerbyd, a drws a banlawr *(platform)* ar bob pen iddynt, gall addolwyr duw y mwg ddyfod o unrhyw ran o'r gerbydres i arogldarthu iddo yn y deml hon.


Yn nesaf daw cerbydau eraill y teithwyr, y rhai sydd yn addurnedig â *mahogany* neu *walnut* llugeiniol, pladiau a dyrnddolau arian-wisgedig, gydag esmwyth-feinciau melfedaidd o ysgarlad neu wyrdd, awyryddion *(ventilators)* o wydr amryliw, llusernau llachar, drychau dysglaerwych, cuddgelloedd *(closets)* cyfleus, dyfrlestri glanwaith, *stoves* neu ager-bibellau cynes, a llawer o gyfleusderau eraill ydynt hynod brydferth a chysurus. Anfynych iawn y gwelir dim amgen na gweddeidd-dra a boneddigeiddrwydd yn mhlith y teithwyr, sylw y rhai a hawlir gan dri o bersonau yn dwyn ar eu hetiau deitl eu swydd. Yn gyntaf y *guard*, yr hwn a elwir yno yn *conductor*. Efe ydyw y meistr, a daw trwodd yn fynych i gasglu tocynau pan fyddo'r gerbydres yn myned. Yr ail ydyw y *breaksman*. Ar waith y gerbydres yn cychwyn allan o'r orsaf clywir hwn yn bloeddio allan enw yr orsaf nesaf, "*Newark is the next station,*" ac wrth fyned i mewn yno bloeddia drachefn, "*Newark, Newark.*" Yn aml bydd un arall yn mhen arall y cerbyd yn bloeddio yr un geiriau. Y trydydd ydyw y *news boy*, yr hwn a ddaw heibio yn fynych gyda basgedaid

o newyddiaduron, neu lyfrau, neu ffrwythau, neu deganau, i'w cynyg ar werth. Pris cyffredin teithio ydyw tair cent y filldir, llai ar rai ffyrdd, mwy ar eraill. Canlynir y cerbydau rhag-grybwylledig, efallai, gan balas-gerbyd, yr hwn sydd lawer ardderchocach eto. Ceir yn hwn, yn lle esmwyth-feinciau, esmwyth-gadeiriau neu gadeiriau gorweddawg *(reclining chairs)*, y rhai y gall y teithwyr eu cyflunio fel



PARLAWR-GERBYD REILFFORDD PENNSYLVANIA.

ag i allu eistedd, lled-orwedd, neu wastad-orwedd, a chysgu ar eu hyd. Y mae rhai o'r cerbydau hyn, gan gymaint ac ardderchoced eu ffenestri, agos a bod yn balasau o wydr. Amcenir hwy i roddi i'r teithwyr gyflawn olwg ar ryfeddodau naturiol y wlad. Yn nesaf ceir ar rai ffyrdd fwyd-gerbyd *(dining car)*, yn yr hwn y mae llawer o fyrddau wedi eu trefnu yn y modd mwyaf destlus a'u hulio â'r




CERBYD YMFUDWYR—BELLFFORDD ATCHISON, TOPEKA, A SANTA FE.

danteithion mwyaf blasus, ac iachach ystafell fwyta nis ceir. Pris, 75 cents y pryd. Gweinyddir yn gyffredin gan fechgyn Negroaidd—gwynebau gloewddu a gwallt gwlangrychddu, y rhai ydynt yn gwrthweddu yn rhyfedd gyda'u harffedogau gwynion, glan. Y mae hyn yn aros yn y wlad fel nôd o bendefigaeth, o gymaint ag y byddai pendefigion y dê yn y dyddiau gynt yn cael gweini arnynt gan eu caethion duon. Yn olaf daw y cwsg-gerbydau, ystafelloedd y rhai ydynt mor glyd a'u gwelyau mor lanwaith ac esmwyth ag a geir mewn palasau. Pris ychwanegol, dolar a haner y nos, a haner dolar y dydd. Negroaid sydd yn aml, nid bob amser, yn gofalu am y rhai hyn hefyd.

Anfynych y ceir yr holl gerbydau a nodwyd yn nghyd yn yr un gerbydres. Y mae cerbydres ratach ar gyfer cario ymfudwyr i'r gorllewin, ac y mae y rhai hyny, gan amlaf, yn dra chysurus. Ceir cyfleusderau coginio, bwyta, cysgu, ymolchi, &c., yn yr un cerbydau, fel y gwelir yn y darlun. Y mae gan ager-beirianau rhai ffyrdd oleuni trydanol *(electric light)* o'u blaen. Goleuir y cerbydau gan amlaf gan nwy *(gas)*. Y mae yr awyr-gloydd *(air-break)*, trwy yr hwn y medr peirianydd beri i'r gerbydres gyflymaf sefyll bron ar unwaith, yn dyfod i arferiad

cyffredinol. Ar ychydig o ffyrdd y ceir bwyd-gerbydau, ond arosir mewn gorsafoedd priodol ddigon o amser i'r teithwyr gael eu diwallu naill ai yn y *dining-hall* am o leiaf haner dolar, neu ar y *lunch-counter* am o ddeg cent i fyny. Ni cheir dim meddwol yn un o bob cant o *refreshment rooms* y wlad.



DWFR-GAFNAU REILFFORDD PENNSYLVANIA.

Nid ydyw yr ager-beiriant ar reilffyrdd Pennsylvania yn aros i gymeryd dwfr, ond gan gyflymu rhagddo, ŷf yn helaeth o'r dwfrgist neu gafn hir sydd rhwng y reiliau.

I FYNY GYDA'R HUDSON.

Gan gymeryd y gerbydres yn New York, aethum i gyfeiriad gogleddol ar hyd glan ddwyreiniol yr afon Hudson, yr hon, er nad ydyw ond cydmarol fèr, sydd yma yn llydan iawn, ac yn meddu cryn bwysigrwydd trafnidiol. Ymgodai y wlad yn fryniau geirwon ar ei dau tu. Brithid hi yma a thraw gan ambell ynys goediog, ac allan o'i hystlysau yr ymddyrchafai adeiladau coed mawrion ac uchel, yn y rhai y cedwid cynyrchion y wlad i'w danfon ymaith. Rhyfeddwn ei gweled mor amddifad o longau ac ager-fadau y pryd hwn; ond yn fuan cefais esboniad ar y ffaith, canys fel yr elem i fyny caem ei bod yn oeri yn gyflym. Erbyn ein myned i Poughkeepsie (p. 22,000), dinas a saif yn brydferth ar godiad o 200 o droedfeddi uwchlaw yr afon, 65 o filldiroedd o New York, yr oedd "eira gwyn ar bant ac ar fryn." Nid lle anenwog ydyw hwn, ar gyfrif ei amryw weithfaoedd, yn gystal a'i gysylltiadau hanesyddol. Yma, yn 1788, y mabwysiadwyd cyfansoddiad llywodraeth yr Undeb Talaethol. Yn Albany, prif ddinas talaeth New York, 67 o filldiroedd yn mhellach, yr oedd yr afon yn gloedig gan rew. Albany (p. 90,000), yn nesaf at Jamestown, Virginia, ydyw y ddinas henaf yn y wlad. Rhwng yr afon, camlesydd, reilffyrdd, safle naturiol, a chysylltiadau gwleidyddol, y mae yn un o brif dramwyfäau y cyfandir. At ei lluaws tai cyhoeddus eraill, bydd ei thalaethdy yn un o'r adeiladau ardderchocaf yn y byd, yn gorchuddio tri chyfer a haner o dir, ac yn ymestyn 384 o droedfeddi tuag i fyny. Yn Troy (p. 57,000), ugain milldir yn mhellach, ni cheid golwg ar gerbydau olwynawg ar yr heolydd, ond llithr-feni oedd yn gwibio heibio eu gilydd, gydag ystrapiau addurnedig o glychau bychain o amgylch y ceffylau, fel y geilid clywed eu swn, rhag i wrthdarawiadau gymeryd lle, ac, wrth gwrs, i fod i fyny hefyd â'r ffasiwn. Mor galed a llithrig ydoedd y ddaear fel mai gydag anhawsder mawr y gallwn i, heb wadnau *rubber*, gerdded ar hyd-ddi. Tyner iawn ydoedd yr hinsawdd yn New York pan adawais hi yn y boreu, ond daeth yn auaf cyflawn arnaf mewn un diwrnod!

CHWARELAU VERMONT.

Y mae yn y rhai hyn laweroedd o Gymry, ond ni ellais aros ond mewn tri lle yn eu plith, sef Middle Granville (N.Y.), Poultney, a Fair Haven. Yn y blaenaf o'r lleoedd hyn dangoswyd i mi amryw

fathau o lechfeini, yn nghyda'r rhyfeddodau sydd yn nglyn â'u codi o'r ddaear, eu naddu, *marbleiddio*, eu caboli, a'u cyflunio yn eirch, *mantle-pieces*, a chywrain bethau eraill. Yn yr ail le gwelais un o'r pentrefi glanaf ac iachusaf yr olwg arno. Oddiwrth led mawr ac uniawnder ei heolydd, gwychder ei adeiladau, a threfn tyfiant ei brenau cysgodawl, gallwn dybio ei fod yn lle paradwysaidd yn yr haf. Am y trydydd lle, nis gwn paham y gelwir ef *Haven*, ond ateba yn gyflawn i'r ansoddair *Fair*. Y mae y desgrifiad uchod o Poultney yn briodol hefyd o'r dref hon, gyda yr ychwanegiad ei bod yn fwy, ac ynddi adeiladau gwychach. Gwelais yndddi ddau balas wedi eu gwneud yn gwbl oll o farmor gwyn, o fath y bedd-golofnau tecaf a welir; preswylydd a pherchenog y goreu o'r ddau sydd foneddwr nad ydoedd yn ei ddechreuad ond tipyn o grydd. Gwelais yn y dref bentyrau o'r cyfryw feini marmor y dywedid eu bod yn pwyso deg tunell yr un. O'r nwydd hwn y gwnaent lawer o'u hyml-rodfeydd *(side-walks)*, grisiau, march-geryg, march-bolion, &c. Ymddengys fod moesau y trigolion hefyd yn cydweddu â lliw, tegwch, a gwerth eu marmor, oblegid pan oeddwn i yno nid oedd le, oddigerth shop y *druggist*, y gellid cael pethau meddwol ynddo, er fod y preswylwyr yn rhifo o ddwy i dair mil. Nid ydyw ryfedd felly fod y dref yn hardd a'r bobl yn ddedwydd. Saif y chwarelau hyn ychydig dros ddau can' milldir i'r gogledd o ddinas New York.

SEFYDLIADAU ONEIDA.

I fyned i'r sefydliadau hyn, agos i gant a haner o filldiroedd yn orllewinol o'r chwarelau, yr oedd genyf i fyned trwy Saratoga Springs (p. 10,000), y lle enwocaf yn y talaethau am ffynonau meddyginiaethol a gwestdai ffasiynol. Cyfrifir fod yr ymwelwyr, y rhai gan amlaf ydynt o'r dosbarth uchaf, yn rhifo bob haf tua 35,000. Aethum trwy Shenectady hefyd (p. 14,000), lle ar ganol nos yn ngauaf 1689 y llofruddiwyd gan y Ffrancod a'r Indiaid agos yr oll o'r trigolion; ychydig a ffoisant yn eu dillad nos, rhai i drengu yn y rhew a'r eira ar y ffordd, ac eraill i gyrhaedd Albany, pellder o ugain milldir. Llosgwyd y dref, ac ysbeiliwyd hi o bob peth gwerthfawr. Oddiyma rhedem i fyny ar hyd dyffryn bras afon Mohawk, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Hudson, ac ar yr hon, yn gystal a'i chamlesydd, y gwelir llawer o fadau.

Erbyn fy nyfod i Utica (p. 40,000) yr oeddwn yn mhrif ddinas swydd Oneida, canolbwynt yr holl sefydliadau Cymreig cylchynol, ac Athen Cymry America. Yma y cyhoeddir y *Drych*, prif newyddiadur ein cenedl yn y wlad; *Y Cyfaill* hefyd, cylchgrawn misol y Trefnyddion Calfinaidd; a'r *Wawr*, cylchgrawn misol y Bedyddwyr. Medda y ddinas gryn bwysigrwydd masnachol a gweithfaol. Saif tref hardd Rome (p. 13,000) 12 milldir yn uwch i fyny. Remsen, 18 milldir i'r gogledd o Utica, sydd bentref enwog o ran ei gysylltiadau Cymreig. Yma y cyhoeddir y *Cenhadwr Americanaidd*, cylchgrawn misol y Cynulleidfaolwyr. Prospect, Holland Patent, ac yn nghwr deheuol y sîr Waterville, ydynt bentrefi canolbwyntiol sefydliadau o Gymry. Amaethwyr o ryw-ogaeth y llaethwyr *(dairymen)* ydynt y gwladwyr gan amlaf; ac yn mharthau deheuol Oneida, yn gystal ag yn swydd Otsego, codir llawer o *hops*.

DYFFRYNOEDD LACKAWANNA A WYOMING.

I fyned i'r glofaoedd enwog sydd yn y dyffrynoedd hyn, agos 200 milldir yn ddeheuol o Oneida, aethum trwy Binghampton (p. 18,000), ac yn Scranton (p. 46,000), talaeth Pennsylvania, yr oeddwn yn nghanolbwynt lofawl a masnachol y parthau. Yn Hyde Park, Bellevue, Taylorville, Providence, a lleoedd eraill o amgylch Scranton, y mae heidiau lluosog o Gymry yn gwneud i fyny yr eglwysi a'r cynulliadau Cymreig mwyaf yn y wlad. Bu ac y mae yr amgylchoedd hyn yn enwog ar gyfrif eu llenyddiaeth a'u heisteddfodau. Wedi myned trwy Olyphant, Jermyn, a phentrefi eraill can belled a Carbondale (p. 8,000), yn y pen gogledd-ddwyreiniol, lle hefyd yn y flwyddyn 1822 y dechreuwyd agor y glofeusydd hyn, troais yn fy ol i fyned trwy Scranton, Moosic, Pittston (p. 11,000), Plainsville, Wilkesbarre (p. 23,000), Warrior Run, Kingston, Plymouth, Nanticoke, a Wanamie. Yr holl leoedd hyn a chydrhyngddynt o Carbondale i lawr dros 40 milldir sydd megys un rhwydwaith ridyllawg o lo-dyllau, a'r glowyr prysur fel morgrug dirifedi yn pigo iddi nes y mae y ddaear hardd yn heneiddio fel dilledyn wedi i'r pryf ei fwyta. Glo caled *(anthracite)* ydyw yr hwn a godir yma. Yn mhlith yr amrywiol adeiladau a welir nid y lleiaf rhyfedd a dyddorol ydynt yr adeiladau coed uchelfain a elwir *coal-breakers*, yn

y rhai y mae peirianau yn cael eu gweithio gan nerth ager at dori glo yn ddarnau o faintioli priodol. Gwneir chwech maintioli *(size)*, yr hwn a werthir yn ol y maintioli a geisir, megys *size* 1, *size* 2, &c. Codir y llwyth glo ar hyd osglawr *(incline)* i ben yr adeilad, a daw i lawr trwy wahanol ystafelloedd a pheirianau, gan gael ei dori rhwng danedd rowliau anferthol, a thrwy ridyllau *(screens)* disgyna i lo-feni y reilffordd yn y gwaelod.

CYFARFOD Y NEGROAID.

Tra yn aros yn Wilkesbarre aethum gyda chyfaill i gyfarfod adfywiadol y Negroaid. Yr ydoedd yn hwyr pan aethom i'w capel, y ty eisoes yn boeth, a'r gynulleidfa mewn llawn hwyliau. Cymerasom ein heisteddle yn agos i'r pulpud, fel, os byddai bosibl, y gallem weled a chlywed y cwbl. Amgylchynid ni gan bob graddau o liw, o Elizabeth oleuwen hardd, hyd Topsy groenddu fel y frân. Credwyf fod yr holl weinidogion yno yn hollawl ddu fel "Fy ewythr Twm," a hawdd y gellid eu hadnabod wrth eu gwisg, eu gwedd, a'u gwaith. Ymwisgent yn glerigaidd iawn, a byddai y neisiad wen am eu gyddfau yn gwrthweddu yn fendigedig gyda du dwfn eu gwynebau sobr-ddwys a'u cobau parchedig. Y maent hwy yn fwy gofalus na neb yn America am gadw i fyny "*dignity* y weinidogaeth" yn y pethau hyn. Meddant hefyd gyflawnder o safnau, ac felly, yn ol cyfundraeth y ddau Jones, y maent i'w hystyried y llefarwyr galluocaf yn y byd. Ond yn ol yr un safon nid yw Henry Ward Beecher yn llefarwr o gwbl. Er fod y gynulleidfa yn berwi drwyddi ymddygai y gweinidogion yn bwyllog. Elai rhai o amgylch i gymell hwn a'r llall yn mlaen at sedd y galarwyr *(mourners' bench)*; safai eraill yn ymyl y galarwyr i'w cyfarwyddo a'u calonogi yn eu hymdrech am fywyd. Yr oedd yn rhydd i'r rhai hyn, a phawb eraill o ran hyny, fwngial neu wylo-weddïo yn hyglyw gan nad beth arall fyddai yn myned yn mlaen ar y pryd. Gweddïo a chanu ar yn ail ydoedd trefn y cyfarfod, pe byddai drefn er hyny. Ymgymerai rhyw un o hono ei hun âg arwain mewn gweddi yn uchel a hwyliog, ac eraill yn canlyn gyda eu geiriau eu hunain mewn lleisiau ychydig yn îs. Oblegid hyn, yn nghyda'u hacen Negroaidd, a gwaith rhai yn wylo a rhai yn bloeddio "*Glory!—Halleluia!—I am saved!—Praise the Lord,*" &c., yr ydoedd yn annichonadwy i ni wneud allan

beth a draethid ar y brif weddi. Cawsom, er hyny, gryn foddhad pan aeth un hen ŵr byr, tew, melynlwyd ar ei liniau. Nid anhebyg ydoedd i hen Gymro twymngalon o'r hen ffasiwn. Efallai fod gwaed Cymro ynddo. Y mae llawer o honynt wedi cael eu henwau—Jones, Davies, Williams, &c.—oddiwrth eu hen gaethfeistri, y rhai mewn llawer o achosion fyddent hefyd eu gwir dadau. Pa fodd bynag am hyny, yr oedd rhywbeth rhyfedd yn hwn. Gostegodd y lleisiau afreolus eraill i raddau fel pe i wrando yr eos beraidd hon yn traethu ei chân. Mor dyner ac mor doddedig ydoedd ei lais; mor gynes, mor daer, a difrifol ei deimlad; mor gall, mor drefnus, a sylweddol ei faterion; mor effeithiol y gosodai allan geudeb amser, byd a'i bethau yn ymyl tragywyddoldeb dyfnddwys mawr; mor erchyll ac ynfyd y gwelai bechodau a gau-bleserau yn ngoleuni tanbaid y farn ofnadwy! mor ffyddiog, diolchus, a chariadus yr ymorphwysai ar unig drefn cadw, fel yr oedd yn wledd ei glywed. Y mae ei lais eto ar adegau yn swnio yn fy nghlustiau.

Cenid, hefyd, trwy y byddai rhywun, rhywle, rhywfodd, heb gymaint a rhoddi gair allan, yn dechreu canu emyn a thôn gynefin, a'r lleill yn ymuno. Byddai hyd yn nod y cantorion mwyaf tawel yn ol tarawiadau y dôn yn symud ac yn gweithio eu holl gyrph nes yr ymddangosent fel coed yn ysgwyd gan wynt nerthol. Curent yr amser hefyd â'u traed, nes peri i'r llawr swnio fel tabwrdd, ac yn achlysurol elent trwy eu gilydd i ysgwyd dwylaw, fel pe ar ymadael i wlad bell, tra y canent—

> "*O say! shall I meet you on the happy, happy shore!*"

Elent dros yr un geiriau drosodd a throsodd, gan ddyblu a threblu drachefn a thrachefn. Deuai y gydgan *(chorus)* bob llinell neu ddwy, a chyda blâs canent â'r ysbryd, a chanent â'r corph hefyd.

> "*If you get there before I do, tell 'em that I'm a comin' too,*
> *Comin' too, comin' too, tell 'em that I'm a comin' too.*"

Byddai rhai, wedi colli pob hunan-lywodraeth, yn neidio cyfuwch a'r seti, ac yn bloeddio â'u holl nerth, a phan dybiem eu bod ar roddi heibio y geiriau hyn, wae a hi drachefn gydag adnewyddol nerth— "*If you get there before I do,*" &c.

Ond gadewch i ni weled pethau tua sedd y galarwyr. Yno y mae dau, mab a merch, ar eu gliniau mewn ymdrech galed am yr


adenedigaeth. Gallem feddwl fod y mab yn arddangos arwyddion o lwfrdra a chwant rhoddi i fyny; ond y meddygon ysbrydol, gan sisial geiriau gobeithiol yn ei glustiau, a'u calonogent i barhau. Unwaith sylwais eu bod, ar ol craffu yn fanwl arno, yn gwneud arwyddion llongyfarchiadol ar eu gilydd, gystal a dweyd, y mae gwaith gwirioneddol yn cael ei wneud ar hwn. Am y ferch, yr ydoedd yn galed iawn arni hi. Torai allan mewn ysgrechfeydd o anobaith; estynai ei breichiau yn nydd-droedig tuag i fyny, ac yr oedd ei holl gyfansoddiad megys yn cael ei ddirdynu yn aethus. O'r diwedd ymroddodd y cantorion i ganu o amgylch y ddau—canu yn ddiddiwedd nes oeddynt bawb yn wres, yn chwys, ac yn darth drosdynt oll, ac yn y sefyllfa hono y gadawsom ni hwy, ac yr ydoedd agos yn ganol nos. Druain o blant Ham. Y maent yn dyfod i fyny o'r anialwch, ac y maent yn dda genym eu gweled. Y maent yn awr yn rhodio y tiroedd y bu ein tadau yn Nghymru arnynt.

> "Fe lama'r gwyllt farbariad gwael, fe lona'r Ethiop du,
> Wrth glywed am yr anfeidrol Iawn a gaed ar Galfari."

TEITHIAU CWMPASOG.

O Plymouth aethum 60 milldir yn orllewinol i Danville (p. 8,000), lle y mae melinau haiarn a dûr yn rhoddi gwaith i lawer o'n cenedl ni. Oddiyno gwnaed i mi fyned agos gan' milldir yn ddwyreiniol i Slatington trwy barth a thref hynod a elwir Mauch Chunk (p. 6,000), lle mewn cwm cul a dwfn iawn y ceid prin digon o le i'r afon, y reilffordd, a'r rhestr dai. Yma tynir cerbydau reilffordd i fyny ar hyd osglawr i gopa lle a elwir Mynydd Pisgah, mil o droedfeddi uwchlaw yr afon, yna gollyngir hwy i fyned yn eu pwysau 8 milldir i Summit Hill. Gelwir y parthau hyn yn Switzerland America, a llawer yn yr haf sydd yn dyfod i'w gweled gan hardded y golygfeydd. Tref yn nghanol gwlad o lech-chwarelau ydyw Slatington (p. 5,000) ar lân yr afon Lehigh, ychydig yn ddeheuol o Mauch Chunk. Y mae y Cymry a fegir yma, trwy gydfyw â chenedl arall, mor hyddysg yn yr Ellmynaeg ag ydynt yn y Gymraeg a'r Seisnaeg. Gan gymeryd cyfeiriad deheuol oddiyma trwy Allenton (p. 19,000), daethum i Philadelphia. Caf achlysur i roddi desgrifiad o'r ddinas hon ar fy nychweliad; ni chrybwyllaf, gan hyny, yn awr ond ddarfod i mi, ar ol aros agos wythnos ynddi, gymeryd taith orllewinol o fwy

na chan' milldir trwy Lancaster (p. 30,000) i West Bangor. Wedi dyfod i le a elwir Peach Bottom, cerddais agos ddwy filldir yn groes



CRAIG CHIQUES—REILFFORDD PENNSYLVANIA.

i afon Susquehanna, ac er fod dyfnderoedd o ddyfroedd gwlybion danodd, cedwais fy ngwadnau yn sychion. Tair milldir drachefn ac yr oeddwn yn mhlith chwarelwyr Cymreig West Bangor. Wedi

cerdded ar ddyfroedd celyd yr afon yn ol a chymeryd y gerbydres ar hyd ei glàn i gyfeiriad gogledd-orllewinol, heibio Columbia (p. 7,000), Craig Chiques, oddiar yr hon y ceir golygfeydd ardderchog, a rhedeg dan greigiau rhamantus eraill rhyngddynt â'r afon, daethum i Harrisburgh, y ddinas dalaethol (p. 31,000). Un o'r pontydd hiraf ac ardderchocaf ydyw yr hon sydd gan y reilffordd yma yn croesi y Susquehanna, ac afon brydferth iawn ydyw yr afon hon; y mae iddi led dirfawr, ond rheda ar ormod o oriwaered i fod yn fordwyol. Y mae ynddi lawer o ynysoedd hyfryd, gyda ffermydd ac adeiladau rhagorol arnynt. Yr ynysoedd hyn a brynodd William Penn gyntaf gan yr Indiaid, a'r wlad ar ddau tu yr afon drachefn. Pan oeddwn yn teithio y ffordd hon ar dymor mwy hafaidd, ddeng mlynedd yn flaenorol, yr ydoedd arwedd baradwysaidd ar y wlad. Y pryd hwnw yr oedd gwyrddlesni y llechweddau prydferth, y rhai a ymgodent yn raddol ac yn mhell o ddau tu yr afon, ac eiddo yr ynysoedd ynddi yn cyfarch eu gilydd yn hynod o gariadus; y dyfroedd llydain, bywiog, a grisialaidd rhyngddynt yn serianu dan gyffyrddiad y pelydrau; adeiladau heirdd a meusydd o ŷd a pherllanau yn britho y dyffryn a'r bröydd; pigdyrau y ddinas draw, y bont fawreddus ar res hir o fwäau, a'r gerbydres chwim, oll yn llefaru gwareiddiad ac adferiad trefn a pharadwys. Cydrhwng natur a chelfyddyd tybiwn glywed mewn cydgerdd bêr adseiniad y gân a ddysgodd y nefoedd i'r ddaear—"Gogoniant yn y goruchaf i Dduw: ar y ddaear tangnefedd: i ddynion ewyllys da."

O Harrisburgh aethum fwy na chan' milldir i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol, gan fyned yn gyfagos i Mauch Chunk, a chroesi rywle y ffordd y bum arni o'r blaen o Danville i Slatington. Yr ydoedd eira tew yn gorchuddio y mynyddoedd, a naws auafol ryfeddol ar yr hin. Gelwais yn Pottsville (p. 14,000), tref fywiog yn nghanol glo-feusydd cyfoethog; y mae ynddi hefyd amrai ffwrneisiau a melinau tân. Saif mewn lle harddwyllt uwchlaw y fan y rhuthra Afon Schuylkil trwy gulfwlch hir yn y mynydd. Gelwais hefyd yn Minersville, St. Clair, a Shenandoah (p. 11,000), yn yr oll o'r rhai, yn gystal ag amrywiol drefydderaill o amgylch, y mae llaweroedd o Gymry yn tori glo. Wedi myned i'r cyfeiriad hwn can belled a Jeddo ac Upper Lehigh, cymerais gyfeiriad gorllewinol o 60 milldir trwy Hazleton (p. 8,000) i Danville.

Wedi dychwelyd o'r capel i dy un o'r swyddogion mewn rhyw dref ar un o'm teithiau hyn, cawsom fod ei ferch fechan, wrth syrthio yn erbyn *stove* eiriasboeth, wedi serio ei dwylaw, a chymaint ydoedd ei phoenau fel yr oedd yn drueni clywed y fechan yn crio.

"A fyddwch chwi gystal a chyrchu Mrs. —— (Ellmynes) yma?" gofynai y tad i'w gydswyddog.

"Gwnaf yn union," atebai hwnw, ac ymaith ag ef.

"A ydych chwi, Evans, yn credu mewn *powwowio?*" gofynwyd i mi yn nesaf. Gair Indiaidd yw *powwow* am ddefod Indiaidd o iachâu trwy riniaeth.


"Ni welais erioed mo hono, ac nis gwn beth ydyw," atebais.

"Wel, chwi gewch weled yn union os ewyllysiwch. Dyna beth ydyw, rhai yn lleddfu poenau ac yn iachâu archollion a chlefydau trwy wneud arwyddion a dweyd geiriau neillduol."

Yn fuan daeth dyn (nid oedd y ddynes gartref) yno, ymaflodd yn nwylaw y ferch fechan, rhwbiodd hwy rai gweithiau â'i ddwylaw ei hun, ac ar yr un pryd sybrydai rhyw eiriau rhy isel i neb o honom allu eu deall. Syrthiodd y fechan i gysgu yn ddiatreg. Ni theimlodd y poenau drachefn, ac yn raddol cwbl iachâodd ei dwylaw. Yr wyf yn meddwl nad oedd y gallu a feddai y dyn yn caniatâu iddo godi tâl am ei waith, ond yr oedd yn rhydd iddo dderbyn rhodd. Gofynais iddo a wnai efe gyfranu y ddawn hono i mi. Atebodd nas gallai dyn ei chael trwy ddyn, na dynes trwy ddynes, fod un o'r naill ryw i fod yn gyfrwng trosglwyddiad o honi i un o'r rhyw arall, ond fod yn rhydd iddo ein hysbysu y gallai unrhyw un arafu neu gwbl atal rhediad gwaed o archoll hyd oni ddelai cymorth mewn achos o ddamwain trwy ddweyd dair gwaith uwchben yr archolledig y geiriau, "Yn dy waed bydd fyw."

GORLLEWINBARTH PENNSYLVANIA.

O Danville cychwynais ar daith o 180 o filldiroedd yn orllewinol i fyned i Ebensburgh. Y oeddwn yn awr yn myned a fy wyneb ar wlad fynyddig, arw. Dengys y darlun le yn yr hwn, dros gan' mlynedd yn ol, y llofruddiwyd Jack Anderson a'i gydymaith, helwyr, gan yr Indiaid, llawer o'r rhai cyn hyny a laddwyd ganddynt hwy. Gelwir y lle am hyny yn *Jack's* neu *Jack Anderson's Narrows.* Megys y gwelir yn y darlun hwn, y mae holl reilffordd Pennsylvania



CULFANAU JACK (JACK'S NARROWS)—REILFFORDD PENNSYLVANIA.

yn ddwbl, trwy yr hyn y cauir allan y perygl o wrthdarawiadau. Y mae y ffordd hon yn ei holl gysylltiadau yn un o'r rhai goreu, mwyaf dyogel, a chyfleus i ymfudwyr a theithwyr o bob math. Anmhosibl fyddai cael gwell cysylltiadau i wahanol bwyntiau y gorllewin nag a geir ar hon. Dan reolaeth ei pherchenogion hi y mae y prif ffyrdd can belled a Chicago a St. Louis. Yn Altoona (p. 20,000) dechreuasom o ddifrif esgyn Mynyddoedd Alleghany. Ar ei hesgyniad can belled a Cresson, pwynt uchaf y llinell, ymddirwynai y gerbydres ar hyd llethrau mynyddig, gan arddangos rhai golygfeydd o'r fath fwyaf ardderchog. Ar y ffordd hon y mae yr *Horseshoe Bend* enwog, lle y mae tro mor sydyn fel ag i beri i ambell gerbydres hir ymddangos fel pe byddai ei cherbydau blaenaf yn myned i gyfeiriad gwrthgyferbyniol i'w cherbydau olaf. Llawer teithiwr a dwyllwyd yma gan y dybiaeth mai cerbydres arall yn myned i gyfeiriad arall fyddai rhan o'i gerbydres ei hun.

Disgynais yn Cresson, lle ffasiynol ar gyfrif ei ymwelwyr yn nhymor haf, i fyned wyth milldir yn ogleddol i Ebensburgh. Yma y mae y sefydliad Cymreig henaf yn y wlad, sef o'r rhai ag sydd eto yn siarad yr hen iaith. Hwn ydyw y pwynt uchaf ond un ar Fynyddoedd yr Alleghany; saif dros 6,500 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr. Y mae y mynyddoedd hyn yn wneuthuredig o amrai gadwyni tua 900 o filldiroedd o hyd o dde-orllewin i ogledd-ddwyrain, ac o 50 i 200 milldir o led. Yn ol y Parch. B. F. Bowen, awdwr *America Discovered by the Welsh*, y mae eu henw *Alleghany* o darddiad Cymreig, sef o *gallu* a *geni*, yn golygu genedigaeth alluog neu enwog, wedi ei gael oddiwrth yr hen breswylwyr, yr *Alligewi Indians*, llwyth a dybiai ef ydoedd o hiliogaeth Cymry a ddaethant gyda Madog ab Owen Gwynedd i America dros 700 o flynyddoedd yn ol. Ceir crybwyllion pellach am yr Indiaid Cymreig yn y gwaith hwn.

O Ebensburgh disgynais ar hyd y goriwaered ar y tu gorllewinol i'r mynyddoedd, a'm gwyneb ar y wlad eangfawr sydd rhyngddynt â'r Mynyddoedd Creigiog, cydrhwng y rhai nid oes ond bryniau a rhai o'r gwastadeddau mwyaf yn y byd. Ar y goriwaered, 18 milldir yn dde-orllewinol o Ebensburgh, y mae Johnstown (p. 22,000), dinas fywiog ar làn afon Conemaugh. Glofaoedd y parthau, yn gystal a'r tân-weithfaoedd, sydd yn cadw y trigolion mewn prysurdeb

mawr. Yma, meddir, y mae y felin ddur fwyaf yn y wlad. Gan gymeryd y gerbydres eto agos 80 milldir yn orllewinol trwy Greensburgh, Irwin, a Braddocks, yn yr oll o'r rhai y mae llaweroedd o dân-weithwyr a glowyr o Gymru, daethum i Pittsburgh, y ddinas enwocaf am weithfaoedd haiarn, dur, copr, alcan, gwydr, &c., yn yr holl wlad. Darfu i beirianydd y ddinas yn ei adroddiad swyddogol, rai blynyddau yn ol, ddweyd pe gosodid holl weithfaoedd y ddinas i gyffwrdd â'u gilydd yn rhes y gwnaent linell o 36½ o filldiroedd. Bernir y gwnaent yn awr 40 milldir. Dinas fyglyd ryfeddol ydyw, ond yn ei mwg y mae ei chyfoeth. Gwahanir Pittsburgh briodol (p. 157,000) oddiwrth Alleghany City (p. 79,000) gan Afon Alleghany, ac oddiwrth Birmingham neu South Side (p. 9,000) gan Afon Monongohela. Y ddwy afon hyn yn nghyd, islaw y ddinas, a wnant yr Ohio. Amgauir y dinasoedd gan fryniau creigiog, serth a ymgodant 500 o droedfeddi uwchlaw yr Ohio. Gorchuddir hwy gyda chyflymdra rhyfeddol gan adeiladau newyddion ac osgloriau i ollwng y preswylwyr mewn cerbydau crogedig i lawr ac i'w tynu i fyny. Yn Pittsburgh y cyhoeddir y *Wasg*, newyddiadur Cymreig.

BOD YN DDYN DYEITHR.

Ar derfyn taith arall o 60 milldir yn ogledd-orllewinol, daethum i Sharon (p. 6,000), yr hon a saif bron ar y llinell derfyn rhwng Pennsylvania ac Ohio. Yr oeddwn wedi drwgdybio fy hun droion nad oedd gwedd barchedig na hawddgar arnaf, ac yn y lle hwn cafodd fy nrwgdybiaeth ei gryfhau, canys methodd y rhai a ddaethant i'r orsaf i gyfarfod â mi weled neb tebyg i bregethwr yn disgyn o'r gerbydres. Dychwelasant, gan hyny, hebddo, a minau a grwydrais hyd a lled y dref i chwilio am Gymry neu eu capel. Ar fy ngwaith yn holi am y cyfryw yn nrws rhyw dy cynwysedig o rhyw genedl ryfedd, daeth arnynt fraw disymwyth. Pa un ai gweled arnaf arwyddion dialeddwr, neu guddgeisiad (*detective*), neu rywbeth cas arall yr oeddynt, nis gwn. Er i mi geisio edrych yn llon a thyneru fy llais, yr oll a gawn ganddynt ydoedd "*No—I don't know*," gydag arwyddion o awydd angerddol am i mi fyned; ac nid cynt y cefnais arnynt nag y clywais y drws yn chwyrn gau, yr agoriad yn troi, a'r clo yn cloi; ac er cloion, c'lymau cloriau clud, y mae yn rhyfedd genyf os na welsant fi drachefn yn eu cwsg gydag

arfau angeuol yn barod i'w lladd. O'r diwedd cefais y ty iawn, y capel iawn, a chefais mai pobl iawn oedd Cymry Sharon.

Oddiyma aethum i'r lleoedd cyfagos yn Ohio, sef Brookfield, Coalburgh, Hubbard, a Crabcreek. Traed-deithiwr oeddwn yn y parthau hyn. Ar fy nynesiad at Hubbard daeth arnaf chwant bwyd. Rhag na chawn gyfleusdra yn fuan drachefn aethum i'r ty cyntaf a ymddangosai yn debyg i *eating house;* ond nid hyny ydoedd; nid oedd i'w gweled yno ond pethau yfed ac yfwyr llawenffol. Mynegais fy nghamgymeriad wrth ŵr y *bar*, yr hwn ydoedd Wyddel. Yntau ar unwaith a'm dûg i ystafell arall, a pharodd osod ciniaw da o fy mlaen, ac er fy syndod gwrthododd gymeryd tâl—"*Because ye have a riverend appearance and a ginuine timperance mon.*" Cymerais gysur ar ol hyn, gan wenieithio i mi fy hun fod y dyn hwn yn gweled yn ddyfnach na phobl Sharon. Nid oedd genyf gyhoeddiad, dealler, yn Hubbard, na neb o'r Cymry yn rhagwybod am fy nyfodiad.

Ond wrth fy mod yn son am bethau fel hyn y mae yn dyfod i fy nghof ddiwrnod yn Pennsylvania y daeth cyfaill gyda mi i ——, wel, ni waeth i ba le, i holi hanes y Cymry yno. Dygwyddasom fod yn llety gweinidog un eglwys pan oeddynt yn hwyliaw at giniaw, ac yn nhy diacon eglwys arall pan oeddynt ar fyned at y bwrdd. Gan na chawsom wahoddiad i gyfranogi yn y naill dy na'r llall, aethom trwy y pentref yn y prydnawn i chwilio am rhyw dy y gallem brynu lluniaeth ynddo. Gan nad oedd y cyfryw i'w weled dywedais wrth fy nghyfaill, "Dacw *restaurant*, ni a gawn ymborth acw ond odid." Gwyddwn fod llawer o dai yn myned dan yr enw *restaurant* heb fod ynddynt bethau meddwol, ond yn ddiweddar y daethai fy nghyfaill o Gymru, yn gystal ag at yr achos dirwestol, ac atebodd yn benderfynol, "Na, nid af i'r ty acw ar un cyfrif, rhag i rywrai ein gweled a dwyn arnom anair." Minau, yn parchu ei deimlad a'i burdeb, nid ymrysonais âg ef yn mhellach. Gwelsom siop fechan, cynwys ffenestr yr hon a roddai le i ni obeithio cael rhywbeth yno. Gofynasom a allem gael te yno. "O, gellwch," meddai y dyn, gydag Ellmyniaeth dew ar ei dafod. Arweiniwyd ni i ystafell briodol, ac i ddysgwyl i'r dwfr ferwi daeth bara ac ymenyn a rhyw bethau eraill i'r bwrdd. Can gynted ag y gwelsom ac yr aroglasom y pethau hyny darfyddodd ein chwant bwyd, do, daethom i deimlo yn ddigonol

fel nad oedd arnom eisieu dim. Ein gofal nesaf ydoedd am rhyw ffordd i osgoi bwyta. Gan wneud esgus i fyned i'r heol ffoisom tua'r orsaf, gan ysgwyd y llwch oddiwrth ein traed yn dystiolaeth yn erbyn y gweinidog a'r diacon.

GOGLEDD-DDWYRAIN OHIO.

Parthau glofaol yn benaf ydynt Brookfield, Coalcreek, Hubbard, a Crabcreek. O'r lle diweddaf nid oedd genyf ond dwy filldir i Youngstown (p. 16,000), tref fywiog a chynyddol iawn. Gwahanol fathau o felinau tân ydynt eu bywyd penaf, er fod masnach yn gyffredinol yn flodeuog ynddi, a glofaoedd mawrion o'i hamgylch. Bum yn ceisio bugeilio deadell fechan yn y dref hon, yn gystal a Weathersfield a Church Hill, rai blynyddoedd yn ol. Llawenydd i mi ydoedd gweled yr achos wedi cynyddu cymaint yn Youngstown, ac yn y ddau le arall yn dal ei dir. Wedi talu ymweliad â hwy, a myned trwy Girard, Mineral Ridge, a Niles, oll yn agos i'w gilydd, cymerais daith o tuag ugain milldir yn orllewinol i Palmyra, pentref mewn hen sefydliad Cymreig. Ar fy ngwaith yn myned i siop gyfferiau Morddal, cefais ef ar wastad ei gefn ar ei faelfwrdd *(counter)* yn cyfansoddi marwnad. Nid ysgrifenasai onid dwy linell—

> "Dystawed holl derfysglyd leisiau'r cread,
> Tra y dadganwyf ddyfnder dwys fy nheimlad"

—pan y daeth gwas y cread, yn mherson ysgrifenydd yr hanes hwn, i aflonyddu arno am holl helyntion y Cymry yn y rhan hono o'r cread. Oddiyma aethum i Parisville, bum' milldir yn ogleddol, ac oddiyno i Tallmadge a Thomastown, 30 o filldiroedd yn orllewinol, lle y codir glo. Wedi cael y gerbydres yn Akron (p. 17,000), aethum 33 o filldiroedd yn ogleddol, a chefais Cleveland (p. 161,000), ar làn Llyn Erie. Yn nesaf at Cincinnatti hon ydyw y ddinas fwyaf a phwysicaf yn y dalaeth. Y mae yn hardd yn ei gosodiad allan, ac yn gyfoethog yn ei masnach a'i hamrywiol weithfaoedd. Yn ei gwahanol gyrau, Newburgh, Lake Shore, a West Side, y mae llaweroedd o Gymry.

Yn agos yma y preswyliai y Cadfridog James A. Garfield, yr hwn, yn ol ei addefiad ei hun, ydoedd o waedoliaeth Gymreig. Cofiwyf yn dda am ei gyd-chwaer-yn-nghyfraith, yr hon y pryd

hwnw ydoedd Miss Phillips, o Parisville, merch ieuanc hawddgar a phrydweddol, a chantores o enwogrwydd mawr. Daeth y Cadfridog hefyd yn dra hoff o honi. Yr ydoedd yn amser o lawenydd yn yr amgylchoedd hyn pan oeddwn yno, a pharotoadau mawrion yn cael eu gwneud ar gyfer hebrwng Garfield yr wythnos nesaf i Washington i gymeryd y gadair arlywyddol. Edrychir ar yr Arlywydd hwn fel engraifft nodedig o ddyn hunan-wneuthuredig. Delir ef allan bellach yn hanes y wlad fel gwron gwirionedd, esiampl deilwng, ac anogaeth gref i bobl ieuainc ymroddgar yn milwrio yn erbyn rhwystrau.





DELAWARE A COLUMBUS.

O Cleveland yr oedd genyf dros gan' milldir i fyned yn ddeheuol i Delaware a Radnor, tref a phentref wyth milldir oddiwrth eu gilydd, mewn gwlad amaethyddol, lle y mae llawer o hen ymsefydlwyr Cymreig. Yn Delaware (p. 7,000) y bum, yn y blynyddoedd 1868-9, yn myfyrio yn yr *Ohio Wesleyan University.* Daeth i'r athrofa hon

y pryd hwnw fachgen o Gymro, bron newydd ddyfod o Gymru, ac yn ei holl berson yn berffaith Gymroaidd, gydag eithriad o fod yn amddifad o'r yswildod hwnw ag sydd yn dueddol i flino y cyfryw fechgyn yn mhlith estroniaid. Wedi iddo raddio yma a threulio dwy flynedd mewn athrofa dduwinyddol, dair blynedd drachefn yn Athrofa Hulle, Prwssia, a rhyw gymaint o amser yn Ffrainc a chyda'r Llydawiaid, galwodd heibio i mi yn Pontrhydfendigaid ar ei ddychweliad i America yn y flwyddyn 1878. Yr oedd i'w enw erbyn hyny gynffon hir, ledan, ac aml-lygeidiog fel eiddo paen—B.A., B.D., Ph.D. Dewiswyd ef i fod yn *tutor* yn Athrofa Delaware, ac wedi marw y Proffeswr La Croix cafodd waith hwnw. Ganddo ef yn awr yr oedd gofal Hebraeg, Germanaeg, a Ffrancaeg yr athrofa, ac y mae yn hyddysg mewn pump o ieithoedd eraill. Pregethwr sychlyd ddigon, meddir, ond ysgolhaig rhagorol. Gweithiodd ei hun i fyny trwy lawer o anhawsderau. Cefais ef ar fy ymweliad hwn, er yn meddu priod hawddgar o Americanes, mor Gymroaidd a dirodres ag erioed.

Oddiyma aethum i ardal Westerville i weled fy mrawd a'i deulu, ac oddiyno i Columbus, prif ddinas y dalaeth (p. 52,000). Hen gartrefle i mi ydoedd y ddinas hardd hon. Yn yr eglwys Fethodistaidd yno, yn nechreu y flwyddyn 1868, y cefais y fraint o ddechreu ar fywyd cyhoeddus. Y mae y talaethdy mawr, lle y cyferfydd deddfwrfa Ohio, y carchardy talaethol, y nawdd-dai rhagorol i fyddariaid, mudion, deillion, a gwallgofiaid, yr arf-orsaf filwrol, athrofa amaethyddol, yn nghyda nifer o adeiladau a sefydliadau rhagorol eraill, yn rhy luosog i gynyg desgrifiad o honynt yma.

JOHN B. GOUGH.

Dylaswn fod wedi nodi mai ar yr achlysur o fy ymweliad diweddaf hwn â Delaware y cefais y pleser o wrando y byd-enwog J. B. Gough yn darlithio i'r myfyrwyr ar ei "*Platform Experience.*" Gŵr blewog ydyw efe, ac yn dechreu myned yn henafgwr. O ran corpholaeth, efallai ei fod ychydig yn fwy na'r maintioli canolig, heb fod yn dew nac yn deneu, yn arw nac yn dêg, yn llon nac yn llwfr, nac yn ddim neillduol yn ei safiad cyffredin, ond medda ei gyfansoddiad y fath hydwythedd *(elasticity)* fel y gall neidio fel mynn, a gwneud pob ystumiau cyfatebol i'w ymadroddion byw a darluniadol,

a hyny gyda'r rhwyddineb a'r naturioldeb mwyaf. Gallai fel chwareuydd *(actor)* fod yn seren o'r maintioli mwyaf. Yr achos, meddai, na byddai wedi dilyn yr alwedigaeth hono, ar ol syrthio mewn cariad angerddol ati yn ei ieuenctyd, ydoedd yr olwg ar y twyll, y rhith, y paent, y ffugwyneb, a'r carpiau gwael yr ymorchuddiai ynddynt. Cafodd ragrith yr alwedigaeth yn gyfryw y byddai yn gywilydd ganddo ei harddel. Yr achos na byddai wedi myned i'r weinidogaeth ydoedd ei amddifadrwydd o rai o'r doniau mwyaf angenrheidiol er ei chyflawni. Ni fedrai arwain cynulleidfa mewn gweddi. Pa bryd bynag y gelwid arno i wneud hyny crynai fel eithnen, a byddai yn barhaus yn y perygl o dori i lawr. Profedigaeth chwerw iddo fu cael ei alw yn sydyn gan Dr. Parker, Llundain, i ddiweddu oedfa yn ei City Temple. Y mae y ddawn ddesgrifiadol yn rhyfeddol gan Gough, a'i ddylanwad yn gyfatebol. Medr daflu cynulleidfa o filoedd nes byddo yn swp ar lawr, a'r foment nesaf ei chodi a pheri iddi ehedeg yn orfoleddus yn y goruchafion. Gwna i'r difrifol a'r digrifol gyd-rodio yn gymdeithasgar, a phair i wylo a chwerthin brydferthu eu gilydd fel gwelediad enfys amryliw ar gwmwl du. Caffaeliad anmhrisiadwy i achos dirwest fu i'r areithiwr rhyfeddol hwn gysegru ei hun yn gwbl iddo.

ADGOFION HIRAETHLAWN.

O'r miloedd milldiroedd a deithiais, y darn plaen o Columbus i Newark, ar gyfrif adgofion cysegredig, oedd y mwyaf dyddorol i mi. Yn ngorsaf Columbus, 18 mlynedd yn ol, y cefais yr olwg olaf ar fy nhad, ac y gwrandawais ei gyngor diweddaf. Ar hyd y reilffordd hon, yn mhen ychydig fisoedd drachefn, yr aed a'i gorph i'w osod i gyd-orwedd âg eiddo ei fab hynaf yn y fynwent gerllaw Newark, a ninau, myfi a'm brawd, yn mhellderau y de gyda'r fyddin yn gwybod dim am y peth. Ar hyd yr un ffordd wedi hyny yr aethom gyda'r hyn oedd farwol o'n hanwyl fam, i'w gosod yn yr un lle. Adgyfododd yn fy meddwl ugeiniau o hen ddygwyddiadau rhyfedd yn nghydol yr awr y cyflawnais y daith hon. Dyna yn dyfod i'r golwg ar yr aswy hen ysgoldy Willoughby, lle, 30 o flynyddoedd yn ol, yr aethum gyntaf i'r ysgol. Dyna eto ar y dde yr hen dy, yr hen berllan, y coed a'r caeau, ein preswylfod cyntaf yn y wlad. Yn Newark a'r amgylchoedd cefais gyfnewidiadau—hen adeiladau wedi

myned, ac eraill wedi dyfod yn eu lle; ac am yr hen gydnabyddion—

> "Mae rhai mewn beddau'n huno, a'r lleill ar led y byd,
> Nad oes un gloch a ddichon eu galw heddyw 'nghyd."

Aethum i weled yr hen fferm a'r anedd-dy. Dyeithriaid oeddynt yno yn awr—dyeithriaid yr anifeiliaid, yr adar, y celfi, a phobpeth, hyd yn nod y meusydd, y ffyrdd a'r llwybrau cynefin, er fy mod yn cofio am danynt gyda pharch, ac yn eu caru yn fawr. Nid oedd ganddynt hwy yr adgof lleiaf am danaf fi, ac ni fedrent ddweyd gair wrthyf. Telais ymweliad â'r fynwent; yno yr oedd llaw celfyddyd wedi gwneud ei goreu i gysegr-harddu llanerch y meirw—rhodfeydd cywraint, gyda pherthi a llwyni o fythwyrddion brenau yn gwahanu rhwng y rhandiroedd *(lots)* teuluol, ar y rhai y safai colofnau addurnedig o feini teg. Unigedd a dystawrwydd pruddaidd, er hyny, a deyrnasai trwy y lle. Gan eistedd yno wrth feddgolofn ein teulu, ymollyngais i fyfyrio, ac mor llwyr yr ymgollais mewn hen adgofion fel y gellais bresenoli yn fy meddwl y tymor bachgenaidd a dreuliais dan edyn gwarcheidiol fy rhieni. Y pryd hwnw arferai dynwarediad gwan o'r awen gyfeillachu â mi. Daeth ataf hefyd yn awr, a chefais ganddi a ganlyn:—

Er dyfod dros y moroedd maith
I'r llanerch gysegredig hon,
Nid oes a etyb gri fy mron
    Ond daear laith.

Dan y twmpathau gwyrddlas hyn
Mae fy anwyliaid wedi eu cloi,
A'u henwau yma wedi eu rhoi
    Ar farmor gwyn.

Gynt galwent fi, gofalent fwy
Am danaf nag am gyfoeth trwch;
Yn awr, er bod yn ymyl eu llwch,
    Nis gwyddant hwy.

O, drymed ydyw cwsg y bedd!
Llawenydd llawn—gofidiau'r byd,
Ei gri, ei gerdd, a'i dwrf i gyd,
    Ni thyr eu hedd!

Pe'n effro heddyw, O fy nhad!
Pe medrech holi anwyl fam,
Pa holi serchog wnelech am
    Hen Gymru fad!

Y manau seiniech ynddynt gerdd,
A'r llwybrau rodiech ar bob darn
O'r wlad o amgylch Talysarn,
    A'r fynwent werdd.

O'ch hen gyfoedion gwelais rai
A'u penau eto uwchlaw'r bedd;
Yn barchus, gyda gwelw wedd,
    Gwnaent eich coffhau.

Yr hen amserau bywiog gynt
Yn welw rithiau welaf draw
A lwyr ddiflanant maes o law;
    Cysgodau y'nt.

Diflana pob adgofion yn
Meddyliau pawb o luaws hil,
Y rhai a ddaeth trwy droion fil
    I'r beddau hyn.

Os un o'r rhai'n ar ddamwain ddaw
Rhyw gyfnod pell, â heibio'n chwim
I'r fangre hon, heb feddwl dim
    O'r llwch gerllaw.



GAN EISTEDD YNO WRTH FEDD-GOLOFN EIN TEULU, YMOLLYNGAIS I FYFYRIO.

Awelon mwyn ac adar mân,
Parhewch er hyn trwy oesau fyrdd,
Rhwng cangau'r coed uwch egin gwyrdd,
Eich galar-gân.

Fy nhad a'm mam, fy mrawd a'm chwaer,
Rhaid i mi eto grwydro'n mhell,
A'ch gadael chwi mewn dystaw gell,
Yn nghol y ddae'r.

Ai yma ai yn Nghymru draw,
Ai arall fan y'm cleddir i,
Gobeithiaf eto gwrdd â chwi
Ar ddeheu-law.

Y ddeheu-law! O gysur gwir!
Mae bywyd eto yn Iesu mwyn;
Anllygredigaeth wedi ei ddwyn
I oleu clir!

Y mae ar y tu gorllewinol i Newark weddillion cynfrodoraidd mor hynod, efallai, ag a welir yn y wlad. Hen amddiffynfeydd eu gelwir, pa bethau bynag oeddynt. Gorchuddiant rai milldiroedd o dir. Y mae yr oreu o honynt eto mewn cadwraeth dda. Cynwysedig ydyw hon o glawdd pridd cadarn, tua 15 troedfedd o uchder, milldir o amgylchedd, ac mor berffaith grwn fel nad allai peirianwyr goreu yr oes hon ragori arno. Amgylch ogylch oddifewn i'r clawdd y mae pantle dwfn a allasai fod yn gamlas. Ar ganol y tir amgauedig y mae codiad neu fath o fryn celfydd ar ffurf aderyn. Gall mai dinas gaerog ydoedd yr amddiffynfa hon, ac mai brenindy, neu senedd-dy, neu deml, ydoedd ar gefn yr aderyn. Bernir oddiwrth y coed mawrion a dyfant allan o'r gweithiau fod eu hoedran yn saith can' mlynedd o leiaf. Y mae yn y parthau hefyd lawer o ddaeargrugiau, a elwir *Indian Mounds*, yn y rhai wrth gloddio y ceir esgyrn dynol, arfau, a thrysorau eraill. Pwy oedd y dynion a wnaeth y pethau rhyfedd hyn yn gystal a'r gweddillion rhyfedd a welir yn nyffrynoedd yr Ohio a'r Mississippi, nid oes neb yn awr a fedr ddweyd. Arferwn pan yn fachgenyn gasglu saethflanau llymion o gallestr *(flint)* yn y parthau hyn, ond gall mai eiddo yr Indiaid diweddar oedd y rhai hyny.

Pan yn trigianu tua 12 milldir o'r lle hwn yn Hydref y flwyddyn 1854, synid ni gan yr olwg a gaem ar fyrdd-fyrddiynau o golomenod gwylltion, y rhai dros ysbaid tair awr bob prydnawn a barhäent yn ehedeg dros ein ty yn un cwmwl cyfrodedd, fel mai prin y gellid gweled yr awyr rhyngddynt. Ni byddai raid i un ond saethu ar antur na byddai nifer o adar yn sicr o syrthio. Myned i gysgu yr oeddynt i goedwig mewn corsle tua thair milldir oddiwrthym, a rhyfedd y difrod a wneid arnynt yno. Bob nos clywid twrf tanio megys ar faes rhyfel—helwyr o'r wlad a'r pentrefi cyfagos wedi dyfod a'u gynau, llusernau, a ffetanau. Ar yn ail âg ysbeidiau o saethu ar antur i frigau y coed aent gyda llusernau a ffetanau i gasglu yr helfa. Llenwid y marchnadoedd â'r cigfwyd hwn nes aeth y bobl yn ddigonol arno, fel Israel gynt ar y soflieir. Hon ydoedd y flwyddyn ryfeddaf yn myd yr adar a welais erioed, ac un o'r rhai rhyfeddaf y clywais son am danynt.

AT YR OHIO.

Wedi talu ymweliad â Granville a Bryniau Cymru, lleoedd agos i

Newark (p. 10,000), cymerais daith ddeheuol o tua 150 o filldiroedd at yr Afon Ohio. Gelwais ar fy ffordd yn Shawnee a New Straitsville. Cefais letya yn nhy hen bobl garedig, wreiddiol, a chyffredin anghyffredin. Medda yr hen wraig, Mrs. Esther Williams, eto yr edrychiad llawen a'r chwerthiniad llawn a roddwyd gyntaf i ddynion, yn nghyda'r ddawn o wneud dyeithrddyn ar unwaith yn berffaith gartrefol.

"Eistedd i lawr, fachgen," meddai, "a rho beth o dy hanes. Yn mh'le yr wyt ti wedi bod? Fuost ti yn Sugar Creek eto?"

"Naddo, yr wyf yn meddwl galw yno ar fy ffordd yn ol."

"Yr oeddwn i yno pan ddechreuodd yr achos crefyddol, wel di—pan ddechreuodd Howell Powell bregethu yno. Fi wnaeth y llyfrau ysgol cyntaf yn y lle. Yr oeddem yn ffaelu cael llyfrau eraill; ac mi neis i A B C ar bapyr gwyn a'i bastio ar *shingles* (to-estyll), ac yr oedd yr hen blant yn eu dysgu yn iawn, ac yn eu galw yn Llyfr Esther."

Wedi dyfod at yr afon cefais fy hun mewn rhibyn main hir o bentrefi dan wahanol enwau—Syracuse, Minersville, Pomeroy, a Middleport, oll tua saith milldir o hyd. Ar eu tu cefn y mae bryniau mawrion, serth, allan o'r rhai y ceir glo a dyfroedd at wneud halen a *bromine*. O'u blaen y mae yr afon ledan, lonydd, lwyd, ar yr hon y mae badau yn cario eu trysorau ymaith i'r marchnadoedd. Wrth hyn deallir mai glowyr, halenwyr, cylchwyr, a siopwyr ydynt y trigianwyr. O'r lleoedd hyn aethum tua 18 milldir yn mhellach i lawr i dref Gallipolis, lle, tua deugain mlynedd yn ol, yr arferai y Cymry adael yr afon i fyned i'r sefydliad, tuag 20 milldir yn ogleddol.

Gair Indiaidd ydyw Ohio yn gosod allan, medd rhai, syndod neu ryfeddod. Byddai yr Indiaid pan ddeuent i olwg yr afon ar amserau gorlifiad, wrth weled y talpiau rhew anferthol, gyda bonion coed yn nofio i lawr ei dyfroedd trochionllyd, yn arfer codi eu dwylaw mewn syndod a gwaeddi, "O! Hi O!" ac felly y gelwir hi. Yr afon hon, yn amser caethwasiaeth, ydoedd y terfyn pwysicaf rhwng y talaethau rhydd a chaeth. Llawer ffoadur tylawd a fu yn dysgwyl yn bryderus ar lân yr afon hon, ac wedi ei chroesi teimlai fel wedi myned trwy ei Fôr Coch allan o'r Aifft.

Yn Gallipolis cymerais yr ager-fad i fyned i Ironton. Gan fy

mod wedi rhoddi desgrifiad o'r gerbydres, priodol yma ydyw gwneud y cyffelyb ran â'r ager-fad. Oddiallan y mae yn debycach i balas nofiedig nag i'r ager-fadau a welir ar y môr. Nid oes iddo ond un *saloon*, a hòno yn cyrhaedd agos o'r naill ben i'r llall ar y *deck* uchaf. Ychydig bellder oddiwrth eu gilydd yn y *saloon* ddysglaerwych hon y mae amryw fyrddau *(telescope tables)*, ar y rhai y bydd rhai yn ysgrifenu, darllen, chwareu, &c.; ond ni chaniateir chwareu am arian, nac unrhyw ymadroddion nac ymddygiadau amgen na'r hyn fyddo weddaidd, a rhaid i'r ysmygwyr fyned allan. Y byrddau hyn, yn amser prydiau bwyd, a estynir at eu gilydd i wneud nifer llai o fyrddau hirach, ar y rhai yr hulir y danteithion brasaf a melusaf yn y drefn ardderchocaf mewn llestri dysglaer wedi eu goreuro neu eu gwisgo âg arian. Y mae yn syndod gweled cyflymdra y gweinyddion yn gosod y pethau hyn ar y byrddau ac yn eu tynu ymaith drachefn, cyflawnant yr oll megys ar darawiad; nid oes un cwmpeini o filwyr yn deall eu cyd-darawiadau yn well. Yn gyfochrog â'r ystafell hir hon ar bob ochr iddi, y mae mân ystafelloedd i gysgu ynddynt, lle i bedwar, dau bob ochr, y naill uwchlaw y llall. Pleser ydyw bod ar un o'r badau hyn ar dywydd hyfryd—gweled golygfeydd amrywiol, yn fryniau, dyffrynoedd, afonydd, coedwigoedd, meusydd, amaethdai, perllanau, &c., ar y glànau; pasio ynysoedd a chyfarfod ager-fadau mawrion a gwrthddrychau eraill ar yr afon. Gan nad oedd fy afon-daith y tro hwn ond 40 milldir daeth i'r pen yn rhy fuan o lawer.

Tref fywiog ydyw Ironton (p. 9,000), ac y mae y Cymry wedi ac yn chwareu rhan bwysig yn ei bodolaeth a'i chynydd. Melinau haiarn yn benaf sydd yn eu cadw mewn gwaith. Oddiyma aethum 30 o filldiroedd yn mhellach, i Portsmouth (p. 12,000), lle y mae Afon Scioto yn ymarllwys i'r Ohio. Oddiyno yn awr yr eir i

SEFYDLIAD CYMREIG JACKSON A GALIA,

un o'r rhai mwyaf a pharchusaf yn y wlad. Pobl o Sîr Aberteifi yn fwyaf neillduol ydynt ei breswylwyr, yr hyn a bair alw y lle gan lawer yn Sîr Aberteifi America. Rhaid mai Moriah ydyw ei Llangeitho. Llafurio y ddaear a thynu mŵn haiarn allan o honi a'i doddi mewn ffwrneisiau *blast* ydyw gwaith y trigolion. Oak Hill a Centerville ydynt y prif bentrefi, ac ychydig yn ogleddol i'r sefydliad

y mae Jackson, prif dref Swydd Jackson. Gan fy mod yno ar adeg leidiog, pan oedd rhew ar ffyrdd toredig wedi toddi, a thrwch anarferol o eira lluwchiog wedi syrthio ar hyny, yr oedd eu teithio yn gryn orchwyl; ond rhoddwyd i mi geffyl cadarngryf i'm cario, do, rhoddwyd i mi Dock, yr hen geffyl du, cyfeillgar, eiddo yr Anrh. T. Ll. Hughes; cariodd fi yn ddiddig trwy gydol saith mis y bum yn aros yn y sefydliad hwn yn flaenorol. Yr ydoedd y pryd hwnw, er yn ieuanc, yn geffyl sad a chyfrifol, ac yr oedd yn llawen genyf gyfarfod âg ef yn awr, a'i gael yn cadw ei oed, ei ysbryd, a'i nerth mor dda. Caffed ddigon o geirch hyd y diwedd, ac wedi hyny gorphwysed mewn heddwch.

Wrth basio hen adeilad gwag o gyffion a fuasai unwaith yn gapel bychan Berea, daeth i fy nghof un o brofedigaethau digrifaf fy ngyrfa bregethwrol. Pregethu yr oeddwn yno o flaen y Parch. D. Harries (Chicago yn awr), pryd y cymerodd yr aderyn rhyfedd hwnw ei safle ar gangen yn ymyl y ffenestr, gan waeddi yn uchel, treiddgar, a dibaid dros ysbaid pum munyd, "*Whip-poor-will*, *Whip-poor-will*, *Whip-poor-will*," nes peri i mi ddyryswch rhyfedd. Wedi myned allan gofynodd Harries yn gellweirus pa fodd y daeth yr aderyn i wybod fy enw.

CINCINNATI.

Yn Jackson cymerais y gerbydres i fyned tua 150 o filldiroedd yn orllewinol trwy Chillicothe (p. 11,000) i Cincinnati (p. 256,000), y ddinas fwyaf yn nhalaeth yn gystal ag ar lân Afon Ohio. Enw y ddinas hon ar y cyntaf fuasai Losantville, yr hyn o'i gyfieithu yw "Y dref gyferbyn â'r geneu," am ei bod yn sefyll gyferbyn â genau Afon Licking, ar ochr Kentucky i'r afon. Yn nesaf at Chicago, hon ydyw y laddfa foch fwyaf yn y byd, ac y mae yn dra enwog ar gyfrif ei masnach a'i hamryw weithfaoedd. Rhwng yr afon a'r lluaws reilffyrdd, deil gysylltiad uniongyrchol â phob lle pwysig yn y wlad. Amgauir hi o'i hol gan fryniau geirwon, y rhai a ddringa gyda hoenusrwydd ieuenctyd.

Cyfarfuwyd â mi yn yr orsaf gan gyfaill, yr hwn, wedi fy nhywys i heol-gerbyd, a'm hysbysodd y byddai i ni y prydnawn hwnw fyned trwy Ardd Eden; ond cyn cyrhaedd y llanerch baradwysaidd hòno safodd ein cerbyd wrth odrau bryn serth. Chwap, teimlwn ein bod

yn myned drachefn. Ond pa fath fyned? Nid oedd y ceffylau yn symud troed, nac olwynion y cerbyd yn troi; nis gallwn weled ein bod yn pasio y *railings* na dim arall, ac eto teimlwn yn sicr ein bod yn myned rywsut i rywle. Erbyn ymchwilio cefais ein bod, yn gerbyd, ceffylau, ac oll mewn ty, a'r ty ar olwynion, yn cael ei ddirwyn ar hyd osglawr i ben y bryn. Fel yr esgynem daeth cyfangorph y ddinas i'r golwg odditanom. Daeth i fy nghof yr olygfa nosawl a gefais arni o ben un o'r bryniau hyn ddeunaw mlynedd yn ol. Y pryd hwnw ni chanfyddwn ond miloedd o nwy-oleuadau yn serenu yn y tywyllwch i bellderau draw. Gan eistedd fy hunan ar dwyn uchel, ceisiwn ddychymygu y myrddiwn golygfeydd a digwyddiadau oeddynt y munydau hyny yn myned yn mlaen yn y ddinas—rhai yn ynfydu yn y chwareudai, eraill yn wylo yn nhai galar ac yn llochesau trueni; rhai mewn llawnder a llawenydd, sidanau, gemau, ac aur yn ymfwytho yn eu parlyrau; eraill agos yn noethion, yn newynllyd, ac yn chwilio am rhyw dwll i lechu dros y nos; rhai yn eu hystafelloedd yn gweddïo ac yn mwynhau cymdeithas ddirgelaidd â'u Duw, eraill mor ddirgelaidd a hyny yn llercian oddiamgylch, ac yn cynllwyn am gyfle i dori i dai; rhai yn cael eu geni i'r byd ac yn dechreu ar ddirif ddygwyddiadau bywyd, eraill yn ystafelloedd angeu yn anadlu eu holaf ac yn wynebu byd yr ysbrydoedd. Pa gymysgedd aruthrol o ryfeddodau a allaswn ganfod dan fantell y nos hòno yn yr un ddinas hon pe cawswn fenthyg llygaid angel! Dychrynwyd fi gan symudiad rhywbeth yn fy ymyl, deffroais o'm gwibfeddyliau (*reveries*), a brysiais i lawr i gymeryd rhan fy hun yn y *drama*. Ffaith ddifrifol ydyw fod delweddiad perffaith o holl ddygwyddiadau y nos hòno, a phob nos a phob dydd arall yn mhob lle, wedi eu hargraffu yn annileadwy ar leni tragywyddol y byd ysbrydol, ac yr ymddangosant eto yn ngoleuni tanbaid y farn! Wedi cael pen y bryn y tro hwn a myned trwy Eden Park, cefais fy hun yn un o fyrdd-dai Athrofa Dduwinyddol Lane, ar Walnut Hill.

TAITH YN NGWLAD Y RHYFEL.

Ni ymwelais â Tennessee ar fy nhaith ddiweddaf hon, ond gan mai o Cincinnati yr aethum yno yn haf y flwyddyn 1864, a bod dygwyddiadau y daith hòno yn amrywiol, mi a roddaf ei hanes yma. Wedi cael galwad i fyned i wasanaethu fel arluniedydd yn y fyddin,

lle yr oedd fy mrawd yn flaenorol, gadewais cartref yn Columbus, ac wedi dyfod i Cincinnati cymerais yr ager-fad can belled a Louisville (p. 124,000), dros 80 milldir i lawr yr afon. Hon ydyw y ddinas fwyaf yn Kentucky, a'r enwocaf o holl ddinasoedd America fel marchnadfa myglys. Saif uwchlaw rheiadrau Ohio, lle y mae disgyniad o 22½ o droedfeddi mewn dwy filldir. Oblegid hyn rhaid i lawer o'r nwyddau a gludir ar yr afon gael eu trawsfudo i fadau îs neu uwchlaw y rheiadrau. Medda y ddinas heolydd uniawn, heirdd, yn cael eu cysgodi lawer o honynt gan goedydd prydferth. Nis gallwn fyned yn mhellach heb ddangos fy nhrwydded, canys yr oedd y reilffyrdd a phobpeth arall yn meddiant y fyddin. Gellais fyned can belled a Nashville, agos i 200 milldir yn ddeheuol, heb brofedigaeth, yn ngherbydres y milwyr. Nashville (p. 44,000) ydyw prif ddinas yn gystal a'r ddinas fwyaf a chyfoethocaf yn Tennessee; ond y pryd hwnw yr ydoedd agwedd aflêr ddigon arni, fel y rhan luosocaf o ddinasoedd y de yn amser y gwrthryfel mawr. Lle rhyfedd ydoedd y farchnadfa, gellid meddwl fod yr holl wlad wedi dyfod yno i gael bwyd—byddent yno yn wynion, duon, a melynion—gwŷr, gwragedd, a phlant—milwyr a dinasyddion—caethion newydd gael eu rhyddhau, a phobl wynion wedi colli cartrefi a meddianau trwy y rhyfel—lluaws mawr gyda basgedau neu arffedogau yn gwerthu bara ac ymenyn, cacenau, pasteiod, tatws a chig wedi eu berwi, cwpaneidiau o goffi, te, *cider*, potes, a phob rhyw *stuff*; eraill yn prynu, a gwelid minteioedd ar bob congl ac ar bob careg, rhai yn eistedd, rhai yn sefyll, a rhai yn cerdded tra yn ymborthi, a'r llaid yn ehelaeth dan draed, ac yn cynorthwyo y rhwygiadau a'r clytiau amryliw i addurno eu gwisgoedd. Golygfa ryfedd iawn. Gydag anhawsdra mawr y gellais gael cerbydres i fyned yn mhellach. Nid oedd reol o gwbl ar gerbydresi teithwyr cyffredin. Aethum y nos gyntaf i *hotel* i gysgu. I gysgu! Nage; ond i ryfela yn ddychrynllyd â'r *mosquitoes* ofnadwy. Er i mi darianu fy hun â llenlïan *(sheet)* y gwely (nis gallwn gan y gwres fyw a'm pen dan fwy o ddillad pe baent i'w cael), cefais fy mhigo fel erbyn y boreu yr oedd un o fy llygaid wedi cau yn hollol, a'r llall yn gallu agor yn brin. Treuliais yr ail noswaith ar yr orsaf gyda'r milwyr, a chefais lonydd yno gan y mileiniaid colynawg. Y drydedd noswaith dywedid fod cerbydres at gario teithwyr yn cael ei darparu i

gychwyn tua haner nos. Yn lle aros i hòno bum mor ffodus a chyfarfod â milwr caredig, yr hwn a berswadiodd y swyddog i ganiatâu i mi gael myned gydag ef yn ngherbydres y milwyr, tua chan milldir yn mhellach.

Ffawd ryfeddol fu i mi gael myned ar y gerbydres hòno, oblegid daliwyd y gerbydres gyntaf a ddaeth ar ei hol gan y gelynion, carcharwyd y milwyr, ysbeiliwyd y teithwyr eraill, torwyd y ffordd, fel y buwyd bythefnos cyn y gellid teithio arni drachefn.

Gwelid olion difrodawl y rhyfel ar y wlad yn mhell cyn cyrhaedd Nashville; ond wedi pasio y ddinas hòno, nid oedd ond olion rhyfel i'w canfod ar bob llaw. Ni welid na chlawdd, na gwrych, na *fences*, na chaeau o fath yn y byd. Gyda'u bod wedi eu clirio o lawer o'u coedwigoedd mawrion, yr ydoedd y parthau wedi eu darostwng bron i'r un annrhefn ac anghyfanedd-dra ag oeddynt cyn i'r wlad gael ei meddianu erioed. Yma a thraw gwelid ambell adeiladau gwynion mawrion yn ddrylliau, a bwthynod y caethion yn gyfagos—rhai yn weigion ac eraill yn cael eu trigianu gan weddillion preswylwyr. Gadewais Ohio pan oedd y bryniau a'r bröydd yn llwythog gan gynhyrchion aeddfed y ddaear, cnydau toreithiog a ffrwythau yn plygu cangau'r coed. Ond yn y parthau deheuol hyn ni chanfyddid ond noethder a llymder megys bro marwolaeth. O! ddifrod a dinystr ofnadwy ydyw eiddo rhyfeloedd; ac O! mor dda yr addewidion a sicrhant derfyn hollawl arnynt. Y trefi a'r pentrefi oll oeddynt wedi eu meddianu gan filwyr, ac yn amlach na hyny, byddai amddiffynfeydd wedi eu codi er cadw gwyliadwriaeth ar y ffordd.

Nid oedd hon mewn un modd yn daith ddiberygl. Yr oedd yn wybyddus fod nid yn unig ysbiwyr a milwyr rheolaidd o eiddo'r gelyn, ond hefyd cwmnïau arfog o wylliad, llwyn-guddwyr, a charnladron yn llercian o gwmpas. Ac er pob gwyliadwriaeth, byddent yn aml yn tori y ffordd, ysbeilio y gerbydres, lladd, clwyfo, carcharu, neu adael yn ddiymgeledd bersonau wedi eu hysbeilio. Yn enwedig byddent ar y cyfryw anturiaethau yn ceisio llygadu rhai heb fod yn filwyr, am y tybient mai masnachwyr neu *speculators* fyddent hwy, ac yn debyg o fod yn werth eu dal. Yr ydoedd yn raddau o oleu leuad y noson hòno, a llawer gwaith yr edrychais allan ar rês o brenau neu rhyw wrthddrychau eraill gan dybied y gallent fod yn ysbeilwyr neu filwyr gelynol, a bron na ddysgwyliwn weled y tân yn

fflachio ar eu gwaith yn saethu i'n cerbydau, fel y gwnaent yn aml. Ond aeth y nos heibio heb i ddim annumynol ddygwydd i ni, er i'r gerbydres a ddaeth ychydig oriau ar ein hol ei chael yn druenus. Darfu i'n cerbydres ninau hefyd aros ddwywaith neu dair tra yr elai milwyr yn mlaen i weled beth oedd yr hyn achosai ddrwg-dybiaeth iddynt.

Tra yn aros yn hir mewn un man, cefais gyfleusdra i wrando gyriedydd ein peiriant yn adrodd peth o'i hanes. Ar un achlysur gwelodd yn agos i'r fan lle y safem y pryd hwnw nifer mawr o'r gelynion yn brysio—rhai i dori y ffordd o'i flaen, ac eraill i osod eu hunain mewn safleoedd cyfleus i saethu i'r cerbydau. Yntau, ar ol ager-chwibanu rhybydd o berygl, a chodi yr ager i'w bwynt uchaf, a barodd i'r peiriant redeg, a defnyddio ei iaith ef ei hun, trwy ganol y d—l—d i u—n, os mynai. Ac felly dygodd ei gerbydres trwyddynt yn ddiogel, a pharodd bwledau y milwyr oddifewn i lawer o honynt orwedd ar y ddaear fel na feddyliasant am gastiau felly byth mwyach.

MASNACH BERYGLUS.

Wedi ei dyfod yn ddydd, nid pryder, ond digrifwch a'n meddianai yn benaf wrth weled castiau direidus ein milwyr. Rhai drygionus digydwybod oedd y rhai hyn. Byddai Negroaid yn dyfod at y gorsafoedd i werthu pasteiod, *water-melons*, *cider*, &c., ond ni feiddiai y gwerthwr roddi ei nwydd o'i law nes byddai y tâl yn deg yn ei law arall; ac os gallai wneud marchnad deg gyda'r gofal hwnw, byddai yn ffodus dros ben, oblegid mynych y collai ei holl siop heb gael dim yn gyfnewid am dani. Dacw hen Negro du âg arffedog wen llawn o basteiod yn dyfod yn mlaen. Deil un o honynt yn ei law ddeheu i'w chynyg ar werth i rhyw filwr. Y mae hwnw yn cymeryd arno fod arno eisieu gweled y lleill, iddo gael ei ddewis. Y mae yr hen Negro, yn deall y perygl, yn ceisio cilio yn ol, ond y mae y milwr erbyn hyn wedi cael gafael yn ymyl yr arffedog, ac yna y mae y naill yn tynu, a'r llall yn tynu, a'r pasteiod rhyngddynt y naill ar ol y llall yn syrthio i'r llawr. Codir hwy i fyny a meddienir hwy gan y milwyr diegwyddor, a'r Negro, druan, er yn methu myned yn dduach ei liw, yn gorfod troi ymaith gyda chalon drom, a'r arffedog lân yn ddim ond clwtyn carpiog. Ychydig yn mlaen, mewn gorsaf arall, wele,

wedi ei thaenu ar y ddaear, siopaid olygus o gacenau, pasteiod, ffrwythau, *water-melons*, a dwy neu dair *jugaid* o *cider*, tri galwyn yr un, eiddo gwr a gwraig, o leiaf, dyn a dynes ddu oeddynt y masnachwyr, a gallasent fyned adref gyda llogellau trymion o bres pe cawsent gyfiawnder; ond aeth yn ffrwgwd rhwng y wraig ac un o'r milwyr yn nghylch y gwydriad *cider*. Haerai efe nad ydoedd yn llawn, a chan hawlio ychwaneg, ymaflai yn y *jug*, y wraig yn cadw ei gafael yn y pen arall iddi, a'r cynwys cydrhyngddynt yn myned i'r ddaear. Y milwyr eraill, gan gymeryd arnynt redeg yno i weled y *sport*, a ladratasant y *water-melons*, y cacenau, a chynwys y *jugiau* eraill. Ac yn debyg i hynyna y dygwyddai ar hyd yr holl ffordd. Ai nid oedd gan y milwyr hyny gydwybod? Beth yw hyny? Ai nid oedd deddf na rheol yn y fyddin i amddiffyn y trueiniaid. O, *dear*, oedd. Ond sut y gellid eu dwyn i weithrediad? Pa le y ceid y swyddog priodol? Cyn y ceid hyd i hwnw byddai y gerbydres wedi myned.

Edrychasom lawer ar y bont newydd—haner milldir o hyd—ag oedd yn croesi Afon Tennessee, oblegid yno, rai misoedd yn flaenorol, y torwyd yr hen bont gan y gelynion yn y fath fodd ag i beri i gerbydres hir yn llawn o filwyr syrthio i'r afon. Edrychasom fwy ar *Point Lookout* pan ddaeth i'r golwg fel man a son mawr am dano ar gyfrif ei gysylltiadau hanesyddol yn gystal a'i sefyllfa ramantus. Yn gynar yn y prydnawn yr oeddwn yn Chattanooga (p. 13,000), tref filwrol y pryd hwnw, ar làn Afon Tennessee, yn nghanol meusydd y bu ynddynt rai o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd. Dywedid nad oedd yn y wlad dref yn meddu amddiffynfeydd cadarnach na Chattanooga. Heblaw yr amddiffynfeydd celfyddydol, yr oedd y mynyddoedd creigiog a serth o'i hamgylch a'r cul-fynedfeydd rhyngddynt yn ei gwneud yn dref anhawdd ryfeddol i'w henill.

MYNYDD LOOKOUT.

Credwyf fod hwn ar rhyw gyfrifon yn un o'r mynyddoedd rhyfeddaf. Un ydyw a'r uchaf o luaws trumiau mynyddoedd Cumberland. Tair milldir i'r deheu o Chattanooga, ac yn ymgodi ddwy fil o droedfeddi uwchlaw iddi, y mae y trwyn rhyfedd a elwir *Point Lookout*. Y dernyn du bychan a welid ar ei ben yn yr awyr fry ydoedd y ty yr oeddwn i fyned iddo erbyn nos, a'r hwn hefyd oedd i

fod yn gartref i mi dros rai misoedd. Nid tair milldir ydoedd genyf i fyned iddo, oblegid yn ol y mesuriad hwnw rhaid fyddai i mi ehedeg fel aderyn. Byddai y ffordd arferedig o saith milldir yn llawer hawddach i'w dringo pe gwnelsid hi yn hwy. Rhwng y boen a deimlwn yn fy llygaid, a'm anhawsder i weled mewn canlyniad i losg-frychau *(cinders)* oddiwrth yr agerbeiriant ddyfod iddynt, poethder angerddol yr hin, pwysau fy llaw-gôd drom, hyd a serthedd y rhiw, nis gwn pa fodd y gallaswn ei hesgyn oni bai i mi wrth droed y mynydd gyfarfod âg un o'r bechgyn goreu erioed, os bachgen hefyd. Nis gallaf feddwl am angel gyda mwy o barch nag y meddyliwyf am y milwr ieuanc hwn. Ni chyfarfyddais âg ef erioed o'r blaen, ac ni welais ef byth drachefn, er i mi ddymuno hyny ganwaith. Gan gymeryd fy llaw-gôd a chydrodio â mi, a chydeistedd i orphwyso nes cyrhaedd pen y mynydd, efe a'm cynghorodd yn wyneb peryglon, profedigaethau, a themtasiynau y lle, ac a draethodd yr ymadroddion mwyaf nefol a glywais gan ddyn ieuanc erioed, a hyny gyda'r fath symledd a naturioldeb ag i'm llwyr argyhoeddi fod ynddo oleuni a gwres gwahanol i eiddo'r ddaear. Paham y cymerai y fath ddyddordeb yn achos estron, ac y collai chwys dan fy maich a dagrau ar fy rhan? Paham y rhedai y fath deimlad cynes o'i enaid ataf? Rhaid nai cangen fyw ydoedd o'r Hwn a adawodd y nefoedd o gariad a thosturi at fyd o bechaduriaid. Pa beth bynag a ddaeth o hono, pa le bynag y mae fyn awr, bydded fendigedig byth. Byrhaodd lawer ar y ffordd hir, ysgafnhaodd yn rhyfeddol y rhiw drom, ac aethum i ben y mynydd yn ddiogel.

Heblaw fod ystlysau y mynydd hwn yn rhyfeddol o serth ac uchel, coronid ei gopa hir o'i amgylch dros ddegau o filltiroedd gan graig ysgythrog, oddeutu can' troedfedd, mwy neu lai, o uchder. Ymgodai yn uniawnsyth mewn manau, ac ymestynai allan yn mhell mewn manau eraill, fel na byddai dichon eu hesgyn ond ar hyd ysgolion neu trwy y bylchau cul, "*few and far between.*" Gan fod yno hefyd gyflawnder o feini mawrion yn rhyddion y gellid eu treiglo i lawr i falurio byddin ymosodol; aberoedd, ffrydiau, a llynoedd ddigon ag y gellid codi yno bethau angenrheidiol er cynaliaeth, gallai nifer fechan o ddewrion ar ei ben, gyda gwyliadwriaeth briodol, ei gadw er unrhyw allu milwrol. *Eagle Cliff* y gelwid y graig uchaf; ond *Point Lookout*, y trwyn amlwg ar dalcen rhamantus y mynydd

uwchben tref Chattanooga ac Afon Tennessee, ydyw y rhyfeddaf. Y fath ydoedd yr olwg ar y dyfnder mawr o dan y trwyn hwn fel nas gallwn ar y cyntaf, er ymlusgo ar ddeulun ac ar ddwylaw, fyned o fewn amryw latheni at y dibyn. Dyna hefyd yr ystum a gymerai mwyafrif y miloedd ymwelwyr a welais yn dynesu, ond buan y cynefinir â phob peth. Darfu i ddyn ieuanc dibris, i'r diben o ddangos ei gamp, geisio sefyll yma gydag ond darn o'i sawdl ar y graig, ac estyn allan ei goes arall, ond i lawr yr aeth, a thybir iddo farw hyd yn nod cyn cael y gwaelod. Un arall, ynfytach na hwn, o gywreinrwydd, a geisiodd yru ei geffyl a'i gerbyd at y dibyn. Dychrynai yr anifail, a gomeddai yn hir ddyfod yn agos, ond wrth gael ei gymhell a'i fflangellu yn greulon, gwnaeth naid ddychrynllyd, ac i lawr a hwy yn geffyl, cerbyd, a dyn, nes syrthio yn falurion yn y dyfnder mawr.

CARTREF UWCHLAW Y CYMYLAU.

Ar gopa y graig hon yr adeiladasid ein caban o gyffion, ac yno dros bedwar mis y cefais orwedd y nos ar fyrddau celyd, dan awyr-oleuni *(sky-light)* diwydr a dido ein harlunfa *(studio)*, yn gwylio y lloer, y sêr, neu y cymylau yn ehedeg heibio eu gilydd cyn cau fy llygaid, a sïanau yr awelon, ac yn fynych ruadau chwibanus y gwyntoedd cryfion, yn fy sïo i gysgu, ïe, mor gryf fyddai y gwynt yma ar achlysuron fel y byddai y ceryg a daflem i'w erbyn yn cael eu chwythu yn ol dros ein penau fel plu. Nifer ein teulu yn y lle ydoedd chwech, sef Robert Linn, James ei frawd, Lewis fy mrawd a minau, gyda dau Negro ieuanc a fuasent gaethion, sef John, yr hwn yr oedd ei drian yn wyn, ei drian yn goch, a'i drian yn ddu, ei waith ef ydoedd cario dwfr a golchi ein dillad; a Bob, Negro perffaith gwbl, a'i groen mor ddu ag ogof haner nos; ganddo ef yr oedd darparu ein lluniaeth o fara Indrawn, triagl, coffi, a phethau eraill o'r fath fwyaf syml. Y gwrthddrychau cyntaf a ganfyddem wedi deffro yn y boreu fyddent fadfeillod gloywlas, mawrion yn dringo'r muriau, a pha bryd bynag y codem y byrddau ar y rhai y gorweddem caem olwg ar luosowgrwydd o ysgorpionau colynawg, brathiad un o rhai fyddai yn angeu buan. Ond chwareu teg iddynt ni ddangosent unrhyw duedd i ddefnyddio eu colynau ond mewn hunan-amddiffyniad. Bu John, druan, mor anffodus a chael ei frathu

yn ei law gan un o honynt; ond heb oedi rhwymodd ei arddwrn mor dŷn fel nad allai y gwaed redeg, a brysiodd at y meddyg yn Summerville, ddwy filldir yn ol ar y mynydd, yr hwn a'i gwellhaodd ac a'i canmolodd am ei gallineb. Bachgen call a hawddgar ydoedd John. Pe Bob fuasai wedi cael ei frathu diau mai yr angeu glas fyddai ei feddyg ef, ac ni buasai ein byd lawer ar ei golled. Bywyd rhyfedd fu ein bywyd hwn, ac eto ni bum erioed yn iachach a hoenusach.



UWCHLAW Y CYMYLAU YN 1864.

Caem oddiar Fynydd Lookout rai o'r golygfeydd ardderchocaf. Safai uwchlaw yr holl fynyddoedd cylchynol, fel y gellid ar ddiwrnod clir weled drostynt i bellder o gan' milldir, a chanfod manau amlwg mewn saith o wahanol dalaethau. Ymddangosai yr holl amgylchoedd yn fawreddus o donog a garw. Gyferbyn, islaw, yr oedd maes brwydr waedlyd Mission Ridge, tref Chattanooga odditanodd, a phebyll gwynion y milwyr yn daenedig ar hyd y dyffryn. Ymddangosent oll yn bethau bychain, bychain, a'r ffyrdd rhyngddynt can feined ag edau lîn; Afon Tennessee fel nant fechan, a'r ager-fadau arni fel pe byddent chwiaid yn cario cyrn mwg ar eu cefnau; am ager-beiriant y reilffordd, braidd na chredem mai ci bychan ydoedd yn rhedeg heibio godrau y mynydd. Er yr ymddangosai gwrthddrychau yn fychain fel yna, byddent eglur iawn, ac ymddyrchafai lleisiau a seiniau i fyny gyda threiddgarwch rhyfeddol.

Ond ni byddai golygfeydd y diwrnod clir i'w cydmaru â golygfeydd y cymylau. Byddai niwl a chymylau tewion yn gorchuddio y wlad bron bob boreu, ac yn aml ar amserau eraill, ond ymestynai pen y mynydd uwchlaw iddynt oll, fel na byddai ond tu uchaf y cymylau yn ymddangos i ni mewn awyr glir, a'r haul gyda thanbeidrwydd

gogoneddus yn pelydru arnynt. Gwelaist, ddarllenydd, ymylon dysglaerwych y cymylau pan fyddai yr haul uwchlaw bron ymddangos; moroedd o arian toddedig felly ydynt y cymylau oll oddiarnynt, a'r haul-belydrau megys myrddiwn o lychedenau byw yn chwareu, yn rhedeg, ac yn dawnsio ar hyd-ddynt; a phan y mae y cymylau gan wyntoedd cryfion yn ymferwi trwy eu gilydd y mae yr olygfa uwchlaw desgrifiad. Heb eithrio Rheiadr y Niagara, nac unrhyw olygfa arall, y golygfeydd hyn oeddynt y rhai mwyaf gogoneddus. O'r gogoniant hwn yn achlysurol ymddyrchafai twrf taranau cryfion, pan fyddai gwlawogydd a mellt yn ymdywallt ar y dyffryn islaw.

> "Ca'em edrych ar stormydd ac ofnau, taranau a mellt dros y tir,
> A ninau'n ddihangol o'u cyrhaedd, ar dalgraig, a'n hawyr yn glir."

Y mynydd hwn a'r daith i'w gopa ydyw y darlun perffeithiaf a welais o daith y Cristion—y rhan isaf o honi yn gymylau a thywyllwch, ystormydd a pheryglon, ond y rhan uchaf yn ddysglaerdeb gogoneddus, ac yn olygfeydd o ryfeddodau a llawenydd. "Goddiweddant lawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar a ffy ymaith."

Beth am y nos? Llawn o ryfeddodau. Tybiwn i fod y lleuad a'r sêr i'w gweled yn ddysglaeriach yma nag y gwelais hwy o'r blaen. Buom yn eistedd llawer ar y graig wedi y tywyllai yn gwylio goleuadau, ac yn gwrando udgyrn, tabyrddau, a llon-floeddiadau y milwyr o'r dref a'r gwersyll islaw, ac yn edrych ar oleuni y *signal corps* ar y mynyddoedd draw, y rhai yn ngolwg eu gilydd a drosglwyddent newyddion a gorchymynion swyddogol y fyddin dros linell o ganoedd o filldiroedd mewn ychydig amser. Deallid hwy yn ol dull symudiadau y goleuni. Yr oedd teneudra y coed rhwng creigdyrau anferthol, gyda'r ystyriaeth o enbydrwydd yr amseroedd, yr amgylchoedd, a'r amgylchiadau, yn mhell oddiwrth bob anedd arall, gyda chuddlwynwyr a gwylliaid yn rhodio'r parthau, yn ychwanegu at ddyddordeb a rhamantusrwydd ein sefyllfa.

NADRODD.

Nid wyf yn meddwl fod y mynydd hwn yn gynaliaeth llawer o nadrodd, ac eto cefais fy nychrynu gan neidr unwaith ar fy ffordd i Chattanooga. Yn lle myned o amgylch ar hyd y ffordd arferedig disgynais y graig ar hyd ysgol, a llithr-redais y goriwaered yn y

cyfeiriad unionaf nes cael y gwaelod. Yno collais fy hun mewn brysglwyni a chorsenau tewion, dyrus, cyfuwch ddwywaith a'm pen. Bum rai oriau cyn gallu dirwyn fy ffordd allan. Wedi blino gan gymaint y gwres eisteddais am tua chwarter awr a'm cefn yn gorphwys ar ddarn o graig. Pan droais fy wyneb beth a ganfyddwn ar y gareg hòno yn hollol gyferbyn, ac yn ymyl fy mhen, ond neidr ddu, braff, tua dwy lath o hyd. Nid oes achos i mi ddweyd ddarfod i mi neidio fel mynn, ac â'r pren cryf ydoedd genyf lleddais hi ar y gareg, rhag y gallai gymeryd yn ei phen i redeg ar fy ol, fel y clywais y gwnai nadrodd duon y deheu. Nid yw y rhai hyn yn wenwynig. Eu dull o ymosod ydyw ymlusgo yn llechwraidd, ymgylymu o amgylch eu hysglyfaeth, a'u gwasgu i farwolaeth. Wrth son am y rhywogaeth hon cofiwyf fy mod ar y fferm gerllaw Newark, wedi rhedeg trwy gae a blino, yn taflu fy hun ar y ddaear; nid cynt y gwnaethum hyny nag y teimlais symudiad byw odditanaf, ac yn y man gwelwn neidr fraith, fawr, yn cyflymu oddiwrthyf. Cafodd hi ddychryn, ac felly finau. Yr oedd y naill a'r llall o honom yn foddlawn i ymadael â'n gilydd. Dro arall, wrth fyned o grugyn i grugyn i wasgaru tail, ac heb edrych llawer o fy mlaen, beth a welwn ar ben un o honynt pan ar roddi y bicwarch ynddo ond neidr *copper-head* o'r maintioli mwyaf, un o'r mathau mwyaf ffyrnig a gwenwynig sydd yn bod. Yno yr ydoedd wedi cylch-ymdroi fel rhaff wedi ei chrynhoi ar y ddaear. O'i chanol ymestynai pen coch, dysglaer fel copr dyfnliw, a'i llygaid yn rhythu arnaf, ac ar roddi naid at fy wyneb. Heb gymeryd amser i feddwl gwthiais y bicwarch iddi, ac yn ffodus aeth un o'r pigau drwyddi. Wedi ei sicrhau felly yn y ddaear ceisiais bawl i'w lladd. Pe dygwyddasai i'r pigau oll fyned rhwng ei phlygion, ac nid trwyddi, buasai fy ngyrfa wedi dyfod i'r pen yno. Y penau copr a'r nadrodd cynffon-drwst ydynt y rhai mwyaf peryglus a gyfarfyddir. Ond am y nadrodd duon, byddent ar ein fferm ger Newark yn lluosog; dringent y coed, a rhedent o'n blaenau ar y maes, ac ni byddem yn gwneud cyfrif yn y byd o honynt. Er y byddent yn yr afon ac yn y gamlas yn gylymau, a *tortoises* gyda hyny, ni pheidiem, yn hogiau gwynion a duon, fyned bob dydd yn nhymor haf i ymdrochi yn eu plith. Pan oeddwn unwaith, yn 1871, yn pregethu mewn capel bychan o gyffion, tua 15 milldir o Portsmouth, Ohio, aflonyddwyd ar y

gwasanaeth gan waith gwraig a eisteddai ar fy aswy yn dweyd rhywbeth wrth ei gŵr, yr hwn ydoedd gyferbyn a hi yr ochr arall i'r capel. Gan na ddeallwyd hi y ddau dro cyntaf dywedodd y drydedd waith, "Y mae neidr dan eich sêt yn ceisio eich pigo." Yno, hefyd, yr ydoedd cloben o sarff yn estyn ei phen at goes y dyn. Aed i guro arni yn ddiatreg, ac wedi ei lladd a'i thaflu allan cafwyd seibiant i fyned yn mlaen â'r gwasanaeth. Na ddychryned neb rhag nadrodd, y maent yn lleihau yn gyflym. Ni adnabyddais neb wedi cael niwed gwirioneddol ganddynt. Clywais bobl yn Nghymru yn adrodd pethau mor rhyfedd am seirff a dim a glywais. Ymddengys ddarfod i mi fy hun yn blentyn bychan ger Talysarn gario neidr fraith, fyw yn lle llyswen adref. Dychrynodd fy mam yn fawr, ac yn lle y mwynhad o gael gwledda ar fy nalfa gyntaf, gwelais hi yn cael ei thaflu allan bron gyda chyflymdra'r fellten.

DYGWYDDIADAU MYNYDD LOOKOUT.

Y prif ddygwyddiad hanesyddol ydoedd ei gymeryd gan fyddin yr Undeb, yr hyn a gymerodd le yn mhen amser ar ol cymeryd Chattanooga a'r dyffryn islaw. Teimlai y gwrthryfelwyr fod ganddynt ar y mynydd hwn amddiffynfa nas gellid eu gyru o honi, ond cymerasant eu twyllo. Un prydnawn gwelwyd cyflegrau trymion byddin yr Undeb yn cael eu tynu i ben mynydd uchel gyferbyn, yr hwn yntau hefyd fyddai yn aml a'i ben uwchlaw'r cymylau. Yn blygeiniol boreu dranoeth dechreuodd y fyddin oddiyno dân-belenu gwersyll y gelyn ar Point Lookout. Y gelyn hefyd a ddygodd ei holl allu i'r Point i dân-belenu yn ol, a thros oriau bu y pelenau a'r tân yn chwareu trwy eu gilydd uwchlaw y cymylau. Yn y cyfamser yr oedd y Cadfridog Hooker gyda phrif nerth y fyddin Undebol yn teithio yn gyflym, ond perffaith ddystaw, dan orchudd y cymylau i gael bwlch tuag wyth milldir yn ol i fyned i ben Mynydd Lookout, a phan oedd y gelyn ar y Point yn gorfoleddu wrth weled leied y dinystr a fedrai yr Undebwyr o ben y mynydd arall wneud arnynt, dyna gynllwyn dinystr a marwolaeth o'u hol yn syrthio yn ddisymwth ar eu gwarthaf—Hooker a'i wŷr arnynt yn creu "twrf, tarf, terfysg," nes gyru rhai bendramwnwgl dros y creigiau erch, eraill i ffoi ffyrdd eraill, ac eraill a ddaliwyd yn garcharorion.

Noswaith a gofir genyf fi ydoedd y noson yr oeddus yn dysgwyl

ymosodiad ar Chattanooga a'r mynydd gan y cadfridog gwrthryfelgar Hood. Yr oedd y Cadfridog Sherman wedi myned a bron yr oll o filwyr yr Undeb o'r parthau hyn i barthau Atlanta, 150 o filldiroedd yn mhellach, ac yn dechreu ar ei ymgyrch fawr fythgofiadwy o fyned tu draw i'r deheuwyr oll, i gyfarfod â byddin y Cadfridog Grant. Yr ydoedd Hood yn y cyfamser gyda byddin gref yn agosâu at Chattanooga. Clywsom ei gyflegrau yn dinystrio Ringold, 20 milldir oddiwrthym, a gwelsom ei mwg yn ymddyrchafu i'r nefoedd. Tranoeth dysgwylid ef atom ninau, ac yr ydoedd pryder yn amlwg ar wynebau pawb. Yr ydoedd Robert Linn, ein meistr ni, wedi myned a'r neges i'r gogledd, Lewis, fy mrawd, er's wythnos yn Chattanooga, James Linn a minau gyda'r ddau Negro yn gofalu am y ty a'r gwaith ar y mynydd. Dywedodd James Linn wrthyf, tua phedwar o'r gloch brydnawn, fod arno eisieu myned a'r neges i Summerville, pentref ddwy filldir oddiwrthym ar y mynydd, lle hefyd yr oedd y tai agosaf atom. Addawai ddychwelyd erbyn nos. Daeth y nos, ond ni ddaeth James. Aethum i'r ty arall i edrych am y ddau Negro, ond yr oeddynt hwythau hefyd wedi ffoi, a myfi a adawyd fy hunan. Yn awr, pe deuai ymosodiad, byddai y graig hon yn nôd cyntaf y cyflegrau, fel y bu ddegau o weithiau yn flaenorol. Caffai ein bwthyn ni fyned yn ddrylliau ar unwaith rhag y gallai fod ysbïwyr neu ddirgel-gyfarwyddwyr yn llechu ynddo. Ofn i hyny gymeryd lle fu yn achos ffoedigaeth James Linn a'r ddau Negro. Pe gwybuasai rhai o'r dynion drygionus oeddynt yn mhlith y milwyr, yn gystal ag yspeilwyr y parthau, am fy sefyllfa unig a'r pethau oeddynt dan fy ngofal, gallasent yn hawdd roddi i mi drwydded dros y graig. Treuliais y nos yn gwrando ar gerbydres ar ol cerbydres yn dyfod a milwyr ac arfau i lawr o Nashville, y rhai hyny, wrth lon-gyfarch eu gilydd, bloeddio, a churo tabyrddau, a barent i'r creigiau ddiasbedain. Pan dorodd y wawr gwelais yr holl ddyffryn yn wŷn gan bebyll. Daeth triugain mil o filwyr i fewn yn ystod y nos. Gwelodd Hood y byddai y lle yn rhy boeth iddo, ac ymgadwodd draw. Daeth James Linn a'r ddau Negro eildro adref.

Ni byddai fy rhestr o ryfeddodau Lookout yn gyflawn heb grybwylliad am Mr. Forster a'i ferched, hen fynyddwr gwladgarol na pheidiai dadleu dros yr Undeb dan y perygl o golli ei fywyd. Uchelnod ei ryfyg ydoedd ei waith yn cadw y 4ydd o Orphenaf,

diwrnod gwyl genedlaethol yr Undeb Americanaidd, pan oedd y mynydd yn hollol yn meddiant y gwrthryfelwyr, a'u gwersylloedd o amgylch ei dy. Darfu iddo ef, gyda'i ferched, gadw y dydd hwnw trwy chwifio baner yr Undeb, saethu gwn, a darllen dadganiad Annibyniaeth. Yr oedd y dirmyg hwn ar fyddin y gelyn yn fwy nas gellid ei oddef. Cafodd yr hen ŵr ei ddal, ei brofi, a'i ddedfrydu i farw; ond ar y foment yr oedd i gael ei ddienyddio darfu i'r pen swyddog, wrth ystyried ei oed a rhyfeddu ei ddewrder a'i ddiysgogrwydd, orchymyn ei ryddhau. Hen ŵr cadarngryf o gorpholaeth ydoedd, ac o edrychiad penderfynol, nid anhebyg i'r Parch. Edward Mathews. Gelwid ef yn *Old man of the mountain.* Swyddogion milwrol, ac yn achlysurol eu gwragedd, fyddent yr ymwelwyr y pryd hwnw. Ond deallwyf fod ar y mynydd yn awr westdai ardderchog, ac ymwelwyr o bob parthau yn parhau i ddyfod yno oherwydd ei gysylltiadau hanesyddol yn gystal a'i ryfeddodau naturiol.

DYCHWELIAD O'R DE.

Buom rai misoedd yn pabellu yn Chattanooga wedi dyfod i lawr o'r mynydd. Pebyll ydoedd hanner y dref y pryd hwnw, ac yr oedd ein pabell ni yn un mor eang a rhagorol fel yr oedd genym wely llydan, mawr, ac esmwyth. Edrychid arnom oblegid hyny fel tywysogion, ond mwyaf oll ydoedd y perygl oddiwrth ysbeilwyr nosawl. Ni byddai odid noswaith yn myned heibio na byddai sôn fod pabell rhyw siopwr neu enillwr arall wedi ei hysbeilio, ac yn achlysurol ychwanegid hanes llofruddiaeth at hyny. Daeth brawd i fewn i'n pabell ninau unwaith, ond gan iddo gael ar ddeall ein bod yn effro ac yn parotoi at roddi croesawiad cynes iddo, ciliodd allan. Nid oedd ein drws amgen na fflapyn o'n pabell gynfas, na'n clo ond llinynau wedi eu cylymu.

Yn gymaint ag i'r Cadfridog Sherman wrthod caniatâu i ni nac unrhyw bobl anfilwrol eraill fyned gydag ef ar ei gylchdaith fawr ddeheuol, meddyliais i a fy mrawd am fyned adref am dro. Cawsom rwydd hynt can belled a Nashville, ond yno bu raid llwgr-wobrwyo rhyw filwr am gael myned yn ngherbydres y milwyr. Ac awfft y fath filwyr—milwyr Kentucky, y rhai a feddent y cymeriad o fod y rhai mwyaf ysgeler a berthynai i fyddin yr Undeb. Pan oedd yn haner nos aeth yn *bandemonium* ofnadwy trwy yr holl gerbyd—rhyw

greadur annynol, ar ol oriau o gymell llid, a ddygodd allan y fath gynen nes cynhyrfu agos yr holl filwyr i dynu allan eu llawddrylliau a'u cyllill mewn agwedd ddychrynllyd, a ninau ein dau yr unig estroniaid mewn dillad cyffredin yn eu plith, heb le i ysgoi y gethern. Siaradasom â'n gilydd yn Gymraeg; hwyrach mai amcan hyn oll ydoedd ein llethu a'n hysbeilio ni, oblegid gwyddem yn dda mai fel *speculators* yr edrychid arnom. Yr oeddem wedi cael ein holi gan amryw o honynt parthed ein gwaith a'n llwyddiant yn y de. Ond cyn iddi fyned yn dywallt gwaed cyffredinol, gan nad beth a wnaeth y dyrnodiau, rhuthrodd y swyddogion i fewn o'r cerbydau eraill, ac ar ol cryn drafferth a dodi y rhai mwyaf afreolus mewn dalfa, cafwyd gosteg. Aethom adref yn ddyogel, ond yn lle llawenydd, galar ydoedd yn ein aros.

> "Dysgwyl pethau gwych i ddyfod, croes i hyny maent yn d'od;
> Meddwl foru daw gorfoledd, foru'r tristwch mwya' erioed."

Cawsom ein mam yn weddw, a'n tad wedi myned i dy ei hir gartref er's pythefnos—llythyrau wedi myned ar goll, a ninau yn cael y newydd yn awr am y tro cyntaf. Rhoddodd hyn derfyn ar fy mwriad o fyned eilwaith i'r de.

Ni bu ein dychweliad adref ychwaith un diwrnod yn rhy fuan, oblegid yn uniongyrchol wedi hyny cauwyd y ffordd i fyny gan y cadfridog gwrthryfelgar Hood, fel nad allwyd teithio ar hyd-ddi dros wythnosau lawer; ac oblegid fod pob cymundeb â'r gogledd wedi ei dori, dyoddefodd y rhai a arosasant yn Chattanooga ac ar y mynydd fis o ddirfawr galedi trwy newyn ac oerder.

GORLLEWINBARTH OHIO.

Yn awr y mae yn hen bryd symud yn mlaen gyda fy nhaith ddiweddaf. Gadewais Cincinnati gan fyned trwy Hamilton (p. 13,000) i Dayton (p. 39,000), 30 milldir yn ogleddol. Y mae hon yn un o'r trefi harddaf ac iachaf. Medda heolydd llydain rhyfeddol ac adeiladau rhagorol. Bum yn aros ynddi amryw fisoedd yn ngwanwyn 1864. Yr oeddwn ynddi pan ddychwelodd Valandingham, heb ganiatâd, o'i alltudiaeth i'w gartref ynddi. Cyfreithiwr a gwleidyddwr *(politician)* galluog ydoedd y dyn hwn, ond cyfaill mor wresog ac effeithiol i wrthryfelwyr y de fel y barnodd yr Arlywydd Lincoln yn angenrheidiol ei wahardd i aros o fewn

cylch yr Undeb. Ar ol tymor o alltudiaeth yn Canadá anturiodd ddyfod adref. Cydymgynullodd tyrfa fawr o'i bleidwyr o flaen ei dy i'w lon-gyfarch. Traddododd yntau iddynt araeth herfeiddiol. Taenwyd allan y gair fod milwyr wedi eu gwysio i ddyfod o Columbus i'w ddal, ac yr ydoedd o ganlyniad yn amser cynhyrfus yn y dref. Wedi myned o honwyf i'r gwely a dechreu cysgu, deffrowyd fi gan dwrf meirch a cherbydau yn carlamu, a dynion yn rhedeg ac yn gwaeddi. Galwodd fy nghyfaill arnaf yn frysiog i ymwisgo, fod y frwydr yn dechreu. Trwy y ffenestr gwelwn dân yn fflachio ar hyd yr heol. Ond pa fodd na chlywid saethu! Tut, nid oedd y cyfan ond gwaith y tân-ddifoddwyr a'u peirianau, gyda segur-boblach yr heolydd, yn brysio i achub rhyw bwt o dy o afael yr elfen ddinystriol. Ni chawsom weled brwydr, ac ni chafodd Valandingham aflonyddwch.

Oddiyma cymerais daith o tua 80 milldir yn ogleddol i swyddi Allen a Putnam. Yn sefydliad Cymreig Gomer, swydd Allen, y gwelais yr amaethdai ardderchocaf a welais erioed mewn unrhyw wlad. Y mae yn ffasiwn gyffredin ganddynt i wneud eu hanedd-dai yn balasau. Bum yn ceisio dyfalu y teimladau gwahanol fyddai yn meddianu dau ddyn, uchel-foneddwr a gwladwr cyffredin o Gymru, wrth agosau at un o'r preswylfeydd hyn. Byddai yr olwg ar y palas hardd a'r *covered carriage* gloywddu gerllaw yn gwneud i galon y boneddwr lawenychu ac i'w wyneb ddysgleirio. Gobeithiai fwynhau cymdeithas foesddysgedig y bobl fawr; ond âi y gwladwr yn fwy llwfr, gan ofn nad allai ymddwyn yn deilwng o urddas y teulu. Wedi myned i fewn cymerai pethau wedd wahanol. Pobl gyffredin, ddifalch ydynt y bobl, a'u harferiadau yn syml a dirodres. Elai y boneddwr i deimlo yn siomedig a'r gwladwr yn gysurol ei ysbryd.

Oddiyma aethum trwy Delphos i sefydliad Cymreig swydd Van Wert, tuag 20 milldir yn mhellach i'r gorllewin. Yr ydoedd yno gyfnewidiadau pwysig yn arwedd y wlad er pan fum yno ddeuddeng mlynedd yn flaenorol—y coed wedi eu clirio allan, adeiladau ardderchog wedi cymeryd lle tai o gyffion, a phentref Venedocia wedi dyfod i fodolaeth.

YSGYDWYR.

Trigiana mewn pellder o bum milldir o Dayton sefydliad o

Ysgydwyr *(Shakers)*. Galwant eu hunain yn "Gymdeithas Unedig y Credinwyr." Ymwisgant yn blaen a garw. Honant feddu doniau gwyrthiol a chymundeb gweledig âg angylion. Cyfrifant fod ail ddyfodiad Crist wedi cymeryd lle yn mherson mwy gogoneddus eu prophwydes Ann Lee, *Mother Ann*, fel ei gelwir, ac mai dygiad eu cyfundeb hwy i fodolaeth ydyw yr adgyfodiad diweddaf, ac am eu bod hwy yn blant yr adgyfodiad nid ydynt yn gwreica nac yn gwra; a pha bobl briod bynag a fyn ymuno â hwy rhaid iddynt roddi heibio y bywyd priodasol a byw fel brodyr a chwiorydd perthynol i'r un teulu, gan gydofalu am yr un pethau yn dymhorol ac yn ysbrydol—cydweithio yn yr un buddiannau, a chydymgynal o'r un drysorfa Nid ymyrant â rhyfeloedd na materion gwleidyddol, ac ni pherthyna iddynt geisio troi neb atynt, ond derbyn y neb a ddaw os bernir ef neu hi yn deilwng. Meddant y cymeriad o fod yn bobl ddiwair, lanwaith, onest, ddiwyd, a chymwynasgar. Ymwelent â mi yn aml pan oeddwn yn byw yn Dayton, ac unwaith anrhegwyd fi gan un o'r frawdoliaeth â blodeuglwm o'r fath ragoraf, yr hyn, meddid, ydoedd arwydd o gyfeillgarwch mawr. Cefais ganiatâd i fyned i'w cyfarfod crefyddol, yr hyn oeddwn wedi chwenychu er's llawer dydd, yn neillduol gan fy mod wedi gweled a ganlyn am danynt mewn llyfr:—"*In dancing during their public worship, they resemble the jumpers of Wales, and mingle their joy with cries and singing.*" Ni ddygwyddodd i mi weled y "*jumpers of Wales,*" ac ni chlywais sôn tra yn aros yn "*Wales*" am ymarferiadau tebyg i eiddo y rhai hyn. Dechreuent eu gwasanaeth trwy ymaflu yn nwylaw eu gilydd, cerdded yn gylch o amgylch yr ystafell, a mwngial canu mewn llais isel. Yn raddol elai y cerdded yn gyflymach, a'r canu yn uwch. Dechreuent ar fath o ddawns, ac wrth ddawnsio gallent droi yn hir ar eu sodlau gyda medrusrwydd celfyddydol. Gan barhau i godi y gwres a chryfhau yr hwyliau, elai y ddawns fechan yn ddawns fawr, y cerdded yn redeg, y canu cymedrol yn ganu cryfach, gwylltach, a mwy afreolaidd. Yn mhellach yn mlaen a dyna hi wedi myned yn neidio, yn floeddio moliant, ac yn hwre gyffredinol. Gan redeg o amgylch gwnaent ystumiau â'u penau ac â'u breichiau, fel pe baent yn gyru y diafol allan o'r ystafell. Byddai eraill a'u llygaid yn gauad a'u gwynebau tuag i fyny, rhai yn sobr iawn; ar wefusau eraill y chwareuai

gwenau rhyfedd fel pe baent mewn gweledigaeth nefol. Diweddwyd y cyfarfod trwy i rhyw frawd roddi gair o gyngor.

TRAED-OLCHWYR.


Gan fy mod yn sôn am grefyddwyr hynod, gosodaf i lawr yma hanes noswaith gyda math arall o grefyddwyr yn neheubarth Ohio amrai flynyddau yn ol. Gelwir hwy gan rai yn Draed-olchwyr, a chan eraill ar enwau eraill. Credant ei fod yn ddyledswydd ar ddynion i gysegru seithfed ran amser i addoli eu Creawdwr, heb ofalu pa un ai ar y Sabbath ai rhyw adeg arall y byddai fwyaf cyfleus i roddi y gwasanaeth hwnw. Ar y Sabbath y cynaliant eu cyfarfodydd fynychaf er hyny, a hyny yn y gauaf, am ei bod yn fwy cyfleus i bobl y wlad ddyfod iddynt; a gwnant i fyny am oferedd crefyddol yr haf trwy ddyblu diwydrwydd yn y gauaf. Addolent mewn ysgoldy. Yr ydoedd yn saith o'r gloch pan aethum i'w cyfarfod, a llonaid yr adeilad o wrandawyr. Yn mhen tuag awr daeth y pregethwr i fewn—dyn tàl, mawr, blewog, garw, tua 35 oed, yr hwn, gyda het *jim crow* ar ei ben, un o goesau ei lodrau gyda ei goes ei hun yn nghoes ei *Wellington boot* uchel, a'r llall yn haner a haner i fewn ac allan, a gerddodd yn mlaen i'r lle a wasanaethai fel pulpud, ac wedi eistedd yno am tua deng mynyd tynodd ei het ymaith, am ei bod yn gynes o bosibl, a dechreuodd y gwasanaeth. Darllenodd un o benodau hiraf y Testament Newydd, gweddïodd haner awr dda, a phregethodd awr a haner gyfan. Ac a ddywedwch chwi na fedr yr iaith Seisnaeg gynwys hwyl a thôn a thân fel yr iaith Gymraeg? Pe baech wedi gwrandaw y brawd hwn a'r Negroaid a llawer eraill a glywais i, yr wyf yn sicr na ddywedech hyny mwyach. Medrodd hwn, fel eryr cryf, ymgodi yn uchel dair gwaith yn nghyfnod ei bregeth, ac ehedeg yn orfoleddus yn nghanol y nef, a'r efengyl dragywyddol ganddo. Gallodd fy nghodi gydag ef y tro cyntaf. er gwaethaf fy rhagfarn. Yr ail dro cedwais fy sêt, a gellais ei wrando fel beirniad. Y trydydd tro teimlwn fy mod yn myned i lawr am bob gradd yr esgynai efe i fyny; ac am y pedwerydd tro, mi a ddeisyfais na chymerai le. Ei destyn ydoedd Ioan xiii. 17—"Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os gwnewch hwynt." Ei bwnc ydoedd y pwysigrwydd i'r saint barhau yr ordinhad o olchi traed eu gilydd.

Ar derfyn y bregeth rhoddwyd chwarter awr o amser i'r bobl fyned allan i ymawyru, ac aeth yr ieuenctyd i'r coed i chwareu. Yna dechreuodd y rhan arall o'r gwasanaeth. Yr ydoedd y pregethwr erbyn hyn wedi rhoddi gwregys am ei ganol, a thywel yn crogi wrth hwnw, ac â'r cawg dwfr ydoedd yn ei law dechreuodd olchi traed y dysgyblion, y rhai, i'r dyben hwnw, oeddynt yn rhes yn mhen blaen yr ysgoldy, a'u hesgidiau a'u hosanau wedi eu tynu ymaith. Ar ol ymwisgo a rhoddi heibio y cawg, y tywel, a'r gwregys, cyfranogwyd o swper yr Arglwydd. Rhoddid i bob un deisen fechan o fara a chwpanaid bychan o win. Wedi iddynt ganu hymn dywedodd y pregethwr, "Codwch, awn oddiyma," ac yr ydoedd yn ganol nos.

CHICAGO.

O sefydliad Cymreig Van Wert, Ohio, aethum trwy Fort Wayne (p. 27,000), agos 200 milldir yn mhellach, i Chicago, yr hon a saif ar gŵr de-orllewinol Llyn Michigan. Cafodd y ddinas hon, fel Venice, ei hadeiladu ar gorsle ddyfrllyd; ond, yn wahanol i Venice, gwnaeth waelod iddi ei hun fel ag i gael ei gwadnau ar ddaear sech. Rhaid i breswylwyr Venice eto ddefnyddio badau i fyned o dy i dy; ond yn Chicago, mewn cerbydau yr eir ar hyd heolydd ardderchog wedi eu codi, rai o honynt, dros ddeg troedfedd. Er nad ydyw hon ond baban o oed, y mae o ran maintioli, pwysigrwydd, ac aeddfedrwydd yn rhestr prif ddinasoedd y byd. Yn y flwyddyn 1830 nid ydoedd ond pentref bychan a gwael. Yn 1837 rhifai y preswylwyr 4,170, gyda dau addoldy. Yn 1882 y mae eu nifer yn 504,000, gyda chanoedd o gapelau heblaw canoedd o adeiladau cyhoeddus eraill. Yn 1871 difawyd y rhan bwysicaf o honi gan y tân mwyaf dinystriol a fu yn America erioed. Mewn ysbaid 36 o oriau llosgwyd 12,000 o adeiladau, a thrwy fwrw i lawr lawer o adeiladau eraill y gallwyd atal rhwysg yr elfen ofnadwy. Gwnaed 150,000 o bersonau yn ddigartref; collwyd gwerth deugain miliwn o bunau. Cafodd y ddinas, er hyny, ei phuro megys trwy dân—adgyfododd mewn ychydig amser ar ddull ardderchocach o lawer. Yn mhlith dinasoedd mawrion y cyfandir saif yn drydedd yn rhif ei thrigolion. Y mae mwy o bob math o fadau yn dyfod i'w phorthladd nag sydd yn dyfod i Boston, New York, Philadelphia, a New Orleans yn nghyd. Nid

oes yn yr holl fyd y fath ladd-dai ac ystordai ag sydd ynddi. Trinia fwy o gig, grawn, a choed nag unrhyw ddinas arall ar y ddaear. Cynwysa ei grawn-ystordai, y rhai a elwir *elevators*, agos ddwy filiwn



CHICAGO, ROCK ISLAND & PACIFIC DEPOT, CHICAGO, ILL.

ar bymtheg o fwsieli. Heb gyfrif ei lluaws maes-drefi, saif y ddinas ei hun ar ddeugain milldir ysgwâr o dir, gyda thair milldir a deugain o afon fordwyol yn rhedeg drwyddi. Croesir yr afon hon gan 36 o bontydd yn troi ar golynau yn gorphwys ar bilerau yn nghanol yr


afon, er mwyn rhoddi lle i ager-fadau, hwyl-longau &c., basio heibio. Odditan yr afon y mae dau dwnel, mil o droedfeddi o hyd, trwy y rhai yr â certi, troliau, &c. Medda y ddinas 700 milldir o heolydd; canolbwyntia ynddi 24 o reilffyrdd, ar hyd y rhai y mae 156 o gerbydresi teithwyr yn myned a dyfod yn ddyddiol. Ei pharciau rhagorol, ei hadeiladau, a'i rhyfeddodau eraill ydynt rhy luosog i'w henwi, chweithach eu desgrifio. Yn mhlith pob cenedl arall y mae llaweroedd o Gymry yn preswylio ynddi.

MILWAUKEE.

O Chicago cymerais daith o fwy na 60 milldir yn ogleddol i Racine, yn Wisconsin (p. 17,000), gan yr hon y mae y porthladd goreu a berthyna i Lyn Michigan; 23 milldir yn mhellach ac yr oeddwn yn Milwaukee (p. 116,000), dinas yr hufen, a elwir felly ar gyfrif lliw hufenaidd ei phriddfeini. Hon ydyw y fwyaf yn Wisconsin, a dinas hardd ragorol ydyw. Medda heolydd llydain ac uniawn, adeiladau gwychion, parciau prydferth, ac arwedd lanwaith, iachus, a serchog ar yr oll. Fel marchnadfa wenith, nid ydyw yn ail i unrhyw ddinas yn yr Undeb. Saif ar làn Llyn Michigan, dros gan' milldir uwchlaw ei ben deheuol; nid yw er hyny dros y drydedd ran i'w ben gogleddol. Y mae y llyn hwn felly yn fwy na Llyn Tegid, ac eto y mae ei frawd, Llyn Superior, yn fwy nag yntau. Yma y mae prif swyddfa y reilffordd fwyaf yn y byd, sef y *Chicago, Milwaukee, and St. Paul*, i'r hon, fel goruchwyliwr ymfudol, y perthyna ein cydwladwr caredig W. E. Powell, Ysw. (Gwilym Eryri), ein goruchwyliwr tirawl penaf yn y wlad, a'r hwn y byddai yn dda i ymfudwyr ymohebu.

Yn swyddfa y reilffordd hon, un o'r adeiladau rhagoraf a welir, y cefais y *ride* gyntaf o waelod ty i'w ben ac yn ol mewn *elevator*. Wedi dysgwyl moment ar y llawr, daeth y cerbyd, a safodd o'n blaen; llithrwyd drws o haiarn-wïail yn ol, a chawsom fyned iddo. Eisteddasom ar esmwythfainc, a'n traed ar lawrlen hardd, a'n gwynebau prydferth yn adlewyrchu mewn drychau dysglaer o'n blaen. Esgynasom mor ddystaw a didrafferth a'r bluen. Safwyd ar gyfer y llawr nesaf i ollwng rhai o'r teithwyr allan ac i gymeryd eraill i mewn, ac felly yr aethom o lawr i lawr tua'r làn, rhai yn dyfod i fewn ac eraill yn myned allan, nes i ni ddyfod i'r pen. O'r orsaf uchaf yr oedd genym i ddringo rhai grisiau eto, a chawsom ein

hunain yn sefyll ar binacl y deml, lle mewn mynyd awr y dangoswyd i ni megys holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant. Cymellwyd ni gan yr olygfa, nid i fwrw ein hunain i lawr, ond i addoli, nid y diafol, ond natur a chelfyddyd. Nid hir ychwaith y cawsom ein cadw wrth draed y rhai hyny, oblegid, fel angylion da eraill, codasant ni i fyny, a chlywsom hwy yn dywedyd, "Addola Dduw." Efe a'n gwnaeth. O Dduw! mor ardderchog yw dy enw! Mor rhyfeddol holl ranau dy waith! Mor ogoneddus y mae dy fawredd, dy ddoethineb, a'th ddaioni yn dysgleirio yn yr oll! Y fath allu ac awdurdod a roddaist hefyd yn llaw dyn! Wele yr anghyfanedd-dra mawr wedi ei droi i fod yn drigfanau digonedd a dedwyddwch. Yn lle coedwigoedd tywyll, anwariaid creulawn, bwystfilod rheibus, ymlusgiaid aflan, siglenydd a chyrs, y mae yr holl barthau yn addurnedig gan adeiladau teg, perllanau persawrus, oll yn rhoddi i'r bröydd ymddangosiad paradwysaidd. Y mae yd-feusydd y wlad a masnach y ddinas yn llongyfarch eu gilydd yn gariadus; y bryniau a'r bröydd a floeddiant ganu, a holl goed y maes a gurant ddwylaw; yr ager-beirianau, wrth ddyfod o bellafoedd y gorllewin, a chwibanant ar yr ager-fadau mawrion i ddyfod i dderbyn o'i trysorau o ydau a ffrwythau y wlad, a'r rhai hyny a'u cludant dros y llynoedd a'r moroedd mawrion, nes y mae Cymru,



(GWILYM EBYRI.)

Ewrop, a'r byd oll yn cael cyfranu o honynt. Y mae gwyddon a chelfyddyd ar waith yn datod cylymau, yn agor cloion, yn tynu allan o drysorau natur, a dyn syrthiedig, trwy ras Duw, yn cael doethineb a nerth i adenill ei arglwyddiaeth ar y byd. Ardderchog yn wir yr ymddengys holl drefniadau Duw!

> "Pob nâtur doed a'u nerthoedd oll yn awr
> I ddadgan clod Duw, eu Creawdwr mawr.
> Yr awyr glir, a'r cyfan dan y rhod,
> Y môr a'r tir, rhoent ei ryglyddawl glod."

Ond dyna, rhaid dyfod i lawr. Pan ddaeth y cerbyd i fyny drachefn aethom ynddo i lawr o lawr i lawr nes cael y gwaelod. Yn ngorsafoedd Chicago a Milwaukee y mae i'w gweled bob dydd ganoedd o ymfudwyr o hen wledydd Ewrop yn myned i berchenogi y tiroedd breision sydd yn y gorllewin yn estyn eu breichiau i'w cofleidio. Yn ystod ambell wythnos yn yr haf y mae cynifer ag ugain mil o dramorwyr yn myned trwy Chicago yn unig. Yn wir, gwlad fawr, gwlad fras, a gwlad fendigedig ydyw America, diolch i'r nefoedd am dani—noddfa barod i holl orthrymedigion yr holl genedloedd; ac er cymaint sydd wedi ac yn myned iddi, "eto y mae lle." Ond sicr meddienir y lleoedd goreu yn fuan bellach.

SWYDD WAUKESHA.

Tuag 20 milldir yn orllewinol o Milwaukee y mae y sefydliad amaethyddol Cymreig hynaf yn Wisconsin, sef Waukesha. Yr ydwyt wedi arfer meddwl am y dalaeth hon, ddarllenydd, fel gwlad amaethyddol, ag ynddi laweroedd o Gymry, ond y mae yn wlad hynod hefyd ar gyfrif ei phrydferthion a'i rhyfeddodau naturiol. Gan y bwriadwyf gyhoeddi cyfrol o HANES TALAETHAU UNEDIG AMERICA A'R CYMRY YNDDYNT, ni ddesgrifir yn y gwaith hwn ond y pethau hynotaf a ddaethant dan fy sylw uniongyrchol fy hun. Y mae tref Waukesha yn enwog ar gyfrif ei ffynonau meddyginiaethol. Yr ydoedd eira trwchus, mwy a diweddarach nag arfer, yn gorchuddio yr holl wlad pan oeddwn yn y parthau hyn; a'r cyfryw auaf a gefais i deithio yn barhaus o ddechreu mis Rhagfyr hyd agos ddiwedd Ebrill. Oddiallan byddai yn oer iawn; oddifewn yn y tai ac ar y gerbydres yn gynes iawn; ac er y cyfnewidiadau parhaus hyn ni chefais fawr o anwyd na niwed o'fath yn y byd; y mae hyn yn rhyfeddach o gymaint a fy mod yn Nghymru yn ddarostyngedig i anwyd mynych.

Rhaid i mi benderfynu fod gauaf oer, sych, cyson, a hir-barhaol America yn llawer iachach na gauaf llaith a chyfnewidiol Cymru. Gwlad wastad, agos fel y bwrdd, ydyw yr hon sydd yn ymestyn gyda glàn y llyn o Chicago i Milwaukee. Ond am sefydliad Waukesha, y mae braidd yn fryniog a garw; ei gyrau pellaf, fodd bynag, megys amgylchoedd Bark River, yn fwy gwastad. Prydferthir y wlad yn rhyfedd, nid yn unig gan lynoedd grisialaidd, ond hefyd gan lwyni neu resi planedig o *poplars* a mathau eraill o goed yn cysgodi y ffyrdd ac amgylchoedd yr anedd-dai, y rhai, gydag ysguboriau mawrion a heirdd, a gwynt-rodau uchel o wneuthuriad y gorllewin at godi dwfr o'r ddaear, a roddant i'r eangdiroedd ddestlusrwydd tra dymunol. Talaeth ddymunol yr olwg arni ydyw Wisconsin.

IXONIA, WATERTOWN, A MADISON.

Ychydig yn ogledd-orllewinol o Waukesha y mae Ixonia Center, pentref a gorsaf mewn gwlad amaethyddol. Yma cefais y pleser



o gyfarfod â thri o'r pedwar Cymro a gyfarfyddais ar fy nghychwyniad o Aberystwyth. Daethant trwy dywydd enbyd o wynt a gwlaw i'm gweled. Felly hefyd y dylai fod, oblegid y gallem felly gydgofio

yn well am y fordaith arw ar fwrdd yr Abyssinia. Llon iawn genyf ydoedd cyfarfod â hwy yma a chael eu bod yn bobl mor gyfrifol yn y lle.

Tuag wyth milldir yn mhellach yn yr un cyfeiriad y mae Watertown (p. 8,000), lle y mae llaweroedd o Germaniaid ac ychydig o Gymry, yn mhlith y rhai y mae Bardd Gwyn, yr hwn, yn nghyda'i deulu, ar y pryd oeddynt mewn trallod blin. Sefyll yr oeddynt yn hiraethlawn ar y làn, tra yn gwylio symudiadau y mab, golygydd galluog un o newyddiaduron y dref, yn nyfroedd geirwon yr Iorddonen yn myned trwodd. Yma hefyd y gwelais y bregethwraig ddoniol, Mrs. Rachel Evans (Rahel o Fon). Er mai aelod selog o gyfundeb y Bedyddwyr ydyw, cartrefai yn gysurus, meddai, gyda'r ychydig Fethodistiaid Cymreig yn y lle. Clywais hi yn pregethu droion yn Ohio yn y flwyddyn 1871, ac yn sicr, pe buasai yn ddyn, nid wyf yn meddwl yr amheuai neb ei galwedigaeth i'r swydd. Cof genyf fod un o honom ni a ddaethai yn ddiweddar o Gymru y pryd hwnw yn dweyd na chredai efe y gallai yr Apostol Paul ei hun bregethu yn well na Rahel o Fon. Cefais hi yn Watertown â'i holl galon eto yn y gwaith, ond fod amgylchiadau teuluaidd yn lluddias iddi barhau mor amlwg ag y bu.

Wedi taith o tua 35 o filldiroedd yn ddeheu-orllewinol, cefais Madison (p. 11,000), prif ddinas y dalaeth, yr hon a saif ar godiad hynod brydferth ar wddfdir rhwng dau lŷn dysglaer fel y grisial. Yn y talaethdy hardd sydd yma gwelais un o'r llyfrgelloedd hanesyddol goreu y cefais y fraint o fod ynddi.

SWYDD IOWA.

O Madison ceisiais fyned i Picatonica, yn swydd Iowa (nid talaeth Iowa, cofier). Ni byddai y pellder ar linell uniawn ond rhywbeth fel 40 milldir yn dde-orllewinol; ond gan ddarfod i mi gymeryd fy nhwyllo gan fy *map*, yr hwn a ddywedai fod reilffordd lle nad oedd ond reilffordd yn cael ei bwriadu, bu raid i mi amgylchynu gan deithio agos 200 milldir trwy Milton Junction, Jamesville (p. 10,000), Hanover, Monroe (p. 5,000), yn ol i Hanover, Rockford yn Illinois (p. 14,000), Freeport (p. 10,000), Warren, Darlington, a Mineral Point, lle, am naw o'r gloch yr ail noswaith, y cefais Mr. Robert W. Hughes, er wedi ei siomi lawer gwaith, yn

parhau yn amyneddgar i ddyfod i'r orsaf i edrych am danaf. Cefais ar ddeall mai yn y capel mawr, wyth milldir oddiyno, y'm dysgwylid at yr hwyr canlynol. Aethum yn agos yno at yr amser, ond dywedwyd wrthyf yno mai yn y capel cerig, tua phum' milldir yn mhellach, yr oeddwn i fod, ac ar yr un pryd tybid na byddai yno gynulleidfa, oblegid yn gymaint a fy mod wedi methu cyflawni dau neu dri o gyhoeddiadau, fod y sï allan nad oedd y pregethwr wedi dyfod. Rhwng hyn a phellder y ffordd a diweddarwch yr amser, rhoddais heibio y meddylddrych o oedfa. Fy nôd bellach ydoedd ty y gweinidog erbyn amser gwely. Erbyn cyrhaedd yno nid oedd hyn nac arall i fod ond myned i'r capel. I'r capel, gan hyny, yr aethom ar hyd tair milldir o ffordd fryniog, leidiog, a thyllog, mewn *buggy*, wrth gwrs, ac yr ydoedd yn dywyll nos, a chawsom yno y pryd hwnw gynulleidfa amyneddgar o amgylch y capel. Pan ddeallasant am ein dyfodiad, agorwyd y drws ac aed i fewn. Yna buwyd amser maith yn chwilio am ddefnyddiau i wneud goleu, oblegid ni byddent arferol o gynal cyfarfodydd nosawl yno. Fy nhro i yn awr ydoedd dysgwyl wrthynt hwy, ond gan yr ymddangosent hwy mor gysurus nid gweddaidd ynof fi fyddai grwgnach. O'r diwedd dechreuwyd yr oedfa. Er mwyn bod yn fyr ni roddwyd ond un penill i'w ganu. Gwnaethant hwy hwnw yn hir, oblegid dyblent a threblent ef, gan ganu â'r ysbryd, ac i raddau â'r deall hefyd. Nid oedd ganddynt ddim i wneud â hyd y benod, y weddi, na'r bregeth, felly ceisiwyd gwthio y rhanau hyny trwodd yn frysiog, ond gwnelid yr amser i fyny drachefn gan ganu peraidd, a'r bobl yn dyfod i fewn ac yn parhau i ddyfod i fewn bob yn un neu ddau bron hyd ddiwedd yr oedfa; ag eithrio hyny o aflonyddwch, yr ydoedd agwedd gall, weddaidd, a gwrandawgar ar y gynulleidfa. Wedi gorphen hyn o wasanaeth, pryd y tybiwn i fod yn rhywyr gan bawb fyned adref, cododd y gweinidog siriol ar ei draed i wneud araeth lon-gyfarchiadol i mi ar fy nyfodiad atynt. Dygodd i gof ein cyn-gydnabyddiaeth yn Ohio, ac anogodd fi i gymeryd amser da eto i draethu iddynt ar Gymru ac ar amcan fy nhaith trwy y talaethau. Minau, gan gredu yn awr eu bod wedi penderfynu treulio y noson hòno yno, a ymroddais i siarad, a gwell hwyl a gafwyd ar yr oedfa olaf na'r gyntaf; ac hyd yn nod wedi gorphen hòno nid ymddangosai fod ar neb frys i fyned. Deuent ataf o un i un i holi hanes pobl a phethau

yn yr hen wlad, ac i ddweyd yr hyn fyddai ar eu meddyliau o'u hanes hwythau. Dymunent arnaf i beidio dweyd yn Nghymru mai hen gapel o geryg oedd ganddynt, eu bod ar fedr tynu hwnw i lawr ac adeiladu un helaethach a harddach o goed; ond dywedodd un o honynt y byddai yn hawddach gan bobl yr hen wlad gredi ei fod yn hardd trwy feddwl am dano fel capel o geryg. Pobl dawel, boddlonus, a thirion y cefais y rhai hyn, ac y mae yn bosibl, er pob peth, fod pob un o honynt wedi cael cysgu rhai mynydau cyn codi haul.

Dychwelais dranoeth i Mineral Point. Dranoeth i hyny (Sabbath) hebryngodd Mr. R. W. Hughes fi yn ei *buggy* i Dodgeville, wyth milldir i'r gogledd, lle, yn ol y rhaglen a gefais, yr oeddwn i fod am ddeg o'r gloch, ond erbyn cyrhaedd yno cefais ar ddeall mai yn Salem, bedair milldir yn mhellach, yr oeddynt hwy wedi trefnu i mi fod yr awr hòno. Rhoddodd y gweinidog ei gaseg ardderchog o flaen ei *buggy*. A dyna gaseg! Yr wyf yn sicr y buasai *horse-dealers* Tregaron a Ffair Rhos yn llygadrythu ar hon. Pa un bynag ai ar hyd wyneb y ddaear ai trwy yr awyr yr aethom, pa un bynag ai un gyfanlen gyfrodeddog ai llawer oeddynt y coed a'r caeau; pa un bynag ai yn effro ai yn mreuddwyd yr oeddwn, y peth cyntaf bron a wybum oedd ein bod yn sefyll yn ymyl capel Salem, a llais yn galw arnaf i ddisgyn a myned i fewn.

Pregethais yn y prydnawn a'r hwyr yn Dodgeville i gynulleidfa cynwysedig o dair, sef Bedyddwyr, Annibynwyr, a Threfnyddion Calfinaidd. Yr wyf yn nodi hyn am unwaith i'r dyben o roddi ar ddeall mai hyn ydyw yr arferiad, nid yn unig yn Dodgeville, ond mewn llawer o leoedd eraill yn America. Pa ŵr dyeithr bynag a ddaw heibio i bregethu, a pha un bynag ai bychan ai mawr fyddo, cyduna y Cymry o bob enwad fyned i'w wrando. Tranoeth aethum ar ol yr un gaseg ryfedd 18 milldir yn ddwyreiniol i ardal amaethyddol Blue Mounds, lle y mae y pigyn uchaf, meddir, rhwng yr Alleghanies a'r Mynyddoedd Creigiog.

WELSH A PORTAGE PRAIRIES.

Ar ol taith o fwy na chan' milldir yn ogledd-ddwyreiniol trwy Milton Junction a Watertown, disgynais yn gyntaf yn Columbus, pentref mawr yn nghanol gwlad amaethyddol, lle y mae llaweroedd o Gymry. Oddiyno aethum yn mhellach i'r gogledd, a chefais yr

hen sefydliadau Cymreig mawrion a phoblogaidd, Welsh a Portage Prairies. Er fod yn y lleoedd hyn ddefnyddiau lawer at wneud llyfr ar hanes Cymry America, ni ddigwyddodd i mi yn adeg fy ymweliad â hwy ddim yn neillduol i'w gofnodi, gan nad beth am gofio. Yn Welsh Prairie y mae pentrefi Cambria fryniog a Randolph wastad, ac ar y naill ben i Portage Prairie y mae Fox Lake, a llynoedd eraill mewn gwlad hyfryd.


Gan fy mod tuag adeg fy ymdaith yn y parthau hyn yn arfer darllen pethau rhyfedd yn y wasg dan y penawd "Fflachiau o'r Byd Ysbrydol" gan y fath enwogion a Dewi Emlyn ac Eos Glan Twrch, cofnodais yn ddibetrus yr hanesyn canlynol fel ei cefais gan wraig gyfrifol, yr hon y mae gan weinidog parchus, perffaith adnabyddus o honi, bob ymddiried yn ei geirwiredd:—Wedi i'r wraig grybwylledig un hwyr roddi y goleu allan a gorwedd yn ei gwely, a chyn cysgu clywodd guro cryf wrth ffenestr ei hystafell, a llais yn ei galw wrth ei henw, "L——, cyfod, y mae ysbryd yn y ty." Adnabu y llais fel eiddo ei thad, yr hwn ydoedd wedi marw. Dychrynodd ar y cyntaf, ac ymroddodd i ymguddio dan y dillad; ond yn y man clywai guro cryf drachefn, a'r un llais yn galw megys o'r blaen, "L——, cyfod, y mae ysbryd yn y ty." Y tro hwn teimlodd ei hun yn ymwroli. Cododd, aeth at y ffenestr, yno gwelodd ei thad yn sefyll o'r tu allan, a chlywodd ef yn dywedyd wrthi drachefn y drydedd waith, "L——, cyfod, y mae ysbryd yn y ty." Pan edrychodd, wele, yr oedd talcen y ty yn dechreu fflamio gan dân. Galwodd eraill o'u gwelyau. Taflwyd hufen a llaeth, fel y gwlybyron hawddaf eu cael, yn gyntaf ar y tân, ac wedi cario hefyd lawer o ddyfroedd llwyddwyd i'w ddiffoddi cyn gwneuthur o hono niwed mawr. Felly, trwy genad o'r byd ysbrydol, gwaredwyd y teulu y tro hwn rhag y fath anffawd fawr ag a'u goddiweddodd yn flaenorol, sef llwyr losgi eu ty a'u dodrefn.

Wrth fyned o'r parthau hyn i Oshkosh elai ein cerbydres yn gyflymach nag arferol am ei bod haner awr yn ddiweddar, ond medrodd dau hogyn drygionus beri iddi aros ar y ffordd lawn haner awr arall tra fu y *conductor* ac eraill yn taflu ymaith y mur o goed a cheryg a godasant ar draws y reiliau, ac yn rhedeg tua thri lled cae i'w dal hwythau. Eu dal hefyd a wnaed, a chrïent yn arw wrth gael eu dwyn yn garcharorion i'r gerbydres. I ba le yr aed a hwy, a

pha beth a wnaed iddynt ni chlywais, ond cawsant *ride* yn rhad i rywle yn wobr am eu gwaith; pe buasent wedi codi y mur hwnw yn min nos gallai y canlyniadau fod yn ddifrifol.

YN SWYDD WINNEBAGO.

Saif y sîr hon ar ochr orllewinol llyn prydferth Winnebago, 35 o filldiroedd o hyd, a haner hyny o led. Gwlad hyfryd yr olwg arni ydyw. Ar ol talu ymweliad â'r parthau amaethyddol, yn y rhai y mae llawer o'n cenedl ni, aethum i dref hardd Oshkosh (p. 16,000), lle y mae marchnad goed yn flodeuog.



LLWYFEN Y CYTUNDEBAU.

Tua 15 milldir yn mhellach i'r gogledd y mae Neenah a Menasha, dwy dref ar ben uchaf Llyn Winnebago, yn sefyll y naill ar bob tu i Afon Fox, yn nghanol yr hon y mae Ynys Dotty, milldir a haner o hyd wrth haner hyny o led, ac ar yr hon y mae gorsaf y reilffordd wedi ei hadeiladu fel ag i ranu yn gyfiawn rhwng y ddwy dref. Y mae y lleoedd hyn, ar gyfrif eu safle hyfryd, yn gyrchfa ymwelwyr lawer yn yr haf, a medda rhai o'u gwrthddrychau gryn ddyddordeb hanesyddol, yn mhlith y rhai mae Llwyfen y Cytundebau *(Treaty Elm)*, dan yr hon gynt y cyfarfyddai penaethiaid y gwahanol lwythau Indiaidd â'u gilydd, ac wedi hyny â'r gwynebau llwydion i wneud eu "siarad mawr" ac i ffurfio cyfamodau. Byddai yn

werth i un fyned i'r ffactri goed sydd yma i weled ystwc yn cael ei wneud yn gwbl oll mewn eiliad, triugain bob mynyd; neu weled olwyn cerbyd, yn fothau, ysbogau, cantau, a chwbl oll, yn cael ei gwneud mewn llai o amser nag a gymer i ti, ddarllenydd, ddarllen hyn am dani.

Y DIWYGIWR YN AWR

Gan ei fod yn gymeriad nodedig ar gyfrif y nerthoedd a fu yn gweithio ynddo gynt, ei fod yn adnabyddus i filoedd yn Nghymru ac yn America, a'i fod yn preswylio gerllaw y ty y lletyais ynddo yn ardal Oshkosh, dymunais ddanfon am dano; yntau yn ddinag a ddaeth—dyn mawr, llyfndew, a'r ychydig wallt ag oedd ar ei ben yn hollol wŷn. Ymddangosai yn hen ŵr graenus, er nad ydoedd lawn haner cant oed, ac yn fywiog a siriol iawn ei ysbryd. Ar fy nymuniad rhoddodd i mi grynodeb da o hanes ei fywyd. Wedi adrodd am ei lafur yn nglŷn â'r adfywiadau crefyddol gynt, ychwanegai:—

"Ar ol hyn aethum yn rhy wan i bregethu yn gyhoeddus. Bum bedair blynedd yn lletya yn Aberystwyth heb bregethu dim, a bum yn pregethu drachefn yn achlysurol yn y gylchdaith hòno. Yn y flwyddyn 1868 aethum i ddarllen ac i ysgrifenu fy ngolygiadau ar y Prophwydoliaethau. Nid oedd genyf y pryd hwnw flas ar ddim arall. Yn niwedd y flwyddyn hòno ysgrifenais lythyrau at y Pab ac at Napoleon III. Cyhoeddwyd hwy yr amser hwnw yn *Maner ac Amserau Cymru*, a'r pryd hwnw y dechreuodd pobl ddweyd fy mod yn ymddyrysu yn fy synwyrau."

"Pa beth oedd y llythyrau a ysgrifenasoch at y Pab?"

"Ysgrifenais ato naill ai y byddai farw yn fuan neu y deuai terfyn buan ar ei allu tymorol yn y byd. Yn niwedd y flwyddyn 1868 yr ysgrifenais hyn at y Pab, ac yn niwedd y flwyddyn 1869 cyflawnwyd fy mhrophwydoliaeth i'r llythyren, canys dygwyd oddiarno y pryd hwnw bob llywodraeth dymorol ar y ddaear."

"Pa beth a ysgrifenasoch at Napoleon?"

"Ysgrifenais ato ef dri o lythyrau. Dywedais yn un o honynt fy mod yn ei weled yn eistedd mewn cadair freichiau yn urddasol iawn, a dyn llygeidiog a milain yr olwg arno yn sefyll wrth ei gefn—fy mod yn ei weled ef (Napoleon) a'i fryd ar godi, ond os codi a wnai y cymerai y dyn llym hwnw ei le, ac na chaffai efe y gadair byth

mwyach. Y dyn llym hwnw, fel y deallais wedi hyny, ydoedd M. Thiers, yr hwn a gafodd y gadair arlywyddol yn lle Napoleon."

"Pa sut yr oeddech yn gweled pethau fel yna?"

"*Second sight* y geilw yr Ysgotiaid y peth. Nis gallwn y pryd hwnw feddwl yn ddifrifol am ddim heb ei weled yn rhyw ffurf o fy mlaen. Pa bryd bynag y meddyliwn am Napoleon byddwn yn ei weled dan rhyw ffurf, a byddai yn argyhoeddiad trwyadl yn fy meddwl fod y ffurf hòno i'w golygu fel arddangosiad sicr o'i ddyfodol, ac ni chawn lonydd gan yr ymddangosiadau hyn nes ysgrifenu ato, ac yn wobr am fy ngwaith cefais gartref yn Caerfyrddin, lle y bum nes y gorchfygwyd Napoleon ac y cyflawnwyd fy rhagfynegiadau am dano. Pan welodd fy nheulu fod y pethau hyn wedi dyfod i ben, danfonasant am danaf i ddyfod drosodd i America. Bum ddwy flynedd wedi hyn gyda fy rhieni, ond gan fy mod yn y cyfamser yn ysgrifenu llythyrau at Mr. Gladstone, credodd fy nheulu eto fy mod yn ymddyrysu."

"Pa bethau oeddech yn ysgrifenu at Mr. Gladstone?"

"Ysgrifenais ato fod y mil blynyddoedd yn agos, a rhoddais ddesgrifiad o honynt allan o'r Prophwydoliaethau. Mewn canlyniad i hyn cefais fy ngosod yn yr *hospital* yn Oshkosh. Defnyddiwn fy amser yno i ddarllen ac i ysgrifenu ar y Prophwydoliaethau. Dywedai Dr. Kempster (arolygwr y sefydliad) fy mod yn *all right* yn mhob peth ond ar bwnc y Prophwydoliaethau. Wrth gwrs, nid oedd efe yn deall dim am y rhai hyny. Dywedai y gallwn fyned allan cyn pen dau fis ond i mi daflu y pynciau hyny allan o fy meddwl; ond, a dweyd y gwir, teimlwn fod yno y fath le da, a bod ynof finau y fath hoffder at y pynciau, fel nad oedd arnaf frys i ymadael â'r naill na'r llall. Dim ond gofyn am len o bapyr i ysgrifenu rhywbeth ar Lyfr Datguddiad byddent yn fy marnu yn nyfnder fy nyryswch.

"Yn mhlith llawer eraill a ddaethant i fy ngweled yn y lle hwn yr oedd y Tad O'Malley (un o gedyrn yr eglwys Babaidd), dirwestwr selog ac enwog. Ar ei ddynesiad ataf dywedais wrtho, '*Ostendo nobio misseracordium Domine*' (Dangos i ni drugaredd, fy Arglwydd). Cawsom gyd-ymddyddan twymngalon—efe yn fy holi i a minau yr un modd yn ei holi yntau. Pan oedd yn ymadael â'r *ward* dywedodd yr *attendant* wrthyf am roddi iddo ffarwel yn Lladin,

Dywedais wrtho, '*Dominus vobiscum*' (Yr Arglwydd fyddo gyda thi). Yntau, gan godi ei law ataf, a atebodd yn hirllais, '*Et cum spiritu tuo*' (A chyda'th ysbryd dithau)."

"Mewn dirgel ffyrdd mae'r uchel Ior yn dwyn ei waith i ben."

"Mewn dirgel ffyrdd" yr arweiniodd ei was hwn. Llawer impyn diddawn, didalent, a diwerth a geir yn arolygu eglwysi mawrion, yn mwynhau bywioliaethau breision, a chanddynt enw o fod yn rhywrai mawr; a'r gweinidog ymdrechgar, yr hwn yn moreu ei ddyddiau a wnaed yn offerynol i droi canoedd o gyfeiliorni eu ffyrdd, wedi gorfod treulio amser maith a'i draed megys yn y cyffion, a'r hesg wedi ymgylymu am ei ben, ac yn awr yn weinidog i eglwys fechan a dinod, ac eto dywedir fod rhywbeth yn hynod ynddo—fod ei weddi y nos Sabbath blaenorol megys yn anorchfygol. Pwy a ŵyr na chyfyd Duw ei was hwn i wneud mwy o waith nag hyd yn nod a wnaed trwyddo.

I SWYDD WAUSHARA.

Yn Neenah cymerais y gerbydres i fyned tua 50 o filldiroedd yn orllewinol i Waupaca. Nid oedd ond newydd-deb gwlad yn nodweddu y ffordd hon—arloesdir *(clearings)* newyddion, ffermydd newyddion, adeiladau newyddion, a phentrefi newyddion; ond coedwigoedd hen yn taflu eu delwau dyfnddu i'r corsddyfroedd gloywddu hen a orchuddient y ddaear. Am y tro cyntaf erioed gwelais gloddiau neu *fences*, neu beth bynag y dylid eu galw, wedi eu gwneud yn unig o gyffion gwreiddiog *(stumps)* wedi eu tynu o'r ddaear a'u gosod yn rhesi hirion ochr yn ochr â'u gilydd, a'u gwraiddgeinciau, rhai yn gydblethedig, eraill yn estynedig tuag i fyny a thuag allan, yn gwneud cuchiau mor gâs fel yr wyf yn meddwl y byddai yn anhawdd gan unrhyw bedwar-carnol feddwl am neidio drostynt. Y mae Waupaca yn dref fechan flodeuog mewn gwlad brydferth ar làn cadwen o bedwar llyn, darlun un o'r rhai a welir ar y tudalen nesaf.

Gan nad aethum y dydd blaenorol yn ol dysgwyliad y cyfeillion yn sefydliad Cymreig Wild Rose, y rhai yn garedig a ddanfonasant i gyfarfod a mi, nid oedd genyf yn awr ond ei throedio tuag yno, 15 milldir i gyfeiriad deheuol. Yr oedd yr hin yn gynes a'r ffordd yn dywodog; chwysais lawer, ac yfais lawer o ddwfr o bydewau y trigolion, a dwfr iachus ydoedd. Mor hoff oeddwn wedi myned o'r

elfen adfywiadol hon fel, pan agos i ben fy siwrnai, y derbyniais yn ddiolchgar wahoddiad a gefais gan lyn prydferth mewn llanerch neillduedig, dros, i ymdrochi ynddo, ac, ag eithrio y dyn a gafodd ei olwg wrth ymolchi yn Llyn Siloam, y mae yn amheus genyf a gafodd neb fwy o fendith mewn llyn nag a gefais i yn y llyn cyfeillgar hwn. Daethum o hono gan ddiolch i'r Bod Mawr am ryddid felly i



LLYN HICKS, GER WAUPACA, WIS.

ddefnyddio dwfr ac i ymgofleidio â natur hawddgar heb ein llesteirio gan gyfreithiau dynion. Dair blynedd yn flaenorol cerddais dair milldir allan o dref fawr yn Lloegr gan chwilio am le i fyned i ymdrochi i afon fawr ag oedd yn rhedeg o fewn lled cae ataf ar fy ne; ond yn mhob lle yr ymddangosai mynedfa ati gwelwn astell wen ac arni lythyrenau duon mawrion a bygythiol, "*Trespassers will be prosecuted.*" Os oedd Rhoddwr pob daioni, Tad caredig ei holl blant, wedi bwriadu i'r afon rydd-lifeiriol hôno ar ei thaith i'r môr fod yn adloniant i'w greaduriaid, cefais i fy ysbeilio o'm hawl. Dychwelais gyda theimladau chwerwon, a meddyliais am ddiwrnod

yn yr hwn y ca llawer o'n boneddigion gorafaelgar weled mewn goleuni arall y frawddeg ofnadwy, "*Trespassers will be prosecuted.*"

Sefydliad Pine River, neu Wild Rose, neu Indian Land, fel y geilw rhai ef, ydyw y sefydliad Cymreig mwyaf gogleddol yn Wisconsin. O hwn aethum trwy sefydliad Cymreig arall tua pharthau Berlin, tref 20 milldir i'r dwyrain; oddiyno i Milwaukee.

AT AC AR AFON WISCONSIN.

Cymerais daith yn nesaf dros led Talaeth Wisconsin, sef o Lyn Michigan at Afon Mississippi. Wedi myned trwy wlad amaethyddol, brydferth, heibio tref fechan a hardd Beaver Dam, ar lyn Beaver, a thrwy bentrefi Randolph a Cambria, disgynais yn Portage City (p. 5,000), gerllaw i'r hon y mae camlas, milldir a haner o hyd, yn cysylltu afonydd Wisconsin a Fox â'u gilydd, ac felly gwneuthur ffordd fordwyol o Green Bay, Llyn Michigan, i Afon Mississippi. Tua phum milldir yn ddeheuol o Portage City, hwnt i afon Baraboo, y mae sefydliad Cymreig Caledonia.

Dwy-ar-bymtheg o filldiroedd yn orllewinol o Portage City y mae Kilbourn City, yr hon, fel ugeiniau o *cities* gorllewin America, nid ydyw amgen na phentref. Yma y disgynir o'r gerbydres i fyned ar yr ager-fad bychan a hardd Dell Queen, i weled rhyfeddodau Afon Wisconsin, yr hon sydd afon ryfedd yn wir, nid ar gyfrif ei maintioli na phwysigrwydd hanesyddol na masnachol, ond ar gyfrif ei ffurfiad anesboniedig mewn gwely rhamatus o dywodfaen. Y mae y creigiau a ymgodant yn uchel a serth yn ac oddeutu yr afon wedi ymffurfio yn bob rhyw luniau, megys adeiladau, colofnau, delwau, llongau, simneiau, ac amrywiol ffurfiau eraill—rhai yn noethion ac eraill wedi eu gwisgo â mwswgl ac â rhedyn. Yr afon ei hun hefyd sydd ryfeddol yn ei gorweddiad. Mewn manau gorwedda megys ar wastad ei chefn, a'i harwyneb gloywddu, llydan, mawr yn adlewyrchu glâs llon y nefoedd rhwng delwau duon creigiau mud. Mewn manau eraill gorwedda megys ar ei hochr; ei dyfnder yn gan' troedfedd, a'i glanau serth mor gyfagos fel ag i dywyllu rhyngddynt. Y mae ganddi hefyd y troadau mwyaf sydyn, a rhanau o'i dyfroedd yn rhuthro trwy dyllau a rhwng cilfachau, fel ag i wneud rhydau, rheiadrau, a chwympiadau hynod. Gormod yma fyddai desgrifio y gwahanol wrthddrychau dan eu gwahanol enwau, megys Clogwyn

Rhamant, Craig y Simnai, Ogof Adsain, Tafarn Allen, Culfan y Capel, Llongborth, Elin y Diafol, Cadair freichiau'r Gwr Drwg, Pant y Gwrachod, Ystafell y Ddrychiolaeth, Trieni y Dyn Tew (yr hwn sydd gulfan rhwng y creigiau), a llawer o enwau awgrymiadol eraill.

"How were all those wond'rous objects formed among the pond'rous rocks?
Some primeval grand upheaval shook the land with frequent shocks;
Caverns yawned and fissures widened, tempests strident filled the air,
Madly urging foaming surges through the gorges opened there;
With free motion toward the ocean, rolling in impetuous course,
Rushing, tumbling, crushing, crumbling rocks with their resistless force;
And the roaring waters, pouring on in ever broad'ning swells,
Eddying, twirling, seething, whirling, formed the wild Wisconsin Dells."

O'R WISCONSIN I'R MISSISSIPPI.

O amgylch Afon Wisconsin, ond yn benaf y tu gorllewinol iddi, y mae gwlad o ffurfiad gwahanol i bob rhyw wlad arall a welais. Gwastadedd eang ydyw, gyda chreigfryniau cryno yma a thraw yn ymgodi bron yn uniawnsyth, rhai o honynt yn ganoedd o droedfeddi o uchder. O ran maintioli amrywiant o'r golofn fain hyd y bryn o amrai erwau oddiarnodd. Safant, rai yn agos at eu gilydd, ac eraill yn mhell ac unigol, filldiroedd oddiwrth bob un arall. Gorchuddir hwy yn brydferth gan goed a gwyrddlysiau, eraill yn noethion; ac y mae ganddynt hwythau enwau tarawiadol, megys y Graig Unig, Gefaill-glogwyni, Simnai y Gwr Drwg, &c. Ond pa fodd y daeth y creigfryniau rhyfeddol hyn i fodolaeth? a pha bryd? Pa beth a allai fod barn yr hen gynfrodorion am danynt? Os oeddynt hwy yn debyg i'n cyndadau ni, nid anhebyg mai eu penderfyniad arnynt oedd ddarfod i rhyw gawr anferthol, wrth ymdaith y ffordd hon, eu cael yn ddamweiniol yn llogell ei wasgod, neu yn ei esgidiau yn dolurio ei draed, ac iddo eu hysgwyd allan yma. Y mae y creigiau hyn, fodd bynag, yn dwyn arwyddion eglur eu bod filoedd o flynyddoedd yn ol wedi cael eu golchi a'u treulio gan ddyfroedd geirwon. Y mae arwynebedd y parthau hefyd mor dywodawg, a chregyn, yn nghyda dyfrawl bethau eraill, i'w cael yn achlysurol, fel ag i'w wneud yn eglur fod y wlad unwaith wedi bod yn waelod môr neu lyn mawr, neu, efallai, ddarfod i'w gwahanol ranau ar wahanol gyfnodau fod yn wely i'r Afon Mississippi. Y pryd hwnw ynysoedd oeddynt y creigfryniau a welir. Daear dywodog, wael ydyw y ddaear, a gadawir hi i gynyrchu yn unig frysglwyni a gwylltlysiau. Mewn lle a elwir

Camp Douglas, 32 o filldiroedd yn orllewinol o Afon Wisconsin, y mae y fath gydgyfarfyddiad o'r creigfryniau a nodwyd fel y gallent wneud amddiffynfa filwrol gadarn ac effeithiol.

Aethum trwy y lle olaf hwn droion. Ar un achlysur dygwyddodd yn dro diflas arnaf. Gan fod arnaf flys myned i St. Paul trwy wlad na theithiaswn yn flaenorol, gadawais reilffordd *Chicago, Milwaukee, and St. Paul,* ar holl gangenau yr hon yr oedd genyf drwydded, a chymerais reilffordd arall, gan dybied mai eiddo *Chicago and North Western* ydoedd, oblegid yr oedd genyf drwydded ar holl gangenau hòno hefyd; ond nid hòno ydoedd hon, ac yn hytrach na thalu ar y



reilffordd ddyeithr hon, dewisais gerdded deng milldir yn ol i Camp Douglas i gael y reilffordd a adawais. Yr oedd yn bell yn y nos, heb na lleuad na seren i'm goleuo. Ni welais ar hyd yr holl ffordd unrhyw arwydd o anedd-dy, a chan i mi ddarllen yn y *Guide Book* y dydd blaenoral y sylw canlynol am y parthau hyn, gellir bod yn sicr nad oedd fy rhodfa yn un o'r rhai mwyaf pleserus:—"*Of game, there is superabundance of bears, wolves, deer, foxes, &c.*" Os oedd yno "*superabundance*" o honynt, buont yn ddigon boneddigaidd i adael i mi basio heb fy molestu, a chefais wely yn Camp Douglas tuag un o'r gloch y boreu.

Y lle nesaf y disgynais ynddo ydoedd Sparta, tref fechan a glanwaith mewn gwlad gyfoethog o brydferthion natur. Saif ar un o fanau uchaf y dalaeth, a medda awyr iachusol odiaeth, yn gystal a


dyfroedd meddyginiaethol o enwogrwydd mawr. O ben *Castle Rock*, yr uchaf o'r creigfryniau cyfagos, y ceir golygfeydd pell ac ardderchog i bob cyfeiriad. Wyth milldir i'r deheu y mae sefydliad Cymreig Blaendyffryn. Oddiyma aethym trwy sefydliadau Cymreig Fishcreek a Bangor i La Crosse (p. 15,000) ar lan Afon Mississippi, 196 o filldiroedd yn orllewinol o Milwaukee. Wrth agosau at La Crosse, bron na theimlwn mai ar un o reilffyrdd Cymru yr oeddwn, oblegid gwyrddlysiau Cymreig, megys rhedyn, banadl, hosanau'r gwcw, &c., oeddynt i'w gweled ar bob llaw. Yr oedd y bryniau hefyd a'r coed, y ceryg, y pridd, a phob peth ond dynion, yn siarad Cymraeg, ac yr oedd yn dda genyf eu clywed.

Y MISSISSIPPI UCHAF.

Yn La Crosse cymerais y gerbydres a redai ar hyd glàn orllewinol y Mississippi i fyned can belled a Minneapolis, 139 o filldiroedd i'r gogledd. Wedi myned dros bont hir, cefais fy hun ar ochr Minnesota i'r afon. Nis gallwn dros ran o'r daith weled ei glàn dwyreiniol gan fel yr oedd ynysoedd bychain a mawrion o amryw ffurfiau ac yn orchuddiedig gan wyrddgoed tew yn cysgodi rhyngof a hi. Yr ydoedd i'r aml ynysoedd hyn ymddangosiad paradwysaidd. Y fath hyfrydwch fyddai cael yma breswylfa lonydd i ymgymdeithasu yn gariadus â natur hardd yn symledd ei gogoniant; ystyried amrywiaethau ei dail a'i blodau, a gwylio eu gwenau llon wrth dderbyn yn ddyddiol o gyfrinion adfywiol yr haul; gwrandaw yr adar bychain yn canu clodydd i'w Creawdwr yn gymlheth â sïanau yr awelon; ac islaw'r gerdd yn cael ei seinio gan ru yr afon ddofn! O Dduw! dyro allu i'th fwynhau di yn amledd diderfyn dy weithredoedd. Ni welid yma, er hyny, na ffermydd nac anedd-dai fel y gwelid ar ynysoedd y Susquehanna. Yr achos o hyn yn ddiau ydyw fod yr ynysoedd yn achlysurol yn cael eu gorlifo.

Pan ddaeth llawn led yr afon i'r golwg, gwelais ei bod ar y cyfan tua milldir o làn i làn, a golygfeydd arddunol o fryniau creigiog a choediog ar ei deutu, gydag ager-fadau, rafftiau, &c., yn nofio arni. Ger Minnieska, ychydig islaw Winona (p. 11,000), y mae creigiau o ffurfiad ardderchog. Ar gyfer Wabasha dechreuodd yr afon ymddangos yn llyn pum' milldir o led. Gelwid hi yno yn Llyn Pepin. Ymestynai hyd Frontenac, 30 o filldiroedd uwchlaw. Yna gwelir hi

eto yn ei lled naturiol ei hun. Bu amgylchoedd Llyn **Pepin** yn gartref yr hen drigolion cyn-Indiaidd hyny a elwid *mound-builders.* Y mae eu beddrodau hynod yn britho y parthau **hyd**



LAKE CALHOUN (MINN.) AND SCENE ON THE DALLES OF ST. CROIX, REACHED VIA "ALBERT LEA ROUTE."

heddyw. Bu Wabasha hefyd yn brif ddinas llwythau Sioux a Dakota. Ac yma, yn eu rhisgl babell *(wigwam)* genedlaethol, yr eisteddai eu penaethiaid mewn cynghorau difrifol ar achosion o

ryfeloedd a hawliau. O ben unrhyw un o'r clogwyni uchel sydd o Wabasha i Frontenac, yr enwocaf o ba rai ydyw y Dorth Siwgr, ger Lake City, y gellir gweled holl eangder Llyn Pepin a'i ogoniant.

Y mae hanesynau a chwedlau Indiaidd lawer yn nglŷn â'r parthau hyn. Er engraifft, dyna Graig y Forwyn, lle y darfu i Comona brydferth, wedi i'r penaeth mawr, ei thad, ei diweddio yn wraig i ryfelwr dewr o lawer o bengrwyn, ond un na fedrai hi ei garu, osod terfyn ar ei gofid trwy fwrw ei hun i lawr i fynwes ddystaw, lonydd y Mississippi. Wedi myned trwy Redwing (p. 6,000) ac i Hastings, gerllaw i'r lle yr ymarllwysa Afon La Croix i'r Mississippi, aeth yr olaf yn llai, a gwylltineb ei hamgylchoedd yn llai, ond ei thynerwch a'i thlysni i'm golwg i yn fwy.

ST. PAUL.

Nid anghofiaf yn fuan yr olwg gyntaf a gefais ar ddinas ddyrchafedig St. Paul fel yr ymddangosai yn y pellder. Y mae dyffryn tlws Mississippi yn rhedeg yn uniawn dros bellder mawr at y bryniau y saif dinas St. Paul arnynt. Yr oedd gorchuddlen *(veil)* deneu wen y pellder, a'r goleuni wedi ei thaenu mor annesgrifiadwy o brydferth dros yr afon risialaidd, y dyffryn llydan gwyrdd, a'r coed, y rhai nid oeddynt rhy agos at eu gilydd, a rhwng y rhai ac uwchlaw y rhai y gwelid pinaclau ardderchog y ddinas yn ymgodi draw, nes yr ymddangosai yr holl olygfa, yn ddinas, bryniau, coed, dyffryn, ac afon, fel pe yn disgyn i lawr o'r awyr. Tebycach ydoedd i weledigaeth neu freuddwyd hyfryd nag i wir ddaear. Sonir am weithiau arlunwyr a phaentwyr, ond yr Hollalluog am waith! Nid oes ei fath ef yn mysg y duwiau, na gweithredoedd fel ei weithredoedd ef. Os na bydd i ti, ddarllenydd, gael yr olwg awyraidd yna ar St. Paul o'r cyfeiriad hwn, bydd y bai naill ai ynot ti neu yn ansawdd anffafriol yr awyrgylch ar y pryd, oblegid y cyfryw ydynt y cyfnewidiadau fel y methais inau gael yr un fath weledigaeth pan aethum yno ar ol hyn. St. Paul (p. 42,000) ydyw prif ddinas Talaeth Minnesota. Saif ar fryniau heirdd ar lân y Mississippi, yn croesi yr hon y mae un o'r pontydd rhyfeddaf, yn arwain ar i fyny o gopa craig ar y lân arall i gopa craig llawer uwch ar ochr St. Paul.


Cefais yn flaenorol gipdrem frysiog ar Indiaid Cochion, ond yn St. Paul y cefais y cyfleustra cyntaf i fanylu tipyn arnynt. Deuent yno

a chrwyn anifeiliaid gwylltion i'w gwerthu neu i'w cyfnewid am nwyddau pobl wynion. Ceisiai y *squaws* (gwragedd) ymwisgo yn niwyg gwragedd gwynion, ond eu bod yn fwy afler gyda *mocassin* (esgidiau o grwyn melynion) am eu traed, a dim ond gwallt rhawnaidd hir a llaes am eu penau. Gellid gweled o bell mai Indiaid fyddent wrth eu hysgogiadau. Cerddent yn gyflym pan gerddent, y naill ar ol y llall. Safant yn sydyn pan safent, a hyny mor uniawn a pholion. Troent eu gwynebau i edrych dros gyfeiriad eu hysgwyddau. Cychwynent ar ol hyny yn chwimwth, fel wedi darganfod rhywbeth neillduol i fyned ato. Deuent at fur ty, cryment ac edrychent heibio i'w gongl, fel y byddent arferol o lechu wrth gefn coeden neu graig i ysbïo am elyn neu helfa. Yn lle eistedd, crwcwdent ar y ddaear nes byddai eu penliniau cyfuwch a'u genau. Meddant wynebau mawrion o liw rhuddgoch, edrychiad meddylgar, difrifol, a phenderfynol. Y mae, er hyny, gryn amrwyiaeth llinellau yn eu gwynebau yn arddangos amrywiaeth meddyliau, galluoedd, a thueddiadau. Yn hyn y maent yn wahanol i'r Negroaid, canys y maent hwy yn llawer mwy unffurf.

MINNEAPOLIS.

Prin ddeng milldir yn uwch i fyny ar y Mississippi, lle y mae rheiadrau rhyfeddol St. Anthony, y mae chwaer i ddinas St. Paul, ieuengach, er hyny grefach a glanach, na hi, sef Minneapolis (p. 48,000). Bu hon yn hynod o ffodus yn ei dewisiad o le i osod ei hun i lawr, o gymaint ai fod yn lle hardd ac iachus, ac y mae hithau wedi cyflunio ei hun mewn dullwedd hawddgar arno, gyda heolydd llydain a glân ac adeiladau rhagorol. Medda y manteision dyfrawl goreu allan, y rhai a ddefnyddir i droi y lluaws melinau mawrion, un o ba rai ydyw y felin flawd fwyaf yn y byd. Heblaw y melinau, ceir yn y ddinas hon y fath rawnystordai *(elevators)* uchel a mawrion fel y mae yn rhyfeddod i edrych arnynt. Fel y canlyn y gwnaeth un gyfrifiad o'r pethau hyn dair blynedd yn ol:—"Y mae yn y ddinas 21 o felinau; gallent falu 15,000 o farilau o beilliaid yn ddyddiol. Yn Ewrop y mae y prif farchnadoedd iddynt. Y mae saith *trainaid* o flawd yn myned o'r ddinas i'r dwyrain bob dydd gyda 125 o farilau yn mhob cerbyd. Gwenith o barthau yr Afon Goch a ddefnyddir yn benaf. Danfonwyd 1,650,850 o farileidiau ymaith yn ystod y

flwyddyn ddiweddaf. Y cynwys o wenith a dderbyniwyd ydoedd 8,103,710 o fwsieli. Byddai hyd yr holl gerbydresi nwyddau a aeth-



LAKE MINNETONKA, NEAR MINNEAPOLIS (MINN.), REACHED VIA "ALBERT LEA ROUTE."

ant allan yn ystod y flwyddyn ddiweddaf uwchlaw 300 o filldiroedd. Pe gwnelid yr holl goed sydd yn marchnadfa goed Minneapolis yn fyrddau troedfedd o led a modfedd o drwch, a'u gosod wrth benau eu gilydd, amgylchent y byd." Y mae y figyrau yn llawer uwch yn awr, canys dinas yn myned ar gynydd cyflym ydyw hon.

Meusydd cynyrchiol gorllewin America, gydag ystordai a melinau fel eiddo Minneapolis, ydynt gynalyddion pobl dlodion Lloegr a Chymru yn gystal ag eraill o wledydd yr hen fyd. A'r rhai hyn hefyd, meddir, sydd yn drygu ffermwyr y gwledydd hyn, trwy dynu prisoedd eu cynyrchion i lawr yn y farchnad. Ond fy meddwl i yw y gall y ffermwyr fod yn dawel ar y pen hwn. Os drygu rhywrai, drygu eu tir-feddianwyr a wna yr ystorfeydd hyn. Nid ydyw o fawr bwys i'r hwn sydd yn talu ardreth am ei dir yn y gwledydd hyn pa un ai llawer ai ychydig fydd ei gynyrchion, na pha un a'i uchel a'i isel fydd y farchnad. Hyd y gall y meistr tir gael allan y swm, myn i'w logell ddiwaelod ei hun yr oll ag fyddo dros ben rhoddi i'w denant, ei ddynion, a'i anifeiliaid foddion cynaliaeth arw, i'w cadw yn gryfion at waith. Gall fod eithriadau anrhydeddus.

Y mae amgylchoedd Minneapolis yn gyfoethog o olygfeydd naturiol mawreddus, rheiadrau, llynoedd, &c., fel y mae pleserdeithwyr yn misoedd yr haf yn dyfod yma wrth y miloedd i bysgota ac i rodiana. Tua thair milldir o'r ddinas y mae "afonig fechan, fywiog, fad" Minnehaha, nid anhebyg i afonydd mynyddig Cymru, wedi cyrhaedd cryn enwogrwydd, yn benaf ar gyfrif y cwymp a elwir Cwymp Minnehaha, yr hyn o'i gyfieithu o'r iaith Indiaidd ydyw "Cwymp y Dyfroedd Chwerthingar." Y mae trem chwerthingar hefyd ar yr afonig, a sŵn chwerthingar ganddi wrth ymddolenu, treiglo, rhedeg, a neidio dros greigiau mawr a graian mân. Wrth agoshau at y cwymp, lleda allan ei godreu a neidia yn mhell yn un llen deneu, ledan, wen, fel y gellir cerdded yn ddyogel rhyngddi a'r graig. Cana—

"I come from fields of frost and snow—my winding way I follow;
I come from where the wild woods grow, I come from hill and hollow;
I foam, I flash, I leap, I dash, I glide with music merry,
O'er pebbles bright, with rainbow light, along the lovely prairie.
Minnehaha, Minnehaha, laughing, laughing Minnehaha,
Minnehaha, Minnehaha, ha ha, ha, ha, ha, ha, ha, ha.

I tremble on the rocky brink—my winding way I follow,
I gleam, I pause, I plunge, I sink into the hidden hollow;
I loudly roar along the shore—I tremble and I quiver;
I rush along, with joyous song, to greet with mighty river.
Minnehaha, Minnehaha, laughing, laughing Minnehaha,
Minnehaha, Minnehaha, ha, ha, ha, ha, ha, ha, ha, ha."

Y penaf o'r llynoedd ydyw Llyn Minnetonka—"dwfr mawr"—15

milldir o Minneapolis. Cyfres ydyw hwnw o 25 o fauoedd, ar y rhai y mae pleserfadau lawer yn nofio, ac o amgylch y rhai y mae



MINNEHAHA FALLS, BETWEEN MINNEAPOLIS AND FT. SNELLING. (MINN.), REACHED VIA "ALBERT LEA ROUTE."

coedwigoedd prydferth yn tyfu, gwestdai rhagorol ar y glanau, ac ymwelwyr yn syllu ar y rhyfeddodau,

Y "WEST."

Wedi dychwelyd tua chan' milldir ar hyd glan y Mississippi can belled a Winona, cymerais gerbydres y *Chicago and North Western* tua'r gorllewin, gan benderfynu, os byddai modd, fynu gweled y "*West.*" Yn nhalaethau New York a Pennsylvania siaradid am bobl Ohio, ganoedd o filldiroedd yn mhellach, fel rhai yn byw yn y *West.* Erbyn dyfod i Ohio dywedid y byddai raid i un fyned trwy dalaethau Indiana ac Illinois i Wisconsin, ganoedd o filldiroedd yn mhellach, i gael golwg ar y *West.* I Wisconsin yr aethum. Ond beth wyddai pobl Wisconsin am y *West?* Nid yno yr oedd. Siaradent hwy lawer am dano, a chan gyfeirio eu bysedd tua chyfeiriad yr afon fawr Mississippi, dywedent ei fod er's blynyddau lawer wedi croesi hòno. Croesais inau hi gan hyny, ond yr oedd y *West* wedi gadael ei glànau am rhyw fangre bellenig tua bröydd machlud haul. Cychwynais o Winona tua haner nos, gan dybio y buaswn erbyn codiad haul megys ar ganol môr o dir yn mhell o drigfanau dynol—heb ffermydd, tai, dynion, nac anifeiliaid gwar i'w gweled. Ond er myned, a myned yn chwyrn, a'r march tân yn carlamu gan ffroen-chwythu a gwreichioni yn ddiflino, yn mhlith ffermydd, adeiladau, a dynion, yr oeddwn yn gweled fy hun yn y boreu fel arferol, ac felly hefyd y parhaodd nes ydoedd yn bell ar y dydd. Erbyn hyn, dechreuwn ameu ynof fy hun a oedd y fath beth a *West* mewn gwirionedd yn bod. Ai nid rhyw greadur chwedlonol yn bodoli yn unig yn nychymyg dynion ydoedd wedi yr oll. Ond tua haner dydd daeth y *West* i'r golwg, ac fel hyn yr ymddangosodd :—Gyr fawr o wartheg—cant, mwy neu lai—yn myned oddiwrth dref St. Peter's ar làn Afon Minnesota, mewn gwlad heb gaeau, cloddiau, *fences*, nac ond ychydig o dai bychain yn bell oddiwrth eu gilydd. Gofynais i orllewinwr cyfarwydd a eisteddai yn fy ymyl, paham yr ydoedd y fath nifer o wartheg i'w gweled yn nghyd. "Gwartheg y dref ydynt," meddai yntau, "yn myned allan i'w porfäau. Gwelwch acw ddyn ar gefn ceffyl. Efe sydd yn gofalu am danynt; efe sydd yn myned a hwy allan, ac yn dyfod a hwy i fewn; ac y mae perchenogion yr anifeiliaid yn talu iddo hyn a hyn y pen am ei waith." Felly hefyd y gwelais ar ol hyn ar y *prairies* yn gyffredinol, oblegid nad oes eto na gwrych nac arall yn gwahaniaethu rhwng ffermydd a ffermydd a rhwng caeau a chaeau. Try pawb yn y gymydogaeth eu hanifeiliaid, yn wartheg, ceffylau,

defaid, &c., i'r yrr gyffredinol, a dynion neu blant, gyda chŵn, yn gofalu am danynt, ac yn gofalu ar fod y darnau yd, gwenith, Indrawn, &c., yn peidio cael eu sathru ganddynt. Gyda hyn o eithriad, y mae ganddynt yr holl wlad. Gallant fyned y ffordd fyd fyw fynont i borthi eu hanifeiliaid. Yr oedd gweled y naill ar ol y llall o'r gyrroedd hyn, a hyny mor bell oddiwrth eu gilydd, yn dwyn i fy meddwl yr hanesion a geir am y dwyreinwyr a'r patriarchiaid gynt yn gyru allan eu deadelloedd pa le bynag y caent borfa.

O! yr eangder o wlad oeddwn yn weled o Minnesota! Daear! daear! daear! can belled ag y gallai y llygad ganfod i bob cyfeiriad. Môr digyfor o ddaear! ïe, mwy na môr o lawer. Y mae y môr yn diflanu o olwg y fan acw—y mae y terfyngylch *(horizon)* yn ymddangos mor agos; ond am y *prairies* mawrion hyn, parhânt i ymestyn draw, draw, yn bell, bell i "rywle byd." Y mae yn syndod meddwl pa fodd y meddyliodd neb erioed am wneud byd mor fawr. Nid yw y llygad yn cael ei foddloni o gwbl wrth edrych ar y môr; teimla y gallai weled yn mhellach o lawer pe bae godrau yr awyr yn cael ei chodi neu ei thynu y naill ochr. Ond y mae yr olwg ar yr eangdiroedd hyn yn peri iddo ddweyd "Digon." Y mae yn gweled mor bell fel y mae yn eithaf sicr nad oes ganddo nerth i weled yn mhellach. Diflana y pellafoedd o olwg, nid ar unwaith a diseremoni fel y gwnant ar y môr, ond yn raddol, tyner, cariadus, a thoddedig. Gesyd natur dros ei gwyneb orchuddlen *(veil)* deneu, deg o liw llwydwyn, gyda gwawr felen, dlos, a chan wrido dani yn min nos rhydd *good night* lednais, gariadus, a hardd.

Nid gwastadedd hollawl ydyw y ddaear. Ymgyfyd yn fryniau neu yn hytrach yn chwyddiadau graddol, mwyn fel llyfndònau'r môr. Y mae yr ychydig adeiladau a welir gyda'u coedlanau o lwyni neu resi o *boplars*, *cotton-wood*, *maple*, &c., o blaniad dynion, yn gystal ag ambell ribynau o goed bychain a dyfant ar lànau y nentydd, yn rhoddi i'r wlad ymddangosiad dymunol. Tua'r parthau hyn y mae ffrwd ymfudiaeth y dyddiau hyn. Pan fydd y wlad hon wedi ei phoblogi yn dda a'i dwyn i raddau uchel o ddiwylliant, gyda ffermydd wedi eu trefnu, caeau, adeiladau, trefi, prif-ffyrdd, palasau, a pherllanau ffrwythlon yma a thraw, gellir bod yn sicr y bydd yn dda odiaeth yr olwg arni. Yn St. Peter's (p. 4,000), tref ieuanc, hardd, wedi ei gosod yn wasgaredig mewn llanerch baradwysaidd o

goedlwyni, 436 o filldiroedd yn orllewinol o Chicago, yr oeddem yn croesi Afon Minnesota, amgylchoedd bryniog a choed prydferth glànau yr hon oeddynt yn tori yn ddymunol ar unffurfiaeth y *prairies.*

PETHAU BLINION.

Tua 29 o filldiroedd yn orllewinol o St. Peter's y mae New Ulm (p. 3,000), yn ac o amgylch yr hon y mae trefedigaeth o Germaniaid. Dywedir fod yr ymsefydlwyr cyntaf oll yn gynwysedig o Rydd-feddylwyr *(Freethinkers)*, math o anffyddwyr, a bod eu casineb at bob math o grefyddau mor fawr fel y gwnaethant lw na oddefent i addoldy gael ei godi yn eu plith. A phan, wedi hyn, y daeth pobl fwy crefyddol i'r lle, y fath ydoedd gwrthwynebiad yr annuwiaid iddynt i godi addoldy fel y bu raid cael milwyr i'w gostegu. Y mae yno yn awr Eglwys Babaidd a dau gapel Protestanaidd. Annuwiaeth y bobl hyn, *yn ol rhai*, sydd wedi tynu ar y lle y barnau trymion a brofwyd o dro i dro. Yma, yn 1862, y bu waethaf gyflafan ofnadwy yr Indiaid, y rhai a laddasant mewn gwaed oer laweroedd o wŷr, gwragedd, a phlant; diangodd y bobl o'r dref a'r amgylchoedd; yr Indiaid hwythau, yn ofni atdaliad, ni ddeuent yn agos dros amser, ac felly bu y dref, yn cynwys anedd-dai dodrefnedig, siopau, ac ystordai llawn o nwyddau, heb un trigianydd dynol yn agos atynt. Y bobl wynion a ddaethant gyntaf, gyda milwyr. Codwyd amddiffynfa, ar yr hon y gwnaeth yr Indiaid ymosodiad egnïol, ond aflwyddiannus. Wedi gorchfygu yr Indiaid, a dal o dri i bedwar cant o honynt yn garcharorion, ofnai y Cadfridog Sibley eu cymeryd trwy New Ulm rhag i'r bobl godi a'u baeddu ar y ffordd, am hyny ceisiodd ymgadw draw, gan fyned heibio ar hyd ffordd arall fwy cwmpasog, ond cyfarfuwyd â hwy yno gan dyrfaoedd o wragedd a phlant, y rhai, er gwaethaf bygythion y Cadfridog, a barasant i gawodydd o geryg syrthio ar benau y crwyn cochion.

Ymwelwyd droion â'r parth hwn, yn gystal ag â pharthau eraill yn y gogledd-orllewin, gan heidiau dinystriol o locustiaid *(grasshoppers)*. Rhydd gohebydd y *Cincinnati Commercial* y desgrifiad canlynol o honynt:—"Tranoeth aethum trwy dair haid o honynt, pob un tua haner milldir o led. Yn y ty yr arosais i gael ciniaw ynddo, eisteddai y ffermwr yn ddrych o anobaith, tra yr oedd ei wraig a'i ferch yn wylo ac yn curo eu dwylaw yn nghyd o wir ofid.

Gorweddai eu fferm yn union yn llwybr y dinystrwyr, a chan fyned gyda hwy i'r cae gwenith, yr hwn ydoedd yn awr yn troi yn felyn i'r cynhauaf, gwelais y pryfaid yn ymarllwys iddo o'r tu gogleddol yn fil-fyrddiynau o rifedi gyda rhu gwae-ddaroganawl. O'u blaen yr oedd *prairies* gwyrddion a meusydd melynion o yd; o'u hol, duwch, anghyfanedd-dra, a marwolaeth. Gwelais hwy drachefn yn heidiau mwy, ac yn ehedeg yn uwch yn yr awyr, lle yr ymddysgleirient yn y pelydrau megys darnau o bapyr gwyn a melyn."

Corwyntoedd dinystriol, a chenllysg hefyd, fu yn curo ar y parthau hyn; y mwyaf oll o'r rhai ydoedd y rhythrwynt erchyll ddaeth dros New Ulm brydnawn y 15fed o Orphenaf, 1881, ychydig ddiwrnodau wedi i mi fod yn y lle. Drylliwyd a chwalwyd heolydd ac adeiladau bron yn llwyr. Byddai cylymau o dri neu bedwar o dai yn cael eu cymeryd ymaith mor llwyr fel na adewid gymaint ag olion o honynt. Collwyd o leiaf ddeuddeg-ar-hugain o fywydau, clwyfwyd mwy na hyny, ac aeth chwech yn wallgof gan gymaint y cyffro, y dychryn, a'r gofid. Lladdwyd anifeiliaid lawer, a byddai hyd yn nod ceffylau yn cael eu codi i'r awyr yn y gethern. Dywedir fod ceffyl byw wedi ei gael yn mrîg coeden y boreu canlynol. Tua phump o'r gloch yn y prydnawn y bu yr ymosodiad mawr. Tywyllodd y dref fel nad allai pobl weled eu gilydd. Yn nghanol y tywyllwch torodd allan fellt a tharanau arswydlawn, gyda swn megys rhythro a chwynfanau yn y cymylau. Yn canlyn hyny, megys ar unwaith, chwyrn-godwyd i'r awyr a chwyrldrowyd trwy eu gilydd wahanol bethau'r ddaear—tai, teisi, celfi, llestri, anifeiliaid, ieir, gwyddau, twrcis, a phob rhyw beth, oll yn cael eu cydgymysgu—to-estyll *(shingles)*, trawstiau, llestri yn cwympo, treiglo, twmblo, rhedeg ar hyd y ffyrdd a thrwy yr awyr, gan glecian a ratlo—ymarllwysiad y gwlaw mawr gyda hyny, fflachiadau y mellt, twrw y taranau, rhuadau y gwyntoedd, ysgrechfeydd dynion, gwragedd, a phlant, brefiadau yr anifeiliaid, a gweryron y meirch—y swn a'r golygfeydd erchyll yn gwneud y gethern megys diwedd byd. Parhaodd y rhythr mawr am tuag ugain munyd, ac yr ydoedd y dymestl yn ddwy filldir o led.

Tua saith milldir o'r lle hwn y mae pen gorllewinol sefydliad Cymreig Swydd Blue Earth. Cafodd y Cymry yno, yn gystal a llawer o bobl dda eraill yr amgylchoedd, brofi ymylon y cawodydd,

a'u gwneud i gryn raddau yn gyfranogion o'r colledion. Collasant rai bywydau yn Nghyflafan yr Indiaid, a llawer o eiddo trwy y locustiaid, y cenllysg, a'r corwyntoedd. Am y locustiaid y maent wedi cilio er's blynyddau; ciliasant ar unwaith, ac nid yn raddol fel o leoedd eraill. Gofynais i amryw beth a allai fod yr achos o'u hymadawiad. Yr oll a ddywedent wrthyf oedd fod rhywbeth yn rhyfedd, dirgelaidd, ac anesboniadwy yn yr oruchwyliaeth: ddarfod iddynt fyned yr un pryd megys trwy gytundeb; ac ychwanegodd un dyn ei fod yn credu iddynt gael eu danfon ymaith mewn atebiad i weddiau y saint.

"A fu y saint mewn rhyw fodd neillduol yn gweddio ar iddynt gael eu gyru ymaith?" gofynais iddo.

"Do," meddai yntau; "darfu i lywodraethwr y dalaeth anfon gorchymyn *(proclamation)* allan ar fod diwrnod o ymostyngiad a gweddi i gael ei gadw i ofyn i Dduw symud ymaith y fflangel hon, ac ar ol hyny ni chawsom ein blino ganddi."

TREFI GORLLEWINOL.

Ceir ar hyd y llinell hon o reilffordd bentrefi bob rhyw ddeuddeg milldir, ac er nad ydynt ond megys er doe, ceir ynddynt bob peth angenrheidiol am brisiau y dwyrain, a danfonir o honynt gynhyrchion y wlad, yn ydau ac anifeiliaid, i farchnadoedd y dwyrain. Gyda'r anedd-dai gwelir ynddynt weithdai, siopau, ystordai, tafarnau, capelau, ysgoldy, &c. Cyhoeddir ynddynt yn gyffredin ddau newyddiadur wythnosol, perthynol i'r ddwy blaid wleidyddol sydd yn y wlad. Anturiaethwyr diwyd a gonest ydynt y preswylwyr hyn gan amlaf. Efallai, er hyny, na ddylid cysylltu yr ansoddair olaf â phawb o'r tir-fasnachwyr a'r tafarnwyr. Gŵyr y bobl fod y gwledydd hyn yn cael eu poblogi yn fuan, fod yma agoriad iddynt hwy o ba alwedigaeth bynag. Y mae moesau y pentrefi a'r amgylchoedd a'r y cyfan yn dda; y rheswm am hyny ydyw mai dynion gweithgar, calonog, yn gosod eu bryd ar fyw yn iawn, ydynt, fel rheol, yn ymwthio i'r pellafoedd hyn. Y mae ganddynt ddigon o le hefyd, fel nad oes achos iddynt achub ar eu gilydd na rhoddi meithrinfa i genfigen na thueddiadau maleisus. Nid oes yn eu plith hudoliaeth i ysbeilwyr; gwell gan y rhai hyny, yn gystal a phob oferwyr eraill, lercian mewn dinasoedd a pharthau mwy poblog, lle y mae ysbail ac ysglyfaeth yn gyflawn-

ach. Cofier mai trefi newyddion parthau amaethyddol y gorllewin a ddysgrifir fel hyn. Am drefi newyddion y rhanau gweithfaol, a'r rhai ydynt yn debyg o ddyfod yn ganolbwyntiau masnach a thrafnidiaeth bwysig, y mae yn wahanol, o gymaint a fod y rhai hyny yn aml, er yn cynwys llawer o ddynion rhagorol, eto yn nythle i bob aderyn aflan, meddwon, lladron, hap-chwareuwyr *(gamblers)*, &c.

Rhywle tudraw i New Ulm y mae Sleepy Eye (Llygad Cysglyd), gerllaw llyn o'r un enw. Y mae enwau rhyfedd ar rai lleoedd. Yn Pennsylvania aethum trwy Aderyn mewn Llaw *(Bird in Hand)*, ac yn Iowa trwy y Cyfleusdra Diweddaf *(Last Chance)*. Yn Nevada y mae *You Bet* a *Red Dog;* enwau perseiniol iawn hefyd megys Shickshinny, Kittakattakon, &c. O ran hyny y mae genym enwau ein hunain a ystyrir gan bobl eraill yn anorchfygol. Ar waith un goruchwyliwr yn rhoddi i mi drwydded ar ei reilffordd, ceisiodd gael fy nghyfeiriad. Rhoddais iddo "Llanfihangel-y-Creuddyn." "*Thlan what? Say it again, please, if you can remember it,*" meddai, gan agor ei lygaid a'i geg yn ddelweddiad o syndod, chwerthin, a phenbleth. Ar fy ngwaith yn cynyg ei ysgrifenu iddo, tynodd allan lèn fwy na *foolscap*, gan ofyn a oedd hòno yn ddigon hir. Ar ein gwaith yn agoshau at le o'r enw *Walnut Grove*, dysgwyliai y teithwyr hiraethlawn gael golwg ar goed; ond nid oedd yno namyn son fod rhywun rhywle gerllaw wedi planu ychydig blanhigion. Enw prophwydoliaethol, gan hyny, oedd yr enw hwnw a seiniau yn felusber yn y wlad ddigoed hòno. Pe gelwid y pentref yn *Walnut Grove City*, byddai Americaniaeth y brophwydoliaeth yn berffaith gwbl. Yn agos i Tracy, tref ieuanc a chynyddol, y mae trefedigaeth fechan o Gymry. Wyth milldir yn ddeheuol o'r lle hwn y mae y golygfeydd llynawl goreu, efallai, yn y dalaeth, cartrefle cynyrchiol y creyr glas, y dwfr-whyad, a'r barcut Twrcaidd.

CEISIO GWLAD.

Wedi gadael Tracy yr oeddem a'n gwynebau tua'r tiroedd ag oedd yn ddiweddar wedi dyfod i'r farchnad. Daeth goruchwyliwr tirawl cwmpeini y reilffordd trwy y gerbydres i gyfarwyddo y rhai oeddynt a'u bryd ar weled a phrynu tir. Rhai felly oedd y teithwyr gan amlaf oll. Dynion ieuainc oedd yn y mwyafrif o lawer, yn mhlith y rhai y byddai parau, megys gwr a gwraig ieuanc. Ac nid ychydig

o ddyddordeb i mi ydoedd gwylio eu gwahanol brydweddion, a cheisio darllen teimladau ar wynebau oeddynt yn awr yn ceisio cartrefi ar gefn y *prairies* mawrion pell, di-dai, di-gaeau, di-goed, di-anifeiliaid, di-ddynion, di-bobpeth, ond daear ac awyr. Wele acw fab a merch, pâr ieuanc y mae yn debyg, mewn dillad trwsiadus, ac yn dwyn pob arwyddion rhai wedi cael dygiad da i fyny; ond y mae gwedd ddifrifol, feddylgar, bruddaidd, a dystaw arnynt ill dau, yn fwyaf neillduol arni hi. Treulia lawer o'i hamser megys yn cysgu ar ei bwys ef. Yn achlysurol cymerai olwg drist dros yr olygfa fawr a ymddangosai trwy y ffenestr, ac yna syrthiai yn ol a'i llygaid yn gauad. Pan ddaeth y goruchwyliwr heibio, dangosasant iddo docynau tir-ymchwiliadol. Edrychwn arnynt fel rhai newydd adael cartref dedwydd gerllaw tref mewn gwlad boblog, dan nawdd rhïeni gofalus, i ddechreu rhwyfo eu cwch eu hunain ar fôr mawr, llydan bywyd. Ar sêt arall, wele bâr ieuanc tra gwahanol o wisgoedd ac ymddangosiad mwy cyffredin, ond yn llawn hyd yr ymyl o fywyd, o lawenydd, ac o ddireidi. Ond hi a ragorai yn hyn eto. Dangosasant hwythau docynau tir-ymchwiliadol, ac edrychwn arnynt fel pobl ieuainc ddiwyd a darbodus, yn myned i wario eu henillion boreuol ar dir i ddechreu byw yn nghyd. Wele eto gerllaw iddynt deulu, cynwysedig o dad a mam ieuainc, gyda phedwar o blant bychain, y ddau henaf o'r rhai fyddent a'u trwynau a'u llygaid wrth y ffenestr, ac yn ddidaw gyda'u paham a'u pa fodd—pa fodd y gallent adeiladu ty heb goed na cheryg yn y wlad?—pa fodd yno y gallent gael afalau, *peaches*, a *cherries*?—a mil o ba foddau eraill, y rhai, er syndod i mi, a atebid oll gan y fam i foddlonrwydd. Wele eto ddau ddyn ieuainc, hwythau hefyd ar yr unrhyw ymgyrch. Edrychwn ar y teithwyr hyn fel rhai y darllenir eu hanes yn mhen oesoedd eto fel *pioneers*—tadau a mamau y parthau hyny o'r wlad. Gymaint hawddach ydyw cael gwlad yn awr nag a fyddai gynt. Er's tuag oes yn ol byddai raid i bobl wedi croesi'r môr fyned i'r coedwigoedd, a byw yn mhell o gyfleusderau reilffyrdd, trefi, a marchnadoedd; a byddai raid i'r oes gyntaf gael ei threulio yn gwbl mewn alltudiaeth, yn tori'r coed i lawr ac yn arloesu'r tir. Yn awr y mae reilffyrdd yn myned o flaen y bobl i wahanol gyrau'r wlad—

> Gwneir cerbydau cyn bod teithwyr, gwneir gorsafoedd cyn bod nwydd,
> Gwneir o'r dwyrain i'r gorllewin yn dramwyfa ryfedd, rwydd.

Y mae y ddaear hefyd yn barod i'w throi âg aradr ar unwaith, ac i dderbyn yr hâd. Gellir prynu tir yn y parthau hyn naill ai gan y Llywodraeth, cwmnïau y reilffyrdd, neu dir-fasnachwyr. Ca un 160 cyfer gan y Llywodraeth am ddolar a chwarter, neu ddwy ddolar a haner y cyfer, yn ol ei agosrwydd at neu bellder oddiwrth reilffordd, neu ca 160 cyfer am blanu deg cyfer o goed arno, neu ca 160 cyfer am drigianu pum' mlynedd arno. Tir y Llywodraeth sydd yn myned gyntaf. Manylir yn helaeth ar y pethau hyn yn y llyfr a fwriedir gyhoeddi ar HANES TALAETHAU UNEDIG AMERICA A'R CYMRY YNDDYNT.

TIRIOGAETH DAKOTA.

Y mae parthau cydiad Minnesota a Dakota yn fwy bryniog na pharthau eraill a welais ar y reilffordd hon. I mi yr ydoedd yr amgylchoedd yn meddu ymddangosiad mynyddig, er mai nid llawer o fynydd ydoedd ychwaith. Yr achos o'r ymddangosiad hwn yn ddiau ydoedd amddifadrwydd y wlad o adeiladau, trefniant a diwylliant tirawl. Wedi pasio Gary, y dref gyntaf yn Dakota, daeth yr arwyneb yn fwy gwastad drachefn. Pan yn sefyll yn ngorsafoedd Chicago a Milwaukee, a gweled y fath dyrfaoedd o dramoriaid, Germaniaid, Norwegiaid, Swediaid, Pwliaid, Gwyddelod, &c., yn llenwi cerbydres ar ol cerbydres am y gorllewin, ac wrth weled yn y newyddiaduron fod cynifer ag ugain mil o'r cyfryw yn myned yn wythnosol trwy Chicago yn unig, teimlwn yn bryderus rhag i'r wlad gael ei gorlenwi yn fuan. Ond erbyn myned i'r gorllewin mawr, a gweled y fath ddiderfyn eangdiroedd, aethum i ddyfalu o ba le y gallai digon o bobl i'w preswylio ddyfod; ac i ba le wedi yr oll yr ydoedd yr holl Norwegiaid, Swediaid, a thafodau dyeithr yn myned? Nid oeddwn yn cael yn yr holl drefi a phentrefi hyn ond Americaniaid gydag ambell un o rhyw rai eraill.

Wedi myned 93 o filldiroedd tuhwnt i Tracy, 619 o filldiroedd o Chicago, cefais Watertown, ar làn yr Afon Sioux, lle y pryd hwnw ag oedd yn ben draw y gangen hon o reilffordd. Nid oedd y dref hon ond dwy flwydd oed. Gosodasid ei hadeilad cyntaf yn Mawrth, 1879. Pan oeddwn i yno yn Mehefin, 1881, meddai 30 o siopau, 2 swyddfa newyddiadurol, 7 gwesty, 3 eglwys, 2 fanc, 1 grawn ystordy *(elevator)*, 5 *timber yard*, 1 ysgoldy, gwerth 4,000 o ddoleri,

a phob peth at gyflenwi angenion y wlad oddiamgylch; anedd-dai a heolydd trefnus, ac yr oedd hyd yn nod palasau yn dechreu gwneud eu hymddangosiad. Engraifft ydyw Watertown o'r llinellau trefi newyddion sydd yn canlyn yr ugeiniau reilffyrdd a dreiddiant trwy wahanol barthau y gorllewin.

Y mae gwlad dda a golygfeydd dymunol o amgylch Watertown. Yn mhlith yr amryw lynoedd y mae un heb fod yn nebpell a elwir Llyn y Fenyw Gospedig *(Punished Woman's Lake)*, cyfieithiad o'r enw Indiaidd. Yr oedd gan benaeth Indiaidd ferch brydweddol a gerid gan ddau benaeth ieuainc. Meddai hithau gariad cryf at y naill, ond gorfododd ei thad hi i briodi y llall. Hithau yn ddiatreg a ffôdd ymaith gyda ei dewis-fab ei hun, yr hyn a barodd i'w gwr digofus benderfynu cymeryd ei farch a'i arfau i chwilio am danynt, a gwnaeth lw na roddai i fyny nes dial arnynt ill dau. Wedi treulio misoedd aflwyddiannus yn yr ymchwil, a phan yn agosau i'w fro ei hun, esgynodd i ben clogwyn i weled ai ni allai eu canfod. Wedi methu, disgynodd yr ochr arall, ac yn sydyn canfyddodd y ddau yn cysgu yn gariadus yn mreichiau eu gilydd. Yn rhy fawrfrydig i ruthro arnynt yn eu cwsg, galwodd arnynt i ddeffroi, a rhybuddiodd y dyn ieuanc i ymbarotoi i'r frwydr farwol. Hwnw, gan ymaflyd yn ei arf a neidio ar ei draed, a ymegnïodd i'r ornest, ond rhy fychan ydoedd ei nerth i wrthsefyll ei elyn llidiog, a syrthiodd yn farw wrth ei draed. Y gwr, wedi trywanu y wraig hefyd yn farwol, fel y tybiai, a ddychwelodd at ei bobl, a mynegodd iddynt yr hyn a wnaethai. Yr hen benaeth, yn drallodus iawn ei fron, a frysiodd tua'r lle, ond yr oedd ei ferch wedi myned oddiyno. Canlynodd hi wrth ôl ei gwaed nes daeth at y llyn crybwylledig, ac yno y cafodd hi yn farw. Cysegrodd lwybr ei gwaed â phalmant o geryg; ac enw y llyn o hyny allan fu "Llyn y Fenyw Gospedig."

Y DAITH I HURON.

I gael y gangen arall o reilffordd y *Chicago and North Western* yr oedd genyf i ddychwelyd can belled a Tracy, yna cymeryd taith orllewinol o 255 o filldiroedd i Fort Pierre ar lan Afon Missouri. Yr oedd y daith can belled a Huron, hwnt i Afon James, yn dyfod a rhai o'r golygfeydd tlysaf i'r golwg—rhai parthau yn wastadeddau pell ganfyddadwy o fath ag a ddesgrifiwyd yn flaenorol; ond tua

pharthau Llyn Benton a chydiad Minnesota a Dakota yr oedd y golygfeydd hyfrydaf i'm golwg i—llynoedd grisialaidd, coedlwyni prydferth, *prairies* agored, gwastadeddau bychain, chwyddiadau graddol, bryniau tlysion o fath a garai y Cymry, oll wedi eu cyfleu mor gymesurol, ac yn canmol eu gilydd mor deuluaidd, nes portreadu yn dra dymunol amrywiol rasusau natur. O! na byddai y Cymry wedi dyfod drosodd mewn pryd a meddiannu y parthau hyn. Diau fod y cyffelyb barthau eto i'w cael gan y Llywodraeth, ond gellir bod yn dra sicr y rhaid cymeryd meddiant o honynt gyda blaenwawr y reilffordd, onide byddant wedi myned.



Ymofynwyd, fel arfer, pa rai o'r teithwyr oeddent yn dymuno cael swper yn Huron, a phellebrwyd am i swper i'r rhai hyny gael ei barotòi. Ond nid oedd swper i fod yr hwyrnos hòno. Pan oedd ein cerbydres ar ganol corslo ddyfrllyd, fawr, lle nad allem yn rhwydd fyned allan, ataliwyd hi gan gerbydres o nwyddau ag oedd wedi myned yn ddrylliau ar y ffordd ychydig oriau yn flaenorol. Yno, gan hyny, y buom o chwech o'r gloch yr hwyr hyd chwech o'r gloch y boreu, heb gymaint ag un ffenestr oleu yn arwydd o dy i'w gweled o unrhyw gyfeiriad. Llawer cylla gwag yn ein plith oedd yn crefu am ei swper, a llawer dysgl lawn yn Huron oedd yn dysgwyl am y bwytawyr, ond y pellder yn rhy fawr i ymgofleidio y noson hòno.

Cogyddion Huron a edrychasant trwy y ffenestri, ac a waeddasant trwy y dellt, "Paham yr oeda y cerbyd ddyfod? Paham yr arafodd olwynion y cerbydau?" Sylwyd arnom oddifry gan y lleuad, a chymerodd yn ei phen i'n dyfyru trwy alw ar y ddaear a'r sêr i ddyfod gyda hi i chwareu *hide and seek.* Tua haner nos tynodd orchuddlen ddugoch, fawr dros ei holl wyneb, fel dros amser na ellid gweled ysmotyn o honi, er fod yr awyr yn glir. Gwnaeth y ddaear hefyd yr un peth i'n golwg ni, oblegid tywyllodd ei goleuni hithau. Daeth miloedd o ser allan i chwilio am danynt; agorent eu llygaid ac ym-fflamychent yn danbeidiach nag o'r blaen. Sêr na welais mo honynt yn amser llawn lloer o'r blaen a ddaethant allan i chwareu a dawnsio o'i hamgylch. Pan wnaeth hi ei hymddangosiad eilchwyl prysurasant hwythau i fyned ymaith. Goleuodd ac ymsiriolodd y ddaear, ac erbyn i'r haul mawr, eu tad hwy oll, ddyfod allan o'i ystafell, yr oeddynt wedi peidio a'u chwareu. Agorwyd y ffordd i ninau fyned rhagom; teimlwyd fod yr olwynion eto yn troi, ac wedi bod hir ddirwest aethom bawb yn gysurol wrth feddwl cael sefydlu ein llygaid, nid ar y lleuad a'r sêr yn chwareu mic, ond ar gogyddion Huron yn hulio ein boreufwyd.

Ychydig cyn cyrhaedd Huron croesasom Afon James, neu Afon Dakota yn ol yr hen enw, yr hon y mae llawer iawn o sôn am ei dyffryn fel gwlad dda odiaeth i ymfudwyr. Ati hi, gan hyny, y mae dylifiant y cenhedloedd yn y dyddiau hyn; ond am y Cymry, yn olaf, fel rheol, y maent hwy yn dyfod i ymofyn breintiau o'r fath—"tran-oeth y ffair." Y mae reilffyrdd yn cael eu gwneud ar hyd y dyffryn hwn o ogledd i dde. Pe cytunai amryw deuluoedd o Gymru a pharthau dwyreiniol America ar ymsefydlu yn drefedigaeth gref ar un o lanerchau breision y gorllewin, lle y mae reilffyrdd, trefydd, a phob cyfleusderau i gael eu mwynhau yn fuan, gosod ar nifer o ddynion deallus, profiadol, a phrofedig i ymweled a'r gwahanol barthau, a gwneud dewisiad doeth, byddai hyny yn un o'r bendithion tymorol mwyaf a allai ddyfod i'w rhan. Helaethir ar hyn yn fy llyfr nesaf. Yn awr awn rhagom ar y daith.

PRAIRIE! PRAIRIE!

Yn fuan wedi gadael Huron dechreuasom ar fwy na chan' milldir o *brairie* noeth a hollol unffurf. Rhwng Huron a Fort Pierre, pellder

o 120 o filldiroedd, nid oes ond wyth o leoedd i'r gerbydres aros, y rhai a rifnodir yn *Siding No. 1*, *Siding No. 2*, &c., heb ddim ynddynt ond ty bychan i'r rhai a weithiant ar y ffordd. Oddieithr hyny, nid oedd na thy na thas, na phridd na phren, na chae na chlawdd, na môr na mynydd, na bryn na phant, na llyn na nant, na dyn nac anifail, na dim ond daear, daear, daear drom i'w gweled i bod cyfeiriad. Clywais un yn gofyn pa le yr oedd yr adar, ac arall yn ateb fod adar yn hoffi canlyn lluestdai dynion. Pa un ai gwir hyn ai peidio, nid wyf yn cofio i mi weled aderyn yn y pellafoedd hyn. Oblegid hyny, yn gystal ag oherwydd perffaith lonyddwch, dystawrwydd, ac unffurfiaeth y wlad, teimlwn megys mewn rhyw fyd pellach a dyeithrach na'r môr. Ar y môr gwelir adar a physgod, ac y mae i'r tònau a'u cynhyrfiadau lawer o amrywiaethau. Gwelwn y ddaear hon, er hyny, yn debycach i'r môr mawr, llonydd nag i eangdiroedd Minnesota. Yno y mae ambell adeiladau, coedlanau, a gwrthddrychau eraill yn peri i ni feddwl ein bod yn gweled yn mhell iawn; ond oblegid amddifadrwydd o bethau fel yna ar y *prairies* hyn, ymddengys y terfyngylch yn llawer nês atom; ac nis gallwn lai na bod yn barhaus dan yr argraff ein bod yn teithio mewn pant. Ymddangosai y tir fel yn graddol godi oddiwrthym i bob cyfeiriad. Tybiwn pe baem wedi myned yn mlaen can belled ag y gallwn weled ar y pryd, y byddem ar ben y rhiw ac y dechreuem ddisgyn ar yr ochr arall; ond er myned a myned, ymgadwai pen y rhiw tua yr un pellder o'n blaen. Yn agos atom ymddangosai mathau o lysiau a blodau tlysion nas gwelir mewn math arall o wlad.

Gan nad oedd ar y ffordd hon amrywiaethau golygfeydd i'm dyfyru am y presenol, aethum yn mhell i'r gorphenol i chwilio am danynt, ond ni chefais ddim can belled a chreadigaeth y byd—na daeargrynfäau, na llosgffrwydriadau, na gorlifiadau, na dim ond tyfiant yr egin mân, ac ymweliadau achlysurol trofau o fualod *(buffaloes)* ac ambell fintai o anwariaid yn eu hela. Aethum i'r dyfodol, yno cefais olygfa yr unfed ganrif ar hugain, ac wele yr holl wlad yn addurnedig gan drefi, ffyrdd, ffermydd, adeiladau mawrion a bychain, coedlanau ac adar yn lleisio rhyngddynt, perllanau a'u cangau yn crymu gan bwysau'r ffrwyth. Gwelais feusydd o yd yn chwareu fel tònau'r môr dan ogleisad yr awelon, a'r anifeiliaid yn pori ac yn chwareu gerllaw—henafgwyr, gwŷr ieuainc, a gwyryfon

yn llanw yr heolydd—sain cân a moliant yn ymddyrchafu o rhwng y temlau—llwyddiant a llawenydd, tristwch a galar, yn ymweled â'r wlad fel â gwledydd eraill. Yn mhlith y pethau hyn gwelais fam gyda'i dau blentyn bychan yn eistedd o flaen ei thy dan faplwydden gysgodawl yn cynal ymddyddan fel y canlyn:—"Pa beth ydyw bryn, mami?" gofynai un o'r plant.

"Welais i yr un bryn erioed," oedd yr atebiad, "ond gwelodd nain rai pan ydoedd yn eneth fechan. Twmpath mawr o ddaear ydyw bryn, tebyg i gefn bedd pytatws, ond ei fod yn llawer iawn mwy, mwy o lawer na'r ty hwn, mwy nag ysgubor fawr Owen Pugh, ac y mae mynydd yn llawer mwy na bryn."

"Wel," meddai y bychan ar ol ystyried ychydig, "rhaid fod y pytatws y maent yn gadw mewn bryn gymaint a *phumkins*, a'r rhai y maent yn gadw mewn mynydd gymaint a *barilau*. Beth yw afon, mami?"

"Afon ydyw rhibyn mawr o ddwfr wedi gwneud pant hir iddo ei hun i redeg ynddo ar y ddaear, fel y gwelaist ddwfr yn rhedeg yn ol yr olwyn pan oedd yn gwlawio. Yr wyf yn cofio ddarfod i mi pan yn beth fechan ar ymweliad â modryb Mary gael golwg ar Afon James; yr oedd hòno yn un fawr neillduol, gymaint a lled y ty yma."

"*Dear! dear!*" meddai Johnnie, "b'le yn y byd y mae pydew mor fawr ag a gynwysa gymaint a hyny o ddwfr? a b'le ceir rhod wynt ddigon nerthol i'w godi? A gaf fi fyned i dy modryb Mary i gael gweled afon, mami?"

"Cei di a Susy fyned pan fyddwch yn rhai mawr os byddwch yn blant da."

Wedi holi ac ateb yn nghylch llynoedd, creigiau, rheiadrau, a llawer o bethau nas gwelsant, ymaith a'r ddau blentyn i godi twmpathau, esgus mai bryniau oeddynt, a gwneud i'r golchddwfr redeg yn ol eu bysedd yn y ddaear, esgus mai afonydd oeddynt.

RANCHES.

Amrai filldiroedd cyn ein myned at Afon Missouri ymffurfiodd y wlad yn fryniau geirwon, toriadau sydyn, dyffrynoedd bychain, a nentydd chwim rhwng glànau serth. Daeth amaethdy i'r golwg ar lechwedd uchel ar y dde, ac ar weirglodd fras ar yr aswy ymddangosodd gyrr fawr o wartheg; eiddo un Mr. Read ydoedd, a gelwid y

parth hwn o'r wlad, yn gystal a'r yrr, yn *Read's Ranche*. *Ranche* y gelwir fferm o amryw filldiroedd o faintioli a gedwir gan un dyn neu gwmpeini; ar rai o honynt y mae miloedd o wartheg, ar eraill filoedd o ddefaid, ac ar eraill filoedd o anifeiliaid cymysg. Cânt ymgynal haf a gauaf ar y *prairies*, fel y cynhelir defaid Cymru ar y mynyddoedd. Y mae ambell auaf caled yn peri colledion trymion. Dywedir i berchenog y *ranche* oeddym yn awr yn weled golli dros 500 o wartheg y gauaf blaenorol. Y mae llawer o'r *ranchers* hyn yn cael eu hysbeilio hefyd gan Indiaid yn gystal a chan ladron gwynion. Danfonant eu hanifeiliaid i'r marchnadoedd yn yr haf, ac er pob math o golledion dywedir fod *ranchio* yn dwyn elw mawr. Lle nad oes derfyn ar eu meusydd pori, y mae llawer o'r anifeiliaid yn myned ar ddisberod. Unwaith yn y flwyddyn y mae "*round up*" gyffredinol yn cymeryd lle, trwy yr hyn y mae yr holl *ranchers* yn cymeryd pob un ei gylch mawr yn y wlad, ac yn gyru yr holl anifeiliaid a geir o fewn i'r cylch hwnw i ganolbwynt, lle y gwneir didoliad, ac y danfonir pob anifail yn ol y nôd fyddo arno i'w wir berchenog. Bywyd rhyfedd ydyw eiddo y *ranchers*—yn byw mewn lleoedd anghysbell, ugeiniau o filldiroedd yn aml oddiwrth gymydogaeth o ddynion; ac os ydynt hwy yn cael eu peryglu a'u blino gan Indiaid a lladron eraill, maent hwythau weithiau yn berygl ac yn flinder i ymsefydlwyr newyddion. Pan y mae tiroedd weithiau yn cael eu gwerthu gan y Llywodraeth i ymsefydlwyr, y mae y *ranchers* na feddant diroedd eu hunain yn cael cyfyngu arnynt. Gydag eiddigedd, gan hyny, yr edrychant ar ddynesiad ymsefydlwyr i'w parthau, ac oddieithr fod y cyfryw ymsefydlwyr yn ddigon o drefedigaeth i amddiffyn eu hawliau, nid yw yn hollol ddiogel iddynt ddyfod i wrthdarawiad â'r rhai hyn.

FORT PIERRE.

Wedi rhedeg i fyny ar hyd glàn ddwyreiniol Afon Missouri, daethom i Fort Pierre. Am yr afon yn y lle hwn nid oes i'w ddweyd amgen na'i bod yn rhedeg yn araf a llwydaidd ei lliw, tua milldir a chwarter o led. Ond am Fort Pierre ar ei dau tu, dyma dref! Dyma weithio! Dyma adeiladu! Dyma achub y cyfleusdra! Llai na blwyddyn cyn fy mod yno, dywedir nad oedd y pentref oll ond rhyw haner dwsin o dai bychain. Ond credwyf y gallwn i ar fy ymweliad

hwn rifo canoedd os nad yn wir filoedd o bob math o honynt—rhai o briddfeini, a pheth afrifed o honynt o goed yn bob rhyw lun; rhai wedi eu fframio yn dda, rhai yn fyrddau ar ei hochrau, rhai yn fyrddau ar ei penau, rhai yn gyffion croes i'w gilydd, rhai yn bolion wedi eu pwyo i'r ddaear, wedi eu plethu â brigau a'u dwbio â chlai. Byddai eraill wedi eu codi yn unig o dyweirch. Llawer iawn o deuluoedd a welid yn byw mewn pebyll *(tents)*, ac nid ychydig fyddai yn byw mewn gwageni a chynfasau gwynion drostynt. Bum yno Sabbath, ac er hyny ni pheidiau swn y morthwylion ar benau y tai, llifio coed, cywain nwyddau, gyru yr anifeiliaid, ychain, mulod, a cheffylau, bloeddio, clecian chwipiau, a phob rhyw dwrw, nes ydoedd yr amgylchoedd yn diasbedain. Wele acw siop enfawr o flychau, sachau, celfi, a phob rhyw nwyddau wedi eu pentyru fel tasau o fawn ar y ddaear tra fyddai y siopwr gyda'i ddynion â'u holl egni yn parotoi ei dy. Wele eto siop arall newydd ddyfod i mewn gyda'r gerbydres yn cael ei gosod i fyny yn yr un modd. Yn dyrau yma a thraw hefyd y gwelid dodrefn tai. O amgylch y dref neu wersyll neu beth bynag ydoedd y byddai anifeiliaid dôf o bob rhywogaeth, lliw, a llun, gwych a gwael, megys mewn ffair. Yn mhlith y rhai hyn, yma a thraw, byddai *Dutchmen* a'i gwageni, wedi dyfod i gynyg eu cynyrchion ar werth. *Dutchmen!* Beth yw y rhai hyny! Nid Ellmyniaid, ond amaethwyr Indiaidd. Byddai Indiaid eraill gwylltach, y rhai na charient arf, ond gwn, ac na wnaent waith ond hela a rhyfela, yn ystyried y rhai hyn yn ddosbarth israddol, am eu bod yn gweithio fel *squaws* (gwragedd). Nis gwn pa fodd yr aethpwyd i'w galw yn *Dutchmen*, os nad am eu bod, fel y gwelsant rhyw ymsefydlwyr o *Dutch*, yn trin y ddaear. Byddai y rhai hyn, yn enwedig y merched, er yn gochion eu lliw, yn paentio eu gwynebau i'w gwneud yn fflam-goch. Gwelais yn eu plith un o'r dynion harddaf a welais mewn unrhyw wlad. Y mae y Llywodraeth yn neillduo tiroedd i'r bobl hyn, ac yn eu cyflenwi â thai, anifeiliaid, celfi, a phob peth angenrheidiol at amaethu; ac y mae rhai o honynt yn gwneud yn dda. Ar yr ochr bellaf i'r afon y mae eu *reservation.*

Y rheswm am y cydgrynhoad rhyfeddol hwn o bobl yn Fort Pierre ydyw gweithiad y reilffordd trwodd i'r Bryniau Duon *(Black Hills)*, lle yn awr y mae mwn-gloddiau a ystyrir y rhai cyfoethocaf allan. Saif Deadwood, y lle agosaf yn Black Hills y cyrchir ato,

175 o filldiroedd yn orllewinol o Fort Pierre. Gan nad yw y reilffordd hyd yn hyn yn myned yn mhellach na'r lle olaf, gwneir gweddill y daith mewn *stages*. Cludir nwyddau trymion oddiyma i'r Black Hills mewn rhesi o wageni mawrion, chwech neu saith o'r rhai a gysylltir wrth eu gilydd, y naill ar ol y llall, yn un gerbydres, o flaen yr hon y gosodir wyth neu naw cwpl o ychain banog, ac felly lonc-di-lonc, lonc-di-lonc yr eir yn mlaen ddydd a nos dros y *prairies* unig, pell. Rhyfeddwn weled y fflangellau *(whips)*. a gariai y gyrwyr—math o raff braff, drom o ledr, yn meinhau at y blaen, tua phymtheg troedfedd o hyd. Cysylltid hi gerfydd tua modfedd o ledr main, gwydn â phren hir yr ymaflai y gyrwr ynddo. Wedi iddo daflu y rhaff hon ddwywaith neu dair o amgylch ei ben, gwnai iddi ddisgyn ar gefn yr anifail draw nes byddai yn nydd-droi trwyddo dan y cerydd. Lle annuwiol ydoedd Fort Pierre y pryd hwn. Gwynebau mileinig oeddynt eiddo llawer o'r preswylwyr. Gwelid yno dai yfed, gamblo, a phob drygioni ar bob llaw. Daethai agos yr holl breswylwyr yno megys o bedwar ban y byd yn nghydol yr ychydig fisoedd blaenorol—neb o honynt yn adnabod eu gilydd o'r blaen, ond i fod yn gymydogion o hyn allan. Y mae safle y dref hon ar lân yr afon fawr ac ar y llinell sydd yn cysylltu y Black Hills â'r dwyrain yn sicrhau iddi ddyfodol pwysig. Dyma le brâf, gan hyny, i anturiaethwyr, agoriadau addawol i fasnach a chelfyddyd; a lle y byddo y gelain, yno yr ymgasgl yr eryrod. Saif y lle hwn 781 o filldiroedd yn orllewinol o Chicago.

Y DAITH I MITCHEL.

Nid yw Mitchel ond 55 o filldiroedd o Fort Pierre, er hyny nid oedd yn gyfleus i mi fyned o'r naill i'r llall heb wneud taith o agos 800 o filldiroedd. Dychwelais ar hyd yr un ffordd ag y daethum can belled a Waseca, 380 o filldiroedd; yna cymerais gyfeiriad deheuol i Albert Lea, tref ieuanc mewn gwlad brydferth, lawn o diroedd hela a llynoedd cyfoethog o bysgod. Yn wir y mae yr holl linell hon i Iowa yn rhoddi i'r llygad y golygfeydd mwyaf dymunol. Yn Mason City cymerais gyfeiriad gorllewinol, heibio i Clear Lake hardd ac enwog; aethum trwy Algona, Emmetsburgh, a lleoedd eraill llai. Disgynais yn Spencer, ac aethum daith ugain milldir i'r gogledd i weled gwlad ryfeddol ar gyfrif ei llynoedd grisialaidd a'i golygfeydd

prydferth. Spirit Lake, East Okoboji, a West Okoboji, tua chwe' milldir o hyd bob un, ydynt y rhai enwocaf. Amgylchir eu dyfroedd gloywon gan rô tywodog, mân, ac mewn manau gan lanau creigiog,



LAKE OKOBOJI (IOWA), LOOKING WEST, REACHED VIA "ALBERT LEA ROUTE."

serth. Addurnir y wlad gan lwyni gwyrddlas o *maple*, derw, cedrwydd, *elm*, a phrenau dymunol eraill. Y mae y dyfroedd yn fyw gan amryw fathau o bysgod, a'r amgylchoedd gan soflieir,

hwyaid, gwyddau gwylltion, crychyddod, eleirch, pelicanod, ac yn achlysurol gwelir yr hydd ysgafndroed yn neidio dros y *prairies* neu trwy y coed. Y mae yr olygfa tua Llyn West Okoboji yn gystal a dim a geir. Tua deuddeg milldir yn ddeheuol o Spencer y mae trefedigaeth Gymreig lwyddiannus, lle y dywedir fod tir da am brisiau gweddol isel, yn gystal a phob cyfleusderau tymorol ac ysbrydol. O Spencer aethum i Mitchel Dakota, 156 o filldiroedd yn mhellach. Nid oedd y dref hon ar y pryd dros ddwy flwydd oed, ac eto ymylai ar fod yn fawr, gan barhâu i estyn ei chortynau gyda chyflymdra. Saif tua thair milldir yn orllewinol i'r Afon James, mewn gwlad dda, heb fod yn wastad nac yn fryniog, ond *rolling* a hollol ddi-goed. Ychydig yn orllewinol o Mitchel y mae amryw deuluoedd Cymreig wedi cymeryd hawliau, a bydd yno sefydliad yn fuan.

O MITCHEL I COLUMBUS CITY.

Ar fy nychweliad ar hyd yr un ffordd ag y daethum disgynais yn Rock River Valley, i gymeryd taith o gerdded wrthyf fy hun dros *brairies* swyddi Sioux a Lyon, cŵr gogledd-orllewinol talaeth Iowa. Wedi taflu ysgrepan yn cynwys lluniaeth dros fy ysgwydd, a'm ffon yn fy llaw, cefnais ar y dref, ac yn fuan nid oedd ond fy mhen a'm ysgwyddau uwchlaw y glaswair tònog, mawr. Nis gallwn lai na meddwl am flaidd y *prairie*, y *badger*, a'r neidr dorchog, ond ni chyfarfyddais âg un creadur byw ond adar. Ymgedwais yn agos i'r afon, *Rock River*. Gan nad faint o *rocks* a berthyna iddi mewn manau eraill, nid oedd ganddi lawer o honynt yn y parthau hyn. Ymgodai y wlad oddiwrthi ar ei dau tu, nid yn fryniau, ond yn chwyddiadau graddol a hyfryd, ac yr oedd yn llawn o'r llysiau hyny ag sydd, meddir, bob amser yn arddangosiad o ddaear dda.

Wedi cael y gerbydres gwelais ddau ddyn glandeg yn rhanu traethodau. Daeth un ataf a gofynodd—"Ai teithio yn achos dirwest yr ydwyt ti?" "Nage." "Ai pregethwr ydwyt?" ". Ie Ai hyny ydych chwi?" "Nid ydym ni yn gwneud pregethwyr, ond yr ydym yn deall fod pa aelod bynag o honom fyddo yn meddu dawn i efengylu i wneud hyny. Yr wyf fi am hyny yn pregethu, ond nid yw fy mrawd." "I ba enwad y perthynwch?" "I'r Cyfeillion, neu y bobl a elwir Crynwyr." "Yr ydych yn ymwisgo yr un fath a dynion eraill." "Ydym; felly y gwnai John Fox ei

hun, ymwisgai efe yn ffasiwn ei oes. Bod yn niwyg syml yr oes, heb goegni, ydyw egwyddor ein crefydd ni; ond y mae rhai, wrth dalu gormod o warogaeth i oes John Fox, yn colli golwg ar egwyddor crefydd John Fox." "Dywedir mai pobl gyfiawn a geirwir iawn ydych chwi y Cyfeillion. A ydyw y rhan hon o'r wlad yn gyfryw ag y gwnai dynion yn dda i ddyfod o'r dwyrain a thros y môr i'w thrigianu?" "Ydyw, yn ddiau, yn enwedig tua Millcreek, yn swydd O'Brien. Dylit weled y parth hwnw. Y mae yn dda am fod ynddo ddaear dda, hawliau da, a phobl dda. Gofala di osod dynion ar eu gwyliadwriaeth rhag iddynt gael eu twyllo â thiroedd heb fod iddynt hawliau da."

Yr oeddwn yn awr yn dyheu am orphwysdra. Gobeithiwn ei gael yn nhy fy modryb, chwaer fy nhad, ac i'r dyben hwn aethum 200 o filldiroedd o fy llwybr rhag-arfaethedig i Columbus City. Wedi cyrhaedd McGregor, cymerais gyfeiriad deheuol ar hyd glàn orllewinol y Mississippi, trwy Dubuque (p. 23,000) i Davenport (p. 22,000). Yr oedd i'r daith hon olygfeydd amrywiol o greigiau crogedig ar y dde, ac ynysoedd mwynion ar yr aswy. Erbyn dyfod i Columbus City cefais fod fy modryb a'i theulu wedi ymadael er's blynyddau. Gan nad oedd genyf flas ar feddwl aros gyda dyeithriaid, ymroddais i deithio, a gobeithiwn ymgaledu at y gwaith.

GEIRIAU Y GERBYDRES.

Troais fy wyneb gan hyny i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol. Yn Muscatine cefais fy hun eto ar làn y Mississippi, ac o bob man dyma lle y cefais yr olwg oreu arni. Yr oedd ei lled mawr a'i hynysoedd gwyrddion, teg yn ei gwneud yr afon harddaf a welais. Trwy Rock Island (p. 12,000), Savana, Freeport, Beloit, ac Elkhorn, aethum i Milwaukee. Wrth gael ar y daith faith hon y fath unffurfiaeth o wastadeddau, ac ymgynefino â newid cyd-deithwyr, cawn fy hun fynychaf yn anystyriol o bob peth allanol ac megys wedi ymgolli ynof fy hun. Yn yr hunan-anialwch hwnw aeth cleciadau parhaus ac un-dônog yr olwynion a'r reiliau i syrthio ar fy nghlust yn ddrychiolaethau geiriau. Pa fodd y daethpwyd i ddeall fod petrus America yn dweyd *Bob-Bob-White*, a'r aderyn arall yn dweyd *Whip-poor-Will*, a'r ddylluan yn Nghymru yn dweyd *Ceirch-du-du-du yn-fy-nghwdyn-i?* Pa fodd yr aeth dynion mor ynfyd ag i gredu fod coed,

creigiau, adeiladau, delwau, &c., yn llefaru geiriau, a myned yn filoedd i ymgynghori â hwy dan y dybiaeth eu bod yn oraclau goruwch-ddynol neu dduwiau? Y mae i un gael ei syfrdanu yn hir gan dwrf di-daw y gerbydres yn ei feddianu â'r cyffelyb ynfydrwydd. Geiriau anorphen ambell gerbydres fyddai *Paid-bod-yn-grac, Paid-bod-yn-grac.* Iaith un arall fyddai *Rattle-and-rout-the-rat, Rattle-and-rout-the-rat.* Clywais ar fy nheithiau oll ugeiniau o'r cyfryw ymadroddion, llawn o gydseiniaid celyd. Wedi deall fod y gerbydres yn llefaru rhyw eiriau, byddai yn annichon cael gan hòno i lefaru dim arall. Y geiriau di-daw y tro hwn oeddynt *A-Yankee-trick, A-Yankee-trick, A-Yankee-trick.* Gwrando y geiriau digrifol yna yn cael eu clecian bob eiliad, ac yn haner gwylio gwrthddrychau allanol yn rhedeg tuag yn ol, yr oeddwn pan yn sydyn y gwelais geffyl yn chwifio ei droed flaen yn yr awyr ac yn methu symud o'r fan, a cheffyl arall yn methu codi. Rhuthrodd y bobl at y ffenestri. Safodd y gerbydres eiliad. Aeth dyn (meddyg) allan, ac ymaith a ni. Yr oedd gwagen yn cynwys dyn a dwy ddynes yn cael ei thynu gan ddau geffyl yn ceisio croesi y reilffordd pan darawyd hwy gan y gerbydres. Lluchiwyd hwy i wahanol gyfeiriadau. Ni chafodd neb ei ladd yn y fan, ond beth fu y canlyniad ni chefais glywed. Nid oedd ond yr anffawd i'r trueiniaid yn llanw fy meddwl dros amser wedi hyn. Pan lonyddodd fy nheimladau cefais fod yr olwynion a'r reiliau eto yn parhau i ddanod i'w gilydd neu i rywun arall—*A-Yankee-trick, A-Yankee-trick, A-Yankee-trick,* oblegid yr hyn a ddigwyddodd. Dyna ranau o fy nheithiau i. Gallai teithiau gŵr doethach gynwys llai o wagedd. "Gan y gwirion ceir y gwir."

TAITH I OGLEDD-ORLLEWIN MICHIGAN.

O Milwaukee aethum trwy ororau Winnebago i Appleton (p. 9,000), ar làn yr Afon Fox, lle y mae gallu dyfrawl na cheir ei ragorach i ddybenion ymarferol. Oblegid hyn y mae gwahanol fathau o felinau a llaw-weithfaoedd yn lluosog yn y lle. Naw-ar-hugain o filldiroedd yn mhellach, wedi pasio De Pere, daethum i Fort Howard a Green Bay (p. 8,000), y naill gyferbyn â'r llall ar lànau yr Afon Fox, lle yr ymarllwysa i Green Bay, Llyn Michigan. Oddiyma aethum 29 o filldiroedd i Oconto (p. 4,000). Nid oedd i'w gweled ar hyd y ffordd hon, gydag ambell bentrefi, ond coed, coed,

dros ugeiniau o filldiroedd. Y degau milldiroedd cyntaf oeddynt lawn o ysgerbydau a drychiolaethau coed. Ymddangosai y ddaear yn werddlas, ac arni goed ieuainc o tua 15 troedfedd o uchder, yn ymfalchïo yn eu dail a'u sirioldeb hafaidd. Ond am yr hen goed mawrion ac uchel, yr un peth iddynt hwy ydoedd haf a gauaf. Yr oedd eu mwynder wedi ymadaw, heb radd o fywyd ynddynt—"Ni ddihunant, ac ni ddeffroant o'u cwsg." Safant i fyny, er hyny, yn llu mawr iawn; eu godrau yn olosg du, a'u breichiau noethion, hirion, teneu, yn ymestyn i bob cyfeiriad, ac mewn modd torcalonus yn parhau i ddweyd o hyd ac o hyd "Y ffordd acw, a'r ffordd draw, a'r ffordd yna y bu tânau mawrion y flwyddyn 1871," y rhai a ddifasant ganoedd o filldiroedd o goedwigoedd Wisconsin a Michigan. Tua yr un amser, hefyd, y llosgwyd y ddinas fawr Chicago. Yn nghanol coelcerthi y coedwigoedd mawrion hyn yr oedd tref Oconto, yn gystal a llawer o bentrefi eraill a ddifawyd. Nid oeddwn i yn gweled olion tânau arnynt yn awr, ond ymgymwysant at fod yn gynid tân mawr arall pan ddigwydda, oblegid o goed y mae y tai a bron bob peth arall wedi eu gwneud—â blawd llif y palmantir yr heolydd—ger pob gorsaf gwelid pentyrau o drawstiau, byrddau, to-estyll *(shingles)*, pyst, *rail-road ties*, &c., oll yn barod i'w danfon ymaith i'r marchnadoedd.

Rhan fawr o waith y pentrefwyr, hefyd, ydyw gwneud golosg *(charcoal)* at wasanaeth y ffwrneisiau *blast* sydd tua gororau Llyn Superior. Gwelir y golosgdai o niferi deg neu bymtheg, yn sefyll yn rhesi gwynion, pob un yn grwn fel pe gosodid haner uchaf helmi neu deisi yd Cymru i sefyll ar y ddaear. O amgylch eu godrau y mae tyllau i ollwng allan y mwg. Trwy araf losgi coed yn y rhai hyn, rhywfodd, y gwneir golosg. Y tu draw i'r coed defiedig y mae cyflawnder o goed pinwydd, cedrwydd, &c., y rhai ydynt fyth yn wyrddion, a'u harddwch yn aros y gauaf fel yr haf. Gelwir y parthau hyn yn *pineries*, ac oddiyma y danfonir llawer o'r pinwydd a geir yn y wlad hon. Wedi myned trwy Peshtigo, Marinette, Menominee, lle y croesais yr afon o Wisconsin i Michigan, ac amryw bentrefi eraill, daethum i Escanaba (p. 3,000), tref fechan, fywiog, a phwysig iawn, nid yn unig ar gyfrif ei marchnadfa goed, ond yn benaf ei marchnad haiarn. Y mae y wlad oddiyma i'r gogledd, at lànau Llyn Superior, yn gyfoethog o'r mŵn haiarn. Saif Escanaba


243 o filldiroedd i'r gogledd o Milwaukee. Medda borthladd ar Lyn Michigan a allai yn hawdd gynwys holl ryfel-longau y byd. Y mae ei thair *dock* haiarn agos ddwy filldir o hyd; gallant ddal 55,000 o dynelli o fŵn haiarn, a llwytho 1,200 o geir yn ddyddiol. Y mae gan gwmpeini reilffordd y *Chicago & North Western* 2,700 o geir a 55 o ager-beiriannau yn unig yn y gwasanaeth hwn. Heblaw hyn y mae yr amgylchoedd oll yn rhai ag y mae pleser-deithwyr yn hoffi eu mynychu. Ceir yn y coedwigoedd tewion lawer o helwriaeth, yn cynwys yr hydd, yr arth, a phethau eraill y mae plant Nimrod yn hoff o'u hela.

Yr oedd fy nhaith, bellach, mewn gwlad fryniog a garw; ac er fod coed lawer yn tyfu ar bob llaw, haiarn ydoedd yn meddu y llywodraeth. Erbyn fy nyfod i Negaunee (p. 4,000), 62 o filldiroedd i'r gogledd o Escanaba, nid ymddangosai fod dynion yn trin dim braidd ond haiarn, yr hwn, gan fwyaf, a ddanfonir ymaith fel y tynir ef o'r ddaear. Ishpeming (p. 7,000), ychydig yn mhellach, ydyw y dref gyfoethocaf o'r nwydd hwn yn yr holl barthau. Dwy-a-deugain o filldiroedd yn mhellach ac yr oeddwn yn Marquette (p. 7,000), glàn Llyn Superior, tad y dyfroedd, a'r mwyaf o holl lynoedd y byd. Tref hardd, lanwaith, ac iachus ydyw hon; a'r amgylchoedd, y llawr a'r llyn, daear a dwfr, yn llawn o ddyddordeb i'r neb fyddo yn caru natur yn ei gwylltedd a'i symledd fel y daeth o law ei Chreawdwr. Draw yn y llyn claerwyn y gwelir ynysoedd amryw a choedwigoedd arnynt, a badau pysgotwyr ac ager-fadau teithwyr a phleserwyr yn morio rhyngddynt. Nid yw y glànau wedi eu cyfnewid fawr eto gan law celfyddyd. Ceir y dyn coch, plentyn y goedwig, heb fyned yn mhell i chwilio am dano. Ceir ef yn ddiberygl hefyd yn y parthau hyn, yr hyn a brawf ddylanwad daionus y cenhadon Pabaidd, y rhai yn amyneddgar a drigasant dros genedlaethau yn *wigwams* gwael yr Indiaid i'w haddysgu. Ar fy nychweliad i Milwaukee disgynais yn Fond-du-lac (p. 13,000) wrth ben deheuol Llyn Winnebago, a chymerais wibdaith ddwyreiniol o 43 o filldiroedd i Sheboygan, glàn Llyn Michigan, ac yn ol.

CYLCH CYMANFA MINNESOTA.

Ar ol agos mis o ddim ond teithio o gŵr i gŵr i weled ansawdd a rhyfeddodau y wlad, dechreuais eto ar daith bregethwrol trwy gylch

cymanfa Minnesota. Gelwir y lle y dechreuais ynddo yno yn "Sefydliad y Coed Mawr," ond ei haner, mewn gwirionedd, sydd yn goed mawr, a'r haner arall yn *brairie.* Oddiyma aethum ugain



CEDAR LAKE AND FORT SNELLING (MINN.), REACHED VIA "ALBERT LEA ROUTE."

milldir yn ddeheuol, i sefydliad Cymreig mawr Blue Earth. Yn Lake Crystal, gerllaw yno, yr oeddwn pan ddaeth y newydd fod yr Arlywydd Garfield wedi ei saethu, ac yn Mankato (p. 6,000), yn

mhen dwyreiniol y sefydliad, yr oeddwn ar y 4ydd o Orphenaf, diwrnod mawr cenedlaethol y Talaethau Unedig; ar y dydd hwn y darllenir Dadganiad Annibyniaeth, y traddodir areithiau gwladgarol, ac y gwneir arddangosiadau o lawenydd; ond y tro hwn nid oedd yn Mankato, nac yn odid dref arall trwy yr Undeb, lawenydd. Tebycach ydoedd i ddiwrnod claddu—y wlad oll yn dy galar am fod ei thywysog a'i gŵr mawr wedi syrthio.

O'r parthau hyn yr oedd genyf rywbeth fel can' milldir i fyned i sefydliad Lime Springs, yr hwn sydd ar y terfyn rhwng talaethau Minnesota ac Iowa, gwlad ddymunol iawn yr olwg arni. Tra yn aros yn y parth hwn ar nos y 15fed o Orphenaf, pryd y dinystriwyd New Ulm gan gorwynt, y gwelais un o'r tymestloedd gerwinaf o fellt a tharanau a gwlaw a welais erioed. Yr oedd ysbeidiau y mellt-oleuni yn llawer hŵy na'r ysbeidiau o dywyllwch, a'u twrf tarfiol yn undarn deirawr daran o daranau. Ymarllwysai y gwlaw megys llifogydd o'r cymylau; a chan nerth y gwynt yn chwythu yr oeddwn yn gweled y coed ieuainc a'r Indrawn megys yn gydwastad â'r llawr. Oddiyma cymerais daith ogleddol o 132 o filldiroedd i Minneapolis, o'r lle yr ymgymerais â gwneud

TAITH ETO I DAKOTA,

ar draws Talaeth Minnesota, trwy eangdiroedd rhyfeddol o wenith—gwenith yn feusydd wrth feusydd, a meusydd ar ol meusydd, can belled ag y gallai y llygad ganfod i bob cyfeiriad. Nid oedd y parthau hyn mor wastad a rhanau mwy deheuol y dalaeth, ac am hyny nis gallwn weled mor bell. Ychydig o amser gydag ychydig o weithwyr ddeuai a maes mawr o wenith tònawg yn ysgubau cryno, llonydd ar y llawr. Tynid y peiriannau a ddefnyddid i dori yr ŷd gan dri o geffylau cyfochrog. Yr oedd dau fath o honynt i'w gweled. Meddent bob un rod o estyll tebyg, ond eu bod yn fwy, yn uwch, ac yn ysgafnach, i wyntyllau peiriant nithio. Yr estyll hyn, wrth gael eu troi gan yr olwynion, a barent i'r ŷdwellt ogwyddo a syrthio ar fanlawr *(platform)* y peiriant fel y caffai ei dori. Ar y banlawr hwn y safai dau ddyn yn rhwymo ysgubau. Byddai nifer y cynhauaf-deithwyr, a chyfrif y gyrwr, yn dri. Gelwid y math hwn o beiriant yn gynhauafydd *(harvester)*. Math arall, rhagorach na hwn, ydoedd yr un a elwid hunan-rwymydd *(self-binder)*. Ni byddai ar hwnw

ond y gyrwr yn unig. Gofaled efe am y ceffylau, a gofala y peiriant am yr ŷd—i'w dori, ei gasglu yn ysgubau, a'i rwymo yn dŷn. Y gwrthwynebiad mwyaf i'r peiriant hwn fu y gwifrau â'r rhai y rhwymid, a'r rhai drachefn fyddent yn peri blinder i'r peiriant dyrnu ac i'r anifeiliaid a ymborthent ar y gwellt. Ond yn awr defnyddir cortynau yn lle gwifrau, a pheiriant defnyddiol dros ben ydyw hwn.

Yn agos i làn yr Afon Minnesota y teithiais barth gorllewinol y dalaeth hon, ac wedi croesi y llinell i Dakota, aethum yn fuan i dref ieuanc, hardd, a chynyddol Millbank, lle y disgynais ac y cefais olwg ar eangder o wastadedd tra dymunol. Er fy mod wedi teithio 190 o filldiroedd o Minneapolis, yr oedd genyf i fyned eto tua 80 milldir i swydd Brown, hwnt i Afon James, lle y mae trefedigaeth ieuanc o Gymry. Yr oedd rhanau o'r daith hon dros fryniau neu chwyddiadau creigiog, a hollol amddifad o goed. Anfynych iawn hefyd yr ymddangosai dim tebyg i breswylfa ddynol. Tra y safai y gerbydres yn hir mewn un man, ceisiais wneud cytundeb âg Indian am ferlyn a ddygasai yno i'w werthu. Methwyd cytuno wrth gwrs. Cefais i ei weled yn marchogaeth; cafodd yntau trwy y cyfieithydd ganmoliaeth, ac felly cawsom ein dau foddlonrwydd. Ceffid arwyddion o drigfanau dynol fel yr agosaem at Afon James. Tua dwy filldir ar yr ochr orllewinol iddi y mae pentref Bath. Nid oedd ond mis oed ar y pryd, a gwnelid ef i fyny o ychydig dai, gwneuthuredig o fyrddau geirwon wedi eu hoelio rhywlun wrth eu gilydd, ac eraill yn ddim ond pebyll. Pabell o gynfas gwyn ydoedd y brif faelfa *(shop).* Cynwysai er hyny amrywiaeth mawr o nwyddau. Adeilad arall, gyda'i haner isaf yn fyrddau a'i haner uchaf o gynfas, ydoedd y gwestdy *(hotel),* ty ag y mae llygad y teithiwr bob amser yn chwilio am dano. Adeilad hir, isel arall a elwid yn *livery stable,* ty tra angenrheidiol yn y gorllewin, am fod ar ymchwilwyr angen ceffylau i farchogaeth arnynt tra yn gweled y parthau ac yn gwneud dewisiad o ffermydd.

DECHREU YMSEFYDLU.

Bedair milldir i'r gogledd o Bath y mae gwladfa Gymreig, cynwysedig yn benaf o bobl newydd fyned yno o barthau Cambria, Wisconsin. Ar fy ffordd tuag yno gwelais ddyn yn eistedd ar ei aradr *(sulky plough),* gyda thri o geffylau, yn tori y ddaear hòno am y tro

cyntaf erioed. Y ty cyntaf y gelwais ynddo ydoedd eiddo Mr. Robert Rowlands. Edrychid arno ef fel hen sefydlydd, canys daethai yno er ys mwy na blwyddyn. Gwelodd auaf yn y lle, ac yr oedd ei deulu wedi dyfod ddau fis cyn fy mod i yno. Yr oedd ei dy hefyd y mwyaf a'r ardderchocaf yn yr ardal, fel yr oedd llawer o son am dano, canys yr oedd mor fawr fel y gellid gwneud ynddo ddwy ystafell ar y llawr isaf trwy dynu gwahanlen o gynfas trwy ei ganol, ac yr oedd ei lawr wedi ei fyrddio. Byrddai geirwon ydoedd ei fur mewnol, am yr hwn y codasid mur arall o dyweirch, tua dwy droedfedd a haner o drwch, er cadw y tylwyth yn glyd dros y gauaf. Tyweirch hefyd ydoedd y tô, yn gorchuddio tô o fyrddau. Ar fferm arall cefais y gwr yn prysur adeiladu ty o dyweirch, fel y gallai droi yr hen dy a gododd ychydig fisoedd yn flaenorol, i fod yn llety yr anifeiliaid. Yn y ty nesaf cefais chwech o wyr ieuainc yn "*bachio*," hyny yw, yn cadw gweddwdy. Yr oeddynt wedi dyfod yno yn ddiweddar, cymeryd pob un iddo ei hun fferm, a chytuno i godi un ty cydrhyngddynt oll, yn yr hwn y coginent eu bwyd eu hunain, y golchent eu dillad eu hunain, ac y dwrdient eu hunain. Edrych yr oeddent, er hyny, ar daledigaeth y gwobrwy, canys gobeithient wneud eu ffermydd yn Eden Ardd, yn yr hon rhyw foreu hyfryd, wedi deffro o'u llafur a'u lludded, y caent eu Hefa deg wedi eu dwyn atynt i fod iddynt yn ymgeledd gymwys. Dywedwyd wrthyf fod yno dy neu ddau arall o'r un nodwedd. Y ty nesaf, yr hwn hefyd y cefais letya ynddo, ydoedd y nesaf mewn rhagoriaeth at eiddo Robert Rowlands. Dywedodd y pen teulu wrthyf mai efe ei hun hefyd a'i gwnaeth, ac yr oedd llawer rhagorach gwneuthuriad arno nag a wnai pen-saer celfydd, oblegid gan fod y byrddau wedi sychu a thynu atynt er pan eu hoelïwyd, yr ydoedd haner modfedd o rigolau rhyngddynt amgylch-ogylch yr adeilad ac yn y tô, ac felly awyryd ef oddifewn yn nhymor cynes yr haf. Beth am y gauaf? Ei wisgo a thyweirch, wrth gwrs, a'i wneud mor ddyddos a nyth y dryw.

Pa fath auaf sydd yno? Gauaf ofnadwy, medd pobl o bell; gauaf digon hawdd ei oddef, medd rhai a dreuliasant auafau yno. Tanwydd ydyw y nwydd prinaf. Ceir coed am bris uchel oddiwrth lànau yr afon, a cheir glo ar yr orsaf. Bwriada y bobl blanu llwyni a rhesi o *cotton-wood*, *poplars*, *maple*, &c., y rhai ydynt o dyfiant cyflym; yna gwnant yn burion. Nid oes i wahaniaethu rhwng ffermydd a'u gilydd

ond pyst ar y conglau a osodwyd gan dirfesurwyr y Llywodraeth, ac yn achlysurol cwysi wedi eu gwneud gan erydr y perchenogion. Am gaeau, nid ydynt eto i'w cael. Gwelir dernyn o Indrawn yma, dernyn o wenith acw, dernyn o geirch y fan draw, a dernyn o gloron fan arall. Eir i dori ac i gynheuafu gwair, pa le bynag y byddo i'w gael, heb ofyn pwy fydd y perchenog; a gollyngir yr anifeiliaid, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, i'r yrr *(herd)* gyffredinol. Cedwir y fuwch neu ddwy, yn gystal a'r ceffylau a ddefnyddir, yn aml yn rhwym gerfydd rhaff a elwir *larriet*, tua 40 troedfedd o hyd, yn agos i'r ty, a thruanaf o bawb yn y gorllewin ydynt y creaduriaid hyn. Pa faint bynag fyddo'r gwres, nis gallant ddianc i'r cysgod. Daear wastad ydyw y ddaear hon, gydag ychydig chwyddiadau graddol, ac y mae yr awyrgylch ar adegau yn ddrych, canys ymddengys tref Columbia a lleoedd pell ac anweledig eraill yn achlysurol ar y terfyngylch fel pe baent yn agos.

YN NEBRASKA.

Fy mhwynt nesaf ydoedd Talaeth Nebraska. Wedi taith gwmpasog o agos 900 o filldiroedd trwy Farmington, Austin, McGregor, Davenport, a Des Moines, daethum i'r orsaf fawr a rhyfedd a elwir Transfer, ger Council Bluffs, ar làn dwyreiniol yr Afon Missouri. Yma yn benaf y mae dwyrain a gorllewin y talaethau yn cyfarfod â'u gilydd. Ar yr ochr ddwyreiniol i'r orsaf y mae pen draw pump neu chwech o'r reilffyrdd mwyaf yn gollwng eu teithwyr i lawr; ar yr ochr orllewinol y mae reilffordd enwog yr *Union Pacific* yn eu cymeryd i fyny i'w trosglwyddo dros yr afon i Omaha a draw ar hyd dyffryn Platte i'r Mynyddoedd Creigiog, tiriogaeth y Seintiau, a'r gorllewin mawr. Saif Omaha (p. 31,000) a'r làn orllewinol y Missouri. Nid ydoedd yma yn 1854 onid bwthyn o gyffion. Dywedir mai Cymro, o'r enw Jones, ydoedd post-feistr cyntaf y dref, ac mai yn ei het y cadwai y llythyrau; a chan y byddai ynddo lawer o duedd at hela gwyllt-filod, bu raid i bobl bryderus am eu llythyrau redeg milldiroedd lawer gwaith ar ol yr hen het. Y mae yn y dref yn awr lythyrdy ardderchog, a'r lluaws adeiladau eraill yn cyfateb. Oddiyma cymerais gyfeiriad deheuol o dros gan' milldir i weled y drefedigaeth Gymreig sydd ger Blue Springs. Er mai ychydig flwyddi ydyw oedran y sefydliad hwn medda agwedd

lwyddiannus, ac y mae yn myned ar gynydd cyflym. Gwlad hyfryd yr olwg arni ydyw y wlad hon, a'r awyrgylch yn dymerus, heb fod yn gynes iawn yr haf, yn oer iawn y gauaf, nac mewn un modd yn afiachus. Oddiyma aethum gan' milldir i gyfeiriad gorllewinol, can belled a Red Cloud. Hyfryd yn wir ydoedd yr olwg ar y wlad. Dychwelais trwy Lincoln (p. 14,000), prif ddinas y dalaeth, i Omaha. Oddiyma cymerais linell yr Union Pacific ar hyd dyffryn brâs ac enwog Afon Platte, can belled a North Platte City, tua 300 o filldiroedd yn orllewinol, ac yn ol, a gwelais feusydd o Indrawn a thiroedd pori o'r fath ragoraf.

BACHGEN FFRAETH.


Tra yn aros i ddysgwyl y gerbydres ar y *transfer*, rhedodd bachgen tua phymtheg oed o urdd y *boot-blacks* ataf. Wedi cytuno âg ef am "*shine*," a thra yn myned yn mlaen â'i waith, holodd lawer arnaf parthed y trefi gorllewinol y bum ynddynt, eu llwyddiant a'u rhagolygon. Ac meddai, "I ba le yr ydych chwi yn myned?" "I'r dwyrain," atebais. "Gwlad Duw ydyw y dwyrain," meddai yntau. "Pa wlad ydyw y gorllewin?" gofynais. "Gwlad y diafol." "Paham yr ydych chwi yn ewyllysio myned o wlad Duw i wlad y diafol?" "Am fod yn well genyf ei deulu. Y mae ei holl blant ef yn *genuine*, ond am y rhai a alwant eu hunain yn blant y llall, y mae eu haner yn fastardiaid; ac y mae eu trwynau duon dan fentyll gwynion yn wrthuni i'r rhai sydd yn caru gwirionedd a phurdeb." "Fachgen ofnadwy," meddwn wrtho, "a ydych yn deall beth ydych yn ei ddweyd?" "Efallai nac ydwyf, ac os felly yr wyf yn siarad yn grefyddol, canys yr wyf yn sylwi nad yw llawer o'r rhai sydd yn siarad crefydd yn deall eu hiaith eu hunain. Iaith y nefoedd ydyw iaith crefydd, ac y mae yn ardderchog. Nid oes neb ond rhai a fu yn y nefoedd neu a gawsant eu dysgu gan ysbryd y nefoedd a fedr ei deall. Ond am y *rhigamoral* crefyddol a glywir gan lawer, nid yw ond iaith *parrots*, a santeiddrwydd ffasiynol yr oes ond dynwarediad mwncïod y fagddu. Y mae genyf barch i grefydd os bydd o'r peth gwirioneddol. Yr wyf yn caru y gwirioneddol. Gwell genyf bechod gwirioneddol na santeiddrwydd ffugiol. Anrhydeddusach creadur ydyw ellyll hollol nag epa o angel." "I ba le yr ydych yn myned?" gofynais iddo. "I bob man, efallai—af i ba le bynag y gallaf

obeithio gwneud ffortun." "O ba le y daethoch?" "O bob man am a wn i. Pa nifer o leoedd y bum ynddynt cyn cof nis gallaf ddweyd, ond er cof genyf fi bum yn Llundain, yn Paris, ac yn amryw o brif ddinasoedd Ewrop. Daethum yma tua haner awr yn ol o Chicago, ac yn y man byddaf yn myned gyda'r gerbydres acw i Colorado." "Rhaid fod genych lawer o arian i allu teithio felly." "Na, nid trwy nerth arian yr wyf yn myned. Y mae yn perthyn i mi freiniau na wyr y lluaws am danynt; meddwyf *special compartment*, yr hwn nid yw rydd i eraill ddyfod iddo." "Pa le mae hwnw?" "Gwelwch y sêt fechan acw sydd rhwng yr olwynion dan y cerbyd, acw yr wyf yn eistedd, chwi gewch weled yn y man." "Beth pe baent yn eich gweled?" "Wel, beth hefyd? Nis gallent ond fy nhynu ymaith—ni chaniatâ y gyfraith iddynt fy lladd na'm niweidio; ond nis gwelant fi, ni chefais fy nhroi allan unwaith." "Beth pe rhedai y gerbydres dros fuwch neu geffyl?" "Wel, byddai yn well arnaf fi nag ar yr anifail druan; ond nid wyf yn arfer rhedeg i gyfarfod gofidiau; pe felly buasent wedi fy mwyta yn mhell cyn fy ngeni." "Wel," meddwn, "y mae llawer ffordd i fyned trwy y byd." "Oes," meddai yntau, "ac yr wyf fi yn myned i fyned trwyddo. Teithiais eisoes ranau o ddau gyfandir, ac mi a fynaf wybod pa ran i mi sydd yn y byd hwn." "A oes genych rieni yn fyw?" "Oes am a wn i, neu nac oes am a wn i; ond mi a wn i na wn i ddim am danynt. Mab ydwyf, o bosibl, i un o *street walkers* Llundain, neu i ryw eneth barchus ac anwyl a dwyllwyd, neu, efallai, i ryw foneddiges urddasol a ddaeth o bwrpas i rhyw gongl neillduedig o'r ddinas hòno i'm rhoddi yn anrheg iddi, neu efallai y daw i'r golwg rywbryd fy mod yn etifedd o gyfoeth a theitlau uchel, yr ysgrifenir am danaf ac y cenir fy nghlodydd; ond a fyddwch chwi yn gwybod mai y boneddwr hwnw fu yn *shino* eich esgidiau yma heddyw?" Ar hyn canodd y gloch, symudodd y gerbydres, ac yn chwim gosododd y bachgen ei hun, ei flwch, a'i frwsh, fel y dywedodd, yn daclus ar rywbeth dan y cerbyd, ac ymaeth ag ef, y creadur bychan, tlawd. Meddai brydwedd landeg a deniadol, gyda chyflawnder o dalent a ffraethineb.

YN IOWA.

Ar ol hyn dechreuais ar daith o bregethu trwy dalaethau Iowa,

Missouri, a Kansas. Y lle y dechreuais ynddo ydoedd Long Creek, ger Columbus City, o'r lle yr aethum i Iowa City (p. 9,000) ac Old Man's Creek ; yna i Welsh Prairie, lle y'm cyhoeddwyd y Sabbath



THE HOG BACK, SPIRIT LAKE (IOWA), REACHED VIA "ALBERT LEA ROUTE."

blaenorol fel "pregethwr o sîr Aberteifi, am hyny cofiwch bawb ddyfod i'w wrandaw;" oddiyno i Williamsburgh. Yn yr oll o'r sefydliadau hyn y mae ein cenedl ni yn amaethwyr cryfion a

llwyddiannus iawn. Yn Marengo cymerais daith orllewinol o 90 o filldiroedd i Des Moines (p. 23,000), prif ddinas y dalaeth, gerllaw i'r hon y mae Sevastopol, ac yma y dechreuais ymweled â glowyr Iowa. Gan gymeryd cyfeiriad deheu-ddwyreiniol trwy Knoxville, daethum i barthau Beacon a Givin, ger Oskaloosa (p. 5,000), oddiyno i Ottumwa (p. 9,000) a Belknap.

Ar y daith rhwng y ddau le olaf adgofiais ymddyddan yr unfedganrif-ar-hugain ar wastadedd Dakota, canys fel yr oeddwn yn sefyll allan ar y banlawr olaf, pan oedd ein cerbydres yn pasio craig o faintioli tâs wair, rhedodd dyn allan mewn syndod a gwaeddodd, "Dyna graig fawr." Gan nad atebwyd iddo air dywedodd drachefn, "A welsoch chwi graig mor fawr a honyna o'r blaen?"

"Do, rai," oedd yr atebiad.

"Wel ni welais i, a dweyd y gwir. Yr wyf yn golygu y graig yna yn un o ryfeddodau y greadigaeth. Ai nid ydych chwi?"

"Y mae pob peth yn y greadigaeth yn rhyfedd, ac yn ddiameu byddai craig fel yna yn rhyfeddod fawr yn eich gwlad chwi."

"Pa fodd y gwyddoch pa wlad yr wyf yn byw ynddi?"

"Yr ydych yn byw yn ngogleddbarth y dalaeth hon, onid ydych?"

"Ydwyf; ond sut y gwyddoch chwi hyny?"

"Trwy weled darlun gwastadeddau eich gwlad yn eich llygaid, a syndod eich wynebpryd pan welsoch y tamaid craig yna."

"Ai nid ydyw yn un fawr ryfeddol ynte?"

"Mewn cydmariaeth i dwrch-dwmpathau eich gwlad chwi, y mae felly; ond mewn cydmariaeth i greigiau a welwch eto, os ydych yn myned yn mhell i'r cyfeiriad hwn, nid ydyw ond megys twrchdwmpath ei hun."

Ar ol syllu enyd ar yr hwn oedd yn ymddyddan âg ef, fel i wneud allan pa un ai mewn cellwair ai sobrwydd yr ydoedd, aeth i fewn. Wedi cael ei sêt gwelais ef yn syllu yn hir a manwl yn y drych *(looking-glass)* i weled, gallwn dybio, a oedd llun ei wlad yn ymddangos yn ei lygaid.

O Belknap cymerais gyfeiriad gorllewinol can belled ag Allerton, yna i Lucas a Cleveland, lle y'm hanrhegwyd â gweithiau Mormonaidd, ac ym haddysgwyd yn y gwahaniaeth sydd rhwng y ddwy gangen o Saint y Dyddiau Diweddaf.

YN MISSOURI.

O Cleveland cymerais daith ddeheuol o tua 150 o filldiroedd, trwy Centerville, Kirkville, a Macon City, i Moberly (p. 7,000) a Huntsville, lle y mae llawer o lowyr Cymreig. Am Americaniaid y parthau hyn, hen gaethfeistri, neu rai o'r daliadau hyny, ydynt gan amlaf. Chwythant eu geiriau allan megys trwy eu trwynau, a gwnant defnydd anarferol o'r llythyren *h*. Edrychant yn ddirmygus i raddau ar ddyn gwyn fyddo yn gweithio. Ystyriant mai'r Negroaid duon sydd i fod yn ddynion gwaith; ac y mae lluosogrwydd o'r cyfryw i'w gweled yma.

O Huntsville cymerais gyfeiriad gogleddol i Bevier, yr hwn sydd bentref Cymreig agos oll, lle y codir llaweroedd o lô. Pan oedd nifer o bobl yma yn rhoddi i mi hanes y lle, gofynodd un o honynt a oeddwn yn bwriadu cyhoeddi eu hanes yn hollol fel y mae. "Amcenir at gywirdeb," ydoedd yr ateb. Meddai yntau, gyda chellwair yn ei lygaid, "Nid ydym am roddi i chwi fwy o'n hanes nag sydd weddaidd, gan hyny yr wyf yn gofyn i chwi a ydyw yn weddaidd i weinidog Cymreig fedyddio Negroaid?"

"Gan y gorchymynir i weinidogion yr Efengyl ddysgu a bedyddio *yr holl genedloedd*, a fod y genedl Negroaidd yn y rhestr, y mae yn weddaidd i weinidog Cymreig fedyddio Negroaid."

"Felly," meddai yntau, "y mae yn rhydd i mi ddyweyd yr hanes. Daeth nifer o deuluoedd Negroaidd i breswylio yn agos yma, a chan nad oedd yn eu plith weinidog o honynt eu hunain, a'i fod yn marn gweinidogion gwynion (llawer o'r rhai yn y parthau hyn ydynt o dras yr hen gaethfeistri) yn anheilwng o'u hurddas i fedyddio Negroaid, daethant at weinidog Cymreig a gofynasant iddo a wnai efe ymostwng i'w bedyddio hwy. 'Ymostwng i fedyddio!' meddai'r Cymro; "mi a'i cyfrifwn yn fraint o'r mwyaf i gael bedyddio unrhyw greaduriaid, hyd yn nod pe baent fulod, ond cael ynddynt arwyddion eu bod yn credu yn Nghrist.' Ac felly, heb ychwaneg o lol, efe a'i bedyddiodd."

Ddeng milldir yn mhellach i'r gorllewin y mae amgylchoedd New Cambria, gwlad fryniog o amaethwyr, a'r sefydliad Cymreig mwyaf yn y dalaeth. Tua haner can' milldir yn mhellach disgynais yn Utica i fyned i sefydliad Cymreig arall a elwid Dawn. Yno y mae gwlad fwy dymunol yr olwg arni. Ychydig yn dde-orllewinol oddiyma y mae sefydliad Cymreig Low Gap, lle y mae gwlad brydferth a


thiroedd da am brisoedd cydmarol isel. Oddiyma cymerodd cyfaill caredig fi ar ganol nos yn ei gerbyd i fyned i Moresville i gael y gerbydres i Kansas City. Ar ein gwaith yn pasio rhyw dy dywedodd, "Dyma lle y cartrefa y Negro brydiog a da at yr hwn yn amser caethwasiaeth yr arferai caethfeistri ddyfod a'u caethesau fel y gallent godi *stock* dda o gaethion. Ystyrid ef yn un mor rhagorol fel y deuent ato ganoedd o filldiroedd."

Aeth y gerbydres â mi trwy barth o wlad a flinid gryn lawer gan ysbeilwyr, y rhai yn finteioedd yn y nos ac mewn lleoedd anghysbell a barent i *stages*, ïe, *trains* cyfain sefyll tra fyddent yn eu hysbeilio. Bu hyny droion yn yr amgylchoedd hyn yn ystod yr haf hwnw. Ychydig ddyddiau cyn fy myned y ffordd hon, yr oeddynt wedi saethu yn farw *conductor* cerbydres ac un o'r teithwyr, ac ysbeilio pawb arni. Gwnaent eu hymosodiadau sydyn yn ol cyfundrefn gyd-ddealledig. Rhaid fyddai i bob un yn y cerbyd ddal ei ddwylaw i fyny dan y perygl o gael ei saethu yn y fan, tra byddai un o'r lladron yn myned oddiamgylch gyda chwd i roddi llogell-lyfrau, oriaduron, arian, tlysau, a phob peth gwerthfawr ynddo. Wedi ysbeilio hefyd gerbydau yr *express* a'r llythyrau, marchogent ymaith. Hen wrthryfelwyr y dê ydynt y creaduriaid hyn gan amlaf. Deallwyf fod rhai o'r blaenoriaid mileinig wedi eu dal, a'r wlad yn awr yn cael llonydd ganddynt.

Y mae Kansas City yn ddinas flodeuog ar fryniau rhamantus glàn y Missouri. Cynyddodd poblogaeth y ddinas hon mewn deg mlynedd o amser o 5,000 i 56,000. Hwn ydoedd y trydydd lle i mi groesi y Missouri. Croesais hi y tro cyntaf ger Fort Pierre, tua 600 o filldiroedd yn uwch i fyny, a thrachefn ger Omaha. Cynelid ffair flynyddol y sîr gerllaw Kansas City pan oeddwn yno. Parha y ffeiriau hyn yn mhob sîr dri diwrnod. Eu hamcan ydyw, nid gwerthu, ond gwneud arddangosiad o bethau, a gwobrwyo am y goreuon o'r anifeiliaid, ydau, ffrwythau, peiriannau, marchogesau, ac agos bob peth defnyddiol. Prif atdynfa y ffair hon ydoedd rhedegfa o bumtheg milldir ar feirch rhwng un Miss Williams a rhyw Miss arall. Yr oedd Miss Williams wedi curo y llall mewn rhedegfa flaenorol, ond y llall gurodd y tro hwn. Rhagorai un fel marchoges, a rhagorai y llall mewn cyflymdra wrth newid meirch, y rhai a newidiwyd chwech neu saith o weithiau.

KANSAS.

O Kansas City aethum bedair milldir yn ddeheuol i Rosedale, lle y mae llaweroedd o Gymry yn gweithio mewn tân-weithfaoedd. Wedi dychwelyd i Kansas City cymerais daith orllewinol o ddeg milldir ar hugain i Lawrence (p. 9,000), lle ag oedd yn ganolbwynt brwydrau gwaedlyd rhwng gwŷr geirwon y cyffiniau *(border ruffians)* yn amser y gwrthryfel mawr. Meddianwyd ac ysbeiliwyd y lle unwaith gan y carn-leidr hynod Quantrell a'i wylliaid. Saith



KANSAS AVENUE, TOPEKA.

milldir ar hugain yn mhellach ac yr oeddwn yn Topeka (p. 16,000). Yr oedd yno ffair dalaethol, yr hyn a barai brysurdeb neillduol ar y reilffyrdd tuag yno o bob cyfeiriad. Yr oedd i'w gweled yno ryfeddodau naturiol a chelfyddydol y byddai yn werth teithio canoedd o filldiroedd i'w gweled. Er hyny, testun mawr y ffair hon eto ydoedd rhedegfa ar feirch rhwng Miss Curtis, o Kansas, a

I

Miss Pinneo, o Colorado. Ugain milldir ydoedd y rhedegfa hon i fod, ond am fod un o'r merched wedi myned yn glaf byrhawyd hi i ddeg. Gorphenodd y ferch glaf ei gyrfa mewn llewyg, ond enillodd y goron.

Rhyfeddod fawr arall a welwyd yn y ffair hon ydoedd buddugoliaeth dirwest. Yn mhlith y miloedd, ïe, y canoedd o filoedd dynion oeddynt wedi ymgynull o gylch canoedd o filldiroedd, ni welid un dyn meddw yn eu plith, nac un dyn yn gwerthu na phrynu diod feddwol trwy yr holl ffair. Y mae Kansas wedi gwneud cyfreithiau dirwestol, ac nid ydyw yn gyfreithlawn i neb ond cyffeirwyr werthu diodydd meddwol o'i mewn. Y mae, er hyny, trwy y dalaeth oll raddau mawr o werthu ac o yfed *sly*. Gwelais ddau, a dim ond dau, yn arddangos gogoniant eu cywilydd mewn tref ag y tybid ei bod yn hollol ddirwestol. Pwy oeddynt? Indiaid? Nage. Gwyddelod? Nage. Ellmyniaid? Nage. Yankees? Nage. Nid Cymry, ai e?Ië, yn wir, dau Gymro wedi dyfod yn ddiweddar iawn o Gymru!




DEFAID KANSAS.

Gan fy mod yn dysgwyl fy mhethau i ddyfod ar fy ol o Kansas City, ni ellais ymadael â Topeka cyn dau o'r gloch y boreu. Cyrhaeddais Osage City erbyn pump, ac ar ol llawer o drafferth cefais hyd i Gymry, ond mor llwyr luddedig yr oeddwn yn cael fy hun fel y bernais y byddai gwely yn llawer mwy cyfaddas na phulpud, er ei bod yn Sabbath. Hebryngwyd fi y prydnawn hwnw ddeuddeg milldir i sefydliad Cymreig Arvonia, lle y cyfarfyddais â'r Parch. M. B. Morris, ei wraig, a'i ferch, o Colorado. Oni buasai y cydgyfarfyddiad hwn buasai rhan ddyeithriaf a rhyfeddaf fy nhaith, hwyrach, heb ei chyflawni. Ar ddyferiad olew grasol Mr. Morris i'm hysbryd llesg, ymadfywiais a chefais nerth i fyned rhagof.

I fyned o Arvonia i'r Bala, yn ngwlad Powys, tua phedwar ugain milldir yn ogledd-orllewinol, yr oedd genyf i ddychwelyd i Osage City, lle y clywais am farwolaeth yr Arlywydd Garfield, yn mhen agos i dri mis ar ol iddo gael ei saethu. Aethum heibio Peterton, lle y mae llawer o lôwyr Cymreig, a thrwy Burlingame i Manhattan. Daeth dyn o'r Bala a'i gerbyd i gyfarfod â mi i'r lle hwn, ond gan iddo fy ngheisio ar orsaf wahanol i'r hon y daethum iddi, ni ddaethom o hyd i'n gilydd, gan hyny mi a'i troediais allan tua chwe' milldir ar hugain ar hyd Dyffryn y Gath Wyllt. Ymddangosai y wlad hon yn debyg i rai parthau o Gymru; bron na thybiwn wrth ganfod tai o geryg a chloddiau ceryg ar fryniau ceryg, fy mod yn rhodio yn agos i'r môr yn sir Feirionydd.

O'r Bala aethum i Junction City, tuag ugain milldir yn ddeheuol. Yr ydoedd yno anghydfod rhwng y diodwyr a'r dirwestwyr. Os methid cael deuddeg o reithwyr i euog-farnu dyn a fyddai yn cael ei erlyn am werthu diodydd meddwol, ystyrid y byddai y fasnach feddwol wedi cario'r dydd, ac y byddai yn ddiogel i'r neb a ewyllysiai werthu ei melldithion. Dywedid fod rhai trefydd yn y dalaeth wedi gorchfygu yn y modd hwn, ac yn gallu herio y gyfraith.



YSGOL NORMALAIDD EMPORIA, KANSAS.

Oddiyma aethum i Emporia (p. 5,000), tua thriugain milldir yn ddeheu-ddwyreiniol. Yn, a ger y dref hon y mae y sefydliad Cymreig mwyaf ei faint, ei lwydd a'i bwys yn y dalaeth. Arosais yma fwy nag wythnos, a chefais y bobl yn hynod garedig. Ar ol tymor maith o sychder daeth yn wlaw mawr yno brydnawn y 29ain o Fedi, a da gan bawb ydoedd derbyn y rhodd, ond daeth dinystr i'w ganlyn, canys aeth heibio i'r dref, tua milldir oddiwrthi ar y tu gogleddol, hyrddwynt ofnadwy, yr hwn a ddrylliodd amryw dai, ac a ddygodd ymaith bedwar o fywydau dynol; gwelais ddau o'r cyrff, sef eiddo gwraig ieuanc a baban blwydd a haner oed.

I Burrton, 93 o filldiroedd yn mhellach, lle y mae sefydliad bychan o Gymry, yr aethum yn nesaf. Fel engraifft o'r croesaw a roddir i newydd-ddyfodiaid yn y Gorllewin, wele a ganlyn o'r *Burrton Monitor* am yr wythnos hono:—

"We now have a tailor, in the person of Mr. Owens, just from the old country (Wales). He comes well recommended, has a good face upon him, and we are all going to patronize him and help him along. We want every fellow that strikes our town to 'stick.'"

Y mae y wlad yn yr amgylchoedd hyn yn wastad agos fel bwrdd, ond tua deuddeg milldir yn ddeheuol, tua glan yr afon Arkansas, y mae tiroedd ag ychydig chwyddiadau ynddynt, tiroedd rhagorol, meddir, ac a werthir gan gwmpeini y reilffordd ardderchog *Atchison, Topeka, and Santa Fe* am brisoedd isel a thelerau manteisiol iawn i dalu; os myn neb ei feddianu ni ddylid colli amser, bydd yn fuan wedi myned. Nid llawer o diroedd amaethu da a geir yn mhellach na hyn; gwaelach, waelach y ceir ef bellach fel yr agoseir at y Mynyddoedd Creigiog.

Pymtheg milldir o Burrton y mae Hutchinson. O'r lle hwn yn mlaen ymgadwai y reilffordd yn agos at yr afon Arkansas. Nid oedd ond gwastadeddau mawrion i'w canfod, gyda threfi a pentrefi yma a thraw, wedi eu cenhedlu a'u magu gan y reilffordd, a dywedir eu bod oll yn bwriadu dyfod, fel eu mam, yn rhai mawrion ac enwog iawn. Sterling, er engraifft (p. 2,000), yr hon yr ymffrostia ei phreswylwyr ei bod eisoes gymaint a New York, ond yn unig ei bod heb ei hadeiladu. Yn mhellach yn mlaen y mae Craig Pawnee, lle hynod mewn hanes ar gyfrif ei ryfeloedd Indiaidd. Yn mhlith y lluaws enwau a dorwyd yn y graig y mae enw Robert E. Lee, prif gadlywydd y De yn amser y gwrthryfel mawr; cerfiodd ei enw yma pan yn llanc ieuanc.

Yn fuan wedi pasio Larned dechreuasom fyned trwy wlad gydmarol ddiffrwyth, fel mynydd Gilboa, heb na gwlith na gwlaw (i raddau digonol) yn disgyn arni. Dywedir ei bod yn ffaith ryfedd fod y cawodydd gwlaw yn myned i'r gorllewin o flaen y preswylwyr yn ol y raddeg o ddeunaw milldir y flwyddyn. Nid yw natur yn rhoddi ei bendithion lle na byddo galw am danynt. Lle na byddo ond tywod neu greigiau ni cheir gwlaw, ond lle byddo gan y ddaear blant o wyrddlysiau a choed y mae y Nefoedd yn rhoddi gwlaw i'w

disychedu. Y mae hyn hefyd yn ysgrythyrol—Canys yr Arglwydd a wrendy ar y nefoedd, a hwythau a wrandawant ar y ddaear; a'r ddaear a wrendy ar yr yd a'r gwin a'r olew, a hwythau a wrandawant ar Jezreel (Hos. ii. 21, 22). Byddai yr hen ddaearyddwyr yn nodi Nebraska, Kansas, a Colorado allan fel anialwch mawr America; ac nid oes dros oes dda er pan ydoedd yn grediniaeth gyffredinol na ellid codi dim o'r ddaear yn orllewinol iafon Missouri. Pa sail bynag ydoedd i'r grediniaeth y pryd hwnw, y mae er's blynyddau bellach wedi darfod. Yn y flwyddyn 1866 cyfrifid Kansas yn bedwerydd ar hugain o dalaethau yr Undeb yn ei chynyrchion amaethyddol. Yn y flwyddyn 1878 yr ydoedd yn flaenaf yn ei gwenith ac yn bedwerydd yn ei hindrawn.



YSGOLDY LARNED, KANSAS.

COLORADO.

Colorado ydyw yr ieuangaf o'r talaethau. Talaethwyd hi yn y flwyddyn 1876, yn mhen can' mlynedd ar ol Dadganiad Annibyniaeth, am hyny gelwir hi y Dalaeth Ganmlwyddol *(Centenial State)*. Gorwedda ar gefnau geirwon y Mynyddoedd Creigiog. Y mae yn llawn o ryfeddodau natur, yr hyn, yn nghyda'i chyfoeth mewnol o aur, arian, efydd, copr, haiarn, plwm, glo, &c., sydd wedi dwyn i ymarferiad rai o brif ryfeddodau celfyddyd. Teithiais lawer ynddi, ond gellir gosod swm a sylwedd yr hyn a welais ynddi yn hanes fy nhaith o Erie trwy Denver a Pueblo i Leadville.

Erie, ynte, ydyw y lle cyntaf. Pentref mewn llanerch blaen yn

ngolwg y mynyddoedd mawrion. Y mae yma sefydliad o Gymry, yn gweithio gan amlaf mewn coedlo *(lignite coal)*.


Y mae Denver (p. 36,000), prif ddinas y dalaeth, a'r harddaf, meddir, o St. Louis i San Francisco, 94 milldir yn ddeheu-ddwyreiniol. Saif 5,240 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr. Er nad yw nifer ei blynyddoedd ond ychydig, y mae ganddi heolydd ac adeiladau na welir eu rhagorach; yn eu plith eglwys gadeiriol, chwareudy, a gorsaf; y mae yn syndod edrych arnynt. Y mae ynddi laweroedd o Gymry, meddir, ond eu bod ar wasgar. Yma cymerais reilffordd ramantus y *Denver and Rio Grande* i fyned i gyfeiriad deheuol. Geilw ei pherchenogion y ffordd hon yn Llinell Arddundirawl America *(The Scenic Line of America)*, ac nid wyf yn meddwl fod yr enw yn rhy honiadol ychwaith. Gellid yn ddigon priodol ei galw yn llinell arddundirawl y byd. Hon ydyw y gyfundrefn hwyaf o reilffordd gul sydd yn bod, a rhaid iddi fod yn gul mewn trefn i'w cherbydresi allu gwneud ei throadau, esgyniadau, a disgyniadau cyflym, gwyllt, a beiddgar. Wedi dringo 2,260 o droedfeddi mewn 52 o filldiroedd, daethom i le a elwid y Divide, y pwynt uchaf ar y gangen hon, lle y mae llyn bychan, ar yr hwn y ceir ymbleserwyr yn rhwyfo, pysgota, ac yn saethu hwyaid gwylltion. Wedi pasio hwn daethom i olwg creigiau o dywodfaen coch, yn arddangos wyneb *(front)* o resi o golofnau cywrain, yn hollol fel pe byddent wedi eu harddurno gan law celfyddyd. Ymddangosent mor gydffurf a threfnus a phe wedi eu gosod yno gan ddynion i'r dyben o ddal y bryniau oddi-arnynt. Disgynais mewn pentref a elwid ar y cyfrif hwn yn Monument, i'r dyben o fyned bum' milldir yn ddwyreiniol i weled sefydliad bychan o amaethwyr Cymreig a elwir Gwilymville. Yma yn ddiamheu y mae yr amaethwyr Cymreig uchaf yn y byd, canys y mae y lle cyfuwch ddwywaith a phen y Wyddfa.

AMGYLCHOEDD COLORADO SPRINGS.

Tref ieuanc, hardd, iachusol, a rhinweddol wrth droed y mynydd uchel, Pike's Peak, ydyw Colorado Springs. Y mae ei hystrydoedd yn gant a'i *havenues* yn haner can' troedfedd o led, a rhesi o brenau deiliog yn eu cysgodi. Y mae y dref hon hefyd, fel amryw o drefi America, yn dref ddirwestol. Nis gall dyn a fyddo yn perchenogi

tir ynddi, nac arall trwy ei ganiatâd, werthu dyferyn o ddiod feddwol ar y cyfryw dir heb ei fod, yn ol telerau y weithred *(deed)* a gafodd, yn colli ei hawl yn gwbl iddo.


Pum' milldir o Colorado Springs y mae Manitou, tref fechan ffasiynol iawn arall, yn llechu yn ddyddos yn nghesail y mynydd. Llaweroedd ydynt yr ymwelwyr a ddeuant yn feunyddiol i'r ddwy dref hyn i fwynhau awyr gryfhaol, ffynonau meddyginiaethol, a golygfeydd rhyfeddol. Yn mhob un o'r pethau hyn y mae y llanerch hon yn hynod.



PIKE'S PEAK AVENUE, COLORADO SPRINGS.

Ychydig filldiroedd yn ogleddol o'r trefi hyn y mae Monument Park, lle yn gymysg â choedlwyni gwyrddion; y mae creigiau a cholofnau o dywodfaen coch a gwyn yn sefyll i fyny yn bob maintioli a desgrifiad, rhai mor gyfluniaidd a phe byddai dwylaw dynion wedi eu gwneud â chŷnion. Ymddangosai rhai fel pyrth bwäog, eraill fel pigdyrau, eraill fel eingion gof, eraill fel delwau cerfiedig, ac eraill fel bedd-golofnau.

Yn nes i Manitou y mae Gardd y Duwiau *(Garden of the Gods)*, lle y gwelir meini ar lun dynion, eraill ar lun menywod a gorchudd-leni drostynt, eraill ar lun delwau a duwiau yr hen ddwyreinwyr, a chanddynt benau adar, llewod, ychain, &c. Safant rai wrthynt eu hunain, eraill yn ddau neu dri



MANITOU, COLORADO.

yn nghyd, ac eraill yn gynulleidfa o fodau dystaw, llonydd, prudd, a sobr. Wrth edrych arnynt o un cyfeiriad ymddangosent yn fathau neillduol o greaduriaid byw. Wrth edrych arnynt o gyfeiriad arall ymddangosent yn fathau eraill o greaduriaid hollol wahanol. Byddai creigiau eraill yn eu plith ar ffurf adeiladau, eglwysdai pinaclog, a chaerau tyrawg. Pe gosodid dyeithr-ddyn yn ei gwsg i lawr yn y lle



MONUMENT PARK, COLORADO.

rhyfedd hwn, ac iddo ddeffro ar noson oleu leuad, yr wyf yn sicr y meddienid ef gan deimladau rhyfedd—nid ofn llewod nac eirth, er yn wir y gallai fod ganddo achos i ofni y rhai hyny, ond amheuaeth parthed ei wir sefyllfa, pa un ai yn y byd hwn ai yn y byd arall y byddai. Tra yn cerdded yma gwelais fonion coed perffaith wedi


myned yn geryg perffaith. Gellir treulio diwrnodau yn y fangre hon a gweled rhyfeddodau newyddion yn dyfod i'r golwg yn barhaus.

Tua milldir i'r gogledd o Manitou y mae Ogof y Gwyntoedd *(cave of the winds)*, yn yr hon y mae deuddeg a thriugain o neuaddau ac ystafelloedd eang, trwy y rhai y gall dyn gerdded yn uniawnsyth. Gwelir ynddynt gyflawnder o goed-feini *(basalt)* a rhew-feini *(stalactites)*, y rhai a grogant o'r nenfwd fel pigynau o rew. Y mae rhodio wrth oleu llusern yn yr ogof hon, a gwrando ein hadlais, rhwng ystafelloedd ac agenau agos a phell, fel lleisiau ysbrydion, yn cynyrchu yn y fynwes y fath deimlad dorus ag a feddianai ddyn a safai ei hunan yn Ngardd y Duwiau wrth oleu'r lloer.

Yn gyfagos eto y mae *Ute Pass*, sef toriad rhamantus rhwng creigiau uniawnsyth, uchel, a mawreddus, yn y rhai y mae rhai o'r ogofeydd, tyllau, a dwfr-ddisgyniadau rhyfeddaf. *Cheyenne Canyon*, a *Williams' Canyon*, a *Glen Eyrie*, yn gystal



MONUMENT PARK, COLORADO.



CRAIG YR FINGION.

â llawer o wrthddrychau eraill yn y parthau hyn ydynt yn werth dyfod o bell i'w gweled.

CYCHWYN I PIKE'S PEAK.

Pigyn Pike yn Colorado, er nad yr uchaf oll, ydyw un o'r rhai uchaf, ac ar rhyw gyfrifon yr enwocaf, o bigynau y Mynyddoedd Creigiog; ac arno ef, meddir, y mae y breswylfa ddynol uchaf yn y byd. Ymddyrcha ei gopa 14,147 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr; felly, yn ymyl bod bedair gwaith uchder y Wyddfa. Bu y mynydd hwn unwaith yn brif atdynfa y rhai a chwilient am aur, ac yn brif dir-nôd *(land-mark)* tir-fesurwyr y llywodraeth. Y mae ei gôpa eto yn orsaf, ar yr hon y cedwir dynion i wneud arsylliadau awyrawl i gadw y llywodraeth yn hyddysg yn ansawdd y tywydd.

Llawer yn misoedd yr haf ydynt yn ceisio cyflawni un orchestgamp fawr yn eu bywyd, trwy ddringo i ben y mynydd enwog hwn.

Meddianwyd finau gan yr un ysbrydiaeth, ac aethum mor uchelgeisiol a phenderfynu dyfod allan yn y dosbarth blaenaf, sef rhai yn cyflawni yr orchest trwy nerth eu coesau a'u hanadl eu hunain, ac a dreuliant noswaith ar y pigyn i weled yr haul yn codi. Ar gefnau ceffylau a gedwir yn Manitou i'r dyben hwn y mae y lluaws yn myned, ond anturiaethwyr ail-raddol y cyfrifir y rhai hyn. Saif Manitou ychydig dros 6,000 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr. Y mae copa y mynydd, felly, tua 8,000 o droedfeddi uwchlaw iddi hithau. Y ffordd yno yn un milldir ar ddeg, ac, a thynu allan o hyn y filldir gyntaf am ei bod yn wastad, y mae yn esgyniad o ddeg milldir yn ol y raddeg o wyth gant o droedfeddi y filldir. I ddeall y daith hon, ddarllenydd, meddylia am rhyw riw fawr chwarter milldir o hyd, a'i phen ddau cant o droedfeddi yn uwch na'i gwaelod, a'th fod yn dringo deg milldir o'r cyfryw riw—nid ar hyd ffordd wneuthuredig, hyfryd, fel prif-ffyrdd Cymru, ond ar hyd llwybr cul o raian mânaidd a threiglog, ar y rhai y byddai dy draed yn llithro rhyw gymaint yn ol am bob cam a roddit yn mlaen; brydiau eraill ar geryg mânaidd, pigog, y rhai, oddieithr i wadnau dy esgidiau fod yn dewion a gwydn, a fyddent yn sicr o dòri trwcdd at y traed; mewn manau drachefn yn gorfod bras-gamu megys i fyny grisiau, o gareg fawr i gareg fawr, a bod yn dra gwyliadwrus i beidio gwneud cam difeddwl, rhag i hyny beri i ti beidio meddwl am wneud cam byth mwyach.



CAREG GYDBWYS, MANITOU, COLORADO.

Wedi cychwyn yn foreu o dref baradwysaidd Manitou, a rhodio tua milldir o ffordd wastad, hyfryd, ac yfed o ffynonau bywiol o ddyfroedd haiarn a *soda*, na cheir eu rhagorach, efallai, yn y byd, cefais fy hun wrth droed yr esgynfa, ac yno yr ydoedd golygfa arddunawl ryfeddol yn fy nghroesawu—y dyffryn tlws yn terfynu, a chreigiau aruthrol, wedi eu haddurno â bythwyrddion brenau, yn ymgodi ar unwaith o ddau tu i'r afon wyllt a ffrochionai i lawr rhyngddynt;



GWESTDY YN MANITOU, COLORADO.

a chan ddisgyn mewn dysglaerder a dwndwr o'r uchelder, chwareuai a neidiai o graig i graig, a chwarddai trwyddi wrth gael gwaelod yr aig, mewn lle yn llawn ei llonder. Yr oedd natur oll megys ar ei goreu yn fy nifyru a'm gwneud yn galonog i'r daith—y nefoedd yn glir a'r hinsawdd yn ddymunol. Ond gormod o ddillad ydoedd am danaf, a gormod y baich ydoedd ar fy nghefn, am fy mod wedi darparu ar gyfer y gauaf gerwin y byddwn erbyn nos wedi myned iddo.

RHAN GYNTAF YR ESGYNIAD.

Dechreuais esgyn, ac wrth esgyn gwelwn uwch fy mhen ar y naill law y meini mawrion a'r cribau creigiog yn edrych i lawr arnaf mor fygythiol a phe baent y mynyddau hyny yn barod i syrthio arnaf. Ond rhyngddynt byddai y cedrwydd caredig a'r pinwydd siriol yn amneidio arnaf i fyned rhagof a pheidio ofni dim. Ar fy llaw

ddeheu yr oedd yr agen ddofn, a dyfnder yn galw ar ddyfnder wrth swn eu pistylloedd; a hwnt i'r dyfroedd a'r dyfnderau gwelwn eto haenau yn gorphwys ar haenau, creigiau yn crogi wrth greigiau, colofnau tuhwnt i golofnau, a phinaclau uwch pinaclau, nes, i'm golwg i, yr oeddynt yn cyffwrdd yn deg â nenfwd glas y nefoedd. I fyny ac i fyny yr ymddirwynai fy llwybr cul, igam-ogam, o'r hwn, gan dewed y coed a'r creigiau, nis gallwn weled yn mhell yn mlaen nac yn ol, nac i unrhyw gyfeiriad ond i fyny; mewn agenau rhwng creigiau serth; weithiau yn croesi yr afon o'r naill làn i'r llall, ond fynychaf ar fin y dibyn mawr. Er fod y daith yn drom, teimlwn yn ddiolchgar fy mod heb geffyl, am fod genyf fwy o ymddiried yn fy nhraed fy hun; ac heb arweinydd, am fy mod yn cael mwy o hamdden i ddal cymdeithas â natur hardd yn ngogoniant ei gwylltineb, ac anadlu moliant "i Dad y trugareddau i gyd."

Yr oedd darnau metelaidd megys plwm neu arian claerwyn, copr dyfngoch, efydd, ac efallai beth aur melyn, yn y ceryg a'r graian, yr hyn a barai i'r llwybr ac ystlysau y creigiau fflachio dan y pelydrau. Ychydig uwchlaw y droedbont, lle y croesais yr afon mewn un man, yr oedd maen mawr o faintioli ty yn ei chwbl orchuddio, a hithau wedi gweithio ffordd iddi ei hun odditanodd. Gelwid y cwymp hwn yn *Sheltered Falls.* Yn mhellach yn mlaen gwelais goeden fawr, ei bôn yn bedair troedfedd o dryfesur, mwy na'r coed sydd yn tyfu yno yn awr, wedi syrthio, a'i gwreiddiau yn sefyll i fyny o'r ddaear, ac yr ydoedd drosti a thrwyddi oll yn gareg berffaith. Cadwai y rhisgl, y graen, a'r gwreiddiau eu ffurf, er hyny, fel pe byddent eto yn bren.

Wedi esgyn bedair milldir, heb gyfarfod â neb na chlywed swn neb na dim amgen twrf y dyfroedd, sïanau yr awelon, a chathlau yr adar, daethum i olwg ty newydd o gyffion, gerllaw i'r hwn y safai dau geffyl cyfrwyedig wedi eu rhwymo, a dau ddryll yn gorphwys wrth y mur, ac oddifewn cefais ddau ddyn ieuanc golygus, y rhai a ddywedent wrthyf mai gwyr cyfiawn a heddychol oeddynt hwy, yn llafurio y ddaear, yn porthi anifeiliaid, ac yn hela gwylltfilod er mwyn eu crwyn, a'u bod, o hoffder at wylltineb natur a pherffaith dawelwch, wedi dewis y gilfach anghysbell hono i godi ynddi weddw-dy. Gofynais pa fodd yr oeddynt yn gallu llafurio y ddaear a phorthi anifeiliaid rhwng creigiau geirwon felly. Atebasant fod yno ddarnau bychain o wastadeddau ychydig yn uwch i fyny, lle y codant gloron ac yr ymhyfrydent

gyda'i gwartheg. Synent yn fawr fy ngweled yn unig ac ar draed, heb gymaint ag arf ychwaith i amddiffyn fy hun pe deuai ymosodiad. Dywedent fod eirth, *jaguars*, neu lewod y mynydd, a *panthers* yn gwneud eu hymddangosiad yn achlysurol, ac y byddai yn gysur mawr i deithiwr unig feddu moddion amddiffynol pe deuai achos. Yr oeddwn wedi clywed o'r blaen fod y creaduriaid hyn yn llechu yn ystlysau Pike's Peak, a gwnaeth ymadroddion y brodyr hyn i'r peth ddyfod adref dipyn yn ddifrifol, ac nid heb radd o ddrwgdybiaeth y gallwn feddwl am danynt hwythau. Aethum i ddyfalu beth a allai beri iddynt hwy ddewis byw felly yn mhell oddiwrth drigfanau dynol. Fodd bynag, gan fy mod wedi gosod fy meddwl ar sangu copa'r mynydd, a gweled fy mod eisioes wedi dringo llawer, penderfynais fyned rhagof. I fyny yr aethum, gan ddilyn yr afon wyllt trwy fylchau culach a rhwng creigiau erchyllach nag o'r blaen. Yn sydyn cefais fy hun yn wynebu lle agored, tua deugain cyfer, efallai, o ddaear agos a bod yn wastad—llecyn gwyrddlas, tyner, gwyrddgoed mwynion yn tyfu arno, ac "afonig fechan, fywiog, fad" yn sïan ganu wrth dreiglo trwyddo, canys yr oeddwn yn awr wedi gadael y brif afon. Amgaerid y llecyn dymunol hwn o bob tu gan y cedyrn greigiau, y rhai a sicrhaent iddo dawelwch mawr. Yma, ar lawnt gwyrddlas, y gorphwysais, ac o ddyfroedd gloywon yr afon yr yfais, a llawer gwaith wedi hyn y meddyliais yr hoffwn drigfan dawel mewn llanerch dlos o'r fath hono.

RHAN UCHAF YR ESGYNIAD.

Wedi myned trwy y baradwys hon dechreuais drachefn ddringo'r rhiwiau geirwon. Nid oedd gweddill y daith agos mor ddymunol, oblegid, yn un peth, ei bod, er yn arw, yn fwy llwydaidd a diaddurn. Dechreuodd y mwynder ymadaw, ac aeth y gwyrddlesni i ymddangos lawr obry yn mhell ar ol, a, gwaeth na'r oll, aeth fy llwybr â mi oddiwrth yr afonig gyfeillgar. Bu raid dringo y chwe' milldir olaf heb ddwfr, a daeth syched angerddol arnaf. Daethum i'r uchder hwnw nas gall prenau dyfu ynddo, a rhoddais ffarwel i'r cyfeillion hyn. Wrth barhau i ddringo'r llethrau moelion, aethum i deimlo yn llesg a lluddedig iawn. Yr oedd egin gwanaidd, gwanaidd yn parhau i'm sirioli, er fod y gwynt yn chwythu yn gryf a'r hinsawdd yn oer. Ymddangosai hefyd flodau llai, gwanach a

phlaenach na llygaid y dydd, eu lliw yn fetelaidd fel plwm, ac yr oeddynt mor frau fel y byddai ymaflyd ynddynt yn eu malurio. Yr oeddwn yn awr yn y diriogaeth hono y mae llawer yn methu myned gam yn mhellach gan deneudra yr awyr—teimlant y fath anhawsdra i anadlu, eu cnawd yn chwyddo a'u gwaed yn tori allan trwy eu genau, eu ffroenau, neu eu clustiau, fel y rhaid brysio i fyned i lawr. Nid oeddwn i, fodd bynag, yn teimlo yr anhawsderau yna. O ran yr anadl, credwyf y gallwn gadw yr un cyflymdra o'r gwaelod i'r pen, ond yr oedd y coesau yn myned yn ddiffrwyth, ac nis gallwn bellach gerdded dros ddau ddwsin o gamrau heb gael pump neu ddeng mynyd o orphwysdra; aethum i ddymuno fel Richard III. ar faes Bosworth—"*A horse! a horse! My kingdom for a horse!*" Yr oedd yr egin a'r blodau olaf yn awr wedi diflanu allan o olwg, ac nid oedd yn fy amgylchynu ond ceryg a chreigiau yn eu noethlymder. Aeth y pigynau cymydogol i ymddangos odditanaf, a'r wlad yn gyffredinol wedi myned yn un llen niwliog, pell yn y gwaelodion. Gwelwn heolydd Colorado Springs draw, draw obry, obry fel edau fain yn croesi eu gilydd. Tybiwn fy mod yn gweled rhai llynoedd hefyd yn ysmotiau gwynion bychain; oddieithr hyny nid oedd na bryniau na phantiau, na choedwigoed na *phrairies*, i'w gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd. Am y pentyrau diderfyn o geryg a chreigiau rhuddgochion, miniog, pigog, conglog, a pheryglus a'm hamgylchent, amlwg yw iddynt gael eu dryllio a'u taflu yn ddidrefn ar eu gilydd pan chwydwyd hwy allan o'r ddaear rhyw gyfnod pell yn ol. O ran maintioli amrywiant o'r graian i'r graig ganoedd o droedfeddi o uchder. Tebyg, ar y cyfan, ydoedd yr ymddangosiad o honynt i'r hyn a wnelai holl flychau, *trunkiau*, styciau, adeiladau, ceryg chwarelau, a môr-greigiau Cymru, pe baent oll wedi eu paentio yn gochion a'u taflu at eu gilydd nes gwneud pentyrau gymaint a'r serth-glogwyni mwyaf a welir. Yr oedd eu noethder dieithriad yn peri i mi deimlo yn hurt, megys mewn rhyw fyd arall, a'u cras-gochni ffwrneis-liw yn peri i'm syched, gallwn dybio, fod yn fwy angerddol.

Yr oedd ymddygiad y mynydd hwn ataf yn dra gwahanol i'r hyn a addawodd. Pan oeddwn haner can' milldir oddiwrtho gwahoddai fi i bleser-deithio ar hyd-ddo, ac hyd yn nod pan oeddwn yn cyffwrdd â'i droed yn Colorado Springs, dywedai wrthyf nad oedd efe fawr uwch na'r pigynau eraill, ac mai gwaith hawdd fyddai ei ddringo.

Ond yn awr yr oedd ei blant cochion a geirwon ar ei gefn yn ymddangos fel yn cael mwynhâd yn fy mlino a'm gwawdio. Ar ol y buaswn wedi cerdded, cerdded, a cherdded i geisio myned heibio congl rhyw glogwyn neu graig uchel, gan feddwl mai hwnw fyddai yr olaf, deuai craig anferthol arall i'r golwg, ac arall drachefn a thrachefn, nes oedd fy siomiantau wedi myned bron yn anobaith. Ni bu erioed mor llawen genyf weled asynod ag oedd canfod dau o honynt yn dyfod i lawr y llwybr cul, a'r ffrâm ·sydd ganddynt yn cario eu beichiau yn rhwym ar eu cefnau. Cadwent wyliadwriaeth synwyrol ar bob cam a roddent. Daethum at lyn bychan o rew—dwfr gwlaw wedi rhewi rhwng y ceryg. Torais o hwnw ddarnau mân i'w doddi yn fy ngenau, a chefais esboniad ar y geiriau—"Dyfroedd oerion i'r enaid sychedig." Yna gwelais bedwar o asynod eraill yn dyfod i lawr, yn cael eu canlyn gan ddau ddyn, y rhai a ddywedasant wrthyf nad oedd genyf ond chwarter milldir i fyned i'r pen, a bu yn galed ryfeddol arnaf gyflawni hyny; ond o'r diwedd, pan ddaeth y *signal station* i'r golwg, mi a lawenychais â llawenydd mawr dros ben. Derbyniwyd fi gan y ddau breswylydd. Cyflawnais y daith o 11 milldir ar ol naw awr o ymdrech galed. Yr oedd gwadn un o'm hesgidiau wedi myned yn llwyr, fel nad oedd ond yr hosan rhwng fy nhroed â'r ceryg.

NOSWAITH AR Y MYNYDD.

Wedi yfed dwfr, ymdwymno, a dyfod dipyn ataf fy hun, a chylymu darn o ledr dan y gweddill esgid oedd genyf, aethum allan i weled yr amgylchoedd. Gallai fod copa y pigyn yn ddau gyfer oddiarno, oll yn geryg cochion, geirwon, mawrion o'r fath a ddysgrifiwyd; ar y canol yr oedd adeilad isel a phlaen o'r un defnydd, ac ynddo bedair ystafell; y preswylwyr oeddynt Sergeant O'Keef a Major Criben, arsyllwyr y llywodraeth, a gwaedgi mawr. Oddiamgylch yr oedd llygod, daear wiwerod rhesfrithion, ac adar tebyg i adar y tô. Cysylltid y tŷ hwn, trwy wifren bellebyr, â Colorado Springs ac â Washington, i'r rhai y pellebrid ansawdd y tywydd a chyfeiriad y gwynt bob dydd. Encyd fechan oddiwrth y tŷ yr oedd careg fedd o farmor gwyn, teg, ac arni yn gerfiedig, mewn llythyrenau duon, a ganlyn:—

"*Fair Cynthia with her starry train*
Shall linger o'er thy silent rest,
And waft one soft sweet spheric strain
To Erin dear, among the blest.

ERECTED

By Sergeant John and Norah O'Keef in memory of their infant daughter,
Erin O'Keef, who was destroyed by mountain rats at the
U.S. Signal Station on the summit of Pike's Peak,
May 25th, A.D. 1876."

Yn anffodus, yr ydoedd graddau o gymylau a niwl yn rhwystro i mi gael yr olwg eangfawr ar ganoedd o filldiroedd a gawn pe byddai yn hollol glir. Gallwn, er hyny, weled prif bigynau eraill y Mynyddoedd Creigiog a'r brif gadwen yn y gorllewin draw—yr eira gwyn am danynt, a'r olwg arnynt yn ogoneddus o arw ac oer. Gwyliais yr haul yn machludo yn y gorllewin. Ond yn y dwyrain yr ymddangosodd y rhyfeddod fwyaf ar y pryd, canys gwelid yno gysgod du Pike's Peak ar yr awyr yn ymgodi yn uchel o'r terfyngylch, gyda dau gorn dysglaer o oleuni yn ymddyrchafu oddiwrtho, y naill yn fyny-ogleddol a'r llall yn fyny-ddeheuol.

Ar ol cael lluniaeth, cynaliwyd cyfarfod difyrus o bedair rhan-awr bob rhan. Yn y rhan gyntaf rhoddodd y ddau arsyllydd i mi ddysgrifiad o'r modd y maent yn byw. Tair milldir islaw y mae afonig a choed yn tyfu, ac yno y mae ty arall perthynol iddynt a dau ddyn yn byw ynddynt, y rhai hyny, gyda'u hasynod (a elwir *burros*), a gyfarfum ar fy ffordd i fyny. Ar gefnau yr asynod hyny y dygir coed, dwfr, lluniaeth, a phob rhyw beth i'r orsaf. Deuant i fyny yn llwythog, a rhaid iddynt gario digon yr haf erbyn y gauaf; oblegid trwy gydol misoedd meithion y gauaf y maent yn cael eu cau i fyny fel nas gall fod negesau rhyngddynt â neb ond trwy gyfrwng y gwifrau. Dangosasant i mi drysorfäau llawnion o bob moethau a darpariaethau. Meddent lyfrgell ragorol, ac yr oedd agwedd galonog arnynt.

Gwaith ail ran y cyfarfod ydoedd ceisio dal i fyny gymeriad Prydain yn wyneb ymosodiadau ofnadwy y Sergeant, a chyda llaw, gallaf grybwyll ddarfod i mi gael llawer o'r gwaith hwn yn ngwahanol barthau y wlad. Adnabyddir fi gan lawer yn sir Aberteifi fel Americanwr selog, a chofir am danaf gan lawer yn America fel un yn teimlo gormod dros Brydain. Y mae gan rai pobl gibddall yn

Mhrydain y fath syniadau gwrthun am America a rhagfarn front tuag ati, a chan rai pobl anwybodus yn America yr un modd y fath syniadau cul am Brydain a chasineb ati, fel y mae dyfod i wrthdarawiad â'r cyfryw yn pergylu yr heddwch ar y pryd. Elai y Sergeant ar y pen yma yn babwyr gwyllt, a bron na thybiwn ei fod yr awr hòno yn myned i wisgo ei arfau, disgyn o'r mynydd, croesi yr Atlantic, a rhoddi maethgen iawn i Loegr. Da oedd fod y Major yn ddyn arafaidd, oeraidd, a chall, oblegid hyny a waredodd y mynydd rhag myned yn fflam.

Gwaith y drydedd ran ydoedd cydmaru ein gwahanol ieithoedd â'u gilydd. Yr oeddym ni ein tri yn cynrychioli tair cangen o'r cyff Celtaidd—Sergeant O'Kief y Wyddelig; Major Criben y Fanawaidd; a minau y Gymreig. Gwyn fyd na buaswn wedi gwybod am hyn cyn cychwyn o Gymru, fel y gallwn fod wedi gofyn i'r Proffeswr John Rhys ddyfod gyda mi i gael ei berffeithio; oblegid er ei fod wedi dringo yn uchel iawn fel ysgolhaig Celtaidd, yr wyf yn sicr y byddai bod yn gadeirydd y cynghor Celtaidd hwn ar gopa Pigyn Pike, yn mhell uwchlaw holl ysgolheigion y byd, yn ddyrchafiad mawr iddo. Mor bell ag yr oeddym ni yn gallu myned, cawsom fod priod-ddull *(idiom)* y tair iaith yn dra thebyg, ac amryw eiriau bron yr un fath. Ond er ein bod yn dri chefnderwyr, a phob un yn meddu ei briodiaith, wedi dyfod o'r un gwreiddiaith, rhaid oedd i'n hymddyddan fod yn estroniaith y Sais. Diweddwyd y rhan hon o'r cyfarfod trwy i'r Sergeant adrodd rhigwn o brydyddiaith yn iaith y Gwyddel; y Major ddameg y deng morwyn yn iaith Ynys Manaw; a minau y Salm gyntaf yn iaith Adda Jones.

Gwaith olaf y cyfarfòd ydoedd fy nysgu i yn nirgelion pellebryddiaeth ac awyrsylliadaeth :—

Pike's.—Enw yr orsaf.
Noddy.—Uchder y gwlaw-fesurydd *(barometer)*: 30·04.
Female.—Uchder yr hin-fesurydd *(thermometer)*: 18°.
Grief.—Swm y lleithni: 70.
Head.—Cyfeiriad y gwynt ac ansawdd y tywydd: I'r deheu ac yn glir.
Lawyer.—Cyflymdra'r gwynt: 36 m. yr awr a chyson.

Dyma gyflwr yr awyr y dydd hwnw, ac fel yna y pellebrwyd i Washington pan oeddwn yno. Dywedent i mi fod yn hynod o ffodus, gan i mi gael un o'r diwrnodau llarieiddiaf yn y flwyddyn. Ar ol hyn

ceisiasom gysgu; ond yr oedd caledwch fy ngwely ar y llawr, blinder y dydd, teneudra yr awyr, yr adgof am y gareg fedd, gyda thrwst y llygod a swn y Sergeant yn rhegu ei gi yn nghwsg ac yn effro, yn peri na chefais gysgu amrentyn. Aethum yn glafaidd, megys o glefyd y môr, yr hyn, meddent wrthyf, ydoedd rhan pob newydd-ddyfodiaid i'r uchelder hwnw.

TRANOETH.

Codais yn foreu i weled yr haul yn codi. Yr oedd yn fwy niwliog a chymylog na'r noson flaenorol. Rhwng mai haner goleu ydoedd a'r gwynt cryf yn chwythu y niwl a'r cymylau gyda chyflymdra gwyllt dros y creigiau geirwon, y rhai yn filoedd ac yn filoedd a ymddiflanent ac a ymddangosent fel pe byddai yr holl fyd yn furum ferw, yr oedd yr olygfa yn fwy erchyll na'r môr garwaf a welais erioed. Yn ffodus ciliodd y cymylau mwyaf ymaith mewn pryd, safodd eraill ar yr awyr, a chwareuai y lleill, tra byddai y pelydrau yn gosod arnynt y lliwiau mwyaf gogoneddus—coch dysglaer, yn graddio o'r dyfnaf i'r ysgafnaf, a chyda hyny amryfal liwiau yr enfys, oll mor danbaid, mor doddedig, ac ar faes mor eang ac amrywiol, ac yn cynwys y cymylau rhyfeddaf—rhai yn wynion, rhai yn dduon, rhai yn haenau, rhai yn rowliau, rhai yn wlanog, a rhai yn rhesi. Rhyfeddol gynydd y gogoniant ar y rhai hyn oll fel y dynesai yr haul anweledig at y gorwel ydoedd olygfa nas gall na bardd na darluniedydd byth ei gosod allan; a phan ddaeth yr haul ei hun i'r golwg atebodd y *flapiau* niwl a ehedent heibio ddyben rhagorol trwy fy ngalluogi i edrych arno trwyddynt. Ymddangosodd cysgod rhyfedd y mynydd hefyd ar yr awyr yn y gorllewin, ond y tro hwn yn amddifad o'r ddau gorn goleu. Beth a allai fod yr achos o'r gwahaniaeth, nis gwn, oddieithr mai adlewyrchiad o eira gwyn y mynydd-gadwyni gorllewinol oedd yn peri y cyrn goleu.

Y gamp nesaf ydoedd disgyn. Torwyd coesau botasau Major Criben, a chyda gwifrau o bres rhwymwyd y lledr dan fy esgidiau, ac felly y cychwynais. Yr oedd hanesynau yr arsyllwyr a'u hadroddiadau am nerth a chreulonder y *jaguar*, ac ddarfod i ddyn gael ei golli wrth ddisgyn o'r lle hwn yr wythnos flaenorol, megys ag y collwyd llawer cyn hyny, yn peri fod arnaf fwy o ofn disgyn nag oedd arnaf i esgyn. Mwyhawyd yr ofn hwnw wedi mi ddyfod i lawr can

belled a'r coed, lle y cyfarfyddais â dau ddyn yn myned i fyny ar gefnau ceffylau, canys canfyddais ôl palfau, mwy o lawer na phalfau unrhyw gi, yn rhodio i lawr y llwybr, a hyny mor ddiweddar fel yr oedd wedi dinystrio rhanau o ôl carnau y ceffylau a gyfarfum. Tybiwn mai wedi myned i'r afon i gael dwfr yr oedd y bwystfil, ac y gallwn gyfarfod âg ef ar ei ddychweliad, ond diolch i'r nefoedd, ni chefais gymaint a'i weled. Byddai yn well genyf dalu am gael golwg arno mewn gwylltfilodfa *(menagerie).* Cerddais yn galed heb gymeryd hamdden i orphwyso, hyd yn nod yn y llecyn gwastad a hyfryd; ac yn mhell cyn cyrhaedd y gwaelod yr oedd fy nghoesau wedi gwrthod myned â mi. Yn wyneb hyn nid oedd genyf ond eu taflu yn mlaen, yr un fath yn hollol ag y teifl dyn goes o gorcyn fyddo ganddo. Bum dri diwrnod ar ol hyn heb allu cerdded braidd ddim. Hwn ydoedd y blinder mwyaf a brofais erioed. Bum ar gopa Pike's Peak! Da genyf hyny. Ond nid wyf yn meddwl y bydd arnaf flys gwneud taith gyffelyb eto.

TWMPATHAU RHYFEDD.


Wele fi eto ar y reilffordd o Colorado Springs i Pueblo. Pa bethau ydynt y mil-filoedd twmpathau yma, pob un gymaint a dwsin o dwrch-dwmpathau yn nghyd? Y rhai yna ydynt breswylfeydd y morgrug. Mewn un man nis gallwn weled ond y rhai hyn ar bob



tu i'r reilffordd mor bell ag y gallwn ganfod. Morgrug cochion, mawrion ydynt, a gallu yn eu safnau. Y mae miloedd lawer o honynt yn trigianu mewn ystafelloedd ac orielau cywrain yn yr un ty; ac wrth ystyried y miloedd tai sydd yn agos at eu gilydd, rhaid fod nifer y trigolion yn aruthrol fawr, a chan nad oes un diogyn, nac araf, nac anfedrus yn eu plith, y mae y gwaith a gyflawnant uwchlaw ein dir-

nadaeth. Diau y byddai dysgrifio eu holl ddeddfau ac arferiadau, a chroniclo eu rhyfeloedd, anturiaethau, a'u prif symudiadau, yn llenwi cyfrolau mawrion.

Pa bethau ydynt y twmpathau eraill yna, mwy annyben na thai y morgrug, a thwll yn nghanol bob un o honynt? Y rhai yna ydynt breswylfeydd cwn y ddaear *(prairie dogs)*—creaduriaid bychain,



CWN Y PRAIRIE.

llwyd-felynion, mwy a thrymach na llygod Ffrengig. Rhedant a chwareuant o amgylch, ond y foment y gwelant y gerbydres yn dynesu, rhedant bob un at ei dwll twmpathog, a chan eistedd yno

cyfarthant â'u holl egni. Ond wedi myned hyd bellder ergyd careg atynt, ymddiflanant. Y mae y Mexicaniaid yn eu bwyta. Dywedir fod ci y *prairie*, dylluan y *prairie*, a'r neidr gynffondrwst yn hoffi trigo yn yr un ty. Diau mai y ci ydyw y gwir berchenog, ac y mae yn amheus fod i'r lleill groesaw.

Pa bethau eto ydyw y bryniau bychain, crynion, cryno, pigfain yna, tebyg i dai y morgrug, ond llawer iawn mwy o faintioli? Ymddangosant hwythau hefyd yn aml yn yr un llanerch. Gwyntfryniau *(wind-hills)* neu dywod-fryniau *(sand-hills)* y gelwir y rhai yna. Dywedir mai nydd-droadau y gwynt yn cydgasglu holl dywod y parth yn un pentwr a roddodd gychwyniad iddynt, ac yna ychwaneg o dywod wrth gael eu chwythu o dro i dro yn glynu wrthynt, nes i'r crugiau, fel lluwchfeydd eira, fyned yn fawr; ac y mae amser erbyn hyn wedi eu sefydlu a'u caledu nes y maent, fel y ddaear o'u hamgylch, yn orchuddiedig gan y fath egin a llysiau gweiniaid ag sydd yn tyfu yn y parthau hyn. Gwelir bryniau wedi eu ffurfio gan ddyfroedd yn mhob gwlad, a rhai wedi eu ffurfio gan ddaearchwydiadau mewn llawer gwlad, ond wrth odrau y Mynyddoedd Creigiog yn unig y gwelais fryniau wedi eu ffurfio gan wyntoedd!

PUEBLO, COAL CREEK, A CANYON CITY.

Gair yn dynodi tref ydyw Pueblo, ac yn mlaen rhoddir dysgrifiad o Pueblos, New Mexico, ac Arizona. Am y Pueblo hon, y mae fel tref Indiaidd a Mexicanaidd yn hen, yn cynwys rhai tai *adobe*, y rhai a ddysgrifir yn mlaen yn hanes Santa Fe. Ychydig allan o'r dref y mae pentref o *dugouts*, sef preswyldai wedi eu gwneud mewn agen neu doriad yn nghanol bryn neu graig, a'r muriau allanol wedi eu gwneud o bolion, plethedig â gwïail, ac wedi eu dwbio â chlai, a'r ddaear ei hun yn dô iddynt. Gellid meddwl fod holl geudod y ddaear yn dân gan fel y byddai colofnau o fŵg yn ymddyrchafu oddiwrthi. Clywais rai Cymry, ag sydd yn awr yn trigo mewn palasau, yn dweyd mai mewn *dugouts* felly y dechreuasant eu byd yn y gorllewin. Ond ni thrigai yn y *dugouts* hyn a welais i namyn Mexicaniaid croenllwyd-ddu. Ac yma y cefais yr olwg gyntaf ar y genedl hòno, ac adgofiwyd fi yn rymus o'r darluniau Beiblaidd a welais o'r hen ddwyreinwyr, oblegid yr oedd y gwragedd gyda'u *shawls* llaes, y rhai a wasanaethent hefyd i gysgodi y pen, y wàr, a'r cefn,

ac yn cario eu hystenau dwfr yn eu dwylaw ac ar eu penau, yn null Rebeca wrth y pydew.

Fel tref ddiweddar ac eiddo dynion gwynion y mae Pueblo (p. 9,000) yn fath o ddwy dref, sef Pueblo a South Pueblo, ac afon Arkansas yn rhedeg rhyngddynt. Tai o adeiladaeth ddiweddar ydyw mwyafrif eu hadeiladau — rhai yn fawrion a heirdd, a llawer yn ddim ond byrddau wedi eu hoelio wrth eu gilydd rhywlun ac mewn brys. Gwelais ugeiniau o bebyll *(tents)* wedi eu gosod ar rô yr afon, ac yr oedd yn syndod gweled mor drefnus a glanwaith oddimewn yr oedd rhai o honynt wedi eu gosod. Byddai llawrleni a dodrefn ynddynt a allent fod yn addurniadau mewn tai gwell. O Denver hyd yma yr oeddwn wedi dyfod 120 o filldiroedd, a fy ngwyneb yn ddeheuol; ond yn awr cymerais gyfeiriad gogledd-orllewinol am daith o 158 o filldiroedd i Leadville.


HEOL YN PUEBLO.

Mae Pueblo 35 milldir o Coalcreek, lle y mae sefydliad mawr o löwyr Cymreig. Arosais yn y lle hwn amryw ddiwrnodau dan gronglwyd y Parch. M. B. Morris, yr hwn y crybwyllwyd am dano yn y nodiad ar Arvonia, Kansas, ac yr wyf yn ddyledus iddo ef, ei briod hawddgar, a'u merch fechan angelaidd am lawer iawn o garedigrwydd. Naw milldir yn mhellach eto y mae Canyon City, lle y dywedir fod y glo goreu yn y dalaeth, a ffynonau rhinweddol o ddyfroedd haiarn a *soda*. Y mae rhinweddau glöawl a dyfrawl y dref hon, yn nghyda rhyfeddodau naturiol yr amgylchoedd, yn tueddu i'w gwneud yn lle masnachol a ffasiynol o gryn bwys.

Y GRAND CANYON A'R ROYAL GORGE.

Son am olygfeydd mawreddog a rhamantus! Yn awr, ynte, am danynt—golygfeydd nad ydynt ail i Raiadr Niagara nac unrhyw wrthddrychau daearol eraill. Y mae pobl o bob cwr o'r wlad ac o'r byd gwareiddiedig yn dyfod i weled y man hwn. Cysylltwyd â'n cerbydres yn Canyon City gerbyd arsylliadol *(observation car)*, heb dô iddo, fel y gallem weled y rhyfeddodau. Bwlch gorddwfn o ddeuddeg milldir o hyd wedi ei wneud gan yr afon Arkansas yn y mynydd ydyw y Grand Canyon, a'r rhan ryfeddaf o'r bwlch hwn yn doriad neu agen gul yn y graig, filldir a haner o hyd, ydyw y Royal Gorge. Y mae y toriadau dyfnion hyn a wna yr afonydd yn nhywodfaen y ddaear yn un o arbenigion y Mynyddoedd Creigiog, ac yn gwneud i fyny rai o'r golygfeydd mwyaf gwyllt, mawreddus, a chynhyrfus y gellir meddwl am danynt. Ymddolena yr afon ar hyd y gwaelod, gan gyflymu, rhedeg, neidio, cwympo, ffrochio, a thyrfio dros, dan, rhwng, a heibio meini mawrion, fel y gwna y Towi tuag Ystrad Ffin. Ar bob tu iddi yr ymgyfyd yn uniawnsyth y creigiau mwyaf a welais erioed. Nid yw yr haul byth yn pelydru yma, ond fry, fry, ganoedd, ïe, filoedd o droedfeddi y gwelir rhibyn main o lâs dwfn y nefoedd. Gellid meddwl mai y gwaith hawddaf yn y byd fyddai i un daflu careg o'r naill làn i'r llall, ond nid oes hanes am neb wedi gallu taflu careg mor bell ag iddi syrthio yn yr afon, ac eto nid oes ond 35 o droedfeddi rhwng y glànau a'u gilydd mewn un man. Dyfnder yr agen hon ydyw 2,008 o droedfeddi. Yr un peth o ran dyfnder ydyw y toriad hwn ag a fyddai agen yn y Wyddfa, pe yr holltid hi trwy ei chanol, fel ag i wneud gwaelod gwastad o Beddgelert i Lanberis. Ychydig a feiddiant edrych i lawr i'r toriad hwn fwy nag unwaith, ac y mae un gipdrem yn ddigon i greu yn y meddwl feddylddrych o'r gair "dyfnder" na freuddwydiodd am dano o'r blaen, ac nad anghofia tra fyddo byw.

Rhedai y reilffordd ar hyd glàn yr afon, ar y gwaelod, ac mewn un man elai ein cerbydres dros bont, nid yn groes, ond ar hyd yr afon, gan gyfynged y lle. Gan fod yr afon yn gwneud troadau mynych a sydyn rhyfeddol, ac nas gallem o ganlyniad weled yn mhell yn mlaen nac yn ol, gwelem ein hunain yn barhaus megys wedi ein cau i fyny mewn pwll dwfn, ac eto yr oedd ein cerbydres yn cael lle i fyned, a *myned* yr oedd hefyd, nid yn araf a hwyrdrwm

fel y byddant arferol o wneud troadau ar reilffyrdd llydain, ond *myned* yr oedd hon fel Jehu ynfyd—yn ei bwrw ei hun yn



GRAND CANYON.

mlaen *helter-skelter*, ffordd a fynai, ffwrdd â hi. Bron na thybiem weithiau ein bod ar gael ein taflu yn deilchion yn erbyn craig fawr a safai yn hollol o'n blaen; ond gyda hyny gwelem yr agerbeiriant bychan, dewr, a ffyrnig yn cyflymu heibio ei chongl fel llycheden, ac yn tynu y gerbydres fel neidr chwim-ddolenawg ar ei ol. Unwaith teimlwn yn sicr yn fy meddwl ein bod yn myned trwy dwnel, oblegid ymddangosai fel be na byddai ond rhan olaf y gerbydres allan o'r graig. Ond yn y man dyna yr agerbeiriant eto yn y golwg, wedi darganfod llwybr iddo ei hun i fyned heibio, ac, fel ysgyfarnog ddychrynedig, cyflymai ar hyd-ddo, a ninau yn glynu wrtho megys am ein hoedl—y gerbydres yn gwyllt-gyflymu tuag i fyny, yr afon ffrochionllyd yn gwyllt-gyflymu tuag i lawr, a phob peth symudadwy yn ymddangos megys mewn brys mawr i ffoi rhag i'r crogawl greigiau syrthio arnynt! Byddai wynebau y teithwyr gan syndod wedi anghofio eu hunain; cegau rhai yn gystal a'u llygaid yn llydain agored, eraill yn codi eu dwylaw, ac heb neb yn dyweyd dim, torem allan i chwerthin yn uchel—rhyw gongl neu bigyn rhyfedd yn neidio i'r golwg yn y goruchafion, neu rhyw dro cywrain a sydyn yn cael ei wneud, nes gogleisio ein teimladau yn rhyfedd! Pwy, yn wir, a allai beidio chwerthin wrth weled natur ramant-fawr a chelfyddyd gariad-wyllt yn chwareu y fath ystranciau digrifol gyda eu gilydd? Un hardd, fawreddog, ac addurnawl iawn ydyw natur yn ngogoniant ei gwylltineb; ac, yn wir, un eofn arni, feiddgar, ac ardderchog ydyw celfyddyd; cydmarant yn rhagorol mewn glan briodas.

Y DAITH I LEADVILLE.


Wedi myned o honom trwy y Grand Canyon, gadawyd y cerbyd arsylltiadol ar ol, ac aeth y teithwyr i gerbydau mwy cynes. Ond anghofiais i ei bod yn oer gan gymaint y pleser o fod ar y banlawr yn edrych ar ryfeddodau y ffordd, oblegid parhaent yn gyfryw ag na cheir ond anfynych rai cyffelyb iddynt. Wedi i'r nos ddyfod, arosais yn Salida, a thrachefn wrth ddychwelyd yn Buena Vista, fel na chollid dim, ond yn hytrach y cawn oleu haul i weled y cwbl.

Wedi codi yn foreu yn Salida, ac edrych tua'r gogledd, O! yr olygfa fawr, oer, a gauafol a gefais! A fedr golwg y llygad yn unig gynyrchu oerder neu rhyw naws arall yn y corff? Tybwyf hyny, oblegid teimlwn yn gysurus pan ddaethum allan i'r heol y boreu

hwnw. Ond y foment y gwelais hen fynyddoedd duon, uchel Ouray, Shavano, Yale, Havard, La Plata, Grizzly, ac eraill, a'u penau oll ataf, yn sefyll yn uchel, pruddaidd, llonydd, dystaw, a mawreddog, megys yn yr ymyl (er eu bod yn mhell), fel rhes o gawrfilod anferthol, eu cefnau crwpäog yn orchuddedig gan eira gwyn, a'r cymylau fry, fry, rhai yn araf chwarian chwareu o amgylch eu pigynau, eraill yn ehedeg ar ffrwst o flaen gwyntoedd cryfion, a'u rhuadau trymllyd i'w clywed rhywle yn mhell yn y goruchafion—pan welais a phan glywais hyn aethum i deimlo yn rhynllyd gan oerder.

Yn mhellach yn mlaen daethum i gymydogaeth y gefaill-lynoedd (*twin-lakes*), y rhai a safant dros 9,000 o droedfedd uwchlaw arwynebedd y môr, a hwn ydyw y pwynt uchaf yn y byd y gwelir badau arno. Llawer yn misoedd yr haf ydynt yn dyfod yma i ymbleseru. Y mae golwg tra dymunol ar y llecyn, yr hwn a gysgodir yn dadol gan fynydd Elbert ac eraill. Y mae copa y blaenaf yn ymestyn 4,000 o droedfeddi uwchlaw y llynoedd.

Daethum i Leadville, yr hon y mae ei bodolaeth a chyflymdra ei chynydd megys gwyrth, a'i phoblogaeth wedi ei geni megys mewn diwrnod.



SOFLIEIR Y MYNYDDOEDD CREIGIOG.

Yn y flwyddyn 1877 y dechreuodd Leadville fod yn bentref; yn awr y mae yn ddinas gyda mwy na 40,000 o breswylwyr. Y mae ynddi rai adeiladau gwychion a heolydd trefnus. Nid oes hanes am ddinas mor fawr wedi cynyddû mor gyflym. Y mae ganddi fwngloddiau cyfoethog o aur, arian, a llawer o fwnau eraill; ac fel mewn achosion cyffelyb y mae y mwnau hyn wedi gwnend llawer o dlodion yn gyfoethogion mewn amser byr, a rhai cyfoethogion yn dlodion; canys y mae daear o aur ac arian, pa le bynag eu ceir, yn sicr o fod yn

gyrchfa anturiaethwyr o bob gradd—doethion ac ynfydion hefyd. Bu y ddinas hon yn gyrchfa dyhirod o bob math. Dywedir mai anfynych y gwawriai boreu dair blynedd yn ol na byddai son am rhyw un neu rhyw rai wedi eu mwrdro ynddi yn ystod y nos. Er ei bod wedi gwella llawer yn ei moesau a'i chrefydd, eto y mae lle. Deallwyf fod ynddi ac o'i hamgylch lawer o Gymry. Saif dros 10,000 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr. O'r lluaws sydd yn myned yno i wneud eu cyfoeth, ychydig sydd yn meddwl aros yno i'w fwynhau, ond dewisant leoedd mwy tymherus.




TY NEWYDD YN COLORADO.

Y mae gan Colorado awyrgylch sech, glir, ac iachusol—mor sech ydyw fel y gwelir ysgerbydau anifeiliaid ar wyneb y maes, nid yn braenu a drwg-sawru, ond yn sychu i fyny. Gwelir y croen yn glynu yn dŷn am ddim ond esgyrn yn mhell ar ol i'r cnawd ddarfod. Mor glir ydyw hefyd fel y mae gwrthddrychau pell yn ymddangos yn agos. Llawer troed-deithiwr, anghyfarwydd o'r dwyrain, a gafodd ei dwyllo trwy hyn—cychwyn ar ben boreu gan amcanu cyrhaedd y twyn draw cyn haner dydd, ond er cerdded yn galed nes byddai yn hwyr brydnawn, byddai y twyn o hyd yn ymddangos yn yr un pellder a phan gychwynodd. Llawer yn cael eu blino gan ddiffyg anadl, gwall-dreuliad, &c., sydd yn cael iachâd yn y parthau hyn. Nid llai rhyfedd hefyd ydyw tuedd garegawl y wlad. Rhai coedwigoedd a geir wedi myned yn geryg hollawl, er yn parhau i gadw graen a ffurfiau coed. Nid anhebyg na fydd cyrph dynion, yn eu plith eiddo rhai a ddarllenant y sylwadau hyn, yn mynwentydd y Mynyddoedd

Creigiog, wedi myned yn gyrff o geryg, mewn cadwraeth well na hen *mummies* yr Aifft.

GOLYGFA YN LA JUNTA.

Y mae yn awr ddwy ffordd o'r Afon Missouri at lànau y Môr Tawelog; y naill yn gynwysedig o reilffyrdd yr *Union Pacific* a'r *Central Pacific*, trwy Nebraska, Wyoming, Utah, Nevada, a California. Gwneir y llall i fyny gan reilffyrdd *Atchison, Topeka, and Santa Fe*, a'r *Southern Pacific*, yn myned trwy Kansas, Colorado, New Mexico, Arizona, a California. Hon ydyw y ffordd newyddaf, ac y mae yn llawnach o ryfeddodau naturiol a henafiaethol na'r llall. Ar hyd y ffordd hon yr aethum, gyda'r bwriad o ddychwelyd ar hyd y llall. Dychwelais o Leadville, gan hyny, can belled a La Junta, pellder o 221 m., i'r dyben o gael pen y ffordd i'r de-orllewin.



DWFRGIST REILFFORDD ATCHISON, TOPEKA, A SANTA FE.

Y mae yn arferiad gan lawer yn y parthau hyn i gario llawddrylliau *(revolvers)*, a hyny, efallai, yn gymaint o ffasiwn ag o ddefnydd. Fel yr oedd llonaid ty o honom yn aros yn ngorsaf-dy La Junta i ddysgwyl y gerbydres, daeth i fewn tua haner nos bedwar dyn meddw. Amgylchynasant y *stove* ar unwaith, gan glegar cynhadledd gecrus yn eu plith eu hunain, a chadw pawb eraill yn mhell oddiwrth y tân. Yr oedd dau greadur anneallus o honynt yn ceisio rhoddi eglurhad annealladwy ar rhyw fater annealledig i'r ddau hurtyn anneallgar eraill, a phryd nad oeddynt ond suddo yn ddyfnach i'r annealldwriaeth, cynygiasant, yn y lle a'r amser hwnw, roddi prawf ar eu deall i drin llawddrylliau; ond gyda hyny, wedi yn gyntaf wneud y ffordd yn glir rhyngddynt a'r drws, dyma geidwad y blychau gyda cheisbwl cawraidd yn dyfod ar eu gwarthaf, ac heb gymaint a dweyd "*How d'you do?*" allan y cawsant fyned, dinben drosben, drwy y drws, fel


pedair pêl droed, a chanlynwyd arnynt, nes mai da iawn ganddynt o'r diwedd ydoedd cael hyd i'w traed hir-golledig, a mwy ymddiried a ddangosasant yn eu traed nag yn eu dwylaw. Gwnaeth gwadnau lledr eu hesgidiau well gwasanaeth iddynt na'u llawddrylliau, oblegid pan gawsant ganiatad yr oeddynt yn rhedeg yn ogoneddus, a'u gwynebau ill pedwar tua phedwar pwynt y cwmpawd. Ond gan eu bod hwythau hefyd i fyned ar y gerbydres, dychwelasant yn sobr a heddychol, canys yn awr ymddangosai pob peth yn eglur iddynt, ac ymddygasant o hyny allan fel plant da. Mawr fel y mwynheid y dygwyddiad gan y gwyddfodolion--rhywbeth yn gyfnewid am ddiflasdod y dysgwyl.

O LA JUNTA I RATON.

Gan ei bod yn nos arnaf yn myned trwy barthau de-ddwyreiniol Colorado nis gallaf ddysgrifio'r wlad, ond dywedir ei bod yn dir gwair a phorfa da, ac y cedwir yno lawer o anifeiliaid, gwartheg, a defaid. Trinidad, tref ieuanc a blodeuog, ydyw y canolbwynt a'r brif farchnadfa. Cyrhaeddasom yno erbyn glâs y boreu, ond tua haner awr cyn hyny cefais olwg ar yr hyn a chwenychais yn fawr weled am unwaith, sef *prairie* ar dân. Yr ydoedd hwn yn fur o dân tua milldir o hyd, a thua haner milldir oddiwrthym; yr oedd ynddo fylchau lawer, yn cael eu hachosi yn ddiau gan ddarnau o ddaear lom. Rhwng y bylchau ymgodai y fflamau tanbeid-goch yn uchel, uniawnsyth, ond chwifiog megys rhes o gleddyfau tanllyd, ysgwydedig, yn cael eu dal gan gerubiaid anweledig. Yr ydoedd dull mawreddus ar y tân, ac eto dywedid nad ydoedd ond bychan o'i gydmaru â rhai tânau a welir.

Wedi gadael Trinidad dechreuasom esgyn Mynydd Raton—a dyma esgyn!—nid myned ar i fyny yn raddol yn ol ffasiwn gyffredin cerbydresi, ond dringo i fyny rhiw fel gwagen. Gwelid yr agerbeirianau (canys yr oedd dau o honynt a digon o waith) i fyny fry, a'u holwynion fel traed ewigod yn ymafael yn y reiliau, ac wrthi yn pwffian â'u holl nerth i'n cael i fyny. Nid ar ein huniawn y gallem fyned, ond igam-ogam, o dde i aswy ac o aswy i dde, fel ceffyl yn dringo rhiw, ac am hyny yr oeddym ar droadau parhaus. O'r diwedd y mae amynedd y meirch tân yn pallu, ac yn lle parhau i fyned ar i fyny nes cael crib y mynydd, y maent yn gwthio eu

hunain ac yn ein tynu ninau ar eu hol i geudod tywyll y ddaear, ac yno cawsom dwnel o ddwy fil o drcedfeddi. Yn nhywyllwch y



ESGYN Y MYNYDD.

twnel hwnw y darfyddodd fy nhaith yn Colorado, a phan dywynodd goleuni arnaf drachefn yr oeddwn yn dechreu taith bleserus yn Mexico Newydd. Caniataer i ni felly brofi y cyfnewidiad mawr diweddaf. Terfyna ein taith ddaearol yn nghysgodion y Mynydd-oedd Tywyll; ond hyfryd fydd dechreu taith wynfydedig yr ochr draw, yn ngwlad y goleuni tragwyddol.

Dechreuasom ddisgyn y mynydd ar yr ochr arall, ac os ydoedd yr esgyn yn rhyfedd, yr ydoedd y disgyn yn rhyfedd ac ofnadwy. Nis gallaf ddysgrifio fy nheimlad pan yn sefyll ar banlawr y cerbyd ar y disgyniad hwn, oblegid, nid yn unig gwelwn ddaear drom a chreigiau erch yn codi uwch ein penau ar y naill law, a dyfnder mawr mwy ofnadwy na hyny ar y llaw arall, a'r gerbydres a'i phen i lawr draw yn isel, a'i phen arall i fyny ar ein hol yn uchel, ond elem hefyd dros aml bontydd a thrawst-weithiau (*trestle-works*) uchel, a'r ffordd hefyd yn gwneud troadau ar benau y bagl-ffyn meinion hyn; a rhwng fod y cerbydau yn ymddangos yn fawrion a thrymion iawn, a'u bod yn gogwyddo ar eu hochrau ar y troadau, teimlwn iasiau yn myned trwof, ac ni chymerwn lawer am sefyll ar yr ochr isaf, rhag i'm pwysau pwysig i (125 pwys) beri i'r holl gerbydres syrthio drosodd. Och! y finau! Beth pe dygwyddai i olwyn dòri neu fyned yn rhydd yn y lle hwnw, neu i rai o'r coesau meinion a'n dalient i fyny roddi ffordd a'n gollwng i lawr? Wel, i lawr yr elem, ond pa le na pha bryd y cyrhaeddem y llawr isaf, nis gwn. Wrth waelod y disgyniad hwn y mae tref ieuanc a bywiog Raton (104 o filldiroedd o La Junta), o amgylch yr hon y mae gweithfaoedd glo.

O RATON I LAS VEGAS.

O Raton yn mlaen yr ydoedd y daith yn un ramantus ddigon. Ar ein haswy draw gwelem drumiau uchel o fryniau neu fynyddoedd. Ar ein deheu draw ymestynai i'r un cyfeiriad a ninau asgwrn cefn y cyfandir yn llucheinio yn mhelydrau yr haul gan y trwch o eira gwyn a'i gorchuddiai. Yr ydoedd arwedd ardderchog ar ei amryw bigynau uchel a chlaerwynion. Ar hyd yr hyn a ymddangosai i mi yn wastad-tir llydan, rhwng y mynyddoedd gwynion yna a'r bryniau geirwon eraill, y rhedai ein cerbydres. Ychydig o adeiladau a welid, am mai ychydig oeddynt breswylwyr y wlad, a'r rhai hyny gan amlaf

o rywogaeth y *ranchers.* Ceid cynifer a 25,000 o dda cyrnig yn eiddo i'r un person.

Daethom i'r tiroedd tlysion a elwir yn *Park Grounds*, yn y rhai y mae prenau bychain o gedrwydd, pinwydd, a bythwyrddion lwyni yn tyfu yn deneu, nid anhebyg i'r modd y plenir coed yn mharciau boneddigion Cymru. Rhwng y prenau hyn ymddangosai creigiau a cholofnau rhyfedd o dywod-faen, coch a gwyn, ar lun adeiladau,



delwau, &c., tebyg i'r modd y gwelir yn Monument Park a Gardd y Duwiau, Colorado. Yr ydoedd yn ddiwrnod tesog, hafaidd, a hyfryd, yr hyn, yn nghyda gwyddlesni tyner y ddaear a'r coed, oedd yn dal gwrthweddiad rhyfedd â'r gauaf gerwin a welem ar y mynyddoedd draw.

Wedi myned 111 o filldiroedd yn ddeheuol o Raton daethom i Las Vegas (p. 6,000), hen dref Fexicanaidd, yn yr hon y mae tai *adobe,* a dynion a merched yn rhodio yn yr hen ddulliau Mexicanaidd, y rhai y caf achlysur i'w dysgrifio yn mhellach yn mlaen; ond y mae yr haner agosaf at yr orsaf o'r dref hon wedi dyfod i fodolaeth mewn cysylltiad â'r reilffordd, ac felly o ymddangosiad diweddar. Yn gyfagos y mae hen graig bengron, benlwyd a elwir Mynydd Meudwy *(Hermit Mountain),* ar yr hon y bu meudwy yn cartrefu dros amryw flynyddoedd. Byth ni ddeuai i lawr, ond ar gnau, gwreiddiau, a'r elusenau a ddygid iddo yr ymgynhaliai, ac o ffynon gerllaw yr yfai.

Y mae yn y dref hon, yn gystal ag yn agos holl drefi New Mexico ac Arizona, y bobl a elwir Edifeiryddion *(Penitents)*, plaid a esgymunwyd o'r Eglwys Babaidd. Ymddengys mai o "drydedd urdd y tad seraphaidd Sant Francis Assisium" y deilliasant. Y mae ganddynt yr arferiad trwy gydol wythnos y dyoddefaint *(passion week)*, sef y dyddiau o flaen y Pasg, o fyned ar hyd ffordd arw, garegog, allan o'r dref, i ben mynydd, lle y mae croes. Wrth fyned ffrewyllant ac archollant eu hunain â'u gilydd nes bydd gwaed yn ffrydio, ac ar yr un pryd gruddfanant, ocheneidiant, wylant, ïe, crïant mewn dolefau torcalonus, a thraethant eiriau edifeiriol a galarus iawn. Dyna eu syniad hwy, druain, am ganlyn yr Oen!



RANCHE YN MEXICO NEWYDD.

Ond prif enwogrwydd Las Vegas ydyw y ffynonau poethion sydd bellder o ddwy filldir oddiwrthi. Gellir gweled croes yr Edifeiryddion ar fryn uchel wrth fyned tuag atynt. Y mae yno ddwy-ar-hugain o'r cyfryw ffynonau, yn amrywio o ran gwres o 110 i 140 o raddau. Y mae cleifion o holl ranau y wlad yn dyfod yma i'w hiachâu. Pobl yn y darfodedigaeth, a rhai ag amryw glefydau yn eu dala, sydd yn dyfod yma ar bob amserau o'r flwyddyn, a rhwng yr hinsawdd a'r

dyfroedd y mae yn ffaith ddilol fod yma gystal gobaith am iechyd ag a geir ar wyneb daear.

Yn ein blaen a ni eto gan fyned trwy lawer o *Park Grounds* a meusydd agored o'r math mwyaf dymunol. Ymddangosai y gerbydres ei hun megys yn mwynhau y wlad, gan mor hamddenol yr elai rhagddi, gan dynu ei hun i ffurf neidr hydwythawl, a llawer gwaith y cafodd ei hun yn ffurf pedol ceffyl. Myned ar esgynfa hir yr oeddym, a bryniau a thyrau mânaidd o'n deutu yn addurno yr holl ffordd.




GWESTDY MONTEZUMA, FFYNONAU LAS VEGAS, MEXICO NEWYDD.

BRYNIAU A CHREIGIAU RHYFEDDACH ETO.

Daethom i ardal o fryniau a mynyddoedd a ymddangosent mor gyfluniaidd a chymesurol fel nas gallwn lai na theimlo, er y gwyddwn yn amgen, eu bod yn waith llaw celfyddyd. Byddai rhai yn hollol grynion, eraill yn ysgwar, eraill yn dri-ongl, eraill fel L, eraill ar lun darlun a wneir o seren—pwynt uchel yn y canol, gyda phump neu chwech o freichiau yn ymestyn allan o'u hamgylch. Ond yr un a dynai fwyaf o sylw ydoedd Pigyn Bernal *(Bernal Peak)*, yr hwn a saif ar ei ben ei hun gan ymgodi yn serth ac uchel, a'i ffurf yn ysgwar, ei hyd yn gymaint arall a'i led, ac ar ei ben y mae craig uniawnsyth o tua 100 o droedfeddi o uchder. Dywedir ei bod yn ddwy-ar-hugain o erwau oddiarno. O dan y graig y mae y mynydd, nid yn unig yn bedwar-onglog, ond y mae o'i amgylch hefyd y trobant *(curve)* mwyaf prydferth, fel ag y mae ar lun pen *pagoda.*

Perthyna i'r mynydd hynod hwn ddyddordeb hanesyddol hefyd. Yn amser y rhyfel a fu rhwng y Talaethau Unedig â Mexico



CREIGIAU MEXICO NEWYDD.


gwnaeth tua 400 o Indiaid, y rhai a ryfelent o blaid y Talaethau, ymosodiad ar bentref Bernal, lle y trigianai Mexicaniaid, a gyrasant 26 o honynt i ben y graig a nodwyd. Gan nad oedd ond un fynedfa yno gallai y Mexicaniaid amddiffyn eu hunain rhag unrhyw nifer o Indiaid. Yr Indiaid, yn lle rhoddi i fyny, fodd bynag, a benderfynasant eistedd o amgylch i'w gwylio nes y byddai pob un ag oedd arni



CRAIG GASTELLAWG.

wedi newynu i farwolaeth. Hyny hefyd a wnaethant, ac o hyny allan gelwir y graig yn nhafodiaith gyffredin y bobl yn Graig y Newynu *(Starvation Rock).* Y mae yno ddwy groes amlwg wedi eu codi i fod yn goffadwriaeth am y tro. Gwelir yn y parthau hyn groesau mewn caeau, &c., trwy yr hyn y mae y preswylwyr crefyddol yn sicrhau amddiffyniad a bendith ar yr eiddynt.

Yn mhellach yn mlaen daeth i'r golwg gyfres hir o greigiau uchel, y rhai, o ran maintioli, ffurfiau, lliwiau, ac addurniadau, oeddynt can falched ag unrhyw greigiau a welais. O ran maintioli gallwn dybio eu bod, rai o honynt, yn ganoedd o droedfeddi o uchder. O ran ffurfiau meddant wynebau *(front)* o bilerau, fel pe buasai llaw celfyddyd wedi eu gwneud. O ran lliwiau yr oedd eu haner isaf yn



GOLYGFA YN MEXICO NEWYDD.

goch, agos fel ysgarlad, a'u haner uchaf yn wyn, bron fel marmor; ac o ran addurniant, yr ydoedd prenau gwyrddion yn tyfu allan o honynt, ac yn eu gwisgo yn dra thelaidd. Byddai coch a gwyn y creigiau, wrth ysbïo allan rhwng gwyrddlesni y cangau, yn gwneud yr effaith mwyaf dymunol. Ar hyd math o ddyffryn cul rhwng tyrau a llwyni rhamatus fel yna yr ydoedd ein taith yn awr. Am


olygfeydd geirwon a mawrwyllt cymerer taith ar linellau reilffordd Denver a Rio Grande; ond os ewyllysir gweled yn ychwanegol at hyny y tlws a'r tyner, y gauaf a'r haf yr un amser yn chwerthin ar eu gilydd, cymerer reilffordd Atchison, Topeka, a Santa Fe, trwy Mexico Newydd. Wrth ystyried eto y gweddillion henafol lluosog a geir yn y diriogaeth hon ac Arizona, a bod y reilffordd yn rhedeg trwy hinsoddau hafaidd, hyfryd, diau y gellir penderfynu mai hon fydd y ffordd fwyaf poblogaidd at lànau y Môr Tawelog.

TIRIOGAETHAU RHYFEDD.

Gellir ystyried New Mexico ac Arizona, trwy y rhai yr wyf yn awr yn teithio, ar amryw gyfrifon y tiriogaethau rhyfeddaf yn y byd. Y maent yn rhyfedd o ran eu golygfeydd naturiol—parthau mawrion o dywod yn ymddangos fel llynoedd grisialaidd a thònog o ddwfr—mynyddoedd mor gyfluniaidd a phe wedi eu gosod gan ddwylaw dynion—creigiau mor debyg i adeiladau—tyrau, trefydd, delwau, ac hyd yn nod organau cerdd—fel y rhaid bod yn eu hymyl i ddeall ein camgymeriad; ac y mae eu haf a'u gauaf ar yr un pryd, y naill mor amlwg a'r llall. Y maent yn rhyfedd yn eu hafonydd, y rhai a symudant eu gwelyau mewn noswaith, gan ymorwedd rhwng glànau clyd o dywod-faen mor gryno a'r glànau a adawsant, ac yn achlysurol ymddiflanant o'r golwg yn llwyr, ac ar ol milldiroedd o deithiau tanddaearol deuant i'r golwg drachefn. Y maent yn rhyfedd yn eu hawyrgylch, yr hon, megys gwydr-ddrych dysglaer, sydd yn adlewyrchu ac yn dwyn i'r golwg wrthddrychau pell, er fod trwch mynyddoedd rhyngom â hwy. Y maent yn rhyfedd yn eu haddewidion, o gymaint ag fod yn gynwysedig ynddynt gyfoeth o aur ac arian, a thrysorau eraill llawer mwy eu gwerth, megys *turquoise*, a chyfrifir dernyn o faintioli swllt o'r math goreu o hwn yn werth £300. Y maent yn rhyfedd yn eu hanes a'u gweddillion henafiaethol; a phersonoli y gwledydd hyn, y maent fel un yn dihuno o freuddwyd pwysig, ac yn methu adgofio ei gysylltiadau. Y mae yr adfeilion cedyrn, y muriau mawrion, y camlesydd hirion, y llestri a'r arfau rhyfedd a geir, yn brofion eglur fod y parthau wedi bod yn cael eu poblogi gan genedl neu genedloedd llawer uwch mewn meddwl, gwareiddiad, a chelfyddyd na'r Indiaid a welir yno yn bresenol. Pwy oedd y dynion hyny? O ba le y daethant? Beth oedd eu hanes? a pha beth

ddaeth o honynt? Dyheir am atebion i'r gofyniadau hyn, ond nis ceir, oddieithr yn rhanol i'r gofyniad olaf.

Ar Cortez, y goresgynydd Yspaenaidd gwaedlyd, y rhoddir y bai am ddwyn difodiant ar y bobl hyn, eu hymerodraeth, a'u hanes. Yn cael ei lygad-dynu gan yr aur a feddent ar eu gwisgoedd ac ar eu



COPA GLORIETTA, MEXICO NEWYDD.

harfau, darfu iddo yn y flwyddyn 1514, yn gyntaf hud-ddenu Montezuma, eu brenin, i'w grafangau, yna teithio trwy y wlad gyda byddin gref, gan ladd miliynau o'r preswylwyr—cymeryd iddo ei hun y cyfoeth, a gwneud y wlad yn rhan o frenhiniaeth Yspaen. Yn ol crediniaeth yr Azteciaid, y bobl a oresgynwyd gan Cortez, yr ydoedd Quetzalcoatl, eu sylfaenydd a'u duw, yr hwn ydoedd ddyn goleu-bryd, tàl, a chanddo farf hirddu, wedi addaw iddynt ar ei ymadawiad, ar làn Llynclyn Mexico, y byddai iddo ef a'i ddisgynyddion ymweled â hwy drachefn. Tybiodd y bobl am yr

Yspaeniaid ysbeilgar mai hwy oeddynt yr hiliogaeth ddysgwyliedig, a bu hyn yn achos i'w gelynion gael buddugoliaeth rwydd arnynt a pherchenogaeth o'u gwlad.

Wedi myned 29 o filldiroedd hwnt i Las Vegas, daethom yn agos i Pecos, lle a fu yn bentref Aztecaidd pwysig. Dywed traddodiad mai yma y ganwyd Montezuma, eu brenin olaf, yr hwn yn awr a addolir gan lawer fel duw. Dywedir yn mhellach mai efe a adeiladodd y *pueblo* (pentref) hwn, a'r deml, yr hon ydoedd dri uchder llofft, ac a osododd yn ei *estufa* (lle cydgynulliad y penaethiaid) â'i ddwylaw ei hun y tân santaidd, yr hwn ni pheidiai a chyneu na dydd na nos. Cyn ei ymadawiad efe a gymerodd goeden uchel ac a'i planodd a'i brig i lawr yn ymyl yr *estufa*, gan ddweyd wrth ei bobl os byddai iddynt gadw y tân santaidd i fyny yn wastadol nes y syrthiai y goeden y byddai i bobl wynion ddyfod o'r dwyrain i feddianu y wlad a gyru yr Yspaeniaid, eu gorthrymwyr, ymaith, ac y byddai iddo ef ei hun ddychwelyd i adeiladu ei deyrnas, y byddai i'r wlad ddyfod yn gynyrchiol, a'r mynyddoedd roddi cyfoeth mawr o arian ac aur. Bu rhyfelwyr glewion yn ymdrechgar i gadw y tân santaidd i gyneu dros fwy na thri chan' mlynedd. Yn 1837 lleihawyd y llwyth i ddim ond 45 o bersonau, o ba rai nid oedd ond saith rhyfelwr. Gan nas gallent warchae yn hwy aeth tri o honynt i'r coed gyda'r tân, a chredir i Montezuma ei hun ymddangos iddynt yno a'u rhyddhau o'u trafferthion; yna aethant at eu cyfeillion i Pueblo Jemez, ar y tu gorllewinol i afon Rio Grande. Yn agos i Pecos y mae rhai ceryg ag arnynt yn eglur ôl traed dynol, a dywedir mai ôl traed Montezuma ar ei ymadawiad ydynt. Edrycha ei addolwyr tua chodiad haul bob boreu a dysgwyliant ddychweliad Montezuma. Yn Pecos y mae gweddillion hen eglwys gadeiriol fawr, 118 o droedfeddi o hyd, a godwyd yn 1628. Yn gyfagos yma y mae La Glorietta, lle y bu brwydr waedlyd rhwng y Gogleddwyr a'r Deheuwyr yn amser y Gwrthryfel diweddar.

MYNEDIAD I SANTA FE.

Wedi i'r gerbydres ddisgyn llethr mynydd mawr arall yn ol y raddeg o 180 o droedfeddi y filldir, tebyg i'r disgyniad ar fynydd Raton, daethom i Lamy, 65 o filldiroedd yn ddeheuol o Las Vegas. Yno cymerais gangen arall o'r ffordd hon i fyned 17 o filldiroedd yn

orllewinol i weled hen dref ryfedd Santa Fe. Esgyn yr oeddym yn awr, gan wneud troadau parhaus ar *Park Grounds* hyfryd. Ond yr olygfa ardderchocaf ydoedd machludiad yr haul. Bum yn edrych o benau mynyddoedd ac yn gweled haul-fachludiadau gogoneddus lawer gwaith o'r blaen, ond ni welais erioed ddim y gellid ei gyffelybu i'r haul-fachludiad hwn. O! y fath nefoedd ryfedd a ymdaenodd uwchben, a'r fath gymylau gogoneddus a safasant o amgylch! Ni byddai dweyd coch, ysgarlad, porphor, melyn, gwyrdd, glas, symudliw, arianliw, eurliw, &c., yn haner dysgrifio yr olygfa, oblegid yr oedd yno y fath gochni, y fath lesni, y fath dryloywder, y fath dynerwch, y fath burdeb, y fath hawddgarwch a serch, a'r fath amrywiad, cydgymysgiad, a chydweddiad o'r pethau yna oll yn y lliwiau!—y fath feddwl a'r fath hudol swyn nas gallai ond y nefoedd eu rhoddi, nac iaith, ond iaith angel-fardd, eu gosod allan yn iawn. O! am i haul ein bywyd gael machludo fel hyn!—y fath adlewyrchiad gogoneddus yn prydferthu hyd yn nod ein cymylau ag a fyddo yn arwydd eglur fod ein henaid eto yn nofio yn awyrgylch glir gogoniant yr ochr draw.



SANTA FE.

Canlynwyd y gogoniant hwn gan dywyllwch, ac erbyn myned i orsaf Sante Fe yr ydoedd yn dywyll nos. Y mae Sante Fe yn ei thai *adobe* mor debyg i'r ddaear fel mai anhawdd fyddai canfod ar unwaith ei bod yno hyd yn nod yn y dydd; yr ydoedd ei chael allan ar hyd nos yn llawer mwy anhawdd, oblegid oddieithr i un fod yn ei chanol y mae ei chanwyllau a'i llusernau megys tan lestri. Daethum at afon, yr hon nis gallwn ei chroesi. Troais yn ol gan hyny, ac wedi dyfod at dwmpathau duon, cefais mai preswyldai

oeddynt. Curais wrth ddrysau dau neu dri o honynt, ond yn lle dyfod i'w hagor, gwaeddai y menywod oddimewn rhywbeth yn Spaenaeg. Wrth gerdded ar hyd lôn gul, fudr, rhwng rhesi o dai isel a thywyll felly, daeth yn rymus i fy nghof y cynghor a gefais gan gyfaill yn Kansas, "Peidiwch ar un cyfrif myned yn mhell oddiwrth y reilffordd yn New Mexico, a pheidiwch a bod allan eich hun y nos." Daethum o'r diwedd at gongl, lle cefais ffrwd o oleuni yn dyfod allan trwy ddrws agored *grog-shop* neu *drinking-saloon*, yn yr hon yr oedd amryw ddynion—Americaniaid, Mexicaniaid, ac Indiaid—gyda llaw-ddrylliau a chyllill hirion yn crogi wrth wregysau a wisgent am eu canolau, rhai o honynt yn feddw, a gwedd fileinig arnynt oll. Siaradent yn uchel a chynhyrfus cyn fy mynediad i'w plith, ond dystawodd pawb y foment yr aethum i mewn, a hyll-drement arnaf yn chwithig. Gofynais i ŵr y *bar* sut y gallwn fyned i'r dref, a chefais fy nghyfarwyddo ganddo. Er mor gas yr ymddangosai y gymdeithas hòno, yr oedd myned allan i'r tywyllwch drachefn braidd yn gasach, canys diflas fyddai cyfarfod âg un o'r cyllill hirion hyny lle na byddai neb yn gweled. Dywedwyd wrthyf dranoeth fy mod wedi bod mewn lle ofnadwy—fod yno ysbeilio, mwrdro, a dynion yn cael eu colli yn fynych.

YR HEN DREF.

Wedi myned dros bont ac ymddyrysu peth rhwng tai a heolydd culion, tywyll, daethum at y *plaza*, canol y dref, lle y ceid ychydig oleuni yn llewyrchu trwy ffenestri y siopau. Er hyny, teimlwn fy mod mewn rhyw le rhyfedd a dyeithr anghyffredin. Lletyais mewn gwestdy ag iddo uchder llofft, yr hyn a barai ei fod yn dy uchel yno. Aethum i'm hystafell gysgu ar y llofft o *veranda* uchel ag oedd y tu allan. Ar fy ngwaith yn edrych trwy y ffenestr boreu dranoeth, gwelais fod haenen dew o eira wedi disgyn ar y ddaear borfaog, wastad, ond dyllog, ydoedd o flaen y ty. Wedi edrych yn fanylach, cefais mai penau y tai ydoedd y ddaear borfaog, wastad, ac mai y gwagleoedd rhyngddynt oeddynt y tyllau a welwn ynddi. Wrth rodio heolydd y ddinas yn ngoleuni haul, rhifo ei thyrau, ac ystyried ei rhagfûriau, teimlwn, i ddefnyddio iaith Mark Twain am Tangier:—

"Y fath hen dref ddigrif-ddwys ydyw! Ymddengys fel pe byddai gabledd i chwerthin ac ysmalio ymddyddanion dibwys ein dydd ni yn mhlith ei gweddill-

ion henlwyd! Brawddeg-eiriad cadarn-ddwys ac ymadroddion mesuredig meibion y prophwydi yn unig fyddai gyfaddas i henafiaeth barchedig fel hyn! Dyma yma hen fur dadfaeliedig oedd yn hen pan ddarganfyddodd Columbus America! oedd yn hen pan ddarfu i Pedr Feudwy gyffroi marchogion y canol oesoedd i ymarfogi at y groes-gâd gyntaf! oedd yn hen pan ddarfu i Charlemagne gyda'i baladiniaid warchfaeddu cestyll dewiniedig a brwydro â chewri ac â gefaill-dduwiau yn nyddiau chwedlonol yr hen amser! oedd yn hen pan oedd Crist a'i ddysgyblion yn rhodio'r ddaear! yn sefyll lle y saif yn awr pan oedd gwefusau Memnon yn parablu, a dynion yn prynu ac yn gwerthu yn heolydd Thebes henafol."

Ni wyddis a ydyw Santa Fe can hened a Tangier ai nid yw, ond golygir hi y dref henaf yn America. Bu yn brif dref pobl Montezuma ganrifoedd cyn fod dynion gwynion (ac eithrio yr hen Gymry, efallai) yn gwybod dim am y cyfandir.



Y LLWYTHI CYNTAF O WLAN ALLAN O SANTA FE.

Fel agos yr holl drefi Yspaenaidd y mae Santa Fe (p. 7,000)—yr hyn o'i gyfieithu yw "y santaidd ffydd"—wedi ei hadeiladu o amgylch tua dau erw a haner o dir, yr hwn a elwir *plaza*, a'r preswyl-dai yr un modd wedi eu hadeiladu o amgylch dernyn penagored a elwir *placita*, math o gyntedd ac a ddefnyddir gan lawer fel gardd yn nghanol y ty. Gwneir iawn am gulni yr heolydd gan y *plaza* a'r *placitas* hyn. Tai *adobe* ydynt yr adeiladau, sef tai pedair-onglog, heb lofft, wedi eu gwneud o briddfeini mawrion, y rhai a wnaed o bridd a gwellt ac a graswyd yn ngwres yr haul, yr un fath a

phriddfeini yr Aifft. Y mae y muriau llwydaidd, plaen, a marw, yn droedfeddi o drwch ac yn uwch na'r tô, yr hwn sydd wastad, ac yn cael ei orchuddio gan drwch troedfedd neu fwy o bridd, a phan y mae glaswellt a chwŷn yn tyfu ar hwnw, ymddengys penau y tai fel caeau bychain. Gwelir y preswylwyr arnynt yn rhodio, yn chwareu, ac yn dawnsio. Y mae tyllau trwy ymyl uchaf y muriau i ollwng allan y dwfr pan yn gwlawio, a chafnau, neu bibellau, o goed yn ymestyn allan fel ag i wneud i'r dwfr syrthio tua phedair troedfedd oddiwrth y sail. Gwelir crefydd y bobl yn yr addurniadau sydd ganddynt uwchben eu lle tân oddifewn.




LLE TAN MEWN TY ADOBE.

Dygwyddais fod yn y dref ar un o'r diwrnodau rhyfeddaf yn ei hanes, er fod iddi hanes rhyfedd, rhyfedd dros ganoedd o flynyddau. Diwrnod ydoedd hwn a gofir yn hir gan y preswylwyr yn gystal a chenyf inau; canys yr ydoedd yn gwlawio yn drwm yn y tai, a thesni digymylau oddiallan. Nid oedd neb yn cofio am eira wedi disgyn yno o'r blaen. Y mae hyny yn rhyfedd hefyd wrth ystyried fod y lle yn sefyll 7,000 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr. Er y byddai dwfr gwlaw yn rhedeg oddiar y tô trwy dyllau yn mhen y mur, yr oedd yr eira, wrth araf doddi yn ngwres yr haul, yn treiddio trwy y tô er dirfawr ofid i'r preswylwyr, am ei fod yn gwlychu gwelyau, cypyrddau, cistiau, a phob peth oedd ganddynt.

Yr adeilad enwocaf yn y lle ydyw y Palas—hen dŷ *adobe* mawr, a'i hyd yn gyfled a'r *plaza* ar yr ochr ogleddol, a pharhad o'i dô, yr hwn a ddelir i fyny gan rês hir o bilerau, yn adeinio allan yn mhell dros ei wyneb. Adeiladwyd ef dros 300 o flynyddoedd yn ol, ac ynddo ef y bu yr hen gadfridogion Yspaenaidd yn llywodraethu gyda gallu unbenaethol a chreulondeb diymatal; y llywodraethwyr

Mexicanaidd wedi hyny, heb fod yn un gradd llai eu traha; ac yma y cartrefa llywodraethwr y diriogaeth yn awr. Yma y carcharwyd rhai o uchelwyr y cyfandir, ac oddiyma yr arweiniwyd llaweroedd allan i gael eu dienyddio wrth ddedfryd "dyn y palas." Yma y



Y PALAS YN SANTA FE.

trefnwyd dwyn yn mlaen yr amryw ryfeloedd a fu yn y diriogaeth y byddai eu hanes yn gyfrolau. Ac yma, meddir, y bu dygwyddiadau a ymddangosent yn y dyddiau hyn yn anhygoel. Dywedir mai hanes y palas ydyw hanes Sante Fe, megys mai hanes Santa Fe

ydyw hanes New Mexico. Gyferbyn, yr ochr arall i'r *plaza*, dangoswyd i mi hen ddrws haiarn rhydlyd, trymllyd, ac isel, trwy yr hwn yr aeth llaweroedd o drueiniaid i mewn, byth i ddyfod allan, am na byddent o'r un golygiadau crefyddol a'r offeiriad! Y mae amryw hen adeiladau eraill yn y dref o gryn ddyddordeb, ac eraill o adeiladwaith ddiweddar yn dechreu ymddangos. Ceir yno ar werth hen



PRIDDLESTRI MEXICANAIDD.

arfau a hen lestri Aztecaidd, gyda delwau a duwiau Indiaidd; a cheir hefyd dlysau, breichledau, gwddfdorchau, cadwynau, gwalltgribau, &c., yr oll o arian ac o ddull Mexicanaidd, mor gywrain fel y mae yn bleser edrych arnynt.

Hen dref ryfedd yn wir ydyw Santa Fe—rhyfedd yn ei ffurf, rhyfedd yn ei hanes, a rhyfedd yn ei phreswylwyr. Siaredir yno dair iaith—yr Yspaenaeg, y Saesonaeg, ac iaith y Pueblo Indians. Yn


y flaenaf y dysgwylir i bawb ddeall eu gilydd. Gwisga y menywod *shawls* llaes dros eu penau a'u hysgwyddau, heb adael ond ychydig o'u gwynebau yn y golwg. Gwelir yno ddynion yn codi dwfr wrth raffau o bydewau yn null yr hen batriarchiaid; ac o flaen y drysau y ceir dwy gyda meini yn malu. Deuai y Mexicaniaid croen-dywyll i mewn o'r mwn-gloddiau, gyda hetiau isel a chantelau llydain yn cysgodi dros eu hysgwyddau, a gwregysau lledr gydag arfau angeuol am eu canolau. Deuai yr Indiaid coch-ddu i mewn hefyd o'r creigiau neu o'r coedwigoedd, gyda napcynau cochion wedi eu nyddu fel rhaffau o amgylch eu penau, gwallt rhawnaidd, hir-ddu dros eu gwarau, gwrthbanau *(blankets)* brithresog am eu cefnau, llodrau lliain llaes am eu coesau, ac esgidiau o felyn-groen *(mocassin)* am eu traed. Hwynt hwy sydd yn cyflenwi y dref â thanwydd, y rhai a ddygant yno yn feichiau ar gefnau asynod bychain fel asynod Cymru, y rhai a elwir *burros.* Gelwir y farchnadfa goed yn Burro Alley, ac yno mawr ydyw tyrfa yr asynod. Dywedir y cymer ddiwrnod i Indiad dòri y baich coed, diwrnod arall i ddyfod âg ef i'r dref, trydydd diwrnod i'w werthu a sefyllach o amgylch, pedwerydd diwrnod i fyned adref, a chaiff chwarter dolar (swllt a dimai) am ei lwyth!

YR HEN EGLWYSI.

Pabyddiaeth ydyw y brif grefydd yno, er y ceir yno yn y dyddiau diweddaf hyn rai enwadau Protestanaidd. Y mae yr eglwysi yn lluosog. Yn eu plith ymwelais â hen eglwys henafol San Miguel, yr hon sydd *adobe,* ac a adeiladwyd dros 300 o flynyddoedd yn ol. Ar y naill ochr iddi y mae y preswyldy henaf, efallai, yn America, henach na'r hen eglwys, a dywedir y gall ddal can' mlynedd eto. Y tu arall i'r eglwys y mae adeilad hardd, Athrofa y Brodyr Christionogol *(Christian Brethren),* y rhai yn barhaus a ddeuant i fewn i'r eglwys gan groesi eu hunain â dwfr santaidd, penlinio gyferbyn â'r delwau, adrodd gweddi fechan, croesi eu hunain drachefn a myned allan. Yr oeddynt yn garedig iawn i mi, ac yn ewyllysgar i ddangos llawer o bethau cysegredig. Gerllaw hefyd y mae sefydliad y Chwiorydd Loretta.


Aethum i'r hen eglwys gadeiriol. *Adobe* mawr ydyw hon hefyd. Trwch y muriau yn chwe' throedfedd. Ynddi y mae llawer iawn o

ddelwau mawrion, llawer o honynt wedi dyfod o Yspaen. Yn un o'r muriau y mae megys bedd yr Arglwydd Iesu, ac yntau ynddo,



EGLWYS AC ATHROFA, SAN MIGUEL, SANTA FE, N.M.

gyda llenlïan drosto, dan yr hon y gwelir ei ochr, ei law, a'i droed, gydag olion gwaedlyd y waewffon a'r hoelion. Clywais yn flaenorol y byddai yma rai yn addoli bob amser, felly hefyd yn awr. Yr oedd dwy ddynes mewn du, y naill yn darllen a'r llall yn gweddïo, o flaen delw y Forwyn fendigaid, er fod y gwlaw dyeithr yn disgyn arnynt yn doreithiog. Eisteddais enyd ar ben yr adeilad hwn, gan haner dychymygu mai mewn cae pori yr oeddwn yn y wlad yn niwedd




EGLWYS GUADALUPE, SANTA FE.

mis Mawrth, dri chant o flynyddoedd yn ol. Yr ydys yn codi adeilad mawreddog o geryg o amgylch hwn, a phan ei gorphenir teflir yr hen *adobe* allan o hono.

Ymwelais hefyd â hen gapel *adobe Our Lady of Guadalupe.* Ei nenfwd ydoedd gyffion geirwon o goed, ei lawr yn llawn o feddau pantiog, ei furiau yn blaen, heb ond ychydig ddarluniau hen yn crogi arnynt.

Yn gyfagos y mae capel *adobe Our Lady of the Rosary,* yr hwn sydd agos yn 200 mlwydd oed. Yn hwn, unwaith yn y flwyddyn,

yr ydys yn cynal gwyl o wyth niwrnod i weddïo am wlaw. Ar y Sabbath cyntaf, sef dydd cyntaf yr wyl, eir i'r eglwys gadeiriol i gyrchu Mair, a cherir hi gan bedwar o offeiriaid mewn ysgwydd-gerbyd ardderchog. Canlynir hi yn mlaenaf gan orymdaith o wyryfon mewn dillad gwynion, yna gan Mexicaniaid ac Indiaid, ac yn olaf gan bob rhyw bobl. Dygir y llawrleni *(carpets)* goreu allan



YR ARCHESGOB LAMY YN ARHOLI YR YSGOL YN SANTA FE.

o'r tai, taenir hwy ar hyd y ffordd, a dymunir ar i'r Forwyn orphwyso. Pan y gorphwysa y mae yr offeiriaid yn syrthio ar eu gliniau o'i hamgylch, yn deisyfu gwlaw, a'r bobl yn taflu eu harian i'r drysorfa. Wedi dyfod i eglwys Rosary gosodir y Forwyn ar banlawr dyrchafedig yn y gangell, a pharheir wyth niwrnod yn gweddïo am wlaw, a chan mai yn amser dechreuad y tymor gwlawog y cynelir yr wyl, y mae y gweddïau, fel rheol, yn cael eu hateb; ond

y mae hanes am dro y bu raid ymddwyn yn greulawn at y Forwyn cyn i'r gwlaw ddyfod. Er ddarfod i'r offeiriaid barhau yn gweddïo, a'r bobl barhau yn offrymu, yr oedd y Forwyn yn parhau yn ystyfnig, ac ni ddeuai gwlaw. O'r diwedd pallodd amynedd yr addolwyr, ond yn wahanol i addolwyr siomedig Baal ar ben Carmel, yn lle tòri eu hunain â chyllyll, er y byddai y rhai hyny yn hynod gyfleus, tynasant y ddelw i lawr, ysbeiliasant hi o'i haddurniadau, ciciasant hi dros y creigiau, a thaflasant hi i'r afon. Y nos hono daeth gwlaw mawr iawn, y mwyaf a welwyd yno erioed. Daeth yn wlaw barnol, gorlifodd yr afon ei glânau, a bu agos i'r dref gael ei boddi. Brysiodd y bobl i adferu y Forwyn i'w lle—gwnaethant hi yn harddach nag o'r blaen, ac addawsant roddi ufudd-dod dauddyblyg iddi o hyny allan.


O flaen yr eglwys hon y mae coeden fechan a arferai fod yn ganolbwynt *pit* ceiliogod, ymladdfeydd y rhai a fyddent mor atdyniadol ag i ddenu llawer o Indiaid, Mexicaniaid, ac eraill i'r gwasanaeth crefyddol ar y Sabbathau. Anffawd fawr i'r achos fu gadael i'r chwareuon crefydd-gynaliol hyny fyned i lawr, oblegid nid oes mwyach foddion oddieithr y gwyliau blynyddol o flaen gwlaw, yn cael eu cadw yn yr eglwys hòno. Cymered ein heglwysi Protestanaidd rybudd oddiwrth hyn, i beidio difodi chwareu damwain *(lotteries)*, yn nghyda chwareuon eraill, a llawer o ystrywiau santaidd trwy y rhai y galluogir yr Hollalluog i gynal ei achos yn y byd!

PRESWYLWYR Y GRAIG.

Y mae yn New Mexico ac Arizona bobl ryfedd a elwir *Pueblo Indians*, hyny ydyw, Indiaid Pentrefol, y rhai, yn wahanol i lwythau crwydrol, rhyfelgar, ac ysbeilgar y Tiriogaethau, a chwenychant fyw mewn pentrefi; llafuriant y ddaear, ac y maent o duedd lonydd a heddychol. Y mae yn bosibl eu bod yn ddisgynyddion rhai o bobl Montezuma, ac hyd yn nod y cyn-frodorion ag oedd yn meddianu y wlad cyn i'r Azteciaid ddyfod iddi.

Triga y dosbarth iselaf o honynt mewn tyllau ac ogofeydd. Y rhai hyn "nid ydynt bobl rymus, eto hwy a wnant eu tai yn y graig." Y mae gweled penau gwalltog rhai, a breichiau croen-gochddu eraill, yn chwifio allan o'r creigiau yma a thraw, yn ddigon i beri i un feddwl fod y mynydd yn feichiog o fodau dynol, a bod haid o'r cyfryw, fel

locustiaid, ar gael eu hunain yn rhyddion i rodio allan megys ninau. Gelwid trigfanau o'r fath yma yn *pueblo* (pentref), a disgynai y preswylwyr i'r dyffrynoedd i drin y ddaear. Yr oedd pobl debyg iddynt, neu waelach na hwy, yn y wlad y trigai Job ynddi. "Rhai a dorent yr hocys mewn brysglwyni, a gwraidd meryw yn fwyd iddynt. Hwy a yrid ymaith o fysg dynion (gwaeddent ar eu hol hwy, fel ar ol lleidr) i drigo mewn holltau afonydd, mewn tyllau y



PUEBLO—CARTREF YR INDIAID PENTREFOL.

ddaear, ac yn y creigiau. Hwy a ruent yn mhlith perthi: hwy a ymgasglent dan ddanadl." Onid oes, er hyny, addewidion i rai fel hyn? "Y diffaethwch a'u dinasoedd, dyrchafant eu llef, y maesdrefi a breswylia Cedar; caned preswylwyr y graig, bloeddiant o ben y mynyddoedd."

Gwehilion y llwythau sydd yn trigo mewn ogofeydd a thyllau yn y creigiau. Preswyliant, gan amlaf, mewn pentrefi gwneuthuredig o dai tebyg i dai *adobe* y Mexicaniaid. Saif y pentrefi hyn, rai ar

wyneb y ddaear, eraill yn pwyso ar graig, ac eraill ar gopa craig uchel. Y mae yn amlwg fod dyogelwch yn wyneb ymosodiadau y llwythau rhyfelgar mewn golwg yn eu cynlluniad—maent yn un, dau, ac weithiau tri uchder llofft. Aethum gyda chyfaill trwy wlad o laswellt twffiog, garw, rhwng creigiau garwach, i weled *pueblo*, gan fwriadu curo wrth ddrws y ty cyntaf yr aem ato; ond nid oedd yno ddrws, na mynediad i fewn nac allan trwy nac ystlys na thalcen. Gwelid colofn las o fwg yn ymfodrwyo i fyny o gorn a ymgodai oddiar dô gwastad. Clywem swn ymddyddan hefyd, fel swn cwynfanau tanddaearol, dwfn, a phell. Barnem oddiwrth hyny fod yno fodau dynol, os nad yn hollol fyw, heb gwbl ddystewi ar ol marw, neu rai yn dyfod i fyny o fro y marwolion. Wrth i ni godi ein golygon i graffu yn fanylach ar y golofn fwg i weled a allem ganfod rhith ysbrydion yn ymddyrchafu o'r lle y clywem y lleisiau dyeithr, dwfn, a phell, wele dwffyn du mawr megys o flew llathraidd, geirwon, a hirion yn ymddyrchafu o'r tô. Safodd enyd, fel y saif morlo a'i ben uwchlaw y dòn, ond yn fuan dyna ymysgydwad, ymestyniad tuag i fyny—ysgwyddau a chorff yn ymddangos! Tybiasom ei fod yn debyg i ddyn. Safodd ar ei draed mor syth a phawl, mor llonydd a delw, mor ddystaw a drychiolaeth, mor welwddu ag angeu, mor ddiraen a'r bedd, ac mor ddifrifol a phe newydd adael Hades. A oedd y goleuni yn ei ddallu fel nad allai edrych arnom yn graff? Tybiem hyny, oblegid wedi aros enyd a'i wyneb yn syn-gyfeiriedig atom, a ninau yn ceisio dyfalu beth a gymerai le yn nesaf, pa un ai suddo yn ol i'w dwll, ai lledu allan ei wrthban llaés ac ehedeg ymaith, ynte diflanu yn y fan; gwelsom ef yn plygu yn isel, a chlywsom swn megys o'r ddaear drachefn. Ymuniawnodd y bôd i'w gyflawn hŷd ar hyn, ac wele ail fôd cyffelyb iddo yn dyfod i fyny, ac un arall, ac un arall drachefn a thrachefn, nes y gwelem ar ben y ty dyrfa o fodau syn a dystaw. Yn ddiweddaf oll tynwyd ysgol i fyny, a gosodwyd hi ar yr ochr allanol i'r adeilad, ac ar hyd-ddi daeth y dyrfa ryfedd i lawr ac atom. Cawsom ysgwyd dwylaw â hwy, wrth yr hyn y deallasom mai dynion oeddynt, canys teimlem fod ganddynt gnawd ac esgyrn. Darfyddodd ein hofergoeledd, a throesom i gael golwg fanylach ar yr adeiladau, ac wele yr holl bentref yn fyw o Indiaid, rhai ar benau y tai, rhai yn disgyn, a rhai yn dyfod atom. Nid oedd yno fawr o gyfnewid meddyliau. Gan na fedrem ni nac

Indianaeg nac Yspaenaeg, na hwythau na Saesonaeg na Chymraeg, nis gallem wneud yn well na cheisio edrych yn llon ar ein gilydd. Mor debyg i esgyrn pydredig mewn bedd yr oeddwn yn gweled eu crwyn, ac mor salw ac afler eu gwedd, fel nas gallwn wrth ystyried mai o'r un dechreuad yr oeddwn i a hwythau, ac mai o'r un fath ddefnyddiau yr ydym yn wneuthuredig, lai na theimlo grym yr ymadrodd—"Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli." Byddai rhai wrth baentio eu hunain wedi gwneud eu gwynebau rhuddgoch yn fflamgoch. Trwy dwll yn y tô yr ânt i'w tai, a thynant yr ysgol ar eu hol, rhag y gallai dyn drwg wneud defnydd anmhriodol o honi. Ond y mae *pueblos* eraill, o wneuthuriad mwy diweddar, yn meddu drws yn y mur, a math o ffenestri i gael ychydig oleuni i fewn. Am y tai o fwy nag un uchder llofft,



PRESWYLFA GYNES.

nid ydynt debyg i dai felly yn ein gwlad ni. Y naill dy wedi ei godi ar ben y llall ydyw yr eiddynt hwy yn aml, heb fod ynddynt ddim yn gydfesurol â'u gilydd ond fod yr uchaf o angenrheidrwydd yn llai na'r isaf. Adeiladir amryw dai uchaf gyda thipyn o bellder rhyngddynt ar ben y ty isaf. Gellir golygu yr adeiladau hyn, o'i cydmaru â wigwams Indiaid eraill America, yn balasau. Y mae gan rai o'r bobl dai nid anhebyg i gychod gwenyn, ond eu bod o angenrheidrwydd yn fwy.

AMAETHYDDIAETH.

Rhai digyffelyb fel amaethwyr ydynt y bobl hyn. Y maent hwy, eu hanifeiliaid, a'u celfi yn rhyfeddol i edrych arnynt. Rhoddwyd math o ddysgrifiad o honynt gyda'u hasynod yn marchnadfa goed Santa Fe. At gario beichiau yn unig y defnyddir asynod. Eu hanifeiliaid tynu ydynt ychain, creaduriaid bychain a diraen ddigon yr olwg arnynt. Y mae eu haradr yn gynwysedig o ddau bren, y naill bren yn ddarn o gyff a changen, ac felly yn gam; pen y gangen

yn llaw ddeheu yr aradrwr, a phen y cyff, wedi ei naddu yn bigfain, yn y ddaear yn cymeryd arno wneud gwaith cwlltwr a swch. Yn gydiol â'r pren hwn yn ei gamder y mae pren hir arall, sef y pawl *(pole)*, yn ymestyn rhwng y ddau ych fyddo yn tynu can belled a'u penau. Yno cydir ef â'r iau *(yoke)*, yr hon sydd yn gorphwys, nid ar warau yr anifeiliaid, ond ar eu penau; rhwymir hi â llinynau wrth eu cyrn, ac ystrapiau yn groes i'w talcenau. Felly â'u talcenau y mae yr ychain yn aredig. Yn aml nid oes ond un ych neu fuwch yn tynu yr aradr. Yn llaw aswy yr aradrwr y mae pren i'w gyru yn mlaen.



AREDIG YN MEXICO NEWYDD.

Nid llai celfydd nag erydr y bobl hyn ydynt eu cludfèni, canys y mae yn eu plith ambell ffermwr mor gefnog ag i feddianu peth mawr felly. Y mae y fèn yn gynwysedig o ddwy olwyn, echel *(axle)*, pawl, a blwch, neu gawell. Y ddwy olwyn ydynt ddau bren crwn haner troedfedd neu fwy o drwch, wedi eu llifio allan o fôn coeden fawr, a thwll trwyddynt i'w sicrhau wrth yr echel. Yn gydiol â'r hwn y mae y pawl, yr hwn, fel y crybwyllwyd, a sicrheir gerfydd yr iau wrth benau yr ychain. Yn gorphwys ar yr echel a'r pawl y mae y blwch neu gawell uchel, yn yr hwn y cludir y pethau a gludir. Wrth ystyried y pwysau sydd felly yn dyfod ar benau yr ychain, rhaid credu mai y truenusaf o'r holl anifeiliaid ydynt hwy. Y fath ydyw yr anghydfod gwichianllyd sydd rhwng yr echel a'r olwynion pan fyddo y cerbyd yn myned fel y mae y creigiau yn diasbedain gan eu swn. Un tebyg ydyw y cerbyd hwn i'r twlyn, neu y "*wagen druck*," y clywais rai o Gymry Wisconsin yn ddweyd a arferid ganddynt hwy ar ddechreu eu hymsefydliad yno. Nid oes ddarn o haiarn yn y cerbydau, erydr, nac arall. Dyrnant eu hŷd trwy beri i'r ychain gerdded drosto.

Pobl ryfedd ydynt y rhai hyn. Er eu bod o'r un lliw ag eraill o Indiaid America, y maent yn dra gwahanol eu tueddiadau a'u harferiadau. Y maent yn eulun-addolwyr selog, a chanddynt eu duwiau bychain a hyll, wedi eu gwneud o bridd y ddaear, yr un fath ag y gwnaed eu llestri pridd. Dyoddefasant lawer ar law eu gorthrymwyr, yn Indiaid, Yspaeniaid, a Mexicaniaid. Ac y mae eu hanes yn profi y medrant ryfela yn effeithiol pan fyddo raid mewn hunan-amddiffyniad. Y maent yn darfod yn gyflym oddiar wyneb y ddaear; ychydig eto a'r lle a'i hadwaenodd nis edwyn ddim o honynt mwy.


YR INDIAID CYMREIG.

Nid fy amcan yn hyn o sylwadau ydyw pleidio na gwrthwynebu yr hen athrawiaeth o gyn-hanfodiad pobl wynion yn mhersonau Cymry ar gyfandir America, a rhediad gwaed Cymreig yn ngwythienau yr hen genedl Aztecaidd, ond gan fod genyf ychydig hatlingau wedi eu casglu yn y parthau hyn, mi a'u taflaf i'r drysorfa—eler a hwy i'r *mint* i'w profi, a gwneler â hwy fel y barner yn oreu.

Dyna Pecos, y dref, fel y tybia rhai, lle y ganwyd Montezuma, yr enwocaf o'r brenhinoedd Aztecaidd, a'r lle y cadwyd yn fyw dros ganoedd o flynyddoedd y tân santaidd a gyneuwyd ganddo. Dywedir mai ystyr yr enw Pecos yn iaith y brodorion ydyw *goleu-bryd brychlyd;* yn arwyddo mai pobl o bryd goleu a brychni yn eu gwynebau, neu frithni a wnelent ar eu cyrph, oedd yn trigianu y lle. Felly y mae Pecos bron yn gyfystyr â Picts, Pictiaid, Brithwyr, pobl o Scotland. Yn awr, os aeth lluaws o Ysgotiaid a Gwyddelod, fel y dywedir, yn gystal a Chymry, gyda Madog ab Owen Gwynedd i America yn y ddeuddegfed ganrif, ni byddai yn anmhosibl iddynt adeiladu dinas, ac i hòno gael ei galw ar eu henw.

O'r ychydig eiriau Aztecaidd sydd genyf y mae y mwyafrif o honynt yn meddu cryn debygolrwydd i eiriau Cymreig. Galwai yr Azteciaid y lleoedd hyny yn eu dinasoedd a ddefnyddid at gynal cyfarfodydd mawrion cenedlaethol, gwleidyddol, a llenyddol, yn *estufa.* Ai nid eisteddfa neu eisteddfod ydyw hyn? Enw cyntefig dinas Mexico, yr hon a saif ar fynydd 7,000 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr, ydoedd *Tenochtitlan.* Ai nid ystyr hyn a allai fod "Ty'n ochr taith i'r lân?" Gelwid y deml fawr byramidol

oedd ganddynt yn neu yn agos i'r ddinas hòno, ac ar sail yr hon yn awr y saif yr eglwys gadeiriol, yn *Teocalli*. Ai nid "Ty o allu," neu "Ty y Gallu," neu "Ty y Galluog" (yr Hollalluog) ydyw hyn? Dechreua llawer o'u henwau trefawl gyda



HEN EGLWYS YN MEXICO NEWYDD.

Te. Gelwir amryw leoedd ar uchelfanau yn *Tehua*, "Ty uchaf," efallai. Enwau lleawl eraill, yn ol y ffurf Saesonaeg, a ddechreuant gyda *Tla*, canys *tl* neu *thl* a ddefnyddia y Saeson am *ll* Gymreig. Gall mai *lla*, neu *llan*, neu *lle* ydoedd ffurf wreiddiol y dechreuad yna.

Tlacopan (Llan-copa neu Lle'r gopa); *Tlapallan* (Llan-bellaf neu Lle-pellaf); *Tlascallans* neu *Llascallans* ydoedd enw llwyth o'r Azteciaid; *Cayman* (Cae-man neu Cau-fan) ydoedd enw afon; *pueblo* (pentref), ai ni allai hwn ddeilliaw o "pobl," "poblfa," neu le "poblog?"

Tua 200 o filldiroedd yn orllewinol o Santa Fe, lle y terfyna New Mexico ar Arizona, y mae Indiaid Zuni, gweddillion yr hen Azteciaid. Dywed un a fu yn aros yn mhlith y rhai hyny fod gan lawer o honynt wallt goleu a llygaid gleision, a'i fod yn anhawdd iawn i un allu credu mai Indiaid ydynt; a'u bod yn rhai glewion iawn yn eu bargeinion. Dywed yn mhellach fod gan yr Indiaid hyn y chwedl ganlynol am danynt eu hunain:—Ddarfod i gwmpeini o fwnwyr Cymreig a ddaethant gyda'r Tywysog Madog dros y môr yn y ddeuddegfed ganrif weithio eu ffordd i wlad y Zuniaid, hwy a'u gwragedd—ddarfod iddynt gael y fath dderbyniad croesawgar fel y penderfynasant ymgartrefu yn eu plith. Nid aeth amser maith heibio, fodd bynag, cyn i'r Zuniaid ladd yr holl wrrywaid Cymreig a chymeryd eu menywaid yn wragedd iddynt eu hunain; ac fel yna y cyfrifant am fodolaeth y bobl oleu-bryd a'r llygaid gleision sydd yn eu plith.

Agos i gan' milltir yn orllewinol o wlad y Zuniaid, sef tua'r afon Colorado Chiquito, yn Arizona, y mae Indiaid Moquis (Madocwys, o bosibl), y rhai, medd rhai, ydynt debycach i Gymry na'r Zuniaid. Trigant mewn saith *pueblo*, neu dref, ar benau creigiau aruthrol, nad allodd y Navajoaid, yr Apacheaid, nac unrhyw Indiaid peryglus eraill fyned yn agos atynt i'w drygu. Siaradant iaith na fedr neb ond hwy eu hunain ei deall; ac yn hynod iawn, y mae trigolion y dref fwyaf, yr hon a elwir Harro, yn siarad iaith nas gall pobl y trefydd eraill ei deall, ond gallant hwy siarad yn iaith y lleill. Dichon mai disgynyddion yr Ysgotiaid neu y Gwyddelod a aethant gyda Madog ydynt breswylwyr y dref neillduedig hon. Dywedir am y Moquis Indians fod ganddynt wareiddiad o'r eiddynt eu hunain. Pan yn Salt Lake City, dywedodd yr henuriad John S. Davies ddarfod iddo ef weled ac ymddyddan â rhai o honynt, ac y medrent ddweyd unrhyw eiriau Cymreig ar ei ol yn berffaith naturiol. Credai eu bod yn debyg eu gwynebau i'r Cymry; ac oddiwrth y darluniau o honynt a ddangosodd i mi, yr wyf finau yn

argyhoeddedig eu bod yn ddisgynyddion Adda Jones a'i wraig Ef a——. Wel, dyna y pethau am danynt fel y maent genyf fi. Nid wyf ar hyn o bryd am benderfynu dim oddiwrthynt. Gwneled y darllenydd â hwy fel y byddo da yn ei olwg.

DYFFRYN RIO GRANDE.


Bu yn y parthau hyn, ac oddiyma i lànau y Tawelfor, fyd blaenorol o boblogaeth, pryd yr oedd trefi, adeiladau, meusydd, gerddi, a gwinllanoedd yn addurno yr holl wlad. Ceir arwyddion amlwg o gyn-hanfodiad cenedl o ddynion wedi cyrhaedd graddau o wareiddiad a chelfyddyd; ond daeth yr Yspaeniaid llawruddiog â'r fath ddinystr tân a diluw gwaed dros y broydd, fel y rhoddwyd terfyn ar y cyfnod hwnw megys mewn un dydd; a'r fath ydoedd sêl ddall y Pabyddion fel y dinystriasant bob ysgrifau ac arwyddluniau a allent drosglwyddo i ni eu hanes. Ni adawyd o'r preswylwyr ond gweddillion; lleihaodd ac ymddirywiodd y rhai hyny nes aeth y llwybrau yn anhygyrch, a'r maesdrefi a ddarfuant.



ADFEILION AZTECAIDD.

Wedi teithio 67 o filldiroedd yn ddeheuol o Lamy daethum i Albuquerque, un o'r trefydd mwyaf a phwysicaf yn y diriogaeth; rhwng yr hon a Santa Fe y bydd yn ymdrechfa am fod yn brif ddinas y dalaeth. Ugain milldir islaw Albuquerque y mae pentref Isletta, lle dros ugain mlynedd yn ol y gwnaeth yr afon dro rhyfedd â Mr. S. W. Cozzens a'i gydymaith, gyda Jimmy, eu gwas, yr hwn ydoedd Wyddel. Pabellasant ar làn yr afon, yr hon oedd yno yn 300 troedfedd o led, gan fwriadu ei chroesi boreu dranoeth. Nid oes afon fwy cyfnewidiol na hon yn y byd—ei gwaelod yn ddim amgen na threigl-dywod *(quicksand)* peryglus. Yr ydoedd yn ddealledig

iddynt fod y man hwn yn neillduol felly, ac nid bychan ydoedd eu pryder wrth feddwl cael eu mulod a'u gwagen lwythog i'r làn arall. Pan ddaeth y boreu deffrowyd hwy gan waith Jimmy yn datgan â llef uchel nad allai miliynau o arian ei demtio ef i gymeryd un cam pellach yn y wlad reibiedig hòno. Nid ofn yr Indiaid gwaedlyd, ond rhywbeth arall, ac yr ydoedd yn myned i gychwyn adref ar unwaith, y foment fendigedig hono, a llefai yn ddwys ar y saint santaidd am amddiffyniad. Buwyd yn hir cyn y gellid cael eglurhad ar ddim ganddo gan gymaint ei gyffro. O'r diwedd gofynodd,



SYCHU CIG AR Y GWASTADEDDAU.

"A b'le mae yr afon, ynte?" Cyfeiriwyd at y lle y tybid ei bod, pryd y tòrodd Jimmy allan eilwaith i lefain—"Dyna fe! nid yna y mae heddyw; a sut yr aeth y d——l â hi i'r ochr arall, hoffwn wybod?" Pan edrychodd y ddau deithiwr allan, wele, fel y dywedodd Jimmy yr ydoedd yn bod. Cawsant yr afon yn rhedeg o'u tu cefn mor gryno, mor dawel, ac mor hamddenol a phe byddai wedi arfer rhedeg yn y gwely hwnw er's can' mlynedd; aethant dros ei hen wely mor ddyogel ag Israel yn myned trwy y Môr Coch. Mor dywodog ydyw glànau yr afon hon fel y mae yn newid ei gwely pa bryd bynag y cymer hyny yn ei phen; ac nid yw yn prisio na meusydd, na gwinllanoedd, na bueirth *(corrals)* y *ranchers,* na phentrefi, nac arall—rhaid i bobpeth roddi ffordd iddi hi ar rybudd

byr. Yr ydoedd gelyniaeth mawr rhwng dwy dref o'r enwau La Mesilla a Las Cruces. Achos yr elyniaeth ydoedd eu bod yn sefyll ar ochr wahanol i'w gilydd i'r afon—gelyniaeth o'r un natur ag a fyddai rhwng preswylwyr dau blwyf gwahanol yn Nghymru yn yr hen amser da sydd wedi pasio. Pan ydoedd yr elyniaeth hon ar gyrhaedd pwynt peryglus, newidiodd yr afon ei gwely, ac aeth y ddwy dref ar yr un ochr â'u gilydd, ac am hyny yn gyfeillion, ac yn gydelynion i'r bobl oeddynt eto wedi eu gadael i fod ar yr ochr arall.

Wedi myned can belled a Rincon, 178 o filldiroedd yn ddeheuol o Albuquerque, cymerais gangen ddeheu-ddwyreiniol o'r reilffordd yr oeddwn arni i fyned 76 o filldiroedd i El Paso Del Morte. Ar fy aswy gwelwn fynyddoedd yr Organau, y rhai a elwir felly ar gyfrif mawr debygolrwydd eu cribau uchel, rhwyllog i bibellau cerdd-organ. Ac yr oeddwn yn awr yn nhiriogaeth yr Indiaid peryglus a elwid Apaches, y rhai oeddynt ar y pryd yn gwrthryfela yn erbyn y llywodraeth. Y mae son yn bell ac agos am greulonderau yr anwariaid hyn, yr hyn a barai nad oedd arnaf gymaint o chwant eu gweled hwy na'u pentrefi ag oedd arnaf i weled Indiaid Pueblo. Nid yw yr Apaches erioed wedi cael eu gorchfygu yn iawn; nis medr milwyr eu canlyn i'w llochesau yn y creigiau; ac y mae eu harswyd hyd yn ddiweddar, ac eto i raddau, yn cadw cyfoeth mwnawl parthau o Mexico Newydd ac Arizona rhag cael eu tynu allan.

Ychydig cyn fy mynediad ar hyd y ffordd hon darfu i rywbeth fyned allan o le yn y gerbydres, fel y bu raid aros peth amser mewn parth anghyfaneddol i'w hadgyweirio. Yn y cyfamser aeth y teithwyr allan i weled yr amgylchoedd, ac aeth dyn a dynes yn rhy bell, fel erbyn iddynt ddychwelyd yr ydoedd y gerbydres wedi myned. Gan y gallai yr Apaches ofnadwy eu canfod a syrthio arnynt yr ydoedd eu sefyllfa yn bobpeth ond dymunol. Canfuasant hefyd fintai o'r anwariaid yn disgyn o'r mynydd ac yn brysio tuag atynt. Yr ydoedd eu pryder yn awr wedi cyrhaedd pwynt uchel; eu hunig obaith ydoedd dyfodiad cerbydres arall, ond nid oedd cerbydres i'w chanfod er y gallent weled yn mhell. Yr Apaches er hyny yn parhau i ddynesu gyda phob brys. Pan oedd pob gobaith bod yn gadwedig bron wedi ei ddwyn oddiarnynt, wele gwmwl bychan o fwg, megys cledr llaw gŵr, yn ymddangos ar y gorwel

draw, ond bu yn hir cyn rhoddi arwydd o gynydd neu o ddynesiad. Iddynt hwy yn awr yr ydoedd mynyd o gyfeiriad y mwg yn gymaint ag awr, ac awr o gyfeiriad yr Apaches yn ddim ond mynyd. Gan fod amser felly yn pleidio eu gelynion aeth gobaith eto yn wan. Ond nid oeddynt yn deall holl awdurdod y mwg hwnw. Gwelwyd ef gan yr Apaches hefyd, yr hyn a barodd arafu eu camrau, canys nid oedd eu nifer yn ddigonol i gyflawni ysgelerder felly yn ngolwg y gerbydres. Cafodd y trueiniaid y cysur o weled ei bod yn dyfod.




Ond gan nad oedd yno orsaf, beth os gwrthodai aros? Trefnwyd i'r ddynes sefyll o'i blaen i wneud arwyddion—oblegid dynes ydyw brenhines America. Nid yn yr un ffurf ag y mae Victoria yn frenhines Lloegr, mae yn wir, ond y mae ei gallu a'i hawdurdod yn llawer mwy, er fod ei chyflog yn llai. Pa le bynag y gwna hi ei hymddangosiad y mae yn hawlio ac yn cael pob gwarogaeth, ufudd-dod, a pharch. Felly y bu hefyd y tro hwn; safodd y gerbydres, codwyd y ddau i fyny, a chollodd yr Apaches gwaedlyd eu hysglyfaeth.

EL PASO DEL NORTE.

Erbyn fy nyfod i El Paso, cwr deheu-orllewinol Texas, teimlwn fy mod yn mhell iawn; ond, ys dywedai Siencyn Ddwywaith, gan edrych o'i amgylch pan ddywedodd rhywun wrtho fod ei fferm yn mhell iawn—"Pell o ba le, dywedwch?" Wel, pell o bob man y bum ynddynt, ac o bob man yr oeddwn ar fedr myned iddynt, agos 1,700 o filldiroedd o Chicago yn y gogledd-ddwyrain, ac agos 1,700 o filldiroedd o San Francisco yn y gogledd-orllewin. Dynion ofnadwy ydynt lawer o *ranchers* Texas, y rhai a elwir *Cow-boys.* Eu prif

ddifyrwch ydyw saethu; a phe lladdent ddyn ni byddai fawr gofid iddynt. Wedi croesi y Rio Grande yr oeddwn yn El Paso Del Norte, Mexico, yr hon, fel y gwyr y darllenydd, ond odid, sydd wlad arall, ac yn llywodraeth arall, wahanol i'r Talaethau Unedig. Hen dref ryfedd, ryfedd ydyw hon eto, hollol *adobeaidd* ei hadeiladau a Mexicanaidd ei harddull. Ymddangosai pawb a phobpeth ynddi yn



GORSAF MARCH-GERBYDAU—ARIZONA.

hynod henafol. Gwisgai y dynion croen-dywyll hetiau goleu, isel, gyda chantelau llydain, cyfled â'r ysgwyddau, o amgylch yr hon y byddai llinyn addurnedig can braffed â rhaff, gyda thwffiau; siaced gryno can belled i lawr â'r wasg, yna llodrau llaesion. Am ganolau llawer o honynt y byddai gwregys lledr, llawn ergydlwythau *(cartridges)*, llawddryll *(revolver)*, a chyllell ddaufin mewn gwain. Y menywod a welid dan *shawls* brithresog, y rhai a grogent yn

llaes dros y pen a'r wàr; yna gŷnau goleu, plaen o luniau, blodeuog o liwiau, ac ar y Sabbathau a'r gwyliau yn gymen a glân.

Byddai y tai yn hynod blaen a difywyd oddiallan, ond plaenach oddifewn. Ychydig ddodrefn wnai y tro. Eithriadau rhyfedd fyddai cadeiriau na byrddau yn ystafelloedd y gwir Fexicaniaid. Gwnai y llawr y tro fel cader a bwrdd, a'u bysedd yn llawer gwell na chyllill a ffyrch. Nid at ddybenion bwytâol na naddawl y gwnaed y cyllill gloewon a gadwent wrth eu gwregys. Cynwysedig ydyw eu bwyd ó *tortillas*, bara heb ei lefeinio—nid anhebyg o ran ffurf i fara radell, neu fara crai Cymru; *chilli* hefyd, sef pupyr cochion *(cayenne pepper)*. Synwn weled cymaint o hwn yn crogi yn rhaffau o godenau cochion a gwyrddion gerllaw y tai. Defnyddir pupyr cochion yno yn helaethach nag y defnyddir wynwyn yn Nghymru. *Frejolies* eto, sef pys neu ffa, a garlleg. Anfynych y defnyddir cig, am nad ydyw, ond lle y byddo rhaid iddo gael ei gogino gyda digonedd o bupyr cochion a garlleg. Dywedir y bydd Mexicaniad yn berffaith ddedwydd os bydd ganddo becaid o ffa a rhaffaid o bupyr cochion, ac na weithia ddim tra fyddo ganddō ronyn o'r naill neu y llall.

Y mae y bobl hyn yn fwy celfydd fel amaethwyr nag Indiaid *pueblo*, ond nid wyf yn meddwl y talai i neb o Gymru fyned atynt i ddysgu amaethu. Eu peiriant dyrnu a wneir i fyny o nifer o ddefaid neu eifr, haner cant, fwy neu lai, weithiau gynifer â chant, wedi eu gosod i drotian a neidio dros yr ŷd mewn cylch. Mor dda y mae yr anifeiliaid hyn wedi eu haddysgu at eu gwaith fel y symudant pan symudant, ac y safant pan safant, mor rheolaidd â milwyr.

Bum tua'r milwrdy *(barracks)*. Ymwisgai y milwyr mewn dillad gwynion, yr hyn a barai i'w crwyn ymddangos yn llawer tywyllach. Gerllaw yr oedd ugeiniau o honynt yn golchi eu dillad ac yn golchi eu hunain mewn llyn llwyd a budr, yr hwn a wnaethpwyd i'r dyben hwnw. Ond y peth mwyaf doniol a welais yn y parth hwn ydoedd ymladdfa ffyrnig rhwng dau ddyn. Am a wn i na wnai rhai yn bwriadu dilyn yr alwedigaeth hòno yn dda i fyned atynt i gael gwersi. Ymaflai un dyn yn y llall â'i ddwylaw, ac ysgydwai ef â'i holl nerth. Yna ymaflai y llall ynddo yntau, gan wneud megys y gwnaed iddo ef yn gyntaf; ac felly yr ysgydwent eu gilydd ar yn ail nes byddent wedi blino, a'r hwn a flinodd fwyaf, neu yr un fydda

wedi gwneud mwyaf i orchfygu ei hun, fyddai yn y diwedd wedi cael ei orchfygu. Nid ydyw taraw â dwrn yn feddylddrych ganddynt— at y llawddrylliau a'r cyllill yr eir pan êl y gwres yn ormod i'w gau mewn cylch ysgwyd.

Gyda yr eithriad o'r ymladdfa ddigrifol hon, ni welais ddim câs yn eu plith. Meddant fel dynion ymddangosiad lluniaidd, a llawer yn eu plith yn hardd. Mor amddifad o ffenestri arddangosol ac o arwyddgraffau *(signs)* ydoedd y dref fel nas gellid yn hawdd wahaniaethu rhwng siopau a thai eraill; ac nid yw y gwestywyr yn meddwl am ffordd i ddenu; ond gyda math o ostyngeiddrwydd sarug, cymerant arnynt nad oes ganddynt ddim yn gyfleus, er y bydd ganddynt, efallai, bobpeth yn ol ffasiwn y wlad. Nid ydynt yn meddwl fod addurniant celfyddydol i'w gymhwyso at ddim ond eu dillad goreu a'u heglwysdai. Gwelir y rhai hyny, er yn henaidd, yn meddu colofnau a thyrau oddiallan, a llawer o ddelwau a lluniau eraill oddifewn. Wrth ystyried hefyd fod agos bob lle yn eu gwlad wedi eu galw ar enwau rhyw seintiau gwarcheidiol neu y santaidd groes, gellid tybio eu bod yn bobl dra chrefyddol, ac eto ni cheir o fewn terfynau cred bobl yn meddu llai o grefydd ymarferol; maent yn dywyll eu deall ac yn bechod eu buchedd.

ARIZONA.

Yn El Paso cefais ben y reilffordd newydd i California, sef y *Southern Pacific.* Cychwynais ar haner nos, ac wedi olwynaw 88 o



ADFEILION YSPAENAIDD—ARIZONA.

filldiroedd yr oeddwn yn Deming, y lle y daw teithwyr i fewn o'r gogledd-ddwyrain i fyned i California. Tua 40 milldir yn

orllewinol i Deming daeth i'r golwg lyn dysglaer a hardd, a'r mynyddoedd uwchben yn adlewyrchu gyda thanbeidrwydd ynddo; gelwid ef *mirage*. Nid oedd dyferyn o ddwfr yn agos iddo; tywod cras a thwyllodrus ydoedd oll. Wedi myned ugeiniau o filldiroedd yn mhellach, croesais y llinell i diriogaeth fawr Arizona, yr hyn o'i gyfieithu ydyw "Prydferth yr haul." Dywedir y bydd llawer o'i daear yn dra chynyrchiol ar ol y dygir i weithrediad gyfundrefn effeithiol o ddyfrhau; ond yn ei chyfoeth mewnol y gall Arizona ymffrostio mwyaf. Prophwydir iddi ddiwrnod yn yr hwn y cydnabyddir hi y wlad gyfoethocaf yn y byd. Y mae miliynau o ddoleri wedi eu cynyg am rai o'i mwngloddiau aur, arian, copr, &c. Ceir ynddi ddarnau cyfain *(boulders)* haner can' tunell o bwysau yn rhoddi o dri i bedwar cant o ddoleri (£60 i £80) y dunell. Y mae un hawl mewn gwythïen *(lode)* ddeng milldir o hyd wedi rhoddi 200,000 o ddoleri (£40,000) bob mis. Nid ydyw y celloedd llawnion hyn eto ond megys newydd ddechreu gael eu hagor.



Y DYN DYFODOL.

Daeth anturiaethwyr Yspaenaidd i fewn mor foreu a'r flwyddyn 1540. Ugain mlynedd yn ddiweddarach sefydlwyd yma orsafoedd cenhadol gan y Jesuitiaid. Erbyn y flwyddyn 1725 meddent 30 o'r cyfryw orsafoedd, gyda 71 o bentrefi Indiaidd heblaw hyny o dan eu harolygiaeth. Dechreuasant ddiwygio yr anwariaid, y rhai yn ewyllysgar a gymerent eu haddysgu ganddynt. Ond cynyddodd traha a gorthrwm yr athrawon Pabaidd i'r fath raddau fel y cododd eu dysgyblion yn eu herbyn; lladdasant y cenhadon a

llosgasant eu gorsafoedd. Bu y diriogaeth hon dros flynyddau hefyd yn fath o ddinas noddfa i bobl wynion o'r cymeriadau mwyaf ysgeler—lladron, llofruddion, a gwrthodedigion cymdeithas. Caent yn y parthau pellenig hyn gario pethau yn mlaen yn ol eu dymuniadau; a mwy fyddai y perygl oddiwrth y rhai hyn nac oddiwrth yr Indiaid. Hyd yn nod yr wythnos wedi i mi basio gwnaeth mintai o honynt ymgais at ysbeilio y gerbydres a'r teithwyr; ond y mae eu dydd hwy yn gystal ag eiddo yr Indiaid yn cyflym ddiflanu, a gwareiddiad, cyfraith, a threfn yn myned yn oruchaf yn y tir.

Wedi teithio er haner nos mewn gwlad noeth, anrhigianol, heb dai, heb gaeau, heb goed, heb anifeiliaid, heb ddim ond gwastadedd unffurf, mawr, yr ydoedd yn hyfryd dyfod at wersyll o bebyll gwynion a byddin o filwyr duon, y rhai oeddynt yno i gario yn mlaen ryfel â'r Apaches cochion. Sychedent am newyddiaduron neu pa bethau bynag yn meddu naws gwlad drigianol a deflid iddynt.

CACTUS.

Heblaw y trumiau mynyddig a welid draw, draw, nid oedd ar y gwastadeddau hyn ddim i dynu sylw neillduol ond y llysiau rhyfeddol a elwir *cactus*, neu *prickly pears*, neu "gelligenau pigog." Dywedir fod dros dri chant o wahanol rywogaethau o honynt. Ymddengys rhai o honynt can lleied ag wyau bychain, gwyrddion, pigog, llygeidiog yn tyfu allan o'r ddaear; eraill yn amryw ddail crynion, tewion, fel tafodau drain-bigog; eraill yn dwffiau mawrion a bychain o ganoedd o ddail, neu yn hytrach gleddyfau hirion, tewion, triminiog, mor flaenllym â nodwyddau ac mor gelyd â phrenau. Byddai syrthio yn drwm ar un o'r tyffiau hyn, rhai o honynt yn droedfeddi o dryfesur, yn farwolaeth i unrhyw ddyn. Allan o rai o honynt y tyf megys pren main, uniawn, digangau a diddail, i'r uchder o tua 15 troedfedd. Yn eraill y gwelir y pren uniawn yn tyfu yn gyntaf, a'r twffyn canmil-cleddyfau yn gryno ar ei ben. Y mae eraill fel math o brenau yn taflu allan ganghenau, a dail pigog yn tyfu allan o'r canghenau hyny. Yn eraill y mae y dail pigog, tewion, a chelyd yn tyfu yn gyfrodedd ar hyd yr un pren o'r gwaelod i fyny. Tyfa un math, yr hwn, efallai, a ddylid alw yn balmwydden, i'r uchder o 60 troedfedd. Hwnw ydyw y rhyfeddaf o honynt oll, nid yn unig ar gyfrif ei faintioli, ond hefyd ar gyfrif ei liw a'i lun.

Y mae tryfesuredd ei bren rhychbantiog yn dair troedfedd wrth y ddaear, a chan feinhau yn raddol terfyna fry yn berffaith flaenllym. Allan o hono, drosto oll, y tyfa pigau blaenllymion o fodfedd i dair modfedd o hyd. Y mae gan rai o'r llysiau pigdwraidd, pigog, rhychbantiog, a chawraidd hyn bump neu chwech o bigdyrau pigog a rhychbantiog fel hwythau yn tyfu allan o honynt tuag i fyny, fel yr ymddangosai darlun o honynt yn debyg i'r darluniau a wneir o ganwyllbren y tabernacl. Y mae lliwiau gwyrdd a melyn y rhywogaeth hon yn cymeradwyo eu gilydd yn dra rhagorol. Ymddengys un blodeuyn ar y brig unwaith yn y flwyddyn, a rhoddant ffrwyth a werthfawrogir gan yr Indiaid. Gelwir hwn yn *boss cactus*. Gwna yr aderyn a elwir *woodpecker* dwll ynddo yn agos i'w frig, ac yn y twll hwnw y maga ei blant. Heblaw hyny dywedir mai y neidr gynffondrwst, y fadfall, a'r ddylluan ydynt yr holl greaduriaid byw a welir yn mharthau enwocaf y *cactus*. Daear uchel, dywodog, ar waelod creigiog, nas gall coed na llysiau eraill ffynu ynddi, ydyw cartref brasaf y llysiau rhyfedd hyn.

HENAFIAETHAU.

Yr ydys wedi crybwyll am weddillion henafiaethol er dechreuad y daith trwy New Mexico, a gallesid nodi llawer eraill; ond dichon mai yn Arizona y ceir y rhai rhyfeddaf ar y llinell hon i California. Saif Tucson (p. 5,000) 307 o filldiroedd yn orllewinol o El Paso. Hòna mai hi ydyw y dref henaf yn America o'r rhai ag sydd eto yn fyw; ond, yn anffodus, nid oes yn awr neb a fedr benderfynu y ddadl rhyngddi hi â Santa Fe. Fel y canlyn y desgrifir Tucson gan deithiwr 25 o flynyddau yn ol:—"Tucson y pryd hwn ydoedd brif dref y diriogaeth, gyda phoblogaeth o 600, agos eu haner yn Fexicaniaid a'r gweddill yn gymysgedd o Apaches, Pimos, Papagoes, a gwddf-dorwyr. Dichon na fu o fewn muriau unrhyw ddinas y fath gydgasgliad o ysbeilwyr ceffylau, hap-chwareuwyr, llofruddion, oferwyr, a dyhirod o bob math. Gellid meddwl mai bryn fuasai y lle ar y dechreu, a'i fod wedi ei daraw a'i chwalu gan fellten farnol, ac mai gweddillion y difrod ydoedd y tyllau priddlyd, llwydaidd, drygsawr, a thruenus yn y rhai y mynai y tŵr hwn o lygredigaeth anadlu. Nid oedd na mur gwyn na phren gwyrddlas i'w ganfod. Yr oll a groesawai y llygaid ar bob llaw oeddynt hen gysgodfeydd

(sheds) o dai, hen redyll, hen grochanau a llestri tyllog, hen fucirth *(corrals)* wedi syrthio, ceffylau meirw, cŵn byw, Indiaid meddw, plant noethion, mulod, moch, a phob aflendid! Ni welais o'r blaen y fath olygfa o fewn terfynau gwareiddiad; cefais fy llwyr lenwi o ffieidd-dod. Nid oedd yno *fonda* (ty cyhoeddus) o fath yn y byd, ac erbyn myned i'r lle ddylai fod yn *plaza* (parc canol y dref), nid oedd i ni ond perffaith ddyryswch, heb allu gwybod i ba le i fyned. Cawsom o'r diwedd hen adfail wag o bridd. Yno taenasom ein gwrthbanau ar lawr o bridd, a choginiasom ein hymborth ar aelwyd bridd; a phan ddaeth y nos daethom a'r oll a feddem—wagen, mulod, a chwbl o fewn y muriau pridd, a bolltiasom y drysau; barnasom mai y peth goreu fyddai myned ymaith, ac ymaith yr aethom yn foreu." Y mae y dref yn llawer iawn rhagorach na'r desgrifiad yna yn awr—adeiladau o ddulliau diweddar wedi eu codi, a'r trigolion o ansawdd uwch; ond y mae wedi colli yr enedigaeth-fraint o fod yn brif ddinas y diriogaeth am fod Prescot wedi ei dwyn oddiarni.

Deng milldir o Tucson y mae hen eglwys enwog San Xavier del Bac, 115 troedfedd o hyd wrth 75 troedfedd o led; y mae ar ddull croes, wedi ei hadeiladu gan y cenhadon Jesuitaidd 200 o flynyddau yn ol. Y mae oddifewn ac oddiallan wedi cadw ei chadernid a'i haddurniadau yn rhyfeddol, ac y mae hon hefyd yn hardd iawn, fel y mae yn bleser edrych arni. Y mae yn rhyfedd meddwl fod y fath adeilad costfawr a mawrwych wedi sefyll i fyny trwy yr oesoedd yn nghanol Indiaid tlodion, mwy na haner noethion. Daw y rhai hyn ati i ddweyd eu gweddïau boreuol mewn agorle ar ei thu gorllewinol. Ar ei thu deheuol y mae lleiandy, yn yr hwn y mae pedair o chwiorydd trugaredd yn ymweled â'r cleifion ac yn addysgu yr Indiaid.

Tua 12 milldir yn ogleddol o orsaf Casa Grande, ac yn ddeheuol i'r afon Gila, y mae Casa Grande (Ty Mawr), yr hwn a saif i fyny yn adfail fawreddog yn nghanol amryw filldiroedd o hen adfaelion eraill, y rhai a amgylchir gan gamlas o'r afon Gila. Y mae y tŷ hwn yn 63 troedfedd o hyd, 45 troedfedd o led, a chymaint ag sydd yn aros o'r muriau yn 40 troedfedd o uchder, ac yn bum' troedfedd o drwch. Bu, o leiaf, yn bedwar uchder llofft; medda amryw ystafelloedd hirgul. Y mae dwy adfail eraill llai yn gyfagos.

Bernir iddynt gael eu codi 800 o flynyddau yn ol. Y maent mewn cadwraeth dda, ond dywedir nad yw y mwyaf o'r rhai hyn ond bychan o'i gydmaru â rhai eraill. Y mae seiliau un adeilad yn 350 o droedfeddi o hyd wrth 150 o droedfeddi o led. Ceir yn eu plith ddarnau o lestri ac arfau celf. Os disgynyddion yr hen gynfrodorion ydynt y Pimos, y Maricobas, y Cuchans, y Mojaves, y Papagoes, y Zunis, a'r Moquis presenol, rhaid eu bod wedi ymddirywio yn fawr. Ni wyddant hwy ddim am ddechreuad yr adeiladau hyn, ac nis gallai y cenhadon gael gan Indiaid 300 o flynyddau yn ol ddim eglurhad arnynt. Dywedir fod glànau y Gila yn uwch i fyny yn meddu adfeilion llawn mor rhyfedd. Ceir yn y diriogaeth un hen gamlas fawr 60 milldir o hyd a 50 troedfedd o led, gyda llynoedd gwneuthuredig o ddirfawr faintioli. Ar feinben mynydd serth, 3,000 o droedfeddi uwchlaw y dyffryn, y mae castell cadarn, mawr. Deuir yn achlysurol o hyd i lestri llosg-gladdu *(cremation urns)*, yn y rhai y ceir lludw a darnau llosgedig o esgyrn dynol. Y mae arwyddluniau *(hieroglyphics)* dynion, anifeiliaid, adar, ymlusgiaid, &c., wedi eu cerfio yn ddwfn a'u paentio yn y creigiau.

ANIALWCH GILA.

Wedi olwynaw o honom bellder mawr i'r gorllewin o Casa Grande, aethom rhwng bryniau geirwon, llymion, a charegog, yn rhoddi arwyddion eglur eu bod rhyw gyfnod pell yn ol wedi cael eu goleuo gan ffrwydriadau tanllyd o'r ddaear—y mae y pigynau o liw a llun crasboethedig, a'r llosgfalwy *(lava)* yn gorchuddio yr holl waelodion. Ac yn awr yr oeddym mewn anialwch gwag erchyll fel anialwch Arabia. Ni welir yn tyfu o'r llwch mân ond llwyni tencuon, un yma ac un acw, o *sages*, ac ambell grimpiaid eraill. Gwelais un llyn mawr a'i ddwfr yn wyndew gan laid *alkali*. Yr ydys yn cario dwfr gyda'r gerbydres dros 150 o filldiroedd at wasanaeth y ffordd a'r dynion fyddo arni. Y mae y gwres yma yn fawr iawn, cyfuwch â 125 o raddau yn y cysgod, ac weithiau yn uwch. Nid oes o Maricoba i Yuma, pellder o 150 o filldiroedd, unrhyw adeiladau oddieithr yr ychydig a godwyd yma a thraw at wasanaeth y reilffordd. Y mae i'r rhai hyny ddau dô, y naill tua dwy droedfedd uwchlaw y llall, i'w cadw rhag gwres angerddol yr haul. Wedi rhedeg yn hir ar yr ochr ddeheuol i'r afon Gila, croesasom hi tuag Adondè; yna

nid oedd ond llosgfalwy yn gorchuddio y ddaear ac yn llenwi agenau rhwng y creigiau. Ymwasgai y pigynau mynyddig o'n hamgylch, ac ymddangosai y creigiau ar yr ochr ogleddol yn hynod o debyg i gestyll, ac arwedd drymaidd a difrifol arnynt.

Wedi teithio 247 o filldiroedd yn orllewinol o Tucson daethum i Fort Yuma, ar lân yr afon Colorado, lle yr ymarllwysa y Gila iddi, 100 milldir yn ogleddol o Lynclyn Mexico. Ymwasgara y Gila i rai milldiroedd o led cyn yr ymarllwysa i'r Colorado, ac y mae yr olaf yn un o'r afonydd mwyaf rhamantus yn y byd; mordwyir hi dros 500 o filldiroedd. Y mae iddi 300 o filldiroedd mewn agen ddofn o 1,000 i 3,500 o droedfeddi o ddyfnder uniawnsyth yn y graig. Y mae Yuma yn un o'r trefi rhyfeddaf, cynwysedig o dai *adobe* plaen, heb lofft—muriau o dyweirch neu briddfeini haulgrasedig, yn bedair neu bump troedfedd o drwch, gyda thô o bridd ddwy droedfedd o drwch. O amgylch y tai y mae *verandas* llydain, mawrion o bolion a gwiail, ac o amgylch hyny *fences* uchel o'r un defnyddiau. Hon ydyw y dref fwyaf priddlyd a llwydaidd a welais; nid oedd wyrddlesni i'w ganfod ynddi—creigiau priddlyd, tai priddlyd, dwfr priddlyd, a dynion priddlyd eu lliw. Gwneir y boblogaeth i fyny o Indiaid, Mexicaniaid, Yspaeniaid, ac Americaniaid. Cysgir ar benau y tai, a gwisgir can lleied ag a ellir o ddillad. Nid yw holl wisg yr Indiaid ond megys cadach llogell yn gwneud gwaith ffigysddail Efa. Oddiwrth y cadechyn hwn y mae gan y rhai cyfoethocaf a balchaf ribyn coch yn crogi o'u tu ol fel cynffon mwnci, a hwnw yn llusgo'r llawr ar yr un egwyddor â gwisg boneddiges uchelradd yn y wlad hon. Pabyddiaeth ydyw y grefydd, a dywedir fod y bobl, er eu gwahaniaeth cenedlaethol, yn weddol dda eu moesau, ac ystyried mai hwy ydynt.

Cafodd y dref hon ddechreuad dyddorol. Yn fuan wedi i Arizona ddyfod i feddiant y Talaethau Unedig, aeth nifer o ddynion yno i chwilio am fwnau gwerthfawr. Yn dymuno dychwelyd i California i gael arian i gario gwaith yn mlaen, daethant at afon Colorado, yr hon ni allent groesi. Ar y lân arall yr oedd Ellmyn yn cadw cwch, ond nis gallent hwy dalu iddo 25 o ddoleri, y pris gofynedig, am na feddent ddim. Yno, gan hyny, y gwersyllasant dros nos. Yn y cyfamser tarawodd meddylddrych i ben un o honynt, ac yn blygeiniol iawn tranoeth gosodasant ef mewn gweithrediad. Gyda'r cwmpawd,

y prenau, a'r banerau bychain dechreuasant fesur y tir gan ei ranu yn lotiau, a'i drefnu yn heolydd. Yr Ellmyn, wrth weled y gweithrediadau, a rwyfodd drosodd er gweled beth oedd hyn, hwythau a ddywedasant wrtho fod yno ddinas a llongborth i gael eu hadeiladu er hwylysu trafnidiaeth o'r diriogaeth newydd. Yr Ellmyn ar hyn a aeth yn dra brwdfrydig, ac a fynai brynu dwy *lot* wrth yr afon. Hwythau a'u gwerthasant iddo, gan foddloni cymeryd eu cario drosodd i'r làn arall fel rhan o'r taliad; ac felly dygwyddodd iddynt bawb fyned drosodd yn ddyogel. Nid oedd yr oll yn meddwl yr anturiaethwyr ond dernyn o gyfrwysdra—yn ol y ddiareb, "Os na byddi gryf, bydd gyfrwys." Aeth y sôn allan er hyny—dechreuwyd adeiladu, ac yn awr y mae Yuma yn dref o 3,000 o drigolion, a daw yn llawer mwy.

ANIALWCH COLORADO.

Wedi croesi yr afon Colorado yr oeddwn mewn gwirionedd yn y dalaeth fwyaf, gyfoethocaf, ac enwocaf yn yr Undeb—California, gwlad yr aur dylun, y ffrwythau mawrion, y cnydau hunandyfol, y perllanoedd, a'r gwinllanoedd digyffelyb—gwlad y bythwyrddion feusydd, a'r anniflan brenau a'r hinsoddau iachusol—gwlad llanerchau, yr hon sydd yn meddu tragywyddol haf, na wywa byth ei blodau braf, nad oes byth auaf yn ymweled â hi, na rhew nac eira yn difa ei phrydferthwch—gwlad, y dywedir fod bendithion y moroedd a'r wybrenau, bendithion y mynyddoedd a bendithion y dyffrynoedd, yn etifeddiaeth iddi. Ai felly ei cefais? Nage, eto, o gryn lawer. Dros gant a haner o filldiroedd yn ogledd-orllewinol o Yuma, nid oedd fawr i'w weled ond anialwch, a pharthau o hono mor llwm o bobpeth, ond tywod gwyn, ag y gallai anialwch fod; mewn parthau eraill ymddangosai yma a thraw rywogaethau o *sage brushes*, a rhyw lysiau gwael eraill. Gelwir hwn yn Anialwch Colorado am ei fod yn ffinio ar afon Colorado. Ymestyna rhwng dwy gadwen hir o fynyddoedd. Wedi myned tua 60 milldir hwnt i Yuma, dechreuasom ddisgyn i orddyfnderau y ddaear, nes i ni fyned 266 troedfedd islaw arwynebedd y môr, a dros 300 troedfedd islaw y glànau amgylchynol, y rhai oeddynt yn ymgodi 40 troedfedd uwchlaw y dwfr pan ydoedd y pantle hwn yn fôr gwirioneddol. Ceir profion eglur iddo fod felly ganoedd, efallai filoedd, o oesoedd

yn ol. Ceir dwfr hallt i fyny eto wrth gloddio yn ddwfn. Ar ol i'r parth beidio bod yn fraich o'r Môr Tawelog cafodd gyfnod o fod yn llyn o ddwfr croew, fel y prawf y myrddiynau cregyn dwfr croew a geir yn gymysg â'r ceryg bychain, llyfnion a welir yn haen-linellau ar y llethrau, mor eglur a newydd â phe na byddai ond megys doe er pan giliasai y dyfroedd. Collodd y Tawel-for mawr y rhan hon o'i ymerodraeth trwy i dywod yr anialwch ei gau allan; a chollodd y llyn peraidd ei fodolaeth am ddarfod i'r tywod lyncu y ffrydiau a'i cyflenwai, ac i'r afon fyned yn ddyhysbydd. Rhyfedd ydoedd meddwl fy mod yn teithio mewn lle a allai fforddio i longau hwylio ganoedd o droedfeddi uwch fy mhen, ac i forfilod y dyfnder chwareu o'm hamgylch; ond, fel Jonah gynt, cefais inau ddyfod i fyny yn ddiangol.

Tua pharth y pantle rhyfeddol hwn y mae tua 25 milldir ysgwar o ffynonau llaid, rhai yn oerion, ond y mwyafrif yn boethion, ac o dewdra sucan neu uwd, yn berwi ac yn pwffian allan o'r ddaear. Y maent yn bob maintioli, o 200 troedfedd i lawr—rhai yn gydwastad â'r ddaear, ac eraill yn codi yn bigfain i'r uchder o 25 troedfedd. Y mae eu harogl yn ddrwg, ac yn achlysurol clywir ynddynt dyrfiau tanddaearol. Weithiau tywyllir awyrgylch yr anialwch hwn gan gymylau o dywod yn cael eu cludo gan wyntoedd cryfion. Gorlifir parthau o hono ar adegau eraill gan yr hyn a elwir yn doriad cwmwl ar y mynyddoedd, pryd y bydd afonydd o 30 troedfedd o ddyfnder yn rhuthro trwy y pantiau tywodog. Dywedir fod yn mynyddoedd San Jacinto, ar y tu aswy, dyrfiau nad ydys eto yn deall yr achos o honynt; clywir twrw sydyn fel pe tanid deg o gyflegrau yn nghyd, a hyny weithiau dair gwaith neu bedair mewn noswaith, brydiau eraill bydd amryw ddiwrnodau rhyngddynt—deffroant bawb o fewn cylch clywedigaeth, ac ysgydwant y tai yn waeth nag unrhyw ddaeargrynfäau cyffredin. Nis gellir cael allan yn hollol y fan o'r hwn y deillia'r twrf, ac nis gellir cyflogi yr Indiaid i fyned yn agos i'r parth. Dywedant fod rhai o honynt gynt wedi ei weled yn ddamweiniol wrth hela, ac mai ogof dywell, enfawr, a dychrynllyd ydyw, ac mai hen *tah-quish* (yr ysbryd drwg) sydd yn ceisio dyfod allan o'i garchar poeth i anadlu, a'i fod yn cael ei ddychrynu gan yr olwg ar rywbeth oddiallan, fel y mae yn cilio yn ol ac yn cau y drws mor chwyrn ag i wneud y twrw rhyfedd a glywir. Credir bodolaeth y gŵr hwn gan bron bawb.

DYFFRYNOEDD Y DEHEU.

Wedi dyfod i fyny o waelod y môr, a theithio llawer drachefn, gan gadw mynyddoedd San Bernardino ar ein de, a mynyddoedd San Jacinto ar ein haswy, a myned trwy fwlch San Gorgonio, 2,600 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr, daethom i olwg dyffryn San Bernardino, ac yno gwelais rhywbeth tebyg i California—meusydd cynyrchiol, gwinllanoedd, perllanoedd, afal-llanoedd, aur-afal-llanoedd, &c. Codir o'r ddaear ddau gnwd y flwyddyn—haidd yn gyntaf, 50 mesur yr erw; yna Indrawn, o 50 i 60 mesur yr erw; ac o'r cnwd a elwir alfalfa, cnwd a dŷf o hono ei hun wedi ei hau unwaith, yr hwn sydd yn talu yn well na phobpeth arall, codir pump neu chwe' cnwd yn flynyddol.

Pedair milldir oddiwrth orsaf Colton y mae tref San Bernardino (p. 6,000), yr hon, yn nghyda'r amgylchoedd, yn 1847, a feddianwyd gan Seintiau y Dyddiau Diweddaf. Yn gymaint a'u bod dan erlidigaeth yn Illinois, danfonodd eu blaenor nifer o honynt yn mlaen i gyfaneddu y llanerch neillduedig hon. Gan ei bod yn cael ei hamgylchynu gan fynyddoedd ac anialwch mawr, tybiai y fangre hon yn lle priodol i fod yn breswylfa lonydd i'r holl saint. Wedi i 300 o deuluoedd o honynt, trwy ddirfawr lafur, wneud y parth yn ddyfradwy, hau meusydd, planu gwinllanoedd, trefnu ac adeiladu y ddinas ar yr un cynllun ag yr adeiladwyd dinas y Llyn Halen wedi hyny, barnodd y prophwyd oddiwrth y ganmoliaeth ryfedd ydoedd i'r wlad, ei bod yn rhy dda iddynt gael llonydd yno yn hir, y byddai y cenhedloedd yn sicr o ddyfod i aflonyddu arnynt, am hyny danfonodd orchymyn ar iddynt adael y trigfanau dedwydd a barotoisant, a chymeryd eu heiddo a myned ar bererindod maith dros fynyddoedd geirwon y Sierras ac anialwch erchyll America i wladychu yn niffaethleoedd y Llyn Halen. Hwythau, gan amlaf, a roddasant ufudd-dod, ond rhai a arosasant. Pa le y ceir esiampl ryfeddach o hunan-ymwadiad ac aberth er mwyn crefydd? Gadawodd yr Israeliaid yr Aifft i fyned i wlad yn llifeirio o laeth a mêl, ond gadawodd y rhai hyn wlad dda odiaeth, gan ffoi i'r anialwch fel y gallent fwynhau eu crefydd yn ol eu golygiadau eu hunain! Y mae yn rhyfedd na ragwelodd Brigham Young, ac efe yn brophwyd, y byddai i'r cenhedloedd ddyfod a reilffordd ac ymfudwyr i ddinas y Llyn Halen amryw flynyddoedd yn gynt nag y daethant i ddyffryn

San Bernardino. Am y seintiau a fynasant aros, dywedai rhai o honynt hwy eu hunain eu bod, er holl ffrwythlonedd y ddaear a phob cysuron naturiol, fel y gaethglud ar làn afonydd Babylon, yn wylo gan hiraethu am fod gyda'u pobl eu hunain ac yn nghymdeithas y saint. Nid oes yno yn bresenol dros gant a haner o honynt, a'r rhai hyny yn perthyn i'r gangen Josephaidd, sef rhai yn gwrthod cydnabod Brigham yn brophwyd ac yn casâu aml-wreiciaeth.

Dwy filldir a deugain yn mhellach ac yr oeddwn yn Ninas yr Angylion, Los Angeles (p. 12,000), 249 o filldiroedd yn ogledd-orllewinol o Yuma. Hon ydyw y dref fwyaf ac enwocaf yn neheubarth California. Saif wrth odreu deheuol mynydd-gadwen Sierra Santa Monica, a thua deunaw milldir oddiwrth dref Santa Monica, ar làn y Tawel-for, â'r hon y cysylltir hi gan reilffordd. Sylfaenwyd hi gan y cenhadon Pabaidd yn 1771, felly, fel tref Galiforniaidd, y mae yn hen ryfeddol. Y mae yr holl amgylchoedd yn gyfoethog a pharadwysaidd — gerddi a pherllanau rhesog a ffrwythlawn yn rhoddi aurafalau, *lemons*, *limes*, grawnwin, ffigys, *bananas*, pupyr, *melons*, pomgranadau, almonau, a bron holl gynhyrchion y cylch cyhydeddol. Ger San Gabriel, heb fod yn nepell, y mae yr aur-afallen *(orange orchard)* fwyaf yn y dalaeth, yr hon sydd 500 o erwau. Nid yw y parth hwn yn gwybod dim am auaf, rhew, nac eira. Nid oes ddadl nad ydyw yn lle tra dymunol i breswylio ynddo. Deallwyf fod yn ac o amgylch Los Angeles ychydig Gymry; ond bum mor anffodus a bod heb wybod pan yno fod yn eu plith gyfnitheron i mi, gyda'r rhai yn blentyn y cydchwareuwn.

DROS FYNYDDOEDD A DIFFAETHWCH.

Dyma wlad ryfedd iawn! Ni pherthyn iddi gyffredin neu ganolig o ddim, ond pob peth mewn eithafedd—eithaf diffaethwch neu eithaf ffrwythlonedd—tragywyddol auaf neu dragywyddol haf—rhew ac eira gwastadol neu wyrddlesni gwastadol. Ar ol teithio canoedd o filldiroedd dros anialwch poethlyd a chrasdir diffaeth, daethum i ddyffrynoedd paradwysaidd San Bernardino a Los Angeles, ar y rhai y gellir casglu hufen pob ffrwythlonedd daearol. Yn awr, eto, yr wyf ar gychwyn dros fynyddoedd geirwon, a chan' milldir o anialwch gwag erchyll, ac wedi myned dros, drwy, a rhwng mynyddoedd

rhamant-wyllt drachefn, deuaf i wlad fras, na cheir ei rhagorach, efallai, dan ser y nef.

Ar fynydd San Fernando aethom trwy dwnel uniawn o agos 7,000 o droedfeddi o hyd. Gryn bellder yn mhellach daethom i fwlch hirgul, 25 milldir o hyd, a'i furiau creigiog yn ymgodi o 500 i 2,000 o droedfeddi o uchder. Cyfaneddir y parth hwn gan Fexicaniaid, a gelwir y bwlch yn Nyth yr Ysbeilwyr *(Robbers' Roost)*. Llawer a ddaliwyd ganddynt yn eu nythle hon, a rhai o honynt hwythau a ddaliwyd gan eu gwell, ac a ddienyddiwyd heb roddi fawr o drafferth i wŷr y gyfraith. Wedi disgyn o'r mynyddoedd hyn dechreuasom ar gan' milldir o dywod mân, heb ond ychydig o frysglwyni *(sages)* gwylltion a choed y palmwydd i'w gweled yn deneu yma a thraw. Y mae y coed hyn, fel y *cactus*, yn ffynu oreu mewn tir a fyddai yn angeu i goed a llysiau eraill. Sonir llawer yn yr ysgrythyrau am y palmwydd. Y mae yr amrywiaethau o honynt yn dra lluosog, a'u rhinweddau i blant yr anialwch uwchlaw cyfrif. Diolchais inau iddynt am dòri mor ddymunol ar unffurfiaeth lom yr anialwch. Yr unig ddefnydd wneir o honynt yn y parthau hyn ydyw papyr, at wneud yr hwn y mae melinau priodol yn gyfagos.

Esgynasom o'r dyrys anialwch hwn i fynydd uchel, lle, ar gopa bwlch Tehachapi, y cyrhaeddasom y pwynt uchaf ar y reilffordd hon, yr hwn sydd 3,964 troedfedd uwchlaw arwynebedd y môr. Oddiyma i Caliente, 25 milldir yn mhellach, disgynasom 1,674 o droedfeddi, drwy 17 o dwnelau a thros laweroedd o bontydd a thrawst-weithau, ac yr oedd y dyfnder mewn manau yn aruthrol. Ond y peth rhyfeddaf ar y disgyniad hwn ydyw y peirianwaith rhyfeddol a elwir yn ddolen *(loop)*. Y mae yn 3,795 troedfedd o hyd, a'i hymyl uchaf yn 78 troedfedd yn uwch na'i hymyl isaf. Pa beth ydyw? Y reilffordd ydyw, wedi ei gwneud i droi a chroesi ei hun amryw weithiau, fel ag i fod ar ffurf gwddf-ddolen. Yn mhellach y mae troadau eraill a elwir *corkscrew;* ac ar waelod y disgyniad y mae Caliente, 146 o filldiroedd o Los Angeles, a 336 o filldiroedd o San Francisco.

DYFFRYNOEDD Y GWASTADEDD.

Y mae dyffryn San Joaquin, yn nghyda pharthau Tulare a Kern, yn fath o ucheldir gwastad 300 milldir o hyd, ac ar gyfartaledd

yn 35 milldir o led, rhwng Mynyddoedd y Glanau a Mynyddoedd Sierra; ac y mae yn un o'r llanerchau amaethyddol enwocaf yn y dalaeth enwocaf hon. Dyfrheir ef trwy wlawogydd, ond rhaid cael camlesydd hefyd, o ba rai y mae amryw yn 40 milldir o hyd, o 100 i 275 troedfedd o led, a thuag 8 troedfedd o ddyfnder. Mewn rhai achosion gwneir *artesian wells,* sef twll main i orddyfnderau y ddaear at wythïen ddyfrawl, yr hon, os bydd wedi deilliaw o le uwch na'r fàn hòno, a fwria ei chynwys i fyny gyda nerth mawr. *Ranches* ydynt y tiroedd yma gan amlaf. Y mae *ranche* gymaint yn fwy na fferm ag ydyw fferm yn fwy na gardd. Yn agos i'r llinell yr oeddwn arni y mae *ranche* 73 o filldiroedd o hyd wrth 20 milldir o led, ar yr hon y cedwir 85,000 o wartheg a 40,000 o ddefaid. Codir dau gnwd y flwyddyn o haidd a gwenith, a chwe' chnwd o *alfalfa.* Nid oes eisieu ysguboriau nac hyd yn nod doi helmi neu deisi ŷd. Ni ddaw y tymor gwlawog nes bydd yr holl hadau wedi eu dyrnu a'u dwyn i ddyddosrwydd, ac ni ddaw rhew ac eira o gwbl. Am bob math o ffrwythau coed, y maent yn gyflawn yn y fro. Ceidw rhai o'r *ranchers* hyn eu crefftwyr a'u llaw-weithfaoedd at wneud eu peirianau a'u celfi eu hunain. Gan un o honynt y mae yr aradr fwyaf yn y byd, yr hon a elwir "*Great Western.*" Pwysa dros dunell. Tynir hi gan 80 o ychain, a gwna gwys ddyddiol o wyth milldir o hyd, pum' troedfedd o led, a thair troedfedd o ddyfnder. Aradr arall a elwir "*Samson,*" eiddo yr un perchenog, a dynir gan 40 o fastard-mulod, ac a ddefnyddir at wneud cwteri, o ba rai, yn nghyda chamlesydd, y mae 150 o filldiroedd ar y *ranche,* heblaw dwy *artesian well,* y naill yn 260 a'r llall yn 300 o droedfeddi o ddyfnder, y rhai yn ddibaid a fwriant i'r uchder o 12 troedfedd uwchlaw y ddaear ddwy golofn o ddwfr, saith modfedd o dryfesur bob un, gan roddi cyflenwad dyddiol o 80,000 o alwyni. Nis gallai amaethwyr cyffredin wneud dim â'r tiroedd hyn, am na feddent gyfoeth digonol i sychu y corsleoedd nac i ddyfrhau y crasdir, ond medr eu perchenogion cyfoethog beri i'r naill wasanaethu y llall; a phan ddarffo iddynt wneud camlesydd a phob diwylliant angenrheidiol, amcenir gwerthu y tiroedd yn ffermydd llai yn ol dymuniad y prynwr.

Yn Madera, yn y dyffryn hwn, 297 o filldiroedd o Los Angeles a 185 o San Francisco, yr arferir disgyn yn awr i fyned 70 milldir yn

ddwyreiniol i weled y coed mawrion a dyffryn Yesomite, y rhai nad ydynt ail i'r penaf o ryfeddodau naturiol y byd. Yn Lathrop, daeth ein ffordd i reilffordd y *Central Pacific*, yna troisom i gyfeiriad gorllewinol. Yn Antioch, daethom at Bau Suisin, yr hwn sydd barhad o Bau San Pablo, yr hwn, yntau, sydd fraich fewndirol o'r Môr Tawelog. Ychydig yn ddeheuol o Antioch y mae Nortonville, lle y mae sefydliad o löwyr Cymreig. Ychydig yn ddeheuol drachefn y mae mynydd Diablo, o ben yr hwn y gellir gweled megys "Holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant." Ymgyfyd yn fawreddog rhwng dyffrynoedd Sacramento a San Joaquin i'r uchder o 3,856 o droedfeddi. Gellir gweled oddiarno 40,000 o filldiroedd ysgwar o dir, yn cynwys prif ddyffrynoedd, mynyddoedd, afonydd, bauoedd, a dinasoedd California, heblaw pellder mawr o'r Môr Tawelog. Wedi cadw y bauoedd rhag-grybwylledig ar ein deheulaw dros rai oriau, a rhedeg dros wlad fryniog, greigiog, ac amrywiol ei golygfeydd, daethom i Oakland (p. 35,000), oddiar *wharf* yr hon y cymerwyd ni gan agerfâd yn groes i Bau San Francisco, yna yr oeddwn mewn gwirionedd yn y ddinas enwog

SAN FRANCISCO.

Yn mhen pellaf y gorllewin, os goddefir yr ymadrodd (canys eithafoedd y dwyrain y gelwir y gwledydd cyntaf a geir tudraw i hyn), y mae lle a elwir Porth Auraidd *(Golden Gate)*, yr hwn a wneir gan waith y Tawel-for mawr yn cymeryd milldir o led i ymwythio i mewn i'r wlad auraidd California. Wedi cael ei hun yn deg i mewn, rheda i'r gogledd a'r dwyrain 60 milldir, dan yr enwau Bau San Pablo a Bau Suisin; a rheda cangen arall i'r dê, dan yr enw Bau San Francisco. Ar y gwddfdir, rhwng y Tawel-for a'r bau olaf hwn, ac ar ei lân yn agos i'r Porth Auraidd, y mae dinas San Francisco, brenhines y gorllewin pell, a phrif drafnidfa y Tawel-for. Adeiladwyd y ty cyntaf yma yn 1835. Ei henw ar y cyntaf fuasai "Yuba Buena," ond er y flwyddyn 1847, pryd yr oedd nifer ei phreswylwyr yn 459, gelwir hi yn San Francisco. Yn 1848, darganfyddwyd aur yn y wlad, a chynyddodd poblogaeth y ddinas yn 1852 i 34,870. Bu agos iddi gael ei llwyr losgi chwe' gwaith, ond yn awr y mae ei hadeiladau heirdd yn wneuthuredig gan amlaf o geryg a haiarn. Ei phoblogaeth bresenol ydyw 235,000. Rhyngddi

ac Oakland bydd y boblogaeth yn fuan yn 300,000. Trafnidia yn helaeth gyda holl wledydd y ddaear o ddwyrain i ddwyrain (canys hi ei hun ydyw ein gorllewin). Gwneir i fyny ei phoblogaeth o'r holl genedloedd, y rhai, gyda eu gwahanol alwedigaethau, ydynt wrthi o ddifrif, pob un yn "meindio ei fusnes ei hun." Y mae y gloewyr esgidiau *(boot blacks)* yma yn cario eu galwedigaeth yn mlaen ar ddull a allai roddi gogoniant ar feibion St. Crispin. Gwnant i'w cwsmeriaid eistedd ar orseddau dyrchafedig dan gysgodlen glud, a'u traed ar droedfeinciau cysurus, tra fyddont yn gwneud yr esgidiau yn ddrychau o ddysglaerdeb. Ni phetrusa begeriaid y ddinas ofyn i unrhyw un a gyfarfyddant ar yr heol am fodd i gael ciniaw da. Gwrthododd un o honynt i mi orchymyn ciniaw iddo mewn ciniaw-dy, am y mynai ymddangos yn foneddwr, meddai, trwy ei orchymyn ei hun. Y mae gan ferched *Venus* heolydd iddynt eu hunain, ac ymwisgant i'w galwedigaeth fel chwareuyddesau, ïe, chwareuant a chanant hefyd wedi y goleuir y lampau mewn *free theatres*, yn y rhai y gwerthir diodydd meddwol. Gan nad oes dim i dalu am fyned i fewn tyra yr ieuenctyd ynfyd iddynt wrth y miloedd, ac y maent ar lithrigfa i bob drygioni a cholledigaeth.

Ond y mae gan y ddinas ei hochr oleu yn gystal a'i hochr dywyll. Rhifa ei chapelau, ei heglwysi, a'i chymdeithasau daionus wrth yr ugeiniau. Y mae ynddi ddynion rhinweddol, a rhai yn cysegru eu hunain oll i geisio adferu y rhai colledig. Un o'r cyfryw ydyw ein cydwladwr, y Parch. Aaron Williams, yr hwn, heb arian, heb gyflog, ac heb ddim ond "Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol," sydd yn defnyddio ei holl amser, "mewn amser ac allan o amser," i genhadu yn y ddinas fawr—ymweled â'r rhai truenus, rhybuddio yr afreolus, aros yn hwyr wrth ddrysau y *free theatres* i ddysgwyl cyfleusdra i roddi cyngor i rhyw ŵr ieuanc gwyllt; ïe, wedi ymwisgo yn glerigaidd, mentra i blith yr ynfydion i weled ai ni chywilyddia rhai o honynt. Adnabyddir ef gan flaenoriaid yr uffern-dyllau hyn yn gystal a chan weinidogion y pulpudau addurnedig. Hwn, heb ganddo ddim yn weddill, a ddywedodd wrthyf, os byddai arnaf eisieu dim, am roddi gwybod iddo ef, ei fod yn credu y gallai gyflenwi fy rhaid. Er na fum dan yr angenrheidrwydd o elwa ar ei gynyg, rhyfeddwn yn fawr ei hyder ar Roddwr pob daioni, oblegid oddiyno yr oedd efe yn meddwl tynu yn ddiau, ac y mae ei hanes yn profi

fod i'w hyder sail dda. Y mae eglwys Gymreig fechan wedi ei sefydlu yn y ddinas, ac addolant mewn neuadd berthynol i'r Cymry, a dymunir iddynt lwyddiant mawr.

Trwy hynawsedd D. Roberts, Ysw., dangoswyd i mi ddirgeledigaethau y *mint*, lle y *coinir* arian y llywodraeth. Gwelais y mwnwr yn dyfod a'r llwch aur mewn cwdyn lledr i fewn, ei bwyso, ei roddi yn y tân, ei buro, ei brofi, ei bwyso drachefn, ei wneud yn fàrau, ei dòri yn ddarnau crynion, *stampio* y rhai hyny, eu taflu ar glawr cyfaddas, fel y gellid ar unwaith wybod eu nifer heb eu rhifo. Doleri arian a darnau aur ugain doler oeddynt yn cael eu gwneud y diwrnod hwnw. Hynod ydyw y ddinas hon am ei gwestdai mawrion a chysurus, y mwyaf o honynt, a'r mwyaf yn y byd, ydyw y *Palace Hotel*, 344 troedfedd o hyd, 265 troedfedd o led, 115 troedfedd o uchder, gyda saith uchder llofft. Y mae ei gynteddau *(courts)* yn ei ganol gyda'i amryw orielau *(elevators)*, sef ystafelloedd i dynu pobl i fyny ac i'w gollwng i lawr, *artesian wells* yn taflu bob awr 28,000 o alwyni, yn nghyda'i amryfal ranau eraill, yn rhy ardderchog i allu eu dysgrifio yma. Y mae amryw o heolgerbydau *(street cars)* y ddinas yn myned i fyny ac i lawr heb ddim gweledig yn eu tynu. Y mae rhaff danddaearol yn myned yn barhaus, ac y mae gan y cerbyd fraich a llaw odditanodd yn myned trwy agen agored yn y ddaear; pan gydia y llaw yn y rhaff bydd y cerbyd yn myned, a phan ollynga ei afael wrth amnaid ei feistr safa ar unwaith. At Graig y Môr-loi, ger y Porth Auraidd, tua chwe' milldir allan o'r ddinas, y mae y rhodfa mwyaf poblogaidd. Gwelir y môr-loi yno yn niferi mawrion, rhai a'u haner allan o'r dyfroedd, ac eraill yn glir ar y creigiau, ac yn gwaeddi eu "Ioi Hoi, Ioi Hoi, Ioi," fel y gellid meddwl mai llais porthmyn yn gyru anifeiliaid a glywid. Rhyfeddwn weled pob ymborth a phethau eraill yn y ddinas mor rhad—ffrwythau mawrion o bob math yn gyflawn yn ei heolydd—gwin mor helaeth a llaeth, ac agos can rated. Pwy bynag a fyno fod yn foneddwr ffasiynol yma, yfed ddwfr. Trwy Oakland rheda cerbydresi hirion ac ardderchog bob haner awr bob ffordd, ac nid oes dim i dalu arnynt. Y cyfryw fu gofal y cyngor trefol am gyfleusderau y dinasyddion fel y mynasant hyn o fraint gan berchenogion y reilffordd am ganiatâd i fyned trwy eu dinas. Saif San Francisco ac Oakland yn hardd ar wastadeddau ac ar fryniau uchel a serth. Ysgydwir hwy

yn achlysurol gan ddaeargrynfäau, ond nid oes eto unrhyw drychineb mawr wedi dyfod o'r ysgwydiadau hyn—gall mai yn ol y mae y cynhyrfiadau mwyaf.

CHINEAID.

Y Chineaid ydynt yn cael mwyaf o sylw o bawb yn California, a hyny ar gyfrif rhadlonrwydd eu gwaith yn gystal a'u dullwedd, gwisgoedd, ac arferiadau. Dynion bychain a gwael yr olwg arnynt ydynt gan amlaf, ond y mae rhai yn gorffol a chnawdol—croen melynlwyd, gwynebau trionglog, grudd-esgyrn uchel, llygaid meinion, a'u conglau allanol yn îs na'r conglau mewnol. Nid ydynt yn ofalus iawn am eu llodrau, esgidiau, a hetiau pa fath a fyddant, ai fel eiddo dynion eraill, ynteu llodrau lliain, llaes, yn ol eu priod-ddull eu hunain, ac esgidiau tebyg i gychod bychain am eu traed, y rhai goreu wedi eu gwneud o sidan. Am eu cotiau *(tunics)*, isaf ac uchaf, y mae rheidrwydd crefyddol ar iddynt oll fod fel eu gilydd. Rhyw siercyn llaes ydyw hwn, o gotwm neu sidan, yn dyfod i lawr am y gwrrywaid islaw y wasg, ac am y menywaid yn agos at eu traed. Meddant lewys helaeth fel gwisg offeiriad. Eillia y dynion o amgylch eu penau, a gadawant ysmotyn o wallt o faintioli cwpan dê ar y coryn i dyfu i'w gyflawn hyd, a gwnant ef yn gynffon dairpleth, fain i grogi dros eu cefnau. Ceidw y menywaid eu gwallt oll, a chrynhöant ef yn chwaethus ar eu penau. Gan nad oes gan y gwrrywaid farfau, a bod gwisgoedd y rhywiau yn debyg i'w gilydd, gellir eu gwahaniaethu oddiwrth eu gwalltau yn hawddach nag unrhyw ffordd arall.

Y mae rhan fawr o San Francisco yn cael ei thrigianu yn unig gan Chineaid, ac mor dŷn y cyfaneddant y rhan hòno fel y mae yn amheus y gallai llygoden gael twll yn eu plith, a phe byddai yno lygoden bwytäent hi gyda blas. Culion ryfeddol ydynt rai o'i heolydd, uchel yr adeiladau, a manaidd a lliosog yr ystafelloedd ynddynt. Ond medrant hwy fwynhau pob twll o'r seler i'r nenfwd, a gwledda yn fras gyda fforchbren a ffïol ar weddillion y gwanaf o'r dynion gwynion. Y mae cymeryd rhodfa nosawl rhwng yr heolydd hyn yn rhoddi golygfa ryfedd; ar y conglau yma a thraw ceir ambell Chinead teneu, angeuaidd, yn sefyll wrth stondin gyda fflam lâs, wan yn rhoddi digon o oleuni i ddangos y tywyllwch, ac i awgrymu

fod yno rywbeth bwytadwy ar werth. Trwy y gwyll clywir lleisiau meinion, plentynaidd, trwymaidd, ond trëiddgar y stondinwyr gyda math o hir-dônau aflafar, fel pe deuent allan o'r ddaear, yn galw




CHINEAD.

cwsmeriaid; oddieithr hyny nid oes bloedd na llef uchel i'w glywed, ond bodau ysgafndroed yn prysur gerdded trwy eu gilydd yn y tywyllwch. Yr arogl hefyd, heb fod y mwyaf dymunol, a wnai i mi

ystyried ai nid yn un o gynteddau gwlad anwn yr oeddwn. Ar heolydd mwy llydain y mae mwy goleuni, siopau, chwareudai, gyda lanternau crynion o sidan aml-liwiog yn crogi o'u blaenau—pob peth, yn wir, mor Chineaidd eu dull ag y gallai rhan o ddinas Americanaidd fod. Yn eu *joss-houses* yr addolant eu heulunod. Yn eu chwareudai y mae lluniau ofnadwy, megys ysbrydion yn codi o'r pwll diwaelod, a lleisiau fel aflafar leisiau cathod yn cymeryd arnynt osod allan rywbeth a ddygwyddodd ugain mil o flynyddoedd yn ol. Wedi eu gweled unwaith ni bydd chwant eu gweled mwyach.

Y mae y Chineaid yn bobl ddefnyddiol ryfeddol yn California, ac yn rhyfedd iawn, y maent, ar gyfrif eu defnyddioldeb, yn cael eu casâu gan laweroedd. Gwnant bob math o waith mewn tai yn lle merched yn gystal ag allan am haner cyflogau pobl eraill, neu lai na hyny. Y maent wedi difreinio hyd yn nod y Gwyddelod o deyrnasu ar y gaib a'r rhaw, a'r Gwyddelod, o ganlyniad, ydynt eu gelynion mwyaf anghymodlawn. Y mae y blaid wrth-Chineaidd yn gryf hyd yn nod yn senedd y wlad, ac yr ydys er's blynyddau yn ceisio deddfu yn erbyn eu dyfodiad i fewn. Gyda pha gysondeb y gellid gwneud hyny, nis gwn. Cwynir eu bod trwy lafur rhad yn myned a bara o benau pobl eraill, eu bod yn llygru moesau cymdeithas, a cheisir coleddu ofnau Pharaohaidd y bydd iddynt luosogi ac arglwyddiaethu ar y wlad. I ddeall maint eu drygedd cymerer y tablau canlynol o sîr a dinas San Francisco am y flwyddyn 1878, pryd yr oedd holl nifer y Chineaid yno yn 25,450:—Derbyniwyd i'r ysbytdai—Americaniaid, 913; Gwyddelod, 948; Chineaid, 0; pawb eraill, 1,140. Derbyniwyd i'r elusendai—Americaniaid, 138; Gwyddelod, 175; Chineaid, 1; pawb eraill, 150. Carcharwyd am feddwdod (o'r rhai nid oedd un Chinead), 6,127. Talwyd gan Chineaid i'r Llywodraeth—*Internal revenue taxes* (yn y ddinas yn unig), $550,000; *poll taxes* (yn y dalaeth), $180,000; *licenses* (yn y dalaeth), $41,000; *property taxes*, $220,000; *duties paid on imports*, $1,768,000; allforiwyd ganddynt werth $3,103,320, o'r hyn yr oedd 209,000 o farilau o beilliaid. Y mae y bobl hyn yn dra medrus ar drîn gwinwydd, ac nid oes eu bath am amynedd a dyfalbarhâd dan galedwaith, ac oni ba'i hwy y mae yn amheus a allesid fod wedi gwneud reilffyrdd dros yr anialwch cras yn ngwres angerddol y deheu-orllewin. Chwareu teg i blant yr haul yn mröydd

ei fachludiad. Hwynt-hwy ydynt brif ddillad-olchwyr y gorllewin, ac wele yma dderbyneb am fy nillad a gefais gan olchwr Chineaidd:—



Y GEYSERS.

Tua chan' milldir yn ogleddol o San Francisco, y mae ffynonau hynod a elwir *geysers* yn berwi allan o'r ddaear. I fyned yno, cymerais yr ager-fâd i Donahue, 34 milldir; yna cerbydres i Gloverdale. Dywedid fy mod yn myned trwy wlad dra chynyrchiol o ffrwythau yn gystal a llaeth. Ar y llinell hon, heb fod yn mhell o Bau San Pablo, y mae Petaluma, y dref y cartrefa y Parch. Rees Gwesyn Jones, D.D., ynddi. Erbyn fy mod yn Gloverdale, yr ydoedd yn hwyr. Lletyais yno dros nos; a chan nad oedd cerbyd i fyned oddiyno dranoeth i'r *geysers*, pellder o 16 milldir i fyny i'r mynydd, aethum yno ar fy nhraed. Diwrnod tra dymunol, a'r ffordd yn ymddirwyn gyda glàn "afonig fywiog, fad," rhwng glànau creigiog a choediog, yn dadlenu *panorama* tlws. Treuliais yr hwyr brydnawn i syllu ar ryfeddodau y fàn.

Y *Geysers.*—Gallwn weled yr ager, fel eiddo ager-beiriant, yn ymddyrchafu yn mhell cyn dyfod atynt; a dywedir y gellir yn achlysurol glywed eu sŵn cryn filldir o ffordd. Ceir hwy rhwng toriadau priddlyd, poeth, coch, a noeth, ar ael mynydd. Teimlais fy mod yn sangu ar fynydd tân, a'm gwadnau a boethasant. Allan o'r ddaear ddyeithr hon y tardd tros ddau gant o ffynonau dwfr o bob lliwiau ac o bob tymheredd, gan amlaf yn berwi—dyfroedd haiarn, *soda, alum, sulphur,* a phob math arall; rhai yn dduon fel inc, eraill yn wynion fel llaeth, eraill yn gochion fel ysgarlad, rhai yn beraidd, rhai yn felus, rhai yn sur, ac eraill yn hallt, rhai yn chwythu fel gwyddau, rhai yn canu fel *tea-kettle,* rhai yn tyrfio fel melin fâl, ac eraill yn rhuo fel ager-fâd, a'u hager yn esgyn yn uchel. Y ffynon

fwyaf ydyw yr hon a elwir *Witch's Cauldron*, tua chwe' throedfedd o dryfesur, a'i dyfnder yn fwy nag y gallwyd eto ei blymio. Yno mewn pair o graig y teifl ei dyfroedd duon i fyny gyda'r berw poethaf a allai fod ar ddwfr. Adgofia i un linellau Shakespeare, oddiwrth y rhai y cafodd ei henw :—

> "*For a charm of powerful trouble, like a hell-broth boil and bubble,*
> *Double, double, toil and trouble, fire burn and cauldron bubble.*"

Nid oes yma lysieuyn gwyrdd nac unrhyw hawddgarwch. Lle rhyfedd ac ofnadwy ydyw. Dywedir ddarfod i un Ellmyn ar ol dyfod i'w olwg droi yn sydyn ar ei sawdl, a dweyd, "Dewch oddiyma ar frys. Mi a wn nad yw uffern ei hun dros haner milldir o'r lle."

GEYSERS ERAILL.

Wedi i'r nos ddyfod, eisteddais i ymddadflino ychydig ar y llosgfalwy cynhes; canys gobeithiwn na fyddai gan fwystfil drwg achos na gwroldeb i ddyfod i'r lle llwm a dychrynllyd hwnw, a dysgwyliwn i'r lleuad godi, fel ag i mi gychwyn yn ol mewn trefn i gael y gerbydres yn Gloverdale am bump o'r gloch y boreu. Am a wn i nad y nos hòno ydoedd y fwyaf rhyfygus a dreuliais erioed. Yr ydoedd y daith i fyny yn hyfryd, ond yr oedd y daith i lawr yn fath arall o hyfrydwch, yn cael ei gymysgu â graddau o ofn, canys gwyddwn fy mod yn unig ac yn mhell oddiwrth bawb. Ni welais ond pedwar o dai o Gloverdale i fyny, ond yr oedd yr adgof o'r ychydig ddefaid a welais yn peri i mi obeithio nad allai fod y bwystfilod rheibus yn newynllyd iawn. Ymddangosai y lleuad yn harddach a serchocach nag y gwelais hi erioed o'r blaen; ond ni byddai dros haner yr amser yn y golwg; gan fy mod yn rhodio cwm dwfn, byddai rhyw greigiau neu fynyddoedd rhyngof a hi yn fynych, ac yr oedd ei goleuni a dwfn-gysgodion y clogwyni a'r coed yn cyfnewid eu gilydd yn ogleisiol. Murmuron yr afonig ydoedd yr oll a glywid yn cydodli a disgyniad traed y teithiwr unig, meddyliau yr hwn y noson hòno yn neillduol oeddynt hynod fywiog i ehedeg yn mhell, yn mhell ar edyn chwim dychymyg—weithiau dros gyfandir a chyfanfor at ei wraig a'i ddau blentyn bychan yn Nghymru draw; weithiau tua ser y nef, a hwnt i hyny i'r ysbrydol fyd, gan felus feddwl y gallai fod rhai anwyl ydynt er's blynyddau yno yn edrych arno ar ei wibdaith ddyeithr hon; weithiau i'r gorffenol pell y mynai y meddwl fyned, gan ddychymygu dechreuad

yr holl bethau rhyfedd hyn, ac ewyllysio gofyn i'r lleuad a'r clogwyni ban er's pa bryd yr oeddent wedi cyfarch eu gilydd felly, a pha droion rhyfedd a welsant ar y llwybr hwn er pan ddaethant i gydnabyddiaeth a'u gilydd; brydiau eraill i'r dyfodol pell y cymerai ei hynt gan ddychymygu y diwedd, ac ymson—

> "Chwi gedyrn binaclau y ddaear, gydoeswch a huan a lloer,
> Safasoch effeithiau difäol, a threulfawr hin wresóg ac oer;
> Ond gwelaf ddiwrnod gyferbyn—a ellwch chwi sefyll pryd hyn?
> Y ddaear a ymchwel fel meddwyn, a nerthoedd y nefoedd a gryn."

Beth wedyn? Aethum gydag Emanuel Swedenborg i'r tiriogaethau ysbrydol, ac yno ceisiais weled y nefoedd a'r ddaear, yr haul, y lloer, a'r ser, mynyddoedd, coedwigoedd, anifeiliaid, a phob peth—nid yn yr ymgorfforiad allanol a garw o honynt fel eu gwelir yma, ond yn y mewnol ysbrydol, mewn sefyllfa awyraidd a nefolaidd, fil-fil fwy gogoneddus na'r arwedd ogoneddusaf arnynt yma. Ar goll mewn myfyrdodau o'r fath yna yr oeddwn pan ddeffrowyd fi gan drwst cerddediad rhyw greadur trwm yn y brysglwyni ar fy aswy, ac wele ar wastadedd cul, yn cael ei gysgodi gan greigiau a choed uchel, y cefais fy hunan. Ar fy llaw ddehau yr ydoedd hen adeilad gwag. Nid wyf yn meddwl fod un arall o fewn milldiroedd ato. Safais pan glywais y trwst. Safodd y creadur hefyd. Pan ddechreuais gerdded drachefn, dechreuodd yntau symud trwy y brysglwyni. Yna arafais, canys clywais mai dyogelach peidio gwneud brys nac arwydd o ofn yn ngolwg bwystfil drwg. Pa beth ydoedd nis gwn, ond bu mor foneddigaidd a pheidio fy nghanlyn; a phan dybiais fy mod yn ddigon pell, cymerais ymarferiad yn ol y gorchymyn milwrol gynt, "*Quick time—Forward—March*," ac ni bu ychwaneg o Swedenborgiaeth nac unrhyw *geysers* ysbrydol eraill y noson hòno.

Wedi cael fy ngwlychu yn dda wrth groesi afon ledan, daethum i Gloverdale, ac yr ydoedd yn ddau o'r gloch y boreu. Dystawrwydd a thawelwch a amgylchynai bob ty oddieithr un *grogshop*, yno clywn ralio o rhegi rhyfedd. Yn mhellach, mewn cysgod tywyll rhag eu gweled gan y lleuad lân, canfyddais dwr llonydd a dystaw o ddynion, a dau yn y canol yn paffio eu gilydd ar y ddaear. Tair awr arall o ddysgwyl ar yr orsaf, ac agos sythu gan wlybaniaeth fy nillad ac oerlymder y boreu, a chefais y gerbydres. Cyfarfyddais arni âg arth-heliwr, o'r enw John Wesley Curadon, yr hwn a ddywedodd

wrthyf y gallaswn yn hawdd fod wedi myned yn frecwast i fwystfil a allai wneud y tro arnaf heb na phupyr, na halen, na gras. Perchenogai Mr. Curadon fferm fechan o bymtheg mil o erwau, ac nid oedd yn gallu amgyffred sut yr oedd dynion yn teimlo yn gysurus ar ffermydd can gyfynged â chant neu ddau. Gwahoddai fi yn serchog i ddychweled gydag ef, ac addawai i mi geffyl a gŵn i'w ganlyn yn ei anturiaethau helwriaethol. Efe, ei dad, a bachgenyn bychan o nai oeddynt holl drigianwyr ei fferm. Un George Davies (Cymro) a fu yn aros gydag ef ydoedd y dyn gwylltaf a'r ymladdwr penaf a welodd erioed. Addawais, os byddai yr amgylchiadau yn caniatâu, yr awn i dreulio wythnos neu ddwy gydag ef y tro nesaf y deuwn i California. Erbyn fy nyfod i San Francisco yr ydoedd heibio haner dydd, a dywedwyd wrthyf fod yn y parthau y bum ynddynt lanciau fuasent yn debyg o ddyfod i gyfarfod â mi pe gwybuasent fy mod allan fy hunan yn anamserol. Noson a rydd hyfrydwch i gofio am dani, er hyny, ydoedd hon.

AR GOLL YN Y COED.

Y mae son am y noson hòno yn dwyn ar gof i mi noswaith bryderus arall a fu arnaf yn Hydref y flwyddyn 1871. O gariad at unigedd a gwylltineb natur, yn gystal a gobeithio cael seibiant i yfed awyr iachus, aethum i dreulio pedwar mis mewn gwlad wyllt a theneu ei phoblogaeth yn neheubarth Ohio. Cefais gan Mr. John S. Davies, fy lletywr, un prydnawn fenthyg ei ferlen lâs i fyned i weled rhyw fan wyth milldir o ffordd. Ceisiais ddychwelyd ar hyd ffordd arall, ond collais y pwynt, daeth y nos, aeth fy ffordd yn y coed yn ddi-ffordd, ac nid oedd genyf ond myned, heb wybod i ba le. Daethum yn mhen gryn amser at gwm dwfn, lle y gwelais oleuni mewn ffenestr. Ni wyddai y ddynes ydoedd yno ddim am John S. Davies nac am y teuluoedd Cymreig. Deailais wrth hyny fy mod yn mhell iawn. Cynghorodd fi i fyned "y ffordd acw," gan gyfeirio â'i bys at gyfandir o goedwigoedd tywyll. "Y ffordd acw," gan hyny, yr aethum, ac ar "y ffordd acw" y bum dros ddwy awr heb weled dim ond coed tywyll fel y fagddu. Yr oeddwn wedi gollwng yr awenau yn rhydd gan obeithio y gwnai greddf yr anifail yr hyn nad allai fy rheswm i. Meddyliais am rwymo yr eboles wrth goeden ac eistedd yno hyd y boreu, ond cofiais fod dynion wedi clywed


llais cath wyllt (un gymaint a chi, ond ffyrnicach na llew) un o'r nosweithiau blaenorol, ac heblaw hyny yr oedd yn oer iawn. Meddyliais am gyneu cylch o dân gan fod yno ddigon o ddefnyddiau, trwch o ddail sychion dros yr holl ddaear, a phrenau ddigon—y gallai hyny gadw draw y gath wyllt a'r oerder hefyd, ond cofiais fod Chicago a chanoedd o filldiroedd o Wisconsin a Michigan wedi llosgi yr Hydref hwnw, ac mai hawdd iawn fuasai cyneu diluw o dân yn y crinddail hyn. Nid oedd well na myned i rywle. O'r diwedd daethum at fwthyn o gyffion, gelwais, a daeth Gwyddel allan. Erfyniais gael aros yno hyd y boreu, y gwnawn orwedd ar y llawr, ond nid oedd yno le i'r eboles. Nis gwyddai yntau am Davies, ond cefais ar ddeall ganddo fod ysgoldy y gwyddwn am dano bedair milldir yn mlaen; wrth hyn deallais fod yr anifail call, er pan gafodd reoli ei hun, wedi parhau i fyned tuag adref. Gwelais yr ysgoldy mewn amser cyfaddas, a llawenychais yn fawr. Tair milldir arall trwy y coed a chefais lety clyd Mr. Davies.

TAITH OGLEDDOL ARALL.

Wedi dychwelyd o'r *geysers*, chwenychais fyned 80 milldir ar hyd llinell y *North Pacific Coast* can belled a Duncan Mills. Mae y daith hon yn un o'r rhai tlysaf ac amrywiolaf ei golygfeydd. Nid oes iddi y fath greigiau llymion a thoriadau dyfnion ag eiddo *Denver* a *Rio Grande*, ond mae ganddi yr esgyniadau serth, y troadau pedol-ffurf, y twnelau lluosog, y pontydd a'r trawstweithiau uchel, y cymoedd rhyfeddaf, y bryniau cywreiniaf, a'r coed talaf, oll wedi eu gwisgo mewn gwyrddlesni bywiog a serchog, na welir ond yn California eu math. Y mae amryw o'r bryniau yn meddu ffurf gauol-rhychbantiog, tebyg i gragen wystrys, neu wyneb-wyntell *(fan)* Chineaidd, ac y mae eu gwyrddlesni bron yn ddigyffelyb. Gán fod parthau helaeth o'r dalaeth hon yn meddu haf a gwanwyn parhaus, gwelir dail bychain yn blaendarddu ar y coed pan fyddo hen ddail yn syrthio. Y mae egin ieuanc y ddaear yn tyfu i fewn i'r hen egin, y rhai yn fuan a syrthiant ymaith.

Y mae math o lyffant corniog, pigog yn California, digon diniwaid. Y mae y ddau gorn sydd ar ei ben yn uwch na'r pigau eraill sydd drosto. Rhedasom agos 20 milldir yn agos i bau main Bolinas, a daethom i wlad enwog am laeth ac ymenyn yn gystal ag am felinau

llifio. Ceir yn y parthau hyn y coed *madrone,* y rhai bob Hydref a fwriant eu rhisgl, ac ydynt o liw coch, amlwg; derw hefyd, cypres-



BWLCH TOLTEC AR REILFFORDD DENVER A RIO GRANDE.

wydd, ac amrywiol fathau eraill, ond y rhai mwyaf, harddaf, a rhyfeddaf ydynt y coed cochion *(red wood)*. Oddifewn y mae y rhai hyn yn gochion, oddiallan y maent yn wastadol o liw gwyrdd, dwfn. Tyfant i'r uchelder o fwy na thri chant o droedfeddi, a hyny mor uniawn a saeth. Tua 60 troedfedd uwchlaw y ddaear yr ymestyna y ceinciau isaf allan, ac y mae bod mewn coedwig lân o'r cyfryw yn peri i un deimlo ei fod mewn rhyw baradwys werdd, fawr, ddofn, gysgodol, ac yn mwynhau math o neillduedd a thawelwch hyfryd, ond dyeithr, na theimlir mewn lle arall gyffelyb iddo— y fath ddaear werdd! y fath dô gwyrdd! y fath ystafelloedd pell a chyfriniol a welir yn ymestyn draw i bob cyfeiriad rhwng y colofnau mawreddog! Gwelais foncyff cau un o'r coed prydferth hyn a allai yn hawdd gynwys cynulleidfa o bobl. Nid ydyw y coed mawrion hyn ond bychain o'u cydmaru â choed eraill yn y dalaeth hon, y rhai, chwe' troedfedd uwchlaw y ddaear, ydynt 30 troedfedd o dryfesuredd, 90 o amgylchedd, a thros 400 troedfedd o uchder; un goeden yn 37 troedfedd o dryfesuredd, a 112 o amgylchedd; un arall, wedi cwympo, yn 40 troedfedd o dryfesuredd a 120 o amgylchedd, ac y mae dynion yn cerdded 200 troedfedd trwy geudod hon, ac yn dyfod allan heb blygu trwy dwll colfen. Trwy foncyff un goeden gwnaethpwyd ffordd i feirch a cherbydau. Nis gellir lai na rhyfeddu amrywiaeth gweithredoedd yr Hollalluog!

TRWY CALIFORNIA.

Arfaethais fyned o San Francisco i Oregon a thiriogaeth Washington; ond dywedwyd wrthyf yn gymaint ag fod y tymor gwlawog wedi dechreu, na byddai yn fanteisiol i mi eu gweled. Troais fy wyneb gan hyny tua chartref. Cymerais reilffordd y *Central Pacific*, a chefais yr olwg olaf ar ryfeddodau bauoedd, bryniau, dinas, ac Ynysoedd y Porth Auraidd. Wedi dyfod at Gulfor Carquinez, milldir a haner o led rhwng bauoedd Suisun a San Pablo, rhedodd ein cerbydres oll ar fwrdd ager-fâd mawr a nerthol a elwid *Solano*, yr hwn sydd 424 o droedfeddi o hyd, 116 o led, ac yn 18½ o uchder, a'i nerth yn 4,000 gallu ceffyl; medda ar ei fwrdd bedair reilffordd, ar y rhai y gall 24 o gerbydau teithwyr neu 48 o gerbydau nwyddau sefyll tra yn nofio drosodd i'r lân arall.

Hon ydyw y ffordd feraf o San Francisco i Sacramento (p. 22,000), yr hon ydyw prif ddinas California, ac a saif yn hardd ar lân afon Sacramento, gyda thalaethdy mawr ac ardderchog iawn yn ei chanol.

Wedi myned dros 20 milldir yn ogledd-ddwyreiniol o Sacramento dechreuasom esgyn Mynydd-gadwen Sierra Nevada, yr hon sydd 500 milldir o hyd, o 60 i 100 milldir o led, a thros gant o'i phigynau yn ymestyn dros 13,000 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr, a rhai o honynt dros 15,000 o droedfeddi. Y mae aur, arian, a mwnau eraill y mynyddoedd hyn, fel y dengys hanes California, wedi profi yn atdyniad cryf i bobl o bob cŵr o'r ddaear. Wedi esgyn tua 30 milldir cawsom ein hunain ar y Cape Horn enwog. Yn *Grand Canyon*, Colorado, yr oeddwn mewn agen ddofn yn edrych i fyny 2,000 o droedfeddi ar y creigiau uniawnsyth; ond oddiar Cape Horn yr oeddwn yn edrych i lawr 2,500 o droedfeddi, lle, gallwn dybio, y gallwn neidio i'r gwaelod heb gyffwrdd â dim wrth ddisgyn. Y mae rhai wedi dyfod o bellderoedd mawrion i weled yr olygfa hon, ac wedi yr oll yn methu dal i edrych arni. Ymddyrwynem tuag i fyny ar esgyn-raddeg o 120 troedfedd y filldir; a gwelem, nid yn unig y dyfnderoedd erch, ond hefyd y creigiau daneddog, y rhaiadrau gwyllt, a'r pigynau eira-wisgedig yn ymgodi yn uchel ac yn mhell. Yn uwch i fyny ac yr ydym yn yr *American Canyon*, rhwng dwy wal o greigiau agos 2,000 o droedfeddi o uchder. I fyny ac i fyny yr ydym yn parhâu i fyned. Y mae haf hyfryd dyffryn gwyrdd a ffrwythlawn Sacramento wedi ei golli er's oriau, ac y mae gauaf oer ac erch yn ymgau am danom. Y mae y creigiau a'r cymoedd geirwon o'n hamgylch yn wynion gan eira. Yn uwch i fyny, ac yr ydym yn myned trwy amryw dai tywyll, hirion, a elwir *snow sheds*, amcan y rhai ydyw cadw y ffordd yn glir oddiwrth y lluwchfeydd, a chan y disgyn yma yn y gauaf drwch o 30 troedfedd o eira, y mae y tai hyn yn anhebgorol angenrheidiol. Gwnaed hwy o drawstiau a byrddau coed, a rhag y gallant gymeryd tân y mae ager-beiriant neillduol, gyda deg o ddwfr-gerbydau, yn y parth yn barod i fyned i'w ddiffoddi ar rybudd byr. Wedi parhau yn esgyn a myned trwy amryw dai eira, yr ydym ar gefn y Sierra Nevada. Ac O! y golygfeydd mawrion a geir yma!—creigiau tuhwnt i greigiau, clogwyni uwchlaw clogwyni, a phigynau tudraw i bigynau, yn ymestyn i fyny ac i fyny, yn mhell ac yn mhell, i bob cyfeiriad—

afonydd, rhaiadrau, llynoedd, coed teneuon, oll yn eira gwyn ac yn gleddyfau o rew. Ymddangosai yr holl wlad yn fawreddog o arw, a'r hin yn erwin o oer. Tua'r lle a elwid Summit yr oeddym ar fan uchaf y reilffordd hon, sef 7,017 o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr, pellder o 193 o filldiroedd o San Francisco. Yma y mae twnel a thai eira 28 milldir o hyd, gydag ambell agen ynddynt, trwy y rhai y cipiem olwg ar y wlad.

Ar y disgyniad daethom i dref Truckee, yn agos i'r hon y mae dau lyn enwog, i weled y rhai y daw llaweroedd o ddyeithriaid; y naill ydyw Llyn Tahoe (Dwfr Mawr), yr hwn sydd 22 milldir o hyd wrth 10 milldir o led; a Llyn Donner, tair milldir o hyd ac un o led—un o'r llynoedd bychain siriolaf yr olwg arno, ond y mae yn nglŷn â'i hanes un o'r digwyddiadau pruddaf, sef newyniad i farwolaeth un Mr. Donner, a'i wraig, a'i anifeiliaid ar ei lân yn ngauaf 1864, trwy gael eu dal a'u cau i fyny gan eira pan oeddynt ar eu taith i California.

TRWY NEVADA.

Tua 220 milldir yn ogledd-ddwyreiniol o San Francisco croesais y llinell derfyn o California i Nevada; disgynais hefyd rai miloedd o droedfeddi, gan adael gauaf brigwyn y Sierras am hinsawdd fwy tymherus. Yn Reno, 20 milldir o'r llinell derfyn, y gadewir y brif reilffordd i fyned i fyny ar hyd ffordd ramantus iawn i Carson ac i Virginia City, lle, efallai, y mae y mwngloddiau arian cyfoethocaf yn y byd, yn y rhai y mae llaweroedd o Gymry, ac yn eu plith y seneddwr J. P. Jones, yr hwn a gyfrifir yn un o'r tri neu bedwar cyfoethogion penaf y byd. Uwchlaw Virginia City yr ymgyfyd Mynydd Davidson yn fawreddog, a dynion ar ei gopa fry yn syllu ar ryfeddodau yr amgylchoedd. Odditan y ddinas, i ddyfnder o tua 2,000 o droedfeddi, y gweithir y mwngloddiau, a dynion yn eu gwaelodion obry yn tynu allan o'u trysorau.

Yn fuan wedi gadael Reno, dechreuasom ar anialwch Nevada. Yma a thraw gwelwn ager yn ymddyrchafu o ffynonau berwedig, trwy y rhai y cedwir ein daear rhag ffrwydro gan ormod gwres mewnol. Yn agos i le a elwir Mirage, ar y ffordd hon, y ceir yn achlysurol megys gweledìad llyn mawr o ddwfr gloew, afonydd dysglaer yn rhedeg iddo, a choed gwyrddion yn ei amgylchu, ond

wrth fyned ato diflana, ac ni cheir yn ei le ond anialwch cras a llwm. Llawer teithiwr sychedig a dwyllwyd gan y rhith twyllodrus hwn i fyned filldiroedd allan o'i ffordd yn y gobaith o gael ei ddisychedu.

Yn mhellach yn mlaen y mae ein reilffordd yn dyfod at lyn gwirioneddol, Llyn Humbolt, 35 milldir o hyd wrth ddeng milldir o led. Deng milldir i'r de o hwn y mae Llyn Carson, 23 milldir o hyd wrth ddeng milldir o led. Ymarllwysa Llyn Humbolt i Lyn Carson yn yr haf, ac yn y gauaf, neu y tymor gwlawog, y mae y ddau yn un llyn mawr o 80 milldir o hyd. Yr Afon Humbolt, ar ol rhedeg 350 o filldiroedd, a ymarllwysa i Lyn Humbolt yn ei ben gogleddol. Yr afon Carson, ar ol rhedeg 175 o filldiroedd, a ymarllwysa i Lyn Carson yn ei ben deheuol, a gwnant yr hyn a elwir yn *Humbolt and Carson Sink*, o'r hwn ni welir dim dwfr yn rhedeg allan. I ba le, gan hyny, y mae y dyfroedd yn myned? Cael eu colli yn y tywod, medd rhai; cael eu sugno i'r awyr gan y gwres, medd eraill; ac y mae trydydd dosbarth yn dal eu bod yn rhedeg yn afonydd tanddaearol i'r gorllewin; a chan fod hefyd afonydd cryfion yn tòri allan bron ar unwaith o ystlys orllewinol y Sierras, hônant fod i'w tybiaeth sail dda. Y mae amryw lynoedd eraill ar y gwastadeddau hyn yn dwyn yr unrhyw nodweddion. Ceir yma arwyddion eglur o ddaear-chwydiadau mawrion, o gymaint ag fod llawer o losgfalwy yn gorchuddio'r lle. Bu hefyd yn gartref môr neu lyn mawr, canys y mae cregin, pysg-ysgerbydau, a'r cyffelyb weddillion i'w cael eto. I ba le yr aeth y môr neu y llyn hwnw? I'r un lle, yswaeth, ag yr â yr afonydd a'r llynoedd presenol iddo. Gwelaf yn y newyddiaduron fod llyn mawr Ruby wedi diflanu yn sydyn o'r diriogaeth hon er pan fum ynddi.

Rhedasom i fyny bellach ar hyd dyffryn yr Humbolt, a mynydd-oedd i'w gweled ar bob llaw. Aethom heibio llawer gorsaf o ymddangosiad bychan a dibwys, er hyny yn meddu trafnidiaeth fawr, yn gymaint ag y danfonir o honynt laweroedd o fwnau gwerthfawr i'r marchnadoedd. Ceir yn y dyffryn hwn hefyd lawer o *ranchers* cryfion; un *ranche* yn meddu 80,000 o anifeiliaid, a 28,000 erw o honi wedi ei chau i fewn. Aethom heibio *Battle Mountains*, lle, 35 o flynyddoedd yn ol, y bu brwydr fawr a chyndyn rhwng yr ymsefydlwyr gwynion ac Indiaid Shoshone. Er i'r Indiaid ymladd

gyda ffyrnigrwydd dihafal, collasant y dydd, a thorwyd eu grym fel nad allasant byth ymuniawnu. Nid ydynt mwyach ond ychydig o grwydriaid tlodion, iselwael, ac aflan; gwir blant yr anialwch, a'u llaw yn erbyn pawb, a llaw pawb yn eu herbyn hwythau. Lladratant os gallant, cardodant os na allant. Deuai rhai o honynt at y gwahanol orsafoedd i fegian rhyw beth gan y teithwyr; a chan gymaint chwilfrydedd y rhai hyny, fel fy hunan, i'w gweled a cheisio ymddyddan â hwy, caent lawer o friwfwyd a phethau eraill. Druain o'u *papooses* (babanod). Byddai y rhai hyny wedi eu rhwymo yn dŷn wrth fwrddyn, neu fath o gawell, ar ben uchaf yr hwn y byddai tô plethedig o wïail i gysgodi y pen rhag y gwres. Yn rhwymedig felly, heb allu symud pen na choes, y cerid y pethau bychain yn ngholau neu ar gefnau eu mamau; ac yr oedd agwedd amyneddgar arnynt. Dysgant ddyoddef o'u mebyd i fyny.



Yn mlaen a ni heibio Dyffryn y Ffŷnonau Poethion, lle y gwelem ager yn ymddyrchafu o ddaear goch; heibio trefedigaeth o belicanod drachefn; ac yn mhellach yr ydym yn pasio bedd unig, wedi ei gau i fewn ag arno groes, ar y naill ochr i'r hon y mae y geiriau, "*The Maiden's Grave,*" ac ar yr ochr arall "*Lucinda Duncan.*" Lucinda Duncan ydoedd ferch ieuanc rinweddol, deunaw mlwydd oed, a aethai yn glaf ac a fu farw yma tra yr ydoedd y teulu, ar eu taith i California, yn aros i'r dwfr gilio o'u blaen. Yn mhell oddiwrth bob trigfan ddynol, nis gallent wneud yn well na chladdu yma yr anwyl un, a dodasant fwrddyn uwch ei phen, a'i henw arno. Aethai amryw flynyddoedd heibio pan ddaeth y gweithwyr i osod i lawr y reilffordd. Pan welsant hwy fedd unig yr eneth ieuanc, gwnaethant fûr o'i amgylch i'w amddiffyn, ac yn y flwyddyn 1871 rhoddwyd arno groes hardd gan arolygwr y ffordd.

Wedi pasio gorsaf a elwid Carlin, aethom trwy fwlch creigiog

Five Mile Canyon; ac yn llawer uwch i fyny daethom at Ffynonau Humbolt, ugain o'r rhai a geir mewn dyffryn bychan ar ucheldir, 5,400 troedfedd uwchlaw arwynebedd y môr; ymddangosant fel llynoedd bychain tua saith troedfedd o dryfesur, ac agos yn grwn. Nid oes neb wedi gallu eu plymio i'w gwaelodion. Bernir mai olion hen ffrwydriadau tanllyd o'r ddaear ydynt. Treiddia eu dyfroedd yn anweledig trwy y tywod i'r Afon Humbolt, gyda yr hon yr ânt i Suddfa Humbolt, 300 milldir islaw, lle yr ymddiflanant mor ddirgelaidd ag y daethant i'r golwg.

UTAH.

Wedi gadael gorsaf Tecoma, croesais y llinell i Utah, ac yr oedd ei holl barthau byn yn anialwch gwag erchyll; gelwir ef Anialwch America. Nid wyf yn meddwl fod ynddo gynaliaeth i unrhyw greadur byw. Y mae yn amlwg oddiwrth weddillion morawl a geir ynddo ei fod wedi bod yn waelod môr neu lyn mawr. Nid anhebyg mai gweddillion o'r llyn mawr hwnw ydyw y Llyn Halen presenol, yr hwn sydd yn gorwedd yn ei barthau isaf. Dywedir fod y llyn hwnw wedi gostwng llawer er pan welwyd ef gyntaf, ond yn y blynyddoedd diweddaf hyn y mae wedi codi 12 troedfedd. Wedi teithio tua 80 milldir yn Utah, gwelais mewn llythyrenau breision ar astell ddyrchafedig, y geiriau "*Ten miles of track in one day,*" a'r un fath eiriau ddeng milldir yn mhellach. Ymddengys mai yma y cyflawnwyd y gampwaith fwyaf erioed mewn ffordd o osod reiliau i lawr. Gerllaw yma daeth y ddwy reilffordd, sef yr *Union Pacific* a'r *Central Pacific*, i gyfarfod â'u gilydd, fel ag i wneud un linell fawr o ddwyrain i orllewin. Diwrnod rhyfedd ydoedd hwnw (Mai 10fed, 1869); daeth yno filoedd o bobl o bob cwr o'r wlad, ac o holl wledydd cred, i weled gosod y reiliau olaf i lawr, a tharo yr hoel olaf i fewn. Cafodd y perchenogion anturiaethus eu gwawdio gan lawer am feiddio gwneud ffyrdd dros y Mynyddoedd Creigiog a'r Sierra Nevadas, tiriogaethau y rhew a'r eira tragywyddol, yr anialwch mawr, anghyfaneddleoedd, a chanoedd o filldiroedd yn cael eu cyfaneddu yn unig gan anwariaid peryglus. Edrychid ar yr anturiaeth fel eithafnod ynfydrwydd; ond dyma ddydd buddugoliaeth yr anturiaethwyr wedi gwawrio; daeth cerbydres lawn o ymwelwyr o ddinasoedd y dwyrain ar hyd yr *Union*

Pacific, a daeth cerbydres lawn o ymwelwyr o San Francisco a dinasoedd y gorllewin ar hyd y *Central Pacific*. Daeth y trawsbren *(tie)* olaf, o *lawrel*, wedi ei gerfio yn hardd, gyda phladiau arian cerfiedig arno, o California; hoel aur hefyd o'r un dalaeth, hoel arian o Nevada, a hoel o aur, arian, a haiarn o Arizona, a chyda gorfoledd mawr yr ydoedd uchel-swyddogion y ffyrdd mewn safle barod i'w curo i fewn. Ond yn gyntaf cafwyd egwyl o ddystawrwydd parchus, pryd yr esgynodd Dr. Todd, o Massachusets, ac yr erfyniodd fendith y Goruchaf Dduw ar y gweithrediadau ac ar y reilffyrdd hyn. Yna, gyda morthwyl arian, wrth goes yr hwn y cysylltwyd gwyfr bellebrawl, curodd Leland Stanford, llywydd y *Central Pacific*, yr hoel olaf i fewn am 12 o'r gloch haner dydd, a chyda'r curiad ehedodd y mellt i fynegu y newydd yn holl brif ddinasoedd y wlad. Diau fod cwblhad y llinell hon o reilffordd yn uñ o brif orchest-gampau yr oes. Y mae o'r Afon Missouri at lanau y Tawel-for agos yn 2,000 o filldiroedd o hyd. Parwyd i'r ddau ager-beiriant gyffwrdd â'u gilydd, ac oddiarnynt ysgydwodd y dwyrain a'r gorllewin ddwylaw.

Daethom yn fuan i diroedd mwy toreithiog na'r anialwch. Erbyn cyrhaedd Ogden (p. 6,000) yr oeddwn yn nhref y Seintiau, ac yn nghanol eu gwlad. Medda Ogden dabernacl Mormonaidd, ac apostol yn mherson F. D. Richards, Ysw., yr hwn sydd o waedoliaeth Gymreig. Yn fy llyfr nesaf—HANES TALAETHAU UNEDIG AMERICA A'R CYMRY YNDDYNT—ceir crynodeb o hanes prif enwogion Cymreig y wlad, o bob proffes a galwedigaeth.

DINAS Y LLYN HALEN.

Pobl ryfedd ydynt y Mormoniaid, gwlad ryfedd ydyw eu gwlad, a dinas ryfedd eu dinas. I fyned iddi gadewais y brif linell yn Ogden, a chymerais linell arall i fyned 37 o filldiroedd yn ddeheuol. Ar fy llaw ddeheu, encyd oddiwrthyf, gwelwn y Llyn Halen yn llen hir. Ar fy llaw aswy draw ymgodai mynyddoedd mawreddog Wasatch, y rhai a dröent megys haner lleuad am y dyffryn. Ar ein gwaith yn dynesu at y ddinas santaidd, gwelwn yn ymgodi yn uchel, 1,200 troedfedd uwchlaw y dyffryn ac uwchlaw ffynon ferwedig, gref, bigyn a elwid gan rai yn Fynydd Prophwydoliaeth, canys yno y byddai y prophwyd mawr, Brigham Young, yn arferol o ymdrechu

gyda'r Arglwydd. Wrth droed cainc o'r mynydd hwn y saif Salt Lake City (p. 21,000), Seion y saint, Jerusalem y dyddiau diweddaf. Y mae wedi ei chynllunio yn rhagorol, a'i gweithiad allan yn hardd, ei heolydd oll yn gyfonglog, a ffrydiau rhedegog o ddyfroedd wedi eu gwneud i redeg gyda ei hystlysau i ddyfrhau y gerddi a'r coed cysgodawl—i lanhau y trigfanau ac i ddisychedu y trigolion. Medda lawer o adeiladau prydferth, a rhai o honynt yn balasau. Yr adeilad i gael y sylw blaenaf ydyw y tabernacl. Nid yw mewn un modd yn hardd, ond y mae yn fawr ac yn hynod iawn. Hirgrwn ydyw ei ffurf yn mhob ffordd ond odditanodd, 250 o droedfeddi o hyd o ddwyrain i orllewin, 150 o droedfeddi o led, a 65 o droedfeddi o uchder. Y mae iddo amgylch ogylch 46 o golofnau ysgwar, y rhai yn nghyda'r drysau a'r ffenestri sydd rhyngddynt ydynt y mur, ar yr hwn y gorphwysa y tô bwaog, plaen, ac anferthol fawr. Tebyg ydyw y ty hwn i'r hyn a fyddai haner plisgyn wy ar flwch hirgrwn myglys. Gyda ei oriel enfawr cynwysa 8,000 o bobl. Yn ei naill ben y mae y banloriau a'r *organ* gerdd fwyaf ond un yn America. Gerllaw y tabernacl hwn yr ydys er's blynyddau yn adeiladu y deml, 186½ o droedfeddi o hyd a 99 o droedfeddi o led. Gwelir nad ydyw hon agos gymaint a'r tabernacl, ond bydd yn uwch ac yn ogoneddusach o lawer; bwriedir iddi fod yn un o brif ryfeddodau yr oesoedd, ac yn ogoniant yr holl ddaear. Gwelais hen anedd-dy Brigham Young—ty hir, isel ydyw hwn, gyda llawer o ddrysau a ffenestri yn ei ystlys yn wynebu y ffordd, a rhes fawr o ffenestri yn dyfod allan o'r tô yn ol dull rhai hen adeiladau yn y wlad hon. Gwelais ei balas newydd. Y mae hwn yn un helaeth, mawr, ac addurnedig, tri uchder llofft, a thŵr yn ymestyn yn uwch. Adeilad mawr arall yn nghanol y ddinas, ac, hyd oni orphener y deml, yr ardderchocaf ynddi, ydyw siop gyfanwerth a mânwerth y *Zion's Co-operative Mercantile Institution.* Y mae cangenau o'r *Institution* yma yn y gwahanol bentrefi Mormonaidd trwy y diriogaeth, ac oddiyma y cânt eu cyflenwad. Arwyddgraff *(sign)* y rhai hyn oll gyda'r geiriau uchod, neu y llythyrenau Z. C. M. I., ydyw llun llygad a'r geiriau *Holiness to the Lord*, a dysgwylir i'r ffyddloniaid oll brynu a masnachu gyda hwy yn unig. Dyma wyneb atddaearol yr eglwys santaidd. Y mae y cenhedloedd yn amlhau yn y ddinas ac yn y wlad. Y mae yn Salt Lake City eglwys Babaidd, a dwy neu dair o

eglwysi Protestanaidd, ac y mae eu gallu masnachol a gwleidyddol yn cynyddu yn gyfatebol. Felly y mae y drwg y ceisiodd Brigham Young waredu yr eglwys rhagddo pan yn tynu ei bobl o ddyffryn brâs San Bernardino yn ei goddiweddyd yma. Bernir gan lawer pe buasai efe yn mhellach heb gynghori ei bobl i beidio chwilio am fwnau aur, arian, &c., o ba rai y mae y diriogaeth yn gyfoethog, y byddent heddyw yn dda eu sefyllfaoedd, ac Utah yn rhestr flaenaf Talaethau yr Undeb. Yn lle hyny y mae y cenhedloedd yn dyfod i feddianu cyfoeth y wlad, a'r saint yn llafurio y ddaear gydmarol wael, fel, rhwng hyny a'r trethoedd eglwysig a godir arnynt, y maent ar y cyfan yn dylodaidd eu hamgylchiadau. Tra mai amlwreicaeth ydyw y gwahaniaeth mawr rhyngddynt a phobl eraill, a'r peth sydd yn eu gwneud yn ffiaidd yn ngolwg pobl eraill, a'r hyn y maent wedi ac yn dyoddef erlidiau lawer er ei fwyn, y mae y mwyafrif mawr o honynt gan dylodi yn gorfod byw gydag ond un wraig, a rhai heb gymaint ag un. Y mae yn Utah drefedigaeth fechan o Gymry, a elwir Wales, lle na chaniataodd y gwragedd i'r gwŷr ddwyn amlwreicaeth i arferiad o gwbl. Wedi i un dyn rai blynyddau yn ol gymeryd i'w dy wraig at yr hon ydoedd ganddo, rhoddodd gwragedd y gymydogaeth hi ar geffyl pren, ac wedi ei chario i weirglodd bell gadawsant hi i weithio ei ffordd allan o'r sefydliad oreu y gallai. Oddiar hyny rhoddodd y gwŷr i fyny y frwydr.

TRI DIWRNOD YN Y DDINAS.

Y ty cyntaf yr aethum iddo ydoedd westdy, eiddo un o'r cenhedloedd. Er ei fod yn dy hardd, dygwyddodd mai ynddo ef yn unig y gwelais ddim tebyg i ddyn am fy ysbeilio. Deffroais yn sydyn tua dau o'r gloch y boreu, ac wele oleuni yn fy ystafell, a dyn mawr gyda gwyneb Gwyddelig, fflamgoch yn dyfod at fy ngwely. Pan welodd fi yn edrych arno diffoddodd ei ganwyll yn frysiog, ac aeth allan o'r ystafell. Y ty nesaf yr aethum iddo ydoedd eiddo Anthony Thomas, Ysw., Ysgrifenydd y Diriogaeth—Cymro ieuanc, talentog, a hawddgar iawn. Un o'r cenhedloedd ydyw yntau; rhoddodd i mi lawer o hanes y diriogaeth, ac o ansawdd ein cenedl ni ynddi. Ymwelais â'r henuriad George Bywater, un o ffyddloniaid yr eglwys, ac iddo air da gan y saint a'r cenhedloedd hefyd; cefais ef yn ddyn

call a chymdeithasgar, gyda llonaid ei galon o awydd gwneud daioni ysbrydol i mi; ymresymai yn gryf a difrifol. Anrhegodd fi â chopi o lyfr Mormon. Anogodd fi i fyned at yr henuriad John S. Davies, argraffydd a llenor Cymreig, y cawn ganddo ef weithiau ac addysg helaethach. John S. Davies, henafgwr yn awr, ond un a fuasai yn fachgen yn argraffydd yn ngwasanaeth Brutus. Beth a ddywedodd Brutus am John S. Davies? gofynais i Mr. Bywater. "Dywedodd," meddai yntau, "fod yn drueni fod un o dalentau dysgleiriaf Cymru yn ymddifwyno gyda pheth mor wael a Mormoniaeth." Beth a ddywedodd Brutus am danoch chwi? gofynais i Mr. John S. Davies pan welais ef. "Wrth fy nhad, yr hwn ydoedd yn ei feio am adael i mi gymdeithasu â'r saint, dywedodd, 'Daeth eich bachgen ataf fi yn gythraul, ac y mae yn myned oddiwrthyf yn sant.'" Cefais Mr. Davies yn cyfaneddu ty hardd iawn. Dipyn yn gadnoaidd yr oeddwn yn tybio ei fod; teimlwn ei fod yn edrych arnaf fel yspïwr wedi dyfod i weled noethder y wlad, am hyny celu pethau ydoedd ei ddoethineb ef, a diau mai nid yn ofer yr oedd y ddoethineb hono ganddo, canys y mae llawer o ysgriblwyr wedi ymweled â'r bobl hyn i'r unig ddyben o raffu camdystiolaethau yn eu herbyn. Dywedais wrth Mr. Davies pa gymorth gwerthfawr y tybiai Mr. Bywater a gawn ganddo ef. Rhoddodd yntau i mi amryw ddail bychain yn cynwys cân o'i eiddo yn gosod allan ragoriaeth cwrw o'i eiddo, a elwid *Davies' Cronk Beer.* Cefais ganddo hefyd amryw gopïau o lyfr at faintioli *Rhodd Mam,* o'r enw *Bee Hive Songster, being a collection of original songs, composed by Ieuan* (Mr. Davies ei hun). Aethum i dy Mr. Davies yr ail waith, yn ol rhag-benodiad. Cefais fod yno y pryd hwnw ddeintydd, wedi dyfod i dynu dant Mr. Davies, a meddyg arall gyda rhyw flwch trydanol yn iachâu Mrs. Davies o rhyw anhwylusdod oedd yn ei blino hithau. Dywedid wrthyf y gallai hwnw, gyda'i drydaniaeth, roddi i minau gwbl iachâd oddiwrth wendid yn y cylla. Wrth fy ngweled yn syllu ar ei flwch a'i wifrau, dywedodd y meddyg hwnw, gan edrych yn syn yn fy llygaid, ei fod yn gweled fy mod yn un tra chwilfrydig, ac os awn gydag ef i'w gartref y gwnai egluro i mi ddirgelion y peiriant. Dywedai yn mhellach fod yr hyn ag oedd yn blino fy nghylla yn gofyn gallu ysbrydegawl, craffus iawn i'w ganfod i'w waelodion, a chan fod ei wraig yn meddu y gallu hwnw yn helaethach nag efe, gwahoddai fi i

fyned gydag ef, y mynegai i mi yr oll a berthynai i fy natur ac i fy amgylchiadau, a'r cyfan heb dâl. Yr oeddwn wedi darllen mewn llyfrau fod ysbrydegiaeth, *mesmeryddiaeth*, &c., yn elfenau pwysig yn llwyddiant y gyfundrefn Formonaidd, ond nid oeddwn wedi edrych ar y cyfryw amgen nag ymgais ei gelynion i'w phardduo. Yn awr dyma gyfleusdra i mi weled y peth drosof fy hun; ac yn llawn o ysbryd pryf y ganwyll, yr hwn ni fedr beidio chwareu â'r perygl, addawais fyned i'w dy yr hwyrnos hono, er y perygl o gael fy *mesmereiddio*. Derbyniwyd fi ganddo yn foneddigaidd. Dyn main, tal ydoedd efe; dynes dew, dal ei wraig. Dywedodd wrthi am fy narllen. Dywedodd hithau ei bod yn ofni fod fy ysbryd yn gyfryw ag nas gallai ei hysbryd hi ddwyn dan reolaeth, mai anfynych y gallai lwyddo ar ddynion dysgedig. Ar ol hyn o *gompliment* dechreuodd ymwthio i'r ysbrydol. Wedi enyd o ddystawrwydd dywedodd drachefn fy mod yn rhy gryf, ei bod yn barnu pe bawn yn ysbrydegwr y gwnawn *medium* da. Yn raddol, fodd bynag, dechreuodd weled, ei genau a agorwyd, a thraethodd fy hanes, a hanes fy nheulu gartref—dysgrifiad o honynt a llawer o bethau; ond ni bu erioed fwy o ddygwydd a damwain; gallai unrhyw un arall ddweyd pethau mor gywir ac mor anghywir a hithau; ond o ran hyny cwynai yn barhaus ei bod yn methu cael rheolaeth briodol ar fy ysbryd, a bod rhyw ysbrydion eraill yn sefyll rhyngddi â'r gwrthddrychau priodol. Erbyn hyny daeth chwaer arall i fewn, yr hon, ddywedid, ydoedd y *medium* alluocaf yn y ddinas. Ond yr oedd fy amser i fyny, felly ymadawais heb deimlo fy mod yn ddim callach na dylach ychwaith. Dywedai y meddyg a'r feddyges hyn nad oeddynt hwy yn Formoniaid, ond eu bod yn edmygu y bobl yn fawr.

SABBATH YN NGHYNULLEIDFA Y SAINT.

Bum mor ffodus a bod yn y ddinas ar Sabbath pwysig iawn. Yr ydoedd wedi bod yn etholiad yn y Diriogaeth am gynrychiolydd i'r Gydgynghorfa *(Congress)* yn Washington. George Q. Cannon, y penaf o'r deuddeg apostol, oedd wedi cael mwyafrif y pleidleisiau; ond haerai ei wrthwynebydd, yr hwn ydoedd genedl-ddyn, mai ganddo ef yr oedd yr hawl i fyned i fewn, oblegid nad oedd Q. Cannon, o herwydd ei aml-wreicaeth, yn gymwys, a chyffelyb oedd y dadleu trwy y wlad oll i'r dadleu a wneir yn nghylch Bradlaugh yn

y wlad hon. Yn awr, yr ydoedd Q. Cannon yn cychwyn i faes y frwydr fawr yn Washington y dydd Llun canlynol i'r Sabbath yr oeddwn yn cael y fraint o'i wrandaw yn cyfarch ei gynulleidfa fawr ar yr achlysur. Arwedd ddiaddurn iawn ydoedd ar y gynulleidfa hon. Gallai unrhyw gynulleidfa wledig yn Nghymru gydmaru yn dda â hithau. Nid bychan ydoedd nifer y plant bychain; gellais ar unwaith amgyffred yr ymadrodd mai plant ydyw cnwd mwyaf toreithiog Utah. Draw ar y banloriau, o flaen yr organ fawr, ac ar ffurf haner cylch, yn rheng uwch rheng, yr eisteddai yr esgobion, henuriaid, a diaconiaid.

Canwyd yn gyntaf, ac wedi hyny offrymwyd gweddi synwyrol a chynwysfawr gan ddyn ieuanc. Ar ol hyn torwyd bara gan "seithwyr da eu gair," y rhai a'i rhoddasant ar ddysglau i laweroedd eraill i'w ranu rhwng y gynulleidfa. Cyfranogent oll, hyd yn nod y plant lleiaf, y rhai a roddent eu cyllill heibio, ac a beidient naddu eu prenau tra byddent yn estyn eu dwylaw i dderbyn yr elfenau. Wedi hyn cafwyd anerchiad gan un o'r henuriaid, lleferydd yr hwn a'i cyhuddai o fod yn Sais neu Gymro anllythyrenog. Gan swnio *hand* yn *and* ac *and* yn *hand*, dywedai iddo gael ei ddwyn i'r goleuni ysbrydol yn Liverpool, ddeugain mlynedd yn ol, ei fod yn un o'r cenhadon a aethant drosodd i Loegr y mis Ebrill blaenorol, iddo fod yn Llundain a deheudir Cymru, lle y cyfarfyddodd â hen gyfeillion, iddo gael y wlad yn gorwedd mewn tywyllwch mawr, ond y teimlai ar ei galon i ddiolch i Dduw am le i gredu na bu ei genadaeth yn gwbl ofer, am iddo gael ei fendithio i roddi argraff ddaionus ar feddyliau rhai, ac am gael dychweliad dyogel i fynwes yr eglwys yn Seion. Cefais ganddo, ar ol y gwasanaeth, mai Sais perffaith uniaith ydoedd, wedi ei fagu gan rieni Cymreig na fedrent Seisnaeg.

Ar ol hyn tywalltwyd dwfr (nid gwin) gan y saith diacon, a rhanwyd ef gan y lleill rhwng y gynulleidfa. Yna daeth G. Q. Cannon, y pregethwr mawr, yn mlaen; gŵr braidd yn hen, llai na'r taldra cyffredin, ond o gyfansoddiad cydnerth, wyneb llawn a deallus, gwallt gwyn o amgylch y pen, ond moelni ar y coryn; meddai lais peraidd, ac ystum ddeniadol; diau ei fod yn llefarwr gwir alluog. Darllenodd ei destyn o lyfr Mormon, tudalen 307.

"Fy mab, rho glust i'm geiriau, canys yr wyf yn dywedyd wrthyt, megys

y dywedais wrth Helaman, yn gymaint ag y cedwi orchymynion Duw, y llwyddi yn y tir; ac yn gymaint ag na chedwi orchymynion Duw, ti a fwrir ymaith o'i bresenoldeb."

Traethodd lawer ar elyniaeth y cenhedloedd at yr eglwys, ar y bwriadau a'r cynlluniau a wnaed o dro i dro i'w dynystrio, ar yr amddiffyn gwyrthiol a'r arweiniad dwyfol a gafodd, y modd y tywyswyd hi trwy yr anialwch mawr, y planwyd hi yn y wlad hòno, y magwyd ac y meithrinwyd hi, a hyn oll fel y rhagfynegwyd gan y prophwyd mawr, Joseph Smith. Anogai y bobl i fod yn ddyfal i gadw gorchymynion yr Arglwydd, ac i fod yn dra gwyliadwrus rhag syrthio i bechodau rhyfygus, yn enwedig godineb, yr hwn, fel yr ymddangosai, ydoedd y pechod parod i amgylchu y saint, trwy hwn y syrthiodd llawer o honynt, hyd yn nod Joseph Smith ei hun, a'r tystion, y rhai a welsant yr angel a'r llafnau aur, aethant hwy trwy y pechod hwn yn wrthgilwyr ac yn elynion i'r eglwys, ond safasant at eu tystiolaeth, ac yn hyny gwelai ryfedd doethineb Duw, fel na chaffai neb achlysur i ddweyd mai caredigion yr eglwys yn unig oedd yn dwyn tystiolaeth i'w seiliau. Nid oedd yn pryderu am y dyfodol. Yr ydoedd yn myned i Washington yn berffaith dawel, a pha beth bynag a ddeuai o'i achos ef byddai yr eglwys yn sicr o ddyogelwch a llwyddiant os cadwai orchymynion yr Arglwydd. Wedi canu drachefn, a dystewi o sain yr *organ* fawr, aethom bawb allan.

GWEDDILL Y DAITH YN UTAH.

Gadewais y ddinas enwog am Ogden, lle y cefais reilffordd yr *Union Pacific.* Yn nghymydogaeth Uinta, yr orsaf nesaf at Ogden, y bu yn y flwyddyn 1862 yr hyn a elwir yn Gyflafan y Morrisiaid. Yr oedd yno un Joseph Morris yn honi mai efe, ac nid Brigham Young, ydoedd y gwir brophwyd. Canlynid ef gan tua 90 o wyr galluog i ryfel, heblaw tua 300 o wragedd a phlant. Daliai y rhai hyn athrawiaethau y gangen Josephaidd o Eglwys Saint y Dyddiau Diweddaf, yr hon y mae amlwreiciaeth yn ffiaidd yn ei golwg. Ymosodwyd arnynt gan 750 o wyr Brigham Young, cynwysedig o'r Lleng Formonaidd a gwirfoddolwyr, gyda phump o gyflegrau. Arweinid hwy gan Robert T. Burrton. Ar ol tri diwrnod o ysgarmesu, rhoddodd y Morrisiaid i fyny. Cymerodd Burrton, yn enw yr eglwys, yr oll a feddent, a bu mor ddewrwych a saethu Morris, pryd

yr aeth hen wraig fechan ato, ac y dywedodd, "O! chwychwi waedgwn, a ydyw i fod yn gyflafan Mountain Meadow arall yma?" Burrton, gan ei hateb, a ddywedodd, "Nid wyf yn caniatau i fenywaid siarad â mi fel yna," ac ar hyny saethodd hithau hefyd.

Yn fuan dechreuasom esgyn y Mynyddoedd Creigiog trwy *Weber Canyon*, bwlch cul o 40 milldir rhwng creigiau daneddog gyda glànau afonig wyllt, ynfyd ei rhydiau, ei ffrydiau ar brydiau obry, a'i throbyllau fel peiriau yn berwi. I fyny, er hyny, a ni trwy Borth y Gwr Drwg *(Devil's Gate)*, a heibio Llithrigfa y Gwr Drwg *(Devil's Slide)*, yr hon sydd grib craig isel, yn rhedeg i lawr ar lechwedd gwyrddlas serth. Daethom at y "*Thousand Miles Tree*"—coeden yn sefyll ei hunan fach fil o filldiroedd o Omaha. Ar ei changen isaf crogai astell, ac arni "*1000 Miles.*" Yn fuan wedi dyfod allan o fwlch Weber, dechreuasom fyned trwy fwlch rhamantwyllt arall, sef *Echo Canyon*, heibio craig hynod a elwid ar gyfrif ei ffurf yn "*Steamboat Rock*," a llawer o ryfeddodau eraill, pryd y tynwyd ein sylw gan y cydymddyddan canlynol :—

"Ai darllen llyfr Mormon yr ydych?" gofynai cenadwr Mormonaidd ag oedd ar ein cerbydres yn myned i Loegr i oleuo y wlad dywyll hòno.

"Ië," atebai y darllenydd, yr hwn ydoedd genedlddyn, "darllen llyfr a gefais yn anrheg yn Salt Lake City."

Morm.—Pa beth ydyw eich barn am dano?

Cenedlddyn.—Nid wyf wedi darllen digon arno i allu rhoddi barn deg, ond gwelaf fod ynddo bethau da iawn.

Morm.—Da genyf ddeall eich bod yn ei hoffi. Darllenwch ef oll gyda meddwl diragfarn, a byddwch yn sicr o gael lles mawr trwyddo.

Cen.—Y mae y rhan hon o hono yn fy moddloni ac yn fy nyrysu hefyd :—

"Wele y mae'r Lamaniaid, eich brodyr, y rhai a gasewch chwi o herwydd eu haflendid a'r melldithion a ddaeth ar eu crwyn, yn gyfiawnach na chwi : canys nid ydynt hwy yn anghofio gorchymyn yr Arglwydd, yr hwn a roddwyd i'n tadau, *na chaffent onid un wraig; a gordderch-wragedd na chaffent un;* ac na chyflawnent odineb yn eu mysg. Ac yn awr y maent hwy yn cadw y gorchymyn hwn; gan hyny, am eu bod hwy yn cadw y gorchymyn hwn, yr Arglwydd Dduw nis difetha hwynt, eithr a fydd yn drugarog wrthynt, a hwy a fyddant ryw ddydd yn bobl wynfydedig."

Y mae y rhan yna fel y mae yn fy moddloni. Ond y mae eich bod

chwi yn adeiladu eglwys ar sail y llyfr hwn, ac ar yr un pryd yn dal i fyny amlwreicaeth, yn fy nyrysu.

Morm.—Yr ydych yn siarad yn berffaith synwyrol. Yr oedd pechod y bobl yna yn gynwysedig mewn anufuddhau gorchymyn yr Arglwydd. Pan oedd efe yn gwahardd amlwreicaeth, yr ydoedd yn bechod ei arfer. Ond yn awr pan y mae wedi rhoddi gorchymyn o ganiatad, y mae amlwreicaeth yn iawn. (Yna darllenodd y datguddiad a gafodd Brigham Young gan Dduw ar y pen hwn.) Ac ar wahan i'r datguddiad a gafodd Brigham Young, y mae yr ysgrythyrau, trwy esiamplau y duwiolion penaf, yn cymeradwyo yr aferiad. Ystyriwch Abraham, Jacob, Dafydd, a llawer iawn eraill.

Cen.—A yw gwahanol wragedd yr un gwr yn eich plith chwi yn gydradd, ynte a oes un neu rai yn uwch na'r lleill? A oes gordderchwragedd yn eich plith?

Morm.—O, nac oes un. Y mae y gwragedd oll i'w golygu yn gydradd.

Cen.—Pa fodd felly yr ydych chwi yn dylyn esiamplau y Patriarchiaid? Yr oedd gan Abraham, Jacob, a Dafydd ordderchadon; a chan fod ganddynt hwy amryw wragedd, a'u bod ganddynt yn gyfiawn, pa fodd yr oedd pobl Nephi, y rhai y sonir am danynt yn y rhan a ddarllenais o'r llyfr hwn, yn fwy anghyfiawn na'r Lamaniaid trwy gadw amryw wragedd?

I ateb i'r pethau yna cymerodd a chafodd y cenadwr Mormonaidd gryn haner awr i egluro y modd y mae Duw yn rhoddi gorchymynion ar un cyfnod, a gorchymynion eraill ar gyfnodau eraill. Yr ydoedd yn hyawdl iawn hefyd, gan nad beth am gysondeb. Tynodd sylw pawb ag oedd o fewn cylch clywedigaeth, ac yr oedd hwnw wedi myned yn eang; canys enynodd tan, ac efe a lefarodd a'i dafod.

Pan beidiodd a llefaru, gofynodd y cenedlddyn iddo, "Yn awr, cymerwch yn ganiataol fy mod yn derbyn goleuni, yn credu, ac yn ewyllysio dyfod i Utah i fyw. Y mae genyf gartref wraig a phlant ieuianc; os bydd hi yn gwrthod cydsynio, beth fydd fy nyledswydd?"

Morm.—Fel y darllenasoch, os darllenasoch hefyd, yn *Taith y Pererin* am Gristion yn gadael ei wraig a'i blant ar ol, ac yn rhedeg ei hunan.

Cen.—Crefydd ryfedd iawn yr ymddengys i mi y grefydd hono a rydd anogaeth i wr adael gwraig dda—yr unig un, efallai, a fedrai

garu—ei gadael ar ol ei dwyn i'r fath ddyryswch, a'r plant hefyd, yn anialwch mawr y byd.

Morm.—Y mae yn grefydd Iesu Grist. "Os daw neb ataf fi, ac ni chasao ei dad a'i fam, a'i wraig a'i blant, a'i frodyr a'i chwiorydd, ïe, ei einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddysgybl i mi."

Cen.—Yn ol yr ymadrodd yna y mae yn gryn anffawd fod gan ddyn un wraig i'w chasau, ond y mae yn waeth ar yr amlwreiciwr, am fod ganddo ef wragedd lawer i'w casau.

Morm.—O, na; os bydd y gwragedd hefyd yn canlyn Crist ac yn ei garu, ni bydd achos eu casau hwy.

Cen.—Pa beth ydym i ddeall wrth ganlyn Crist a'i garu?

Morm.—Credu ynddo, dylyn ei esiampl, a chadw ei orchymynion.

Cen.—Yr wyf fi yn meddwl fod fy ngwraig yn credu yn Nghrist, ac yn cadw ei orchymynion yn fwy na llawer. Am ei esiampl ar y pen hwn, nid wyf yn deall fod ganddo ef un wraig. Hen lanciau, yn ol y rheol yna, sydd yn eu lle. Yr wyf fi ar lawr, ac yr ydych chwi ar lawr yn ofnadwy. (Chwerthin.) Yn awr, a ydych chwi yn barnu y byddai yn ol ewyllys Crist i mi adael gwraig dda, a minau wedi gwneud amod difrifol i fod gyda hi hyd angeu?

Morm.—Hyd angau! Ni roddem ddiolch am briodas hyd angeu. Nid yw peth fel yna yn deilwng o'r enw priodas. Yr ydym ni yn priodi ein gwragedd yn ysbrydol, ac y mae yr undeb ysbrydol hwnw i barhau yn dragywyddol.

Cen.—O jaest i! os yw yr undeb i fod yn dragywyddol, gwell genyf *stickio* wrth yr hon sydd genyf. "*When you get a good thing, keep it, keep it.*" Ar hyn aeth yn chwerthin mawr trwy gylch y gwrandawyr, a therfynodd y ddadl.

TRWY WYOMING.

Rhwng gorsafoedd Castle Rock a Wasatch croesasom y llinell o Utah i Wyoming. Ychydig yn mhellach aethom heibio man a fu unwaith yn dref flodeuog dan yr enw Bear River City. Y peth hynotaf yn nghoffadwriaeth y gyndref hon ydyw ddarfod i'r gwyr geirwon (*roughs, gamblers*, lladron, llofruddion, &c.) wneud yma wrthsafiad penderfynol, ond aflwyddiannus. Gyrrwyd hwy oddiyno fel o bob man arall. Yr oeddwn yn awr eto wedi esgyn i barth y rhew a'r eira gwastadol, ac aethom trwy nifer o dai eira fel ar fynydd-

oedd Sierra; ac ar ol olwynaw gryn bellder, daethom at lanau y Afon Werdd, yr hon y mae ei dyfroedd yn wyrddion a'i chreigiau yn debyg i gestyll. Yn mhellach ac yr ydym yn gweled astell wedi ei chodi yn uchel, ac arni y geiriau "CONTINENTAL DIVIDE" (rhandir cyfandirol). Ac yma y mae asgwrn cefn cyfandir mawr America, 7,100 troedfedd uwchlaw wyneb y mor. Nid yw hyn yn haner uchder amrai o'r pigynau, ac y mae lleoedd uwch ar y rheilffordd hon. Er hyny, dros y fan yma y rhed y llinell raniadol. Nid ymddangosai, er hyny, ein bod ar gefn mynydd mawr, ond yn hytrach fel be baem ar wastadedd mawr, garw, tyllog, twmpathog, creigiog, eiraog, ac oer, a'r pigynau gwynion i'w gweled i bob cyfeiriad yn ymestyn i fyny nes ymgolli o olwg yn y cymylau. Draw yn y gogledd pell y gwelem linellau tywyll y Bryniau Duon *(Black Hills)*. Wedi myned gryn bellder yn mlaen daethom i leoedd mwy dymunol ac i wastadeddau Laramie, lle gynt y gellid gweled y bualod gwylltion *(buffaloes)* yn ganoedd ac yn filoedd, a'r Indiaid Cochion yn eu hela. Yr oedd llawer o ardderchogrwydd yn y creaduriaid hyn, yn enwedig pan gerddent neu pan redent yn finteoedd afrifed yn nghyd, nes peri i'r ddaear grynu filltiroedd o'u hamgylch. Y maent yn awr ar ddibyn difodiant; ychydig eto ac ni byddant, na'r Indiaid ychwaith. Y mae yr hen rywogaethau o greaduriaid yn darfod oddiar ddaear America, a rhywogaethau eraill yn cymeryd eu lle. Perchenogir gwastadeddau Laramie gan y gwynebau llwydwynion, ac yn lle trofäau y bualod gwelir *ranches* mawrion o wartheg, defaid, ceffylau, &c. Y mae tref Laramie ar y llinell hon yn flodeuog, ac ynddi hi y tyngedwyd deuddeg o reithwragedd mewn llys cyfreithiol gyntaf yn y byd. Achos un o wyr geirwon y gorllewin oedd ganddynt. Gofynasant gyfarwyddyd dwyfol cyn penderfynu ar reithfarn; ac yr oedd y morwynion gartref yn canu i'r rhai bychain,

> "*Nice little baby, don't get in a fury,*
> *'Cause mamma is gone to sit on the jury.*"

O'r gorllewin hyd yma yr ydoedd y reilffordd yn cael ei gweithio gan Chineaid, yr hyn a rydd gyfrif, meddir, am amddifadrwydd y trefi o lygod a thafarnau. Y mae y tafarnwyr yn gystal â'r Gwyddelod dros gadw y Chineaid allan or wlad.

Yn mhellach eto ac yr ydym yn Sherman, y pwynt uchaf ar y

llinell i California. Saif 8,242 o droedfeddi uwchlaw gwyneb y môr, 1,365 o filldiroedd o San Francisco, a 549 o filldiroedd o Omaha. Wedi dyfod i Cheyenne (p. 4,000), yr oeddwn yn y dref fwyaf a phwysicaf ar y llinell hon rhwng Ogden ac Omah. Pellder o'r naill a'r llall, 516 o filldiroedd. Oddiyma rheda reilffordd yn ddeheuol i dalaeth fawr a mwngloddiau cyfoethog Colorado; ac oddiyma yr eir mewn *stages* i fwngloddiau enwog y Bryniau Duon yn y Gogledd.

Tra yn aros o flaen ty cyhoeddus ar yr heol yn y lle hwn, gwahoddwyd fi gan y gwestywr i'w gapel i wrando arno yn pregethu. Derbyniais y gwahoddiad, ac arweiniwyd fi i ystafell eang yn ei dŷ, lle y gwelais ar y mur ddarluniau amryw o brophwydi ac apostolion yr eglwys Formonaidd. Darllenodd, pregethodd, a gweddïodd y pregethwr i gynulleidfa o haner dwsin. Bu yn fyr a chall. Ei destyn oedd Gen. ii. 7. Dysgai mai fod yr Arglwydd yn anadlu bywyd ynom yn barhaus ydoedd achos mawr ein cynaliaeth yn gystal a'n creadigaeth; pe buasai efe yn peidio ein dal i fyny âg anadl ei Yspryd y darfuasai am danom fel y tawdd ymenyn o flaen tân. Ar ol y gwasanaeth, dywedodd ei fod wedi bod yn gwerthu diodydd meddwol yn yr ystafell hòno, ac nas gallai y pryd hwnw edrych ar ei gwsmeriaid ond gyda chil ei lygaid, ond ddarfod iddo ddeuddeg mlynedd yn flaenorol droi yr ystafell i fod yn gapel, ac fod yn arferiad ganddo bob hwyr a boreu wahodd y rhai a gaffai ar yr heol i fod yn bresenol gyda'r teulu ar yr awr weddi ac i wrando gair o gynghor, a'i fod yn awr yn gallu edrych ar ei wrandawyr â llygaid llawn ac a chalon ddedwydd. Dywedai mai i'r gangen Josephaidd o Eglwys Saint y Dyddiau Diweddaf y perthynai; ac yr oedd yn casau y gangen Brighamaidd a'i hamlwreicaeth â'i holl enaid. Yr ydoedd yn bresenol yn Nghyflafan y Morrisiaid.

TRWY AMRYW DALAETHAU.

Wedi myned trwy y ty eira olaf, a chael y drem olaf ar Bigyn Pike, 175 o filldiroedd i'r de, daethum i Nebraska, a dechreuais deimlo fy mod wedi dyfod y tu yma i'r gorllewin pell. Wedi pasio amrai greigiau hynod, a myned trwy ddinas fawr o eiddo cŵn y *prairies*, daethom i diriogaethau ffermydd go fawr, ar y rhai y cedwir o 500 i fyny o anifeiliaid. Y fwyaf ydyw fferm Iliff, yr hon sydd 150 o filldiroedd o hyd wrth gafartaledd o 25 milldir o led, ac arni 48,000

o anifeiliaid yn pori, ac y mae rhyw siopwr bach yn nhref Sidney, yn y parth hwn, yn perchenogi tipyn o dir ar yr hwn y ceidw, er ei bleser, 8,000 o wartheg a 3,000 o ddefaid.


Bu yr Indiaid yn hir cyn mentro dyfod yn agos at y gerbydres, ond yn raddol daethant yn fwy hyf. Mewn lle heb fod yn mhell o orsaf Big Spring, ar y llinell hon, darfu i nifer o honynt geisio taflu cerbydres o deithwyr oddiar y reiliau trwy yru ugeiniau o ferlynod *(ponies)* yn sydyn o'i blaen lle yr ydoedd tro yn y ffordd. Methasant yn eu hamcan, lladdwyd degau o'r anifeiliaid, a chafodd y crwyn cochion deimlo plwm y teithwyr. Ar ol y tro beiddgar hwn galwant yr ager-beiriant yn "Wagen dân!—*chief* mawr! uch! dim daioni!"

Yn North Platte City yr oeddwn mewn man y bum ynddo o'r blaen. Gerllaw yma y croesir yr Afon Platte. Daethom yn fuan i diroedd llafur da. Y tro cyntaf y bum y ffordd hon yr ydoedd yr holl ddyffryn can belled ag y gellid canfod i bob cyfeiriad yn brydferth gan Indrawn uchel a da. Rai milldiroedd yn ogleddol o dref a gorsaf Columbus y mae sefydliad o Gymry. Wedi cael Omaha a'r Afon Missouri daethum i ben y llinell enwog sydd yn arwain at y Tawel-for. Croesais y Missouri i Iowa, ac aethum i barthau Gomer a Red Oak, lle y mae sefydliad Cymreig tra blodeuog. Oddiyma aethum trwy Des Moines, Davenport, a Rock Island, lle y croesais y Mississippi, yna i Braceville a Braidwood, Illinois, dau le cyfagos ac ynddynt lawer o lowyr Cymreig. Yna trwy Joliet (p. 17,000) i Chicago. Oddiyma cymerais gyfeiriad gogledd-orllewinol i Prairie-du-chien, ar lan y Mississippi eto, ac i sefydliad Cymreig Picatonica, Wisconsin, lle y treuliais Sabbath, a lle y cefais glywed efengyl hedd yn cael ei seinio mewn Cymraeg pereiddfwyn trwy enau y Parch. J. R. Daniel. Yr ydoedd yn awr yn auaf, a'r eira yn gorchuddio'r ddaear. Arosais hefyd yn Dodgeville a Madison, a phrysurais i Milwaukee, o'r lle, er yn anamserol, yr arfaethais fyned at lanau Llyn Superior, yn y gogledd.

"ACHOSION I GANU Y NOS."

Cychwynais tua chanol nos ar reilffordd *Wisconsin Central* am daith o 351 ô filldiroedd i Ashland. Canlynwyd yr oerni annaturiol a'm blinai gan wres a syched mawr, cûr yn y pen, a phoenau trwy yr holl gyfansoddiad—meddyliwn ynof fy hun pa fath fyd fyddai

arnaf os byddai i mi fod yn glaf amser maith yn mhlith dyeithriaid mewn tref newydd hwnt i ugeiniau o filldiroedd o goedwigoedd ac



Indiaid. Dymunais yn fawr gyfarfod â Chymro. Yr ydoedd yn naw o'r gloch yr ail nos pan gyrhaeddais ben fy nhaith yn winegau mawrion. Cyfeiriwyd fi i dy parchus a chysurus. Nid cynt y cefais gadair i eistedd yno nag y daeth gŵr tal, gwisgi, a thrwsiadus, a'r pren almon yn blodeuo arno, i fewn, a chan gymeryd cadair yn fy ymyl gofynodd—

"*Are you sick?*"

"*Yes, sir.*"

"*Did you come on that train?*"

"*Yes, sir.*"

"*Where from?*"

"*From Milwaukee.*"

"*Do you live in Milwaukee?*"

"*No, sir; I live in Wales.*"

"Bachgen! chi Cymro? rhowch llaw. O p'le o Cymru chi d'od?"

"O yn agos i Aberystwyth, sir Aberteifi."

"Fi balch iawn gwel'd chi, bachgen; gwelais i dim Cymro er's deg blynedd. Drwg gen i bod chi'n sâl; ond cym'rwch chi calon, cewch chi lle da yma; yn y ty hyn fi *lodgio*, ac edrycha i ar ych ol chi cystal a base gwraig chi yma."

Yna, wedi gorchymyn y gwely goreu a'r ystafell oreu i mi, gofynodd—

"Clywsoch chi sôn am Twm Chaen Bwlet?"


"Na, nid wyf yn cofio'n siwr."

"Dim wedi clywed am Twm Chaen Bwlet! Twm Chaen Bwlet oedd y gŵr goreu yn Cymru. Clywsoch chi sôn am Tom Sayers?"

"Tom Sayers, yr ymladdwr, do lawer gwaith."

"Wel, Twm Chaen Bwlet oedd wedi *trainio* fe i ymladd, a fi yn brawd i Twm."

Felly cefais fy hun dan aden un cadarn i'm hamddiffyn; gosododd fi yn glud mewn gwely, ac nes fy nyfod o hono cymerodd ofal tadol o honwyf. Ymwelwyd â mi yn y boreu gan feddyg, o ddanfoniad Mr. Thomas, yr hwn, fel y Samariad trugarog, a ddywedodd wrtho am gymeryd gofal dyladwy o honwyf, a pha beth bynag fyddai cyfiawn y talai efe iddo. Pan gefnodd hwn daeth meddyg arall, o ddanfoniad gwr y ty. Pan gefnodd hwn, wele drydydd meddyg yn dyfod ataf, wedi ei ddanfon gan rhyw wraig drugarog, yr hon hithau hefyd a roddodd i hwnw y cyffelyb orchymyn am danaf ac addewid o dal. Pan gefnodd hwn daeth is-lywodraethwr y dalaeth i fy ngweled; aeth i'w glustiau rywfodd fod genyf gred-lythyr oddiwrth y Llywodraethwr Smith; yntau a'm cynghorodd i fod yn ddiofal a gwneud fy holl angen yn wybyddus iddo ef. Erbyn hyn yr oeddwn wedi fy ngorchfygu gan syndod a diolchgarwch, a dyfalwn paham y gwnai y bobl y fath sylw o estron hollawl. Cafodd y clefyd a ymaflasai ynof ei attal yn ddeheuig mewn pryd, ac yn lle mis o glaf orwedd, ac efallai fedd yr estron unig, cefais godi yn mhen




ASHLAND—WISCONSIN.

tridiau. Nid bychan fu y dyddanwch a gefais gan Mr. Thomas, trwy ei ganiadau yn gystal a hanesynau.

ASHLAND A'R AMGYLCHOEDD.


Saif tref Ashland mewn lle hynod o ddarluniadol a hardd. O'i thu cefn y cyfyd y bryniau gwyrddion, addurnedig gan y pinwydd gwerthfawr a phrenau eraill dymunol yr olwg arnynt. O'i blaen y mae Bau Chequamegon, yr harddaf a'r penaf a fedd y penaf o'r llynoedd mawrion, sef y Superior. Ymarllwysa i'r bau hwn yn agos i Ashland laweroedd o'r afonydd a'r aberoedd ardderchocaf eu ffurf, puraf



PABELLU AR YNYS.

eu dyfroedd, a llawnaf eu pysgod. Yn y wlad oddiamgylch y mae llynoedd grisialaidd a physgodfawr, ac yn y bauoedd y mae ynysoedd o brydferthion a physgodwyr. Rhwng hyn a gwylltineb swynol y golygfeydd, yn cynwys daear, dyfroedd, dynion, ac anifeiliaid, y mae y lle yn gyrchfa ymwelwyr lawer yn misoedd yr haf. Y rhai ydynt hoff o hela a physgota, dyma iddynt lanerchau o'r fath a garai eu henaid. Y rhai a hoffant ryfeddodau naturiol cant yma gyflenwi eu chwilfrydedd. Y rhai a flinir gan wendidau a chlefydau corphorol a iacheir yma gan yr awelon cryfhaol a'r dylanwadau mwyaf

adfywiol. Y mae llawer o gyfoethogion yn dyfod yma i dreulio hafau cyfain; codant iddynt eu hunain bebyll ar yr ynysoedd neu ar lànau y llynoedd. Boneddigesau tyner, nad allent gartref feddwl am dreulio diwrnod heb y moethau, yr esmwythfeinciau, a'r gwelyau o fânblu, ydynt yma yn meddwl mai nefoedd fechan ydyw cael cysgu




GWESTDY CHEQUAMEGON.

ar y ddaear trwy yr haf dan dô o gynfas, a chasglu brigau yn danwydd i ferwi eu crochanau. Y mae Chequamegon Hotel, ar làn y bau, yn gyfryw ag na cheir ei ragorach o ran cysuron a rhamantusrwydd safle yn y wlad. Dywed y Llywodraethwr W. E. Smith na welodd, er gweled prif olygfeydd America, Ewrop, Asia, ac Affrica,

olygfa harddach nag a geir o'r gwestdy hwn a'r Bau Chequamegon, y glanau a'r ynysoedd.

Ychydig yn ddwyreiniol o Ashland, trwy y coedwigoedd tewion, y mae Odanah, gwlad Indiaid Cochion Chippewa. Gan gymaint y rhyfeloedd fu rhwng y llwyth hwn a llwythau gelynol, nid oes ond gweddillion o hono yn aros. Y maent yn eu holl ddullwedd ac



BARK POINT, GER CHEQUAMEGON.

arferiadau yn berffaith Indiaidd, ond hollol ddiberygl, yr hyn ellir ddweyd hefyd am holl Indiaid glanau Llyn Superior. Cyrhaedda rhai o honynt oedran mawr, a dywedir na welir gan Indiad pur, pa hened bynag fyddo, na blewyn gwyn na dant yn eisieu. Diau fod gwareiddiad yn ei ffurf anmherffaith bresenol yn peri llawer o ddrygau yn gystal a llawer o ddaioni. Codir *rice* gan yr Indiaid hyn. Eu moeth penaf ydyw *castor oil*, yr hwn a ddefnyddiant yn symiau mawrion; rhydd y Llywodraeth gyfraid o hono iddynt. Pan yn gwneud ymchwiliad i'r achos eu bod yn defnyddio cymaint,


ar un achlysur, cafwyd eu bod yn rhostio eu cloron *(potatoes)* ynddo.

Tua deunaw milldir yn ogleddol o Ashland y mae ei chwaer fechan, dlos, Bayfield, gyferbyn a'r hon y mae yr Ynysoedd Apostolaidd *(Apostle Islands)*, y rhai a safant allan yn fawrion a bychain, hirion a chrynion, rhai yn foelion a rhai yn orchuddiedig gan binwydd heirdd, y rhai, yn nghyda'r creigiau ogofawl, uchel, a daflant eu delwau dyfnwyrdd i'r dyfroedd dyfnddu a daenant danodd. Yn La Pointe, ar Ynys Madelaine, y fwyaf o'r Ynysoedd Apostolaidd, agos ddau gant a haner o flynyddau yn ol, y sefydlwyd gorsaf genhadol yn mhlith yr Indiaid gan y Tad Marquette, un o'r Jesuitiaid. Saif i fyny eto; ymddengys yn hen dref fechan ryfedd, ryfedd, ac ynddi hen eglwys fechan ryfeddach na hyny, hen fynwent Indiaidd fechan ryfeddach drachefn, lle yr huna dychweledigion llawer oes.

O ASHLAND I MILWAUKEE.

Lluddiwyd fi gan afiechyd i weled y ffordd wrth fyned, ond ymdrechais ddal ar ei rhyfeddodau wrth ddychwelyd. Chwe' milldir yn ddeheuol o Ashland croesasom yr Afon Wen *(White River)*. Y mae y bont hir ac uchel iawn sydd yma yn un o'r rhai cywreiniaf a welir. Geilw yr Indiaid hi yn "Bont y pryf copyn mawr." Yn mhellach daethum at yr afon sydd gan ramantusrwydd ei golygfeydd bron myned yn fyd-enwog, nid ar gyfrif ei maintioli na'i hanes, ond ar gyfrif ei ffurf ramantwyllt, ei throadau mynych, mynych, a'i chwympiadau amrywffurf a mawreddus. Gelwir hi yr Afon Ddrwg *(Bad River)*. Croesir hi gan y reilffordd 17 o weithiau mewn naw milldir, a'r teithwyr, mor wyllt a chynhyrfus a hithau, a neidient o'r naill ochr i'r llall i'r cerbydau i gael golwg arni. Mewn pellder o 13 o filldiroedd, ffordd yr ehedai brân, disgyna yr afon 2,000 o droedfeddi, felly nid yw ei gyrfa igam-ogam amgen na chyfres o gwympiadau trystfawr, a'r rhai hyny yn cael eu gwthio rhwng agenau culion gyda'r fath ruthr fel y gellid tybio fod y mynyddoedd tragywyddol yn pwyso arnynt i'w gwasgu trwodd. Syrthiant mewn manau o 80 i 100 o droedfeddi ar un naid; mewn manau eraill llithrant gan ffrochioni a thyrfio yn rhyfedd dros risiau o greigiau a chlapiau anferthol. Yn nghulfwlch yr afon hon yr oeddym yn myned trwy fynydd-gadwen Penokee.

Nid oedd yn ein hamgylchynu ar y ffordd hon ond coed—coed o hyd ac o hyd. Dyddorol ydoedd gweled yn y gorsafoedd a'r pentrefi bychain a newyddion y fath gyflawnder o fyrddau, trawstiau tô-estyll, pyst, a phob rhyw ffurfiau yn dyrau mawrion parod i'w danfon i ffordd. Y torwyr coed, hefyd, dyna ddynion rhyfedd ydynt



PONT YR AFON WEN.

y rhai hyny! Swediaid, Norwegiaid, a thramorwyr eraill ydynt gan amlaf, cryfion a geirwon eu gwedd; ymwisgant yn y lliwiau amlycaf—capiau o goch, gwyn, a glas; crysau gleision, llodrau o ysgarlad, gwregysau o goch dwfn, a botasau uchel. Ymddangosant rhwng y pinwydd gwyrdd yn dra effeithiol.

Gorganmolir y coedwigoedd hyn fel lle manteisiol i ymfudwyr. Nid oes ddadl nad oes yma lawer o ddaear dda, a chredir mai tir coed wedi ei glirio ydyw y mwyaf cynyrchiol. I goedwigoedd y byddai yr hen ymfudwyr o Gymru yn arferol o fyned, ond yn

ddiweddar ystyrir fod *prairies* y gorllewin yn barotach i'w trin. Y mae llawer o fanteision, fodd bynag, yn perthyn i gartref newydd yn y coed. Nid rhaid planu coed ar y tir; ni raid myned i gostau



RHEIADRAU YR AFON DDRWG.

mawrion i gael defnyddiau at adeiladu, ond ar unwaith codir ty *log*, y ty bychan glanaf a chynesaf a all fod. Ni raid bod yn brin o ddefnyddiau cau nac o danwydd—tanwydd yn wir ydyw gogoniant cartref yn y coed. Ni raid dyoddef prinder ychwaith o herwydd

methiant cnydau y blynyddoedd cyntaf. Gellir cael yma ddigon o waith tori a thrin coed yn ngwasanaeth y reilffordd neu gwmnïau y pinwydd, a chael tâl da am hyny. Oblegid y rhesymau hyn ac eraill, gellid barnu na wnai pobl dylodion yn well na phrynu tiroedd rhad yn y coedwigoedd hyn, eu harloesi, a thalu am danynt fel y gallent, a gweithio i gyflogwyr pan fyddai arnynt angen arian; ac os daeth y tadau gynt yn eu blaen yn mhell oddiwrth bob cyfleusderau, yn sicr dylai ymsefydlwyr yn y coedwigoedd hyn ragori, pan y mae reilffordd, pentrefi, a phob cyfleusderau megys wrth eu drysau. Wedi pasio amryw leoedd a llawer o ddyddordeb yn perthyn iddynt, megys Phillips, Waupaca, Neenah, Llyn Elkhart, ac eraill, daethum i Milwaukee.

OBERLIN.

O Milwaukee cymerais daith ddeheu-ddwyreiniol o 195 o filldiroedd trwy Lafayette (p. 15,000) i Indianapolis (p. 76,000), prif ddinas talaeth Indiana. 115 o filldiroedd yn mhellach ac yr oeddwn yn Cincinnatti; 153 o filldiroedd drachefn trwy Columbus a daethum i Newark, lle, yn nhy fy mrawd, y gwnaethum gryn arosfa er cydgasglu defnyddiau y llyfr yr aethum allan o'i blegid, sef HANES TALAETHAU UNEDIG AMERICA A'R CYMRY YNDDYNT. O Newark aethum 127 o filldiroedd yn ogleddol i Oberlin (p. 4,000), lle gynt y treuliais beth amser yn yr athrofa, a'r lle mwyaf crefyddol ac iachusol ei ddylanwadau a welais erioed. Credwyf mai yr athrofa hon yn unig sydd yn cymeryd i fewn bob rhyw, cenedl, a gradd o'r hil ddynol yn ddiwahaniaeth. Byddai meibion a merched, gwynion a duon, yn cydgyfarfod yn yr un dosbarthiadau, a chydnabyddid yn gyffredinol fod hyny yn Oberlin, o herwydd mawr grefydd-older y lle, yn cael effeithiau dymunol. Nid anghofir byth gyfarfod-ydd gweddi y bobl ieuainc bob nos Lun a nos Iau, lle y byddai ysgolheigion graddiol, talentog, a choeth gyda ieuenctyd cyffredin y dref—meibion a merched o hiliogaeth Sem, Cam, a Japheth, yn anghofio pob gwahaniaethau, "Gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd." Nid oedd yno ruthro na methu ymatal o fath yn y byd, nac ychwaith lesgedd na llusgo yn mhlith y llwythau, ond gwnelid pob peth yn weddaidd ac mewn trefn, ac amlwg oedd fod yr eneidiau yn hyfryd lawn o'r ysbryd, megys hefyd

y byddai yr adeilad bob tro yn orlawn o gynulleidfa. Ar yn ail â'r gweddïau gafaelgar a chanu gwirioneddol foliant, byddai gan un brofiad, gan arall salm, gan arall hanes cysurus, ac yn fynych gosodid ger bron geisiadau am weddïau dros bersonau neu achosion neillduol. Am dri o'r gloch brydnawn, bob dydd, byddai cyfarfodydd gweddi cyffredinol. Nid rhywbeth a barhaodd am dymor byr ydoedd hyn, ond am oes; y mae eto yn parhau, a chaffed barhau hyd ddiwedd y byd. Yno y gwelais y Sabbathau cyflawnaf a pherffeith-iaf ar y ddaear. Gweinidogaethid gan yr hen ddiwygiwr llafurus ac enwog Charles G. Finney, gŵr hen, tàl, a'i lygaid yn gwreichioni gan fywiogrwydd a sêl; cafodd lawer o'i gam-ddeall, ac am hyny hefyd ei gam-esbonio. Gan nad beth am ei olygiadau ar rai materion, diau ei fod yn ddyn cydwybodol a duwiol iawn—"O herwydd paham, wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Dylanwadau Finney a wnaeth Oberlin yr hyn ydyw, a phe ceid yn mhob tref y fath ffrwythau iachusol ag sydd yno byddai yn baradwys ar y ddaear. Nid oes yno dy i yfed pethau meddwol na chwareudy. Gwnaeth *circus* gais at ddyfod i fewn unwaith, ond gweddïodd Finney ar ddechreu y gwasanaeth boreuol gyda'r gynulleidfa fawr ar i'r dref gael ei gwaredu rhag yr oferedd hwnw. Torodd gwageni y *circus* fel nad allodd ddyfod yn nes na thair milldir i'r dref. Diweddid y cyfarfodydd cenhadol rhyfeddol a gynelid bob nos Sabbath fynychaf trwy ganu yn Seisnaeg emynau peraidd ganiedydd Cymru—"Dros y bryniau," &c., "Doed yr Indiaid," &c., "Ar ardaloedd," &c., "Gwawria, gwawria," &c., "Hêd fel mellten," &c.

Yr oedd Oberlin yn orsaf bwysig ar y reilffordd danddaearol. Gŵyr y darllenydd, ond odid, mai llinellau o ddyngarwyr glewion oedd y reilffordd danddaearol hon. Yr oedd rhyw leoedd, megys Oberlin, yn fwy blaenllaw nac eraill i roddi cymorth i'r trueiniaid ddianc o'r talaethau caethion i Canada rydd. Os llwyddai y ffoadur ddyfod o hyd i wŷr y ffordd hon byddai yn dra sicr o ddiangfa, paentient ei wyneb du yn wyn, gwisgent ei ben crychddu â gwallt coch, cuddient ef dros wythnosau, hebryngent ef o orsaf i orsaf, a gwylient drosto ar hyd yr holl ffordd, ond byddent felly yn peryglu eu hunain, canys yr oedd y gyfraith yn eu herbyn. Ar un achlysur cafodd ugain o wŷr blaenaf Oberlin eu dodi mewn dalfa yn Cleveland am gynorthwyo rhyw ffoaduriaid; yn y carchar y treuliasant Sabbath,

ac ni bu Sabbath o fath hwnw yn Oberlin nac yn Cleveland ychwaith. Yn y lle blaenaf gweddi ddyfal a wnaethpwyd gan yr eglwys ar ran y carcharorion. Yn y lle olaf tyrodd y bobl o amgylch, a phregethodd y carcharorion iddynt, nes, megys yn Phillipi, y teimlid fod seiliau y carchar yn siglo. Dydd Llun trodd y prawf yn ofnadwy yn erbyn yr erlynwyr, a da ganddynt fu cael myned yn waglaw i wlad Dixie; canys gwnaethant gamwedd erchyll, nid yn unig erlyn ar ol dynion duon, ond hefyd dâl a charcharu dynion gwynion, rhyddion, a pharchus. Nis gellid meddwl am ddyn-ladrad gwaeth. Teithiais, a gwelais lawer o ryfeddodau, ond yr wyf yn gosod Oberlin dawel a duwiol yn y rhestr flaenaf o honynt oll. Yr oedd crefydd megys yn elfen yn awyrgylch y lle.

RHEIADRAU NIAGARA.

O Oberlin cymerais daith ddwyreiniol o 217 o filldiroedd gyda glan Llyn Erie trwy Cleveland, Ashtabula (p. 5,000), a Dunkirk (p. 7,000), i Buffalo (p. 156,000), hen ddinas enwog wrth ben dwyreiniol y llyn, lle rhed allan o hono afon fawr Niagara Yr afon hon, wedi rhedeg 33½ o filldiroedd yn ogleddol, a ymarllwysa i Lyn Ontario. Bumtheg milldir o Buffalo y mae y rheiadrau enwog, y rhai, gan gymaint a ddywedwyd, y mae yn anhawdd cael dim yn newydd i ddweyd am danynt. Gallwn weled eu mygdarth a chlywed eu twrf yn mhell cyn dyfod atynt. Cefais yr amgylchoedd yn dra gwahanol i'r hyn y byddai yn naturiol i un feddwl eu bod, o gymaint ag fod y ddaear yn wastad. Tua milldir neu ddwy uwchlaw y cwympiadau y mae yr afon lydan yn cael ei chulhau gan y glanau; cyflyma i lawr felly a'i holl wyneb yn erwyn o arw ar faith oriwaered. Pan ddaw at y cwymp rhenir hi gan ynys fechan a elwir Ynys yr Afr *(Goat Island).* Syrthia y rhan fwyaf o honi i lawr rhwng pen uchaf yr ynys hon a Canada, ar ffurf pedol ceffyl. Gelwir y cwymp hwn yn *Canada Fall* neu *Horseshoe Fall.* Y mae yn 149 o droedfeddi o uchder, ac yn 2,100 o droedfeddi o led. Rheda rhan arall yr afon megys o'r tu cefn i'r ynys, a disgyna islaw iddi yn llen hir megys dros geulan, a'i gwyneb at Canada. Gelwir y cwymp hwn yn *American Fall.* Y mae yn 162 o droedfeddi o uchder, ac yn 1,125 o led. Dywedir y syrthia can' miliwn o

dunelli o ddwfr i lawr yn y ddau gwymp bob awr. Wedi berwi a ffrochioni danynt rheda yr afon mewn gwely cul a dwfn o tua 800 o droedfeddi o led, a 300 o ddyfnder. Y mae sefyll gyferbyn â'r rheiadrau, a gweled yr afon wyllt yn rhedeg a neidio o bell i gymeryd ei naid ddihafal hon, y fath gynwys o ddyfroedd gwyrddion yn olwynaw i lawr yn barhaus a pharhaus, y mygdarth tew yn ymgodi o'r dyfnder, y ffrydiau enfawr yn ymgladdu ynddo fel yn ymarllwys i gwmwl, yr enfys amryliw, dysglaer, a hardd yn chwareu yn y cwmwl hwnw, y berw trochionllyd yn y gwaelod, y twrf byddarol gyda hyny, y mae hyn oll yn olygfa! ond nis gellir ei desgrifio. Hawdd defnyddio ansoddeiriau—"mawr," "ardderchog"—ond nid hawdd gosod allan fawredd ac ardderchogrwydd y rheiadrau hyn. Bum yn ffodus yn fy niwrnod i'w gweled, canys yr oedd aml gymylau yr awyrgylch wrth lenu a dadlenu yr haul bob yn ail yn peri i liwiau y dyfroedd mawrion gyfnewid o'r goleu i'r tywyll, ac i'r enfys ddiflanu ac ymddangos yn bob rhyw raddau o ddysglaerdeb. Bydd darlun hardd o'r olygfa yn fy llyfr nesaf.

Hi wisga'r goleuni yn fantell am dani,
  Lle dawnsia'r pelydrau fel myrddiwn o sêr;
Llaes addurn ei godrau sydd gwmwl yn codi
  O'r dyfnder berwedig, brigwynawl, a thêr.
Am ei gwasg y mae gwregys o enfys lliwiedig,
  Dysglaeriach na'r gemau rhagoraf a gaed;
Dan goron ei balchder hi chwardd yn wyrenig,
  A'r gorddyfn ferw yn balmant i'w thraed.


O raiadr ferth! mae yn hardd ac yn wridog,
  Tra'n gorphwys ei phen yn chwareugar a llon
Ar fynwes fawr arian ei chariad dihalog,
  I deimlo gwaedguriad cariadus ei fron.
Ei hymffrost a glywir yn nhwrf ei chwympiadau,
  Ei balchder a welir yn mawredd ei nerth,
Tra'n rhedeg heb orphwys, heb flino, hyd risiau
  Y dalgraig fawreddog, ddaneddog, a serth.

I PHILADELPHIA A'R AMGYLCHOEDD.

Dychwelais trwy Buffalo, a daethum i sefydliad Cymreig Cattaraugus. Pan ydoedd cyfaill yn myned a mi yn ei gerbyd heibio lladd-dy yn y gymydogaeth hon, dywedai mai yno yr oeddynt yn gwneud *deacons*, a chyda'r gair daeth rhywbeth arall i fod yn destyn ymddyddan, fel yr anghofiais ofyn eglurhad ar y modd y gwneid


diaconiaid mewn lladd-dy. Nis gallwn lai na dyfalu, pan adgofiais, beth a allai hyny fod—pa raid oedd dwyn pobl dda dan law y cigydd, ac efallai ollwng eu gwaed cyn y gellid eu gwneud yn ddiaconiaid. Gwelais wneud diaconiaid yn Nghymru. Bum yn nghyfarfod misol Aberyffrwd "er ys talwm," lle y gwelais bobl wrth y gwaith, ond gweinidogion oeddynt hwy, ac mewn capel. Ond sut yn y byd yr oedd cigydd yn ei wneud mewn lladd-dy? Yn y dyryswch y buaswn wedi fy ngadael onibai i hen ddiacon parchus o'r ardal roddi i mi yr eglurhad canlynol:—Cedwir gan bobl y parthau hyn lawer o wartheg, i wneud caws o'u llaeth. Er mwyn cael y llaeth oll arferid gynt ladd y lloi yn dridiau oed a'u taflu i'r cwn; ond daeth rhyw ddyn o ddiacon i'r ardal a phrynai grwyn y cyfryw loi i wneud rhywbeth o honynt, am hyny gelwid y crwyn hyny yn *deacons' skins*, a thrwy dalfyru yr enw aethpwyd i'w galw yn *deacons* yn unig. Oddiyma aethum trwy Corry (p. 6,000), Oil City (p. 10,000), a Braddy's Bend i Pittsburgh. Ar y daith hon aethum trwy barthau lle y codir olew *(petroleum)* o'r ddaear. Yr oedd y cerbydresi llwythog o hono yn profi ei fod yn nwydd helaeth a phwysig yn Pennsylvania. Y mae golygfeydd glanau yr Afon Alleghanny hefyd yn werth i edmygydd prydferthion natur ymweled â hwy. O Pittsburgh aethum i Harrisburgh; yna yn ddeheuol i York (p. 14,000), oddiyno i West Bangor, yna trwy Elkton, Maryland, a Wilmington, Delaware (p. 43,000), i Philadelphia, dinas y cariad brawdol.

Priodol y gelwir y ddinas hon felly. Cariad brawdol roddodd fodolaeth i'r meddylddrych o honi. Cariad brawdol a brynodd y tir, a gynlluniodd y ddinas, ac a'i hadeiladodd; ac y mae pawb ag sydd yn meddu elfenau cariad brawdol, ac yn gwybod hanes y ddinas hon, yn ei charu. Y mae wedi mwynhau graddau o dawelwch a chyrhaedd y fath harddwch ac enwogrwydd fel y mae yn deilwng o'i henw. William Penn, Cymro a Chrynwr *(Quaker)* duwiol, ddau can' mlynedd yn ol, wedi cael sicrwydd am y diriogaeth gan frenin Lloegr, a fargeiniodd gyda'r Indiaid ac eraill mor gyfiawn fel ag i sicrhau eu brawdgarwch a'u hedmygedd parhaus. Ei amcan ydoedd cael gwlad a dinas lle y caffai dynion fwynhau rhyddid i addoli Duw yn ol eu cydwybodau. Y mae y cynllun yn ol yr hwn yr adeiladwyd Philadelphia hyd heddyw yn gynllun holl ddinasoedd goreu America.



LLONGBORTH EWROPEAIDD—PHILADELPHIA.

Croesa ei heolydd yn gyfonglog, bron oll yn dal yr un pellder oddiwrth eu gilydd, ac yn rhedeg mor uniawn a saeth. Saif y ddinas ar wddfdir rhwng yr afonydd Delaware a Schuylkill; ac er



GORSAF ARDMORE, GER PHILADELPHIA.

ei bod dros 80 milldir oddiwrth y môr, y mae y llongau cyfanforawl mwyaf yn dyfod i'w llongborth. Hon ydyw yr ail ddinas yn rhif ei phoblogaeth (900,000) yn y wlad. Y mae ei hadeiladau mawrion a

heirdd, a'i hamryfal sefydliadau, yn lliosocach nag y gellir yma wneud crybwyllion am danynt. Yn y ddinas hon, yn y flwyddyn 1774, y mabwysiadwyd dadganiad iawnderau y wlad; ac o honi hi, yn y flwyddyn 1776, y daeth dadganiad annibyniaeth allan. O 1790 hyd 1800 bu yn brif ddinas y llywodraeth.


Y mae yn Philadelphia laweroedd o Gymry, a mwy na hyny o waedoliaeth Cymreig. Medda ran helaeth yn hanes y Cymry cyntaf a ddaethant i'r dalaeth ac a ymsefydlasant yn y parthau. Ar fy nhaith yno o Slatington, y flwyddyn flaenorol, aethum trwy dair gorsaf agosaf i'w gilydd a elwid North Wales, Gwynedd, a Penllyn. Ychydig yn nes i'r ddinas y mae gorsaf Jenkin; ac ar ffordd arall yn yr un sîr, sef Montgomery, y mae Bryn Mawr, Pencoed, ac enwau Cymreig eraill. Yn y parthau hyn y gwelais yr amaethdai, ysguboriau, a bueirth tebycaf i eiddo Cymru, a cheir yn yr amgylchoedd dai ardderchog gyda llinellau llydain o liwiau gwahanol yn y muriau a ymddangosent i mi fel wedi deilliaw oddiwrth gynllun hen dai brithion, du, a gwyn sîr Drefaldwyn. Wele engraifft yn y darlun blaenorol o orsaf Ardmore. Y mae enwau Cymreig ar lawer o'r preswylwyr, a cheir hen lyfrau ac ysgrifau Cymreig yn achlysurol yn eu tai, ond Americaniaid hollawl ydynt er's oesoedd bellach. Rhoddir hanes helaeth am yr hen ymsefydlwyr boreuol yn fy llyfr nesaf—HANES TALAETHAU UNEDIG AMERICA A'R CYMRY YNDDYNT.

AT AC AR Y CEFNFOR ETO.

Gan gymeryd cangen New Jersey o reilffordd ardderchog Pennsylvania ar hyd glàn y Delaware, aethum 80 milldir trwy Trenton (p. 30,000), Elizabeth (p. 29,000), a Newark (p. 137,000), lleoedd pwysig yn hanesyddiaeth boreuol y wlad, i Jersey City (p. 121,000). Jersey City, ar gyfrif ei phorthladdoedd pwysig a'i hamrywiol reilffyrdd, a ellir ystyried yn brif dramwyfa y wlad. Yma disgynais am y waith olaf o'r gerbydres Americanaidd. Yr hen gerbydres anwyl! Cartrefais arni agos flwyddyn a haner. Hi a'm cariodd yn ei chôl yn glud a diogel dros bob rhyw fath o ddaear. Pa anffodion bynag a ddygwyddodd i bobl eraill arni, rhaid i mi ddwyn tystiolaeth i'w gofal a'i ffyddlondeb. Gan gymeryd trem hiraethlawn arni, cymerais y bâd, a chroesais yr afon i New York. Yno cyfarfyddais â'r Parch. Theophilus Davies, Mineral Ridge, Ohio, wedi dyfod, nid i dderbyn

ei anwyl briod yn iach a llawen fel y gobeithiasai, ond i gael golwg ar ei gwyneb gwelw mewn arch ac amdo. Dyfod yr ydoedd hi gyda'i chwe' phlentyn bychan at ei phriod, yr hwn a ddaethai rai misoedd yn flaenorol; ond ar y diwrnod y cyrhaeddodd y llong gyda'i rhan ddaearol y wlad ddaearol yr oedd ei phriod galarus ynddi, cafodd ei rhan ysbrydol, ni a hyderwn, hwylio yn iach i'r wlad ysbrydol y mae ei Phriod nefol yn orfoleddus byth o'i mewn.

Erbyn fy mod yn New York, teimlwn nad oedd ond megys cam rhyngof â chartref, ac mor awyddus oeddwn i gymeryd y cam hwnw fel heb ymdroi y cymerais y *City of Berlin* ardderchog, nid y gyflymaf,



CITY OF BERLIN.

er hyny y rhagoraf, efallai, o'r holl agerlongau rhagorol a groesant yr *Atlantic.* Ddeng mlynedd yn flaenorol yr oeddwn yn cael y fraint o gyd-forio ar fwrdd y *City of Baltimore* â'r hybarch William Jones, un o dri chedyrn Llanllyfni, a'i ferch. Ymwelais âg ef hefyd ar fy ymweliad diweddar â'i ardal yn Wisconsin, ac ymddangosai, er yn hen ac megys wedi ei adael ei hunan, eto yn dirf ac iraidd ei ysbryd. Y peth rhyfeddaf ar y fordaith hon ydoedd ymddangosiad tanllyd y tònau. Treuliais oriau wedi y tywyllai yr awyrgylch yn gwylio y dyfroedd yn cael eu gwànu gan yr agerlong a'r borlymau agos a phell, ac ymddangosent fel pe byddent hylif o dân yn dyfod i fyny. Dywedai rhai mai myrddfyrddiynau o greaduriaid bychain byw, yn meddu arwyneb tebyg i eiddo mageuod goleuedig *(glow-worms)*, oedd yn peri yr ymddangosiad. Pa un bydag ai hyny ai ansawdd *phosphoraidd* y dyfroedd eu hunain ydoedd, ymddangosai "Y môr a'i donau'n dân." Ar y degfed dydd daethom i Liverpool.

Y DAITH YN NGHYMRU.

Wedi croesi i Birkenhead cefais fy hun mewn *compartment* bychan ar y gerbydres, a phared rhyngof â dosbarth o uwchraddolion. Felly dyma fi eto yn Mhrydain Fawr. Wedi myned i'r wlad daeth i mewn chwech o wŷr parchus ar eu taith i gynadledd gyfundebol, ac yr oedd yn amlwg fod y rhai hyn hefyd yn perthyn i wahanol ddosbarthiadau. Ymddangosai tri o honynt fel yn meddu safle, y pedwerydd fel dyn ieuanc yn esgyn, a'r ddau eraill, gallwn dybio, yn weinidogion call o'r trydydd dosbarth, canys ar eu gwynebau pryd-weddol, dystaw, a gofalus yr eisteddai y wedd wylaidd sydd yma yn nodweddiadol o'r cyfryw yn mhresenoldeb rhai uwch! Siaredid yn ddifrifol gan y rhai blaenaf ar y pethau oedd i fod yn faterion y gynadledd. Gosodwyd ger bron yr angenrheidrwydd o gael "*book-proof.*" "Beth yw hyny?" gofynai un. Atebwyd mai pwyllgor fyddai, wedi ei awdurdodi i edrych dros bob ysgrifau cyn y caent ymddangos yn y newyddiaduron—goruwch-olygwyr dros holl olygwyr Cymru. Ymdriniwyd hefyd ar y priodoldeb o gael enw cyfaddas ar yr adran Seisnigaidd o'r cyfundeb. Yr oedd yr holl siarad yn frwdfrydig, a llawer o bethau a benderfynwyd yno, fel ag iddynt gael eu cyflwyno megys yn *ready-made* yn y wir gynadledd.

Aeth y rhai hyn allan, a chymerwyd eu lle gan brynwyr a gwerthwyr defaid; a phwnc yr ymddyddan gan y rhai hyn ydoedd pethau perthynol i'r alwedigaeth hono, yn fwyaf neillduol y fantais a'r anfantais o dori cynffonau defaid. Daeth bron bob math o gynffonau i'r bwrdd, nes o'r diwedd y gofynwyd paham na roddwyd cynffon i ddyn fel i bob anifail arall. Wrth weled rhyw ddyn nad oedd hyd yn hyn wedi cymeryd rhan yn yr ymddyddan yn gwenu, trodd un o'r frawdoliaeth ato a dywedodd, "Maddeuwch fy hyfdra, syr, ond gan eich bod yn ymddangos fel yn cymeryd dyddordeb yn ein hymddyddan, a welwch chwi yn dda egluro i ni paham y gadawyd dyn mwy na chreaduriaid eraill yn amddifad o gynffon?" "Am ei fod wedi ei adael i ddyn i enill cynffon iddo ei hun," ydoedd yr ateb. "Dyna fo ar ei ben," gwaeddai un o honynt hwythau, "a'r creadur o ddyn na fedr enill cynffon o deitlau neu gynffon o sidanau, nid yw deilwng o gynffon dafad." Wedi i'r rhai hyn fyned allan gorlanwyd yr ystafell fechan gan rhyw genedl heb fod yn Gymry nac yn Saeson iawn, ac eto rhywfodd, rhwng math o Gymraeg a math o Seisnaeg,

medrent raffu ymadroddion serthedd a chableddau yn ddiymatal. Rhwng hyn a'u hymddygiadau anfoesgar a'u mwg myglys, gwaredigaeth fawr fu eu mynediad hwythau allan. O hyny yn mlaen i Aberystwyth cefais y lle oll i mi fy hun, a sylwais nad yw Cymru fad, wrth ei chydmaru âg amrywiol wledydd America, yn colli dim yn ei thlysni a'i hawddgarwch—ei llechweddau gwyrddlas, ei dyffrynoedd mwynion, ei hafonydd a'i rheiadrau bychain, chwareugar, a llygadlon, ei chaeau, ei pherthi, a'i choedlwyni siriol, ei haneddau tawel, ei hanifeiliaid gwar, a'i haml gerddorion asgellawg. O! mor baradwysaidd, mor gartrefol, ac mor gariadus yr ymddangosant oll. Gall Cymro pur deithio'r byd a chadw yn ddihalog ei serch at, a'i edmygedd o wlad ei enedigaeth.

Dros gyfanfor a chyfandir, draw i fro-dir machlyd haul;
Dros frigwynion dònau mawrion, gyrwynt geirwon heb eu hail;
Dros noethdiroedd, pell goedwigoedd, anial-leoedd craslwch mân;
Dros fynyddau, cribawg greigiau, oesawl gartre'r eira glân;
  Ni chanfyddais i, er hyny, dlysach gwlad na gwlad y Cymry,
    "Cymru, gwlad y gân."

Dros gyfanfor a chyfandir, yn mhlith brodyr o bob hil—
Dynion gwynion, cochion, duon, a melynion lawer mil;
Ewropeaid, Americiaid, a Mexiciaid ryfedd ran;
Meibion Asia, plant Ethiopia, gyda gwallt fel nos o wlân;
  Ond ni cheir yn mhlith y rheiny bobl megys pobl o Gymru,
    "Cymru, gwlad y gân."

Dros gyfanfor a chyfandir y canfyddir ffrwythau fyrdd;
Dychymygion pob rhyw ddynion, pob rhyw ffwdan, pob rhyw ffyrdd,
Pob rhyw gredo, pob rhyw grefydd, pob gwehelyth heb wahân,
At bob dawn a dyfais dofir daear, awyr, dw'r, a thân.
  Yn eu plith yn hoew, heini, gwelir camrau meibion Cymru,
    "Cymru, gwlad y gân."

Daethum i Aberystwyth yn gynar yn y prydnawn—gartref cyn nos, a chefais fy hun, ar ol agos flwyddyn a haner o absenoldeb, wedi cyflawni taith o tua deunaw-mil-ar-hugain o filldiroedd—Tad ein holl drugareddau wedi parhau yn ei ofal rhyfedd drosof fi a'r eiddof, fel ag i ni oll gael cydgyfarfod gartref yn fyw, yn iach, ac yn llawen. A gawn ni felly orphen taith yr anialwch yn y byd? A gawn ni ar ol ein crwydriadau pell, blinderau a pheryglon fyrdd, orphwyso gyda'r teulu gwaredigol mewn cartref o lawenydd a hyfrydwch tragywyddol?

"Mae'n hyfryd meddwl ambell dro, wrth deithio anial le,
  Ar ol ein holl flinderau dwys cawn orphwys yn y Ne'."

MYNEGAI.

MYNEGAI I'R DARLUNIAU.

☞ DYFYNIADAU O LYTHYRAU, &c.

Hoffwyf eich cynllun yn fawr. Credwyf eich bod ar y ffordd i gael gwaith trwy y wasg Gymreig a fydd yn anrhydedd i ni fel cenedl. Bydd yn gaffaeliad mawr.
T. R. EVANS (T. Vap Ieuan), Notary Public and Conveyancer, Low Gap, Missouri.

Yr wyf yn mawr gymeradwyo eich cynllun, ac yn gobeithio y try allan yn ddaioni mawr i'r Cymry yn Nghymru. Parch. R. HUGHES (T.C.), Long Creek, Iowa.

Llwyddiant, llwyddiant i chwi yn eich anturiaeth ragorol. Unrhyw beth a fedraf fi ei wneud i'ch cynorthwyo, mi a'i gwnaf. Diweddar Barch. J. J. POWELL (A.), Rio Vista, California.

Yr wyf yn edmygu eich amcan a'ch cynllun yn fawr i ddwyn allan gyfrol o Hanes y Talaethau Unedig a'r Cymry Ynddynt. Credwyf fod mawr angen am lyfr o'r fath, ac y bydd yr anturiaeth yn sicr o fod yn llwydddiant hollol.
Parch W. M. EVANS (B.), Freedom, Cattaraugus Co., N. Y.

Mae eich anturiaeth yn un fawr, ond goreu oll o ran *mae yn dda*. Ewch rhagoch, frawd. Gobeithio y deuwch allan yn ddibrofedigaeth, ac y bydd yn rhyw lais o'i ol i lawer ymfudwr pryderus, i ddweyd "Dyma'r ffordd," &c.
Diweddar Barch. REES EVANS (T.C.), Cambria, Wis.

Yr wyf yn ystyried y bydd y llyfr a fwriedwch gyhoeddi yn gaffaeliad mawr i'r genedl; yn foddion i barhau hanesyddiaeth Gymreig i'r oesoedd dyfodol.
Parch. W. R. JONES (W.), Presiding Elder, Lincoln, Neb.

Mae eich anturiaeth yn un bwysig a chenedlgarol. Mae gwir angen am y fath waith, yn enwedig yn Nghymru. Rhoddaf i chwi bob cefnogaeth o fewn fy ngallu.
Parch. R. D. THOMAS (A.) (Iorthryn Gwynedd), Knoxville, Tenn.

Llwyddiant mawr a gorono eich ymgymeriad pwysig, eich llafur dirfawr, a'ch treuliau enfawr. Po fwyaf a feddyliwyf am eich anturiaeth, mwyaf yn y byd yw fy edmygedd o'ch gwaith. Mae eich cynllun yn ardderchog, a'r amcan yn wir ddaionus. Yr wyf yn dra hyderus y caiff y llyfr dderbyniad croesawgar yn nheuluoedd Cymreig yr Unol Dalaethau a miloedd yn Nghymru.
Parch. R. M. RICHARDSON (B.), Dawn, Mo.

Derbyniwch fy nghydymdeimlad cywir yn y gwaith mawr yr ydych wedi ymgymeryd ag ef. Yr wyf wedi cymeryd llawer o ddyddordeb i ddarllen eich llythyrau, ac olrhain eich symudiadau yn y newyddiaduron. Byddwch yn sicr o wneud gwaith da os gallwch roddi i ffermwyr bychain Cymru syniad priodol am y wlad fawr, fras hon.
Parch. L. MEREDITH (W.) (Lewis Glyn Dyfi), Freeport, Ill.

Sylwais droion ar eich anturiaeth er pan ddechreuasoch ysgrifenu i'r *Drych;* yr wyf yn edmygu eich yspryd gwladgarol a chenedlgarol, ac yn gobeithio y llwyddwch i gario allan eich cynllun eang a defnyddiol. Y mae yn dda gan fy nghalon eich bod wedi ymgymeryd a'r gwaith, ac yr wyf yn credu fod eich amcan yn un cenedlgarol.
J. W. JONES, Golygydd y *Drych*, Utica, N. Y.

Yr ydym, fel golygwyr y *Drych*, yn edmygu eich llafur a'ch anturiaeth, ac yn ystyried eich bod yn gwasanaethu eich cenedl. Bydd y *Drych* yn bob cefnogaeth i chwi yn y dyfodol, fel y mae wedi bod hyd yma. Yr wyf wedi bod yn olygydd y *Drych* er mis Mawrth, 1868, a gallaf eich sicrhau fod eich gohebiaethau wedi rhoddi cymaint o ddyddordeb i'n darllenwyr a dim a ymddangosodd ynddo. Na phetruswch ofyn unrhyw gymorth a allwn roddi i chwi.
J. C. ROBERTS, Golygydd y *Drych*, Utica, N. Y.

"PARCH. W. D. EVANS.—Mae y brawd hoffus hwn wedi gwneud taith faith a manwl i gasglu defnyddiadau at wneud llyfr o hanes y wlad hon a'r Cymry ynddi. Gan ei fod yn meddu profiad o'r wlad, yn un o synwyr cyffredin da, yn sylwiedydd craffus, yn ddetholydd o chwaeth, ac yn llenor medrus, hyderwn y gwna waith teilwng o'r amcan yn gystal ag o hono ei hun."
Parch. W. ROBERTS, D.D., Golygydd y *Cyfaill.*

"Yn Oak Hill, Ohio, nos Wener, Ebrill 1af, cynhaliwyd cyfarfod brwdfrydig yn addoldy eang y Trefnyddion Calfinaidd i roesawu y Parch. W. D. Evans—y Parch D. J. Jenkins yn gadeirydd, yr Anrh. T. L. Hughes yn ysgrifenydd. Wedi i Mr. Evans ac amryw eraill siarad, cynygiwyd gan y Parch. E. R. Jones, M.A., ein bod yn mawr gefnogi Mr. Evans yn ei deithiau a'i fwriad o wneud llyfr o HANES TALAETHAU UNEDIG AMERICA A'R CYMRY YNDDYNT, a'n bod, oddiar hollol adnabyddiaeth o hono, yn meddu llawn ymddiried ynddo fel un cymwys at y gwaith. Eiliwyd gan y Parch. E. Evans, Nantyglo, a phasiwyd yn unfrydol."
Cynaliwyd cyfarfodydd i'r un perwyl mewn amryw leoedd eraill yn y wlad.

DYLID MYNED I'R GORLLEWIN PELL AR HYD

L L I N E L L A U

ENWOG

UNION AND CENTRAL PACIFIC R.R.,

nid yn unig am eu bod yn UNIONACH, ond am eu bod hefyd yn myned trwy Dalaeth NEBRASKA o OMAHA, neu Dalaeth KANSAS o KANSAS CITY, prif wledydd y gwenith, Indrawn, a phorfa, yr hinsoddau cymedrol, y tiroedd rhad, a'r telerau rhwydd.

Trwy Diriogaeth WYOMING, prif wlad ceidwaid anifeiliaid dofion, helwyr anifeiliaid gwylltion, a physgotwyr.

O CHEYENNE, yn Wyoming, gellir cymeryd cangen ddeheuol o'r reilffordd a myned gyda godrau y Mynyddoedd Creigiog, heibio golygfeydd ardderchog i DENVER fawr, lwyddiannus; yna ar hyd cangenau pellach trwy wahanol barthau Talaeth COLORADO, gwlad y mwn-gloddiau cyfoethog, y ffynonau bywiol, a'r golygfeydd rhamantwyllt.

Neu, o CHEYENNE, fyned yn mlaen trwy Dalaeth UTAH, lle y mae y LLYN HALEN a dinas enwog y MORMONIAID.

Trwy diriogaeth NEVADA, gwlad y mwn-gloddiau aur ac arian cyfoethocaf yn y byd, a'r ffynonau poethion rhyfeddol.

Trwy CALIFORNIA, a gweled rhyfeddodau MYNYDDOEDD SIERRA NEVADAS, mynydd-gadwen ardderchocaf ei golygfeydd yn America, a chael cyfleusdra i fyned ar hyd DYFFRYN FFRWYTHLAWN SACRAMENTO, lle ceir eto diroedd a manteision digyffelyb.

Medda y llinellau hyn y cerbydau goreu a'r darpariadau manylaf ar gyfer gwneud teithwyr yn gysurus—y gorsafoedd a'r gwestdai yn bobpeth ellid ddymuno.

Nac anghofiwch godi eich tocynau ar y

"GREAT PIONEER OVERLAND ROUTE."

UNION PACIFIC R.R.

S. H. H. CLARK,
General Manager;

J. W. MORSE,
General Passenger Agent,
Omah, Nebraska, U.S.A.

CENTRAL PACIFIC R.R.

A. N. TOWNE,
General Superintendent;

J. H. GOODMAN,
General Passenger & Ticket Agent
San Francisco,
California, U.S.A.